ESBONIAD

AR

EFENGYL IOAN

I – XL

Y Parchedig E. Berwyn Roberts


FIDE ET VIRTUTE
CANCELLED
W. E. Gladstone
St. Deiniol's Library
Hawarden. Clwyd
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

To. Dear,

From. Tom, Louis Waldwyn.

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

CANCELLED

ESBONIAD

AR

EFENGYL IOAN

(MEWN DWY GYFROL)

GAN

Y Parchedig E. BERWYN ROBERTS

Cyf. I.
(PENODAU I—XI).

BANGOR:
CYHOEDDEDIG YN Y LLYFRFA WESLEAIDD GAN O. MADOC ROBERTS.

1930.

Argraffwyd
ym Mhrydain Fawr
gan Hugh Evans a'i Feibion,
356|58|60 Stanley Road,
Liverpool.

RHAGAIR.

PARATOWYD yr Esboniad hwn ar gais y Gymanfa Wesleaidd Gymreig, a theimlaf yn ddiolchgar iddynt am yr anrhydedd a osodwyd arnaf a'r fraint a roddwyd imi.

Yr wyf yn gobeithio y caiff y rhai a fyddo'n efrydu'r maes gymaint o bleser a bendith ag a gefais innau wrth baratoi'r Esboniad hwn. Ceisiwyd gwneuthur maes anodd ei ddeall yn syml, ond eraill a ddywaid i ba fesur y llwyddwyd.

Efallai y synna rhai at fyrder y Rhagymadrodd. Ond i'm tyb i, anfantais ydyw Rhagymadrodd maith a manwl, ac yn y nodiadau eglurir rhai pethau y gellid yn hawdd eu rhoi yn y Rhagymadrodd hefyd, eithr ceisiwyd osgoi ailadrodd.

E. BERWYN ROBERTS.

Abergele, 1929.

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/esboniadarefengy0000ypar

TALFYRIADAU.

Ad	..	Adnod.
Adn.	..	Adnodau.
Cym.	..	Cymharer.
C.C.	..	Cyn Crist.
O.C.	..	Oed Crist.
C.D.	..	Y Cyfieithiad Diwygiedig.
C.N.	..	Cyfieithiad Newydd Prifysgol Cymru.
h.y.	..	hynny yw.
H.D.	..	Yr Hen Destament.
T.N.	..	Y Testament Newydd.

RHAGYMADRODD.

AWDURIAETH.

CYTUNIR yn lled gyffredinol heddiw ddarfod ysgrifennu "Efengyl Ioan" rhwng O.C. 95 a 115. Dyry Streeter y dyddiad rhwng O.C. 90 a 95, a dywaid y Dr. Bernard mai'r flwyddyn O.C. 95 yw'r debycaf.

Er credu ohono mai Ioan fab Sebedeus a'i hysgrifennodd, rhoddai Westcott y dyddiad rhwng O.C. 80 a 90.

Ond am fater yr awduriaeth y mae hwnnw'n aros heb ei benderfynu. Y traddodiad a ffynnai o O.C. 200 hyd y ddeunawfed ganrif oedd mai Ioan yr apostol oedd yr awdur. Y mae'n wir i sect fechan (Alogi) yn Rhufain oddeutu'r flwyddyn O.C. 175 ei phriodoli i Gerinthus y Gnostic, ond oddi ar gymhellion athrawiaethol y gwnaeth hynny. Yn 1792 yr amheuwyd gyntaf y traddodiad mai Ioan fab Sebedeus oedd yr awdur.

Heddiw y farn gyffredin ydyw *nad* ef yw'r awdur, eithr mai arall o'r un enw ydyw—Ioan yr henuriad, a ysgrifennodd hefyd Epistolau Ioan. Ef yw'r *awdur*, ond oddi wrth atgofion a gafodd gan Ioan fab Sebedeus yr ysgrifennodd yr Efengyl. Dyna yw safle y prif ysgolheigion heddiw, er enghraifft y Dr. Bernard, a ddywaid "*that the Fourth Gospel was written by John the presbyter from the reminiscences* (atgofion) *and the teaching of John the Apostle.*" Ond nid yw yntau'n bendant a dywaid na fedd neb arall hawl i sicrwydd hollol ar broblem mor ddyrys.

Cred y Dr. Bernard mai Ioan yr apostol ydyw'r disgybl "yr hwn yr oedd yr Iesu'n ei garu" (13^{23}: 19^{26}: 20^{2}: 21^{20}), a'r tyst y gwelir ei ôl yn amlwg weithiau ar yr Efengyl. Credai'r Eglwys fore hefyd mai Ioan oedd enw y disgybl "yr hwn yr oedd yr Iesu'n ei garu," ond ni thybia hynny o anghenraid mai Ioan yr apostol ydoedd. Cred rhai heddiw mai Ioan yr henuriad ydoedd, h.y., a ysgrifennodd yr Efengyl. Chwanegir at y dryswch gan y sôn a geir yn Ioan 18^{15} am "ddisgybl arall," a oedd yn gydnabod i'r archoffeiriad, ac i'r hwn y priodola eraill yr Efengyl, ar y dybiaeth nad Ioan yr apostol ydyw hwnnw.

Dengys hyn yn eglur ddigon mor gymhleth yw'r pwnc, ac ni fwriadwn arwain y darllenydd i fwy o ddrysi. Yr un peth a saif yn amlwg ydyw *nad* Ioan yr apostol, yn ôl y farn gyffredin heddiw, ydyw'r awdur. Dywedasom mai iddo ef y priodolid hi gan yr Eglwys fore, ond dywaid y Dr. Bernard na thybia hynny ynddo'i

hun y golygai'r Eglwys mai ef oedd yr *awdur*, ond fod a wnelai ef â hi yn yr un ystyr ag yr oedd a wnelai Pedr ag Efengyl Marc. Yr oedd cysylltiad felly â hi yn ddigon o reswm tros i'r Eglwys ei phriodoli i Ioan yr apostol. Ond i "Ioan," pwy bynnag oedd ef, y priodolai'r Eglwys fore awduriaeth Epistol Cyntaf Ioan hefyd. Yn awr y mae'n anodd osgoi'r casgliad mai'r un un a ysgrifennodd 2 a 3 Ioan ag a ysgrifennodd 1 Ioan. Ond yn y ddau Epistol lleiaf hyn geilw yr awdur ei hun "yr henuriad." Pan gymherir yr Efengyl â 1 Ioan y mae'n amlwg oddi wrth yr arddull mai'r un un a ysgrifennodd y naill a'r llall, a chadarnheir hynny gan draddodiad yr Eglwys. Y mae'n gasgliad naturiol felly, os yw "yr henuriad" yn meddu yr ystyr a roddid iddo yn gyffredin, mai Ioan yr henuriad a ysgrifennodd yr Efengyl hefyd.

Cyfododd traddodiad yn y canrifoedd bore ddarfod merthyru Ioan yr apostol yn gynnar yn ei weinidogaeth. Petai hynny'n wir ni allai ef fod yn awdur yr Efengyl. Ond nid oes dim sail o gwbl i'r traddodiad, ebe'r esbonwyr. Ar y llaw arall, y mae sail i'r hyn a ddywaid Irenaeus (O.C. 130–200) i Ioan rhywdro fyned i Effesus ac aros yno hyd deyrnasiad Trojan (O.C. 98–117). Y mae hyn yn gwbl gyson â'r traddodiad arall mai ef oedd awdur yr Efengyl. Ond bernir oddi wrth eiriau Papias (O.C. 70–146) fod yn Effesus yn yr oes Apostolig ddau ŵr enwog yn dwyn yr enw "Ioan," a'r ddau yn "ddisgyblion" i'r Iesu. Un o'r ddau oedd Ioan fab Sebedeus oblegid enwir ef gan Papias ymysg yr apostolion, a geilw y llall yn Ioan "yr henuriad." Ganwyd Papias yn y flwyddyn O.C. 70 a bu farw Ioan yr apostol mewn oed mawr ar ôl O.C. 98, ac felly y mae'n bosibl i'r ddau gyfarfod ei gilydd. Y mae dau beth yn sicr, meddir,—bod y ddau Ioan yn bersonau gwahanol, ac i'r apostol farw o flaen "yr henuriad." I'r olaf hwn y priodolir awduriaeth yr Efengyl heddiw gan rai esbonwyr, eithr nid gan bawb. Tybia rhai mai ef oedd y disgybl "yr hwn yr oedd yr Iesu'n ei garu," ac eraill mai ef yw'r "disgybl arall" y sonnir amdano yn Ioan 18^{15}. Yr oedd yn hawdd i ddryswch gyfodi, a chymysgu'r ddau "Ioan." Ond gan yr apostol o'r un enw y derbyniodd "yr henadur" yr atgofion. Pwy bynnag oedd yr awdur yr oedd yn ŵr o athrylith, ac yn gyfarwydd â llên Iddewig ac athroniaeth Groeg. Pysgotwr oedd Ioan yr apostol wrth ei alwedigaeth, ac yn yr ystyr na chafodd addysg yn ysgolion y Rabbiniaid gŵr "anllythrennog ac annysgedig" oedd (Act. 4^{13}). Prin y gellid disgwyl ganddo ef, ym marn rhai, Efengyl o natur hon, ac ni bu am ddigon o amser yn Effesus i ddyfod mor gyfarwydd ag yw'r awdur hwn yn llên y wlad a'r cyfnod.

Arferid gynt ddwyn lliaws o brofion mewnol, h.y., o'r Efengyl ei hun, mai Ioan fab Sebedeus oedd yr awdur: yr oedd yn *Iddew*: yn Iddew *o Balesteina*: yn *llygad-dyst*: yn *apostol*: ac yna mai

Ioan yr apostol ydoedd. Gellir yn hawdd ddefnyddio'r un profion gydag un eithriad—sef ei fod yn apostol—at Ioan "yr henuriad." Gallai yntau fod yn Iddew, o Balesteina, ac yn llygad-dyst o rannau, o leiaf, o weinidogaeth yr Iesu.

Efallai y tybia rhai y collir llawer o werth yr Efengyl pan brofir nad Ioan yr apostol a'i hysgrifennodd. Ond paham hynny? Yr oedd Pedr y tu ôl i Efengyl Marc, ond nid ef a'i hysgrifennodd. Ei atgofion a'i bregethau ef yw ei sylfaen, ond gosododd Marc ei ddelw ei hun arni, ac Efengyl Marc ydyw.

Yr oedd Ioan yr apostol y tu ôl i'r Efengyl yn ddiau, ond gŵr athrylithgar arall a'i cyfansoddodd, a delw ei athrylith ef yn bennaf sydd arni.

Ar ei theilyngdod, yn annibynnol ar gwestiwn awduriaeth, y mae'r Efengyl hon yn ddihafal yn ei chenadwri a'i gwasanaeth.

AMCAN.

YN iaith yr awdur ei hun, ei amcan yn ysgrifennu oedd "fel y credoch chwi mai Iesu yw'r Crist, Mab Duw, a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef" (20[31]).

Mewn rhyw ystyr gellir dweud mai dyna amcan ysgrifennu yr holl Efengylau, ond y mae yn y geiriau a ddyfynnwyd ddau neu dri o eiriau sydd ar unwaith yn datguddio amcan arbennig yr awdur hwn—"Mab Duw" a "y caffoch *fywyd* yn ei enw." Dengys hynny mai ei amcan ydyw *esbonio*'r Efengyl yng ngolau profiad yr Eglwys a'r syniadau aeddfed am berson Crist yn ei oes ef. I achub Cristionogaeth rhag difancoll yr oedd yn rhaid ei hesbonio yn nhermau'r oes a'r bywyd Cenhedlig. Nid ar y traddodiad am yr Iesu yn unig y gallai fyw byth, ond ar ei chymhwyster i'w chyfaddasu ei hun i fywyd newydd. Wrth wau y traddodiad am Iesu hanes i mewn i'w Efengyl, a'i esbonio yng ngolau ei oes ei hun, yr oedd yr awdur yn amddiffyn y traddodiad yn gystal â'r gwirionedd y gellir trawsblannu Cristionogaeth i'r tir newydd.

Yn hyn o beth gwnaeth Paul wasanaeth cyffelyb. I'r awdur hwn y mae'r Iesu'n Grist hanes ac yn Grist profiad.

Yr amcan hwn sy'n cyfrif yn bennaf am y gwahaniaeth amlwg i bawb rhwng yr Efengyl hon a'r Efengylau Synoptig. Nid bywgraffiad ydyw, a llefaru'n fanwl, ond cyfuniad o ffeithiau a dehongliad.

Y mae'n *ddadleuol* oherwydd y peryglon a ffynnai i Gristionogaeth ar ddiwedd y ganrif gyntaf—megis Gnosticiaeth, y crefyddau cyfrin paganaidd, a phlaid y Bedyddiwr.

Ond yn y cwbl ei amcan oedd dwyn dynion i gredu yn Iesu fel y Meseia a Mab Duw ac i feddu profiad personol ohono Ef.

AMLINELLIAD.

Gorchwyl anodd ydyw amlinellu'r Efengyl, oherwydd cymysgu o rywun hi, fel y ceir gweled eto yn y nodiadau.

Ond bydd y cynllun hwn yn help efallai :

I. Gweinidogaeth yr Iesu am y flwyddyn gyntaf (Pen. I. II., III., IV., VI.).

II. Y Weinidogaeth am yr ail flwyddyn (Pen. V., VII., VIII.–XII.).

III. Dioddefaint yr Iesu (Pen. XIII.–XIX.).

IV. Ei Atgyfodiad (Pen. XX.).

V. Atodiad (Pen. XXI.).

Credwn y bydd yr amlinelliad byr uchod o fwy o wasanaeth na phe rhoed un manylach.

EFENGYL IOAN.

PENNOD I.

Y Teitl. Nid oedd i'r Efengyl hon, mwy nag i lyfrau eraill y T.N., deitl ar y cyntaf. Ei chwanegu a wnaed yn ddiweddarach wrth gopïo'r llawysgrifau. Y teitl symlaf fel rheol yw'r cynharaf. Yn yr achos hwn, "yn ôl Ioan" yw'r hynaf yn bod. Ffurfiau diweddarach ydyw'r rhain: "Efengyl yn ôl Ioan": "Yr Efengyl yn ôl Ioan": "Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan."

PENNOD I. Adn. 1–18.

Y RHAGARWEINIAD.

Nid oes yn yr Efengylau Synoptig ddim tebyg i'r Rhagarweiniad hwn. Dwg ni i awyrgylch hollol wahanol i'r eiddo hwy. Y mae rhan ohono, o leiaf, yn draethawd byr ar y Gair tragwyddol, neu ynteu yn Gân i'r Gair. Nid oes ddadl mai'r testun ydyw **Y Gair** (*ho Logos*). Ond ni ddefnyddir y term Logos fel teitl personol am Grist neu Fab Duw yn yr Efengyl hon ar ôl 1^{14}, a dim ond yn 1^{1} cyn hynny. Ar y llaw arall, defnyddir yng nghorff yr Efengyl eiriau eraill sydd yn y Rhagarweiniad, megis "bywyd," "goleuni," "tywyllwch." Dywedwyd gan rai cyn heddiw nad oes dim cysylltiad rhwng y Rhagarweiniad hwn a'r Efengyl. Ond y mae'n anodd credu hynny. Y mae'r hyn a ddywaid Dr. Bernard yn nes i'w le o lawer—mai yn y Rhagarweiniad yr eglurir mai fel y Gair tragwyddol yn y cnawd y mae'r Iesu a bortrëedir yn yr Efengyl yn ddatguddiad perffaith o Dduw. Byddai pob eglurhad arall yn syniad yr Efengylydd yn annigonol i gyfrif am y Crist. Efallai fod y Rhagarweiniad ar y cyntaf yn fyrrach nag yw yn awr. Y mae'r cyfeiriad at y Bedyddiwr ($6-9$, 15) a Moses (17, 18), a'r adn. 12, 13, yn ymyrryd â'r Emyn i'r Gair. Efallai nad yr Efengylydd piau ef, ond rhyw olygydd diweddarach.

Adn. 1–5. Y GAIR.

Yn yr adran hon, disgrifir y Gair yn ei berthynas â Duw, ac â'r cread, a dynion, a phechod.

1. **"Yn y dechrau yr oedd y Gair."**

Cynfodolaeth dragwyddol y Gair a fynegir yn y frawddeg hon. Dygir ni tu hwnt i'r "dechrau" sydd yn Gen. 1^{1}, oblegid *yr oedd*

y Gair yn y dechrau, nid *fe ddaeth* y Gair. Yn 8^{58} gwneir gwahaniaeth amlwg rhwng bod a dyfod. Defnyddir yno ymadrodd cyfrin "Yr wyf fi."

Cym. iaith Doethineb yn Diar. 8^{23}, a Col. 1^{17}: Dat. 1^{17}.

Bernir bod dylanwad Philo ar syniad yr Efengylydd am y Gair, ond yn y frawddeg gyntaf hon â ef tu hwnt i Philo, oblegid ni ddysgai'r olaf fod y Gair yn gynfodol. Mynega'r ail frawddeg,—**"a'r Gair oedd gyda Duw"**– fod i'r Gair bersonoliaeth wahanfodol. "Gyda Duw" sy'n cyfleu hyn, oherwydd ystyr yr arddodiad "gyda" (*pros*) ydyw bod ar wahân, ac eto mewn cymundeb â Duw. Defnyddir "gyda" (*pros*) yn yr un ystyr a chysylltiad yn 1 Ioan 1^{2}: 2^{1}. Ond yn 17^{5}, arddodiad arall (*para*) ydyw "gyda thi cyn bod y byd." Yn y drydedd frawddeg—**"A Duw oedd y Gair"**—dywedir bod y Gair o'r hanfod ddwyfol. Er bod y cyfieithiad Cymraeg yn dilyn trefn y geiriau yn y Roeg, y mae braidd yn gamarweiniol. Nid mai Duw oedd y Gair a feddylir, ond bod y Gair yn Dduw. I ddangos hyn rhydd y C.N. ar waelod y ddalen, "Ac yr oedd y Gair yn Dduw." Sylwer ar hyn hefyd—y defnyddir y fannod yn y Roeg efo'r gair "Duw" yn yr ail frawddeg, ond na wneir hynny yn y drydedd. Y fodolaeth ddwyfol ydyw **ton Theon** yn yr ail. Defnyddir "oedd" (amser amherffaith) i ddynodi bodolaeth ddiddechrau bedair gwaith yn adn. 1, 2.

2. **"Yr oedd hwn yn y dechrau gyda Duw."**

Nid ailadroddiad o ad. 1 ydyw hon, eithr eglurhad ar yr ail frawddeg. Yr oedd hwn, a oedd yn Dduw, yn y dechrau gyda Duw (*ton Theon*). Heblaw hyn y mae'r ad. hon yn cin paratoi ar gyfer yr hyn a ddywedir yn ad. 3.

Nodiad ar "Y Gair."

Y tu allan i'r Rhagarweiniad hwn ni ddefnyddir y term "y Gair" mewn ystyr bersonol am y Mab tragwyddol, neu Iesu Grist, yn yr Efengyl. A hyd yn oed yma, yn adn. 1 a 14 yn unig y ceir ef. Y term Groeg amdano ydyw Logos, a gellir yn hawdd ei arfer yn y Gymraeg, fel y gwneir yn y Saesneg. Ni ellir bod yn bendant mai Crist yn bersonol a olyga yn 1 Ioan 1^{1}: Heb. 4^{12}: Dat. 19^{13}.

O ba le y cafodd Ioan y term Logos a'r syniadau a gysyllta ag ef? Y mae'n amlwg oddi wrth y modd y cyflwynir ef ei fod yn derm adnabyddus i'r darllenwyr. Y farn amlaf flynyddoedd yn ôl ydoedd mai i athroniaeth Groeg trwy Philo, yr athronydd Iddewig, yr oedd yr awdur hwn yn fwyaf dyledus am yr athrawiaeth. Ond heddiw credir mai o gyfeiriad llenyddiaeth Iddewig y dylanwadwyd yn bennaf arno, ac mai poblogrwydd y term Logos yn athroniaeth y dydd, ac ar dafod y werin, sy'n cyfrif am y defnydd a wna'r awdur

hwn ohono. Defnyddiwyd y term yn gyntaf gan Heracleitus, athronydd Groeg (500 C.C.), am "reswm" fel y cyfrif mwyaf boddhaol am amcan a threfn yn y cread. Gweithiwyd y syniad allan gan y Stoiciaid, a chymysgwyd eu dysgeidiaeth hwy â syniadau Iddewig gan Philo.

Ond, yn ôl pob tebyg, yn llenyddiaeth yr Iddew, ac nid yn athroniaeth Philo y cafodd Ioan ei athrawiaeth am y Logos. Y mae o leiaf dri gwahaniaeth hanfodol rhwng syniadau Philo ac eiddo Ioan. 1. Y mae personoliaeth y Gair yn bendant yn Ioan, ond yn amwys, a dweud y lleiaf, yn Philo. 2. Mynegir cynfodolaeth y Gair yn ddiamwys gan Ioan, ond nid yw o gwbl yn glir yn Philo. 3. Nid oes gan Philo le i ymgnawdoliad y Gair, ond Iesu Grist yn y cnawd ydyw'r Gair yn ôl Ioan.

Am ffynhonnell yr athrawiaeth fel y mae yn y Rhagarweiniad, gweler Gen. 1^{3}, y Gair yn offeryn yn y creu: Diar. 8^{22}, lle y priodolir ansoddau personol i Ddoethineb. Yn y Targwm (aralleiriad o'r H.D.) personolir "Gair Duw" dan yr enw "Memra." Yn yr Apocryffa yr un un ydyw Doethineb â'r Gair Dwyfol.

3. **"Trwyddo ef y daeth pob peth, a hebddo ef ni ddaeth unpeth a'r a ddaeth"** (C.N.).

Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng "daeth pob peth" ac "oedd" (ad. 1, 2), h.y., dyfod i fod a wnaeth pob peth, ond "yr oedd" y Gair yn y dechrau. Fel yn Gen. 1^{3}: Salm 33^{6}: a'r Apocryffa, offeryn creadigaeth ydyw'r Gair—"Trwyddo ef." Gweler hefyd 1 Cor. 8^{6}. Arddull yn unig, efallai, sy'n cyfrif am yr ailadrodd sydd yma, ond y mae'r ail osodiad yn cau allan bob bod cyfryngol rhwng Duw a'r cread a dybid gan y Gnosticiaid.

4. Trwy gymryd y geiriau olaf yn ad. 3 a'u cysylltu â'r ad. hon, gellir cyfieithu fel hyn:—**"Yr hyn a ddaeth ynddo ef, bywyd oedd."** Ond y mae'r ystyr bron yr un peth â **"Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion."** Cyfrif yw'r frawddeg, "ynddo ef yr oedd bywyd," am y ffaith mai trwyddo Ef y daeth pob peth. Ceir y syniad fod ynddo Ef fywyd yn yr Efengyl (5^{26}: 11^{25}: 14^{6}), yr hyn a brawf fod y Rhagarweiniad yn rhan hanfodol o'r Efengyl, a hwyrach wedi ei sgrifennu o flaen yr Efengyl. Yr oedd y bywyd a oedd yn y Gair i ddynion yn oleuni rheswm a chydwybod —"a'r bywyd oedd oleuni dynion." Y mae bywyd a goleuni yn geiriau mawr yn yr Efengyl hon. Cyfunir y ddau yn 8^{12}.

5. **"A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac ni orfu'r tywyllwch arno."**

Hyn yn ddiau yw'r ystyr, er bod i'r gair a gyfieithir "amgyffred" ddwy ystyr: (*a*) "Cymryd gafael yn": "deall" (Act. 4^{13}): "amgyffred" (Eff. 3^{18}): (*b*) "goddiweddu" (1 Thes. 5^{4}), trechu.

Pe'r cyntaf a fyddai'n gywir yr ystyr fyddai fod y goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ond nad oedd dynion yn ei amgyffred, ei ddeall a'i werthfawrogi. Eithr ni allai'r ddau beth hyn fod yn wir, oblegid os yw'r goleuni yn llewyrchu yng nghydwybod a rheswm dynion y mae hynny'n braw eu bod yn ei amgyffred. Am hynny, yr ail yw'r gorau. Yn y tywyllwch y llewyrcha'r goleuni, ond nid yw'r tywyllwch yn drech nag ef. Gweler 12^{35}. Y mae amser gorffennol pendant y ferf "ni orfu arno" yn esbonio'r ffaith fod y goleuni yn llewyrchu o hyd. Pe diffoddid ef unwaith, tywyllwch y fagddu a fyddai wedyn. Ond y ffaith yw nad yw dynion wedi colli'r syniad am ddaioni, a phrydferthwch, a gwirionedd. Y cyfrif am hynny, ebe Ioan, ydyw fod y bywyd a oedd yn y Gair yn oleuni i ddynion.

Adn. 6–9. Y BEDYDDIWR.

Torrir ar draws yr Emyn, fel y geilw rhai ef. Erys yr awdur, os ei eiriau ef yw'r rhain, ar y gair goleuni, a chymherir Y Goleuni â'r Bedyddiwr. Yn ôl ad. 4, bywyd y Gair ydyw'r goleuni.

6. **"Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan."** "Ioan" yn syml a ddywaid yr awdur hwn am y Bedyddiwr, a elwir yn "Ioan Fedyddiwr" yn yr Efengylau Synoptig. Ef hefyd ydyw'r unig un a elwir yn Ioan yn yr Efengyl hon. "Meibion Sebedeus" a ddywedir am Iago ac Ioan. Ym marn rhai y mae hyn yn ddadl dda tros gredu mai Ioan fab Sebedeus yw'r awdur, am y buasai unrhyw awdur arall yn sicr o wneud gwahaniaeth rhwng Ioan y Bedyddiwr a Ioan fab Sebedeus. Ond, ar y llaw arall, nid oedd angen am iddo alw'r Bedyddiwr wrth enw arall, gan mai ef yw'r unig "Ioan" y sonia amdano wrth ei enw. Efo eraill o'r un enw, gwneir gwahaniaeth (6^{71}: 14^{22}: 11^{2}: 19^{25}). At hynny, gwyddai'r Eglwys Apostolaidd mai Ioan Fedyddiwr yn unig a ddaeth yn dystiolaeth.

7. **"Daeth hwn er tystiolaeth"** (C.N.). Gellid disgwyl mai tyst a ddywedid, ond nid yw'r gair tyst yn yr Efengyl o gwbl. Rhoir lle mawr i'r gair "tystiolaeth." Neges y Bedyddiwr oedd tystio i'r Goleuni, "fel y credai pawb trwyddo ef," h.y., trwy Ioan, nid trwy Grist, oblegid ni ddywedir "credu *trwy* (*dia*) Grist" o gwbl. Nid yw'r awdur hwn chwaith byth yn defnyddio'r sylweddair "ffydd," dim ond y ferf "credu," oddeutu 100 gwaith.

8. Rhoir pwyslais mawr ar y ffaith nad y Bedyddiwr oedd y Goleuni, eithr mai i dystio amdano y daeth. Tybir bod cisiau pwysleisio hynny pan ysgrifennai'r awdur, am fod i'r Bedyddiwr blaid gref erbyn diwedd y ganrif gyntaf. Daeth yn ddylanwad peryglus

yn erbyn Cristionogaeth, yn enwedig wedi i'r Iddewon roi eu cefnogaeth iddi. Yn ôl Act. 19, yr oedd gan y Bedyddiwr ddisgyblion yn Effesus, yn gynnar yn hanes yr Eglwys Apostolaidd.

9. Dyma'r ffordd orau i gyfleu'r ad. hon: **"Yr oedd y gwir oleuni, sydd yn goleuo pob dyn, yn dyfod i'r byd"** (C.N.).

Y goleuni oedd yn dyfod i'r byd, nid "pob dyn." Nid oes eisiau dweud "yn dyfod i'r byd" i olygu "pob dyn." Ar y llaw arall, ceir yn fynych yn yr Efengyl y syniad fod Crist "yn dyfod i'r byd," nid wedi dyfod yn unig (3^{19}: 12^{46}: 11^{27}).

Cyferbynnir dyfodiad y Bedyddiwr tros amser â dyfodiad tragwyddol, graddol a chynyddol y gwir Oleuni. Nid lamp i'w goleuo ac i ddiffodd oedd y gwir Oleuni. Syniad arwynebol iawn ydyw fod y gwir Oleuni yn dyfod i'r byd pan dystiai'r Bedyddiwr iddo.

Perffaith, neu *real*, ydyw ystyr "gwir," nid y gwir mewn cyferbyniad i'r gau, oblegid yr oedd y Bedyddiwr yn oleuni (5^{35}, lamp). Y mae yn yr Efengyl ddau air a gyfleithir "gwir," ond ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhyngddynt. Gweler 6^{32}: 15^{1}. Tybia Dr. Bernard mai am y Gair yn y cnawd y sonnir yma, pan ddywedir ei fod yn dyfod i'r byd. Ond y mae hynny, yn ein tyb ni, yn difetha'r cyferbyniad rhwng y gwir Oleuni a'r Bedyddiwr, ac yn anghyson â'r ffaith ei fod yn goleuo "pob dyn."

Defnyddia'r awdur y gair "y byd," gyda gwahanol ystyron, gryn gant o weithiau. Un o nodweddion yr Efengyl ydyw mai geirfa brin sydd ynddi.

Adn. 10, 11. Y GAIR YN EI BERTHYNAS Â'R BYD A'I BOBL EI HUN.

10. **"Yn y byd yr oedd, a'r byd a ddaeth trwyddo ef, ac eto y byd nid adnabu ef."**

Ag ad. 5 y dylid cysylltu hon y mae'n debyg, a'r testun ydyw y Gair cyn yr ymgnawdoliad. Y mae'r geiriau "a'r byd a ddaeth trwyddo ef" yn braw mai at breswyliad y Gair yn y byd cyn ymgnawdoli ohono y cyfeiria'r frawddeg gyntaf. Gwelsom fod "yr oedd" yn adn. 1, 2 yn golygu bodolaeth ddiamser.

Gellid disgwyl y buasai'r byd yn ei adnabod, ac yntau yn preswylio ynddo, ac yn offeryn dwyn y byd i fod. Ond "y byd nid adnabu ef," ebe'r awdur. Cawn y dôn brudd hon eto lawer gwaith yn yr Efengyl. Dywedir bod gan Heraeleitus (500 C.C.) eiriau tebyg i'r rhain am anwybodaeth dynion o'r Logos. Ef, fel y soniwyd, oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term Logos—am y "rheswm," fel y tybiai ef, sy'n cyfrif am drefn ac amcan yn y cread.

11. **"I'w gartref ei hun y daeth, ac eto ei bobl ef ei hun nis derbyniasant ef."**

Nid yw'r geiriau "eiddo ei hun" yn gyfystyr yn y ddau le. Yn y lle cyntaf ei "gartref ei hun" a olygir, ac yn yr ail le "ei bobl ei hun." Yr ystyr ydyw iddo ddyfod i Balesteina, a'i wrthod gan ei genedl ei hun. Yn yr H.D. (Deut. 7^6) dywedir i'r Arglwydd ddewis Israel yn bobl unig iddo'i hun, ac yn rhyfedd iawn wrth sôn am y Gair gelwir hwy yma "ei bobl ei hun." Y mae hynny yn angerddoli'r gwrthod,—eto "nis derbyniasant ef." Un o nodweddion yr Efengyl hon ydyw mai "ac" (cai) a ddefnyddir lle disgwylid "ond" neu "ac eto." Yn yr Efengylau Synoptig (Marc 6^4: Luc 4^{24}) dywedir i'r Iesu fyned i Nasareth a'i wrthod gan ei gymdogion gynt. Ond nid at hynny, yn sicr, y cyfeiria Ioan. Nid y byd yw ei gartref, ac nid dynoliaeth yw ei bobl ei hun.

Adn. 12, 13. EGLURHAD AR AD. 11.

12. **"Ond cynifer ag a'i derbyniodd, efe a roes iddynt hawl i ddyfod yn blant Duw."**

Defnyddir "ond" am y tro cyntaf, ac un hapus ydyw. Os gwrthodwyd ef gan y lliaws, derbyniwyd ef gan rai. Hawl, neu awdurdod, ydyw ystyr "gallu." Rhoir "braint" ar ymyl y ddalen. Yr un gair yw ag "awdurdod" yn 5^{27}: 17^2: 19^{10}, a "meddiant" yn 10^{18}.

Yn ôl yr Efengylydd, nid yw neb yn blentyn Duw wrth natur, na thrwy gyfamod cenedlaethol, fel y tybiai'r Iddewon gelyniaethus (8^{41}). Hawl i *ddyfod* yn blant Duw a roir gan Grist, "i'r rhai sy'n credu yn ei enw ef."

Yn yr Efengyl hon yn unig, o'r Efengylau, y defnyddir yr ymadrodd "credu *yn*" Iesu Grist. Ceir un enghraifft ohono ym Math. 18^6, a dyna'r cwbl. Wrth gredu "yn ei enw" y golygir credu ynddo fel y Crist, Mab Duw (20^{31}).

Sylwer mai "plant" yw'r cyfieithiad cywir, nid meibion. Nid yw Ioan byth yn dweud "meibion" am berthynas â Duw trwy gredu, fel y gwneir gan Paul. Perthynas bywyd ydyw trwy enedigaeth yn ôl Ioan, ond perthynas gyfreithiol trwy fabwysiad yng ngolwg Paul.

13. **"Y rhai a aned . . . o Dduw."**

Nid oes eisiau manylu ar y brawddegau nacaol—"nid o waed, nac o ewyllys cnawd, nac o ewyllys gŵr." Y mae'n anodd gwybod beth sy'n cyfrif amdanynt. Ond pwysleisio'r ffaith mai "o Dduw" y ganwyd y plant a wnânt. Gweler 1 Ioan 3^9: 4^7: 5^1, ^{18}, am y syniad o eni, neu genhedlu, o Dduw. Efallai mai amcan yr awdur yn dweud nad o genhedliad naturiol y genir plant Duw ydyw gwrth-

wynebu athrawiaeth y Gnosticiaid, fod rhai ohonom yn blant Duw wrth natur.

Ond y mae'n deilwng o'n sylw fod un llawysgrif Ladin yn rhoi ystyr wahanol i'r ad. hon, trwy ddarllen fel hyn: **"Yr hwn a aned nid o waed, nac o ewyllys cnawd, nag o ewyllys gŵr, ond o Dduw."** Petai'r darlleniad yma yr un cywir, cyfeiriad a fyddai at Grist ac at ei enedigaeth wyrthiol. Dywedir yn 1 Ioan 5^{18} genhedlu Crist o Dduw. Yr ystyr gan hynny a fyddai mai'r "Hwn a genhedlwyd o Dduw" a roes iddynt hawl i ddyfod yn blant Duw."

Ymddengys i ni fod yr esboniad hwn yn cytuno'n llawer gwell â'r cysylltiadau na'r llall. Ond y drwg ydyw nad oes un llawysgrif Roeg yn rhoi'r darlleniad olaf hwn, a dim ond un llawysgrif Ladin. Ond dadleuai Tertwlian (O.C. 200) mai hereticiaid a newidiodd "Yr Hwn a aned" i "y rhai a aned" i ateb eu pwrpas eu hunain.

14. **Ymgnawdoliad y Gair.**

"A daeth y Gair yn gnawd, a phreswyliodd yn ein plith."

Dyma'r datganiad pendant cyntaf mewn llenyddiaeth i'r Gair ddyfod yn gnawd, a phreswylio yn ein plith. Y broblem fawr i athroniaeth y cyfnod cyn Crist oedd pontio'r agendor rhwng Ysbryd a Mater, rhwng Duw a dyn. Ond y mae Ioan yn gwneud hynny yn y frawddeg fer a chryno—"Y Gair a ddaeth yn gnawd." Y Gair sydd yn y Rhagarweiniad ydyw'r Crist sydd yn yr Efengyl. Os oedd Ioan yn ddyledus i Philo am athrawiaeth y Logos, nid oedd yn ddyledus iddo am y syniad hwn.

Dyma'r tro cyntaf inni gyfarfod â'r term "Y Gair" ar ôl ad. 1, ac ni welwn ef eto gydag ystyr bersonol ar ôl yr ad. hon.

Yr hyn a olygir yma wrth "gnawd" ydyw dyn cyflawn a gwir. Yn erbyn dyndod Crist yn unig y cyfododd heresi yn y ganrif gyntaf. Dysgai Docetiaeth mai rhith yn unig ydoedd, ac na feddai Crist gig a gwaed. Dyna'r pam efallai y dywaid Ioan i'r Gair ddyfod yn gnawd. Pwysleisir ei ddyndod droeon yn yr Efengyl (4^{6}: 11^{35}: 19^{34}: 20^{27}). Cym. 1 Ioan 4^{2}. Ni chais yr awdur egluro *pa fodd* y daeth y Gair yn gnawd. Iddo ef y mae'r ffaith ynddi ei hun yn ddigon. Y mae'n debyg mai cyfeiriad at ddyddiau ei gnawd ydyw "ac a breswyliodd yn ein plith ni." Ond goddef y geiriau eu cyfieithu "ac a breswyliodd *ynom ni*, gan olygu mai'r ddynoliaeth oedd ei deml; ac felly y gwnâi rhai o'r Tadau Eglwys. Ystyr lythrennol y ferf "a drigodd," neu a breswyliodd, ydyw pabellu, ond nid i bwysleisio arhosiad byr yn y cnawd. Tardd y ferf o *scene* gair a ddefnyddid gan Iddewon dwyieithog am y "Seceina," neu bresenoldeb Duw gyda'i bobl. Hyn sy'n cyfrif am y gair "pabellu" yn y fan hon. Y mae dylanwad yr un syniad ar y geiriau nesaf – "a gwelsom ei ogoniant ef." Yn y Targwm (aralleiriad o'r H.D.)

Duw ei Hun yw'r gogoniant, a'r Seceina ydyw'r mynegiad Ohono. Sylwer fod yr awdur yn awgrymu iddo ef, yn gystal ag eraill, weled ei ogoniant. Y mae'r ferf, o ran amser, yn cyfeirio'n ôl at adeg benodol, a dywaid Dr. Bernard nas defnyddir am weledigaeth ysbrydol. Gweler enghreifftiau ohoni yn $1^{32, 38}$: 6^{5}: 11^{45}: 1 Ioan 1^{1}. Honna'r awdur felly iddo ef weled gogoniant y Gair ar y ddaear â'i lygaid ei hun. Ai Ioan fab Sebedeus ydyw felly? Nid o raid, a chaniatau fod "gwelsom" yn golygu gweled â'r llygaid. Dywaid Papias (O.C. 70–146) fod Ioan yr Henadur yn un o ddisgyblion yr Arglwydd oherwydd iddo weled Crist yn y cnawd. Gallai yntau felly ddweud "a gwelsom ei ogoniant ef." Gwelir wrth efrydu'r Efengyl fod yr awdur yn defnyddio'r gair "gogoniant," a gogoneddu, am un peth yn arbennig—y datguddiad mawr o Berson Crist a phwrpas ei ddyfodiad trwy ei Groes (7^{39}: $12^{16, 23}$). Efallai mai'r dyddiau olaf yn unig a welodd yr awdur, os Ioan yr Henadur ydyw.

Gwna'r C.N. y rhan olaf o'r ad. yn fwy clir: **"Gogoniant megis gogoniant yr uniganedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd."** Fel yn Luc 7^{12}: Heb. 11^{17}, unig Fab y Tad ydyw ystyr uniganedig. Ni ellir bod yn bendant pa un ai'r gogoniant, neu ynteu uniganedig, sydd oddi wrth y Tad; ac nid yw o bwys mawr. Fel rheol Uniganedig *o'r* (*ec*) Tad a ddywaid Ioan, ac nid oddi wrth (*para*). Nid yw'n bwysig chwaith â pha derm y dylid cysylltu "yn llawn gras a gwirionedd"—â'r Gair, neu gogoniant, neu Uniganedig.

Y mae "gwirionedd" yn un o eiriau mawr yr Efengyl (25 gwaith), ac Epistolau Ioan (20 gwaith). Ond yn y Rhagarweiniad hwn yn unig y defnyddir "gras" (1^{4}, 1^{6}, 1^{7}).

Cariad Duw yn gweithredu ydyw "gras," yn achub dynion. Tybia rhai mai'r gair "bywyd" sy'n cymryd lle "gras" yng nghorff yr Efengyl, a bod "goleuni" yn ateb i "wirionedd."

Adn. 15–17. TYSTIOLAETH Y BEDYDDIWR A PHROFIAD YR EGLWYS.

15. **Tystiolaeth y Bedyddiwr.** Drysir y cysylltiad wrth ddwyn yr eglurhad hwn i mewn yma, fel y gwelir eto.

Tybir gan rai mai tystio i gynfodolaeth y Gair a wnâi'r Bedyddiwr. Ond nid yw ad. 14 yn *hacru* ei gynfodolaeth, ac nid yw pawb yn cytuno fod yr ad. hon yn dysgu hynny. Sylwer hefyd fod adn. 27, 30 yn ailadroddiad o hon.

Ystyr "a aeth o'm blaen i" ydyw mewn safle ac urddas, cyfystyr â "un cryfach na mi" (Marc 1^{7}). Beth a olyga "canys yr oedd efe o'm blaen i," neu'n fwy priodol "am ei fod yn gynt na mi" (C.N.)? Os golygir er tragwyddoldeb, y mae'n tybio y gwyddai'r Bedyddiwr

hynny pan oedd yn tystio amdano, ac nid yw credu hynny yn ormod gan rai. Ond y mae ffordd arall o fynegi'r frawddeg olaf hon—"Canys yr *oedd* efe'n uwchraddol i mi," gyda phwyslais ar "yr oedd."

16. **"Canys o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am (neu at) ras."**

Ag ad. 14 y cydia'r ad. hon, ac felly y mae tystiolaeth y Bedyddiwr yn drysu'r cysylltiad.

Hwn yw'r unig le yn Ioan y defnyddir y gair am "cyflawnder" (*pleroma*). Gweler Eff. 4^{13}: Col. 1^{19}: 2^{9}.

Mynegi profiad yr Eglwys Apostolaidd a wna'r awdur. O gyfoeth dihysbydd y Gair a oedd "yn llawn gras a gwirionedd" y derbyniasant. Y mae'r profiad hwn yn bosibl i bawb—i rai na welsant ei ogoniant ar y ddaear. Ystyr "gras am ras," efallai, ydyw "gras at ras," gras ar ôl gras, yn ddiderfyn.

17. **"Canys y gyfraith a roddwyd drwy Moses; y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist."**

Y mae'n amlwg mai'r geiriau "gras am ras" a awgryma'r sylw hwn. Cyferbynnir y Ddeddf â'r Efengyl, fel y gwneir gan Paul (Rhuf. 6^{14}: Gal. 5^{4}). Ond ni ddefnyddir y gair "gras" eto yn yr Efengyl. Rhwng "a roddwyd" ac "a ddaeth" y mae'r gwahaniaeth mawr. Gellid rhoddi'r gyfraith drwy rywun heblaw Moses, ond ni allai'r gras a'r gwirionedd ddyfod trwy neb ond Iesu Grist, oblegid ynddo Ef y mae'r cyflawnder (^{16}).

Dyma'r tro cyntaf yn yr Efengyl y ceir yr enw "Iesu Grist," ac y mae'n amlwg mai'r un un yw â'r Gair tragwyddol.

18. **"Ni welodd neb Dduw erioed. Yr uniganedig Dduw, sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i heglurodd ef"** (C.N.).

Yr ad. olaf yn y Rhagarweiniad yw hon. Tybia rhai ei bod yn rhan o'r Emyn i'r Gair, ac mai ag ad. 14 y dylid ei chysylltu. Ond ar y llaw arall, y mae ad. 14 yn ddiweddglo ardderchog i'r Emyn, a'r ad. hon yn dilyn ad. 17 yn naturiol i ddangos mai trwy Iesu Grist yn unig y daeth "y gras a'r gwirionedd." Na welodd neb Dduw erioed â llygaid o gnawd a feddylir. Nid ffigur ydyw "gweled" am adnabod. Mynegir yr un gwirionedd eto yn yr Efengyl (5^{37}: 6^{46}), a 1 Ioan 4^{12}, ^{20}. Gweler hefyd Col. 1^{15}: 1 Tim. 1^{17}. Yn yr H.D. dysgir na all dyn weled Duw, a byw (Ex. 33^{20}).

Yn lle "yr uniganedig Fab," y darlleniad cywir, yn ôl y llawysgrifau gorau ydyw "yr uniganedig Dduw," ymadrodd na cheir yn unlle arall yn y T.N. Am "Uniganedig," gweler ad. 14, ac am "Uniganedig Fab" 3^{16}, ^{18}: 1 Ioan 4^{9}. Am na cheid "uniganedig Dduw" yn unman arall, y mae'n debyg, y newidiwyd ef, un ai'n fwriadol, neu o ddamwain. Ond nid yw'n chwanegu dim at a ddywedwyd eisoes yn y Rhagarweiniad, oblegid yn ôl ad. 1, "yr oedd y

Gair yn Dduw." Tybia rhai mai sylweddair yw "Uniganedig"—"yr Uniganedig, Duw."

Yn llythrennol gellid dweud "*a oedd* ym mynwes y Tad"—yr un gair ag "oedd" yn adn. 1, 2, 15. Ond am ei fod yn mynegi bodolaeth dragwyddol, gellir dweud "*sydd* ym mynwes y Tad." Am ei fod erioed yn y gymdeithas Ddwyfol, y medd Ef y cymhwyster i ddatguddio Duw. Rhoir pwyslais mawr ar "hwnnw," neb arall ond Ef. Oherwydd hyn y mae'n "wirionedd (12^6), ac y daeth gwirionedd trwyddo Ef. Y wybodaeth am Dduw ydyw'r gwirionedd. Gan Ioan a Luc yn unig yn y T.N. y ceir y gair am "hysbysu" neu egluro, ac ohono ef y caiff y Saeson y gair *exegesis*.

Adn. 19–28. TYSTIOLAETH Y BEDYDDIWR.

Pan ysgrifennwyd yr Efengyl, oddeutu O.C. 100, ymosodid ar Gristionogaeth o lawer cyfeiriad. "Tystiolaeth" ydyw un o eiriau mawr yr Efengyl, a'r tyst cyntaf a elwir ynddi yw'r Bedyddiwr. Yn hyn, cytuna'r awdur â'r Efengylau Synoptig. Ond yn Efengyl Ioan yn unig yr adroddir y stori hon am y ddirprwyaeth at y Bedyddiwr.

19. **Dirprwyaeth o "Offeiriaid a Lefiaid" a anfonwyd ato—yr unig enghraifft yn y T.N. o'r ddau ddosbarth efo'i gilydd.** Dyma'r tro cyntaf inni gyfarfod "yr Iddewon," teitl a ddefnyddir gan Ioan gydag ystyr neilltuol, am elynion yr Iesu, o Jiwdea a Jeriwsalem. Ond weithiau golyga y genedl (2^6: 4^9). Yn ôl yr Efengylau eraill y Phariseaid yw'r gwrthwynebwyr. Pan ysgrifennwyd yr Efengyl yr oedd yr Iddewon yn elynion pendant i Gristionogaeth, ac efallai mai hynny yw'r rheswm pam y defnyddia Ioan y teitl. Ystyr "Pwy wyt ti?" ydyw "Pwy wyt ti yn dy honni dy hun?" oblegid gwyddent mai mab Sacharia ydoedd.

20. Etyb y Bedyddiwr yn bendant: **"Nid myfi yw'r Crist,"** gyda phwyslais ar "myfi," ac awgrym y deuai un i honni ei fod y Crist—yr Iesu ei Hun. Dadleuai plaid y Bedyddiwr, oddeutu O.C. 100, mai'r Bedyddiwr oedd y Crist. Cyfeirir eto at yr ateb hwn (3^{28}). Gweler hefyd Luc 3^{15}.

21. **"Ai Elias wyt ti?"** Disgwylid yr ymddangosai Elïas ar y ddaear yn gorfforol i adfer pob peth o flaen y Meseia (Mal. 4^5: Marc 9^{12}). Gan nad Elïas yn gorfforol oedd, etyb y Bedyddiwr yn nacaol. Ond efe oedd Elïas hefyd (Math. 11^{14}), am iddo ddyfod o flaen Crist yn ysbryd a nerth Elïas (Luc 1^{17}).

Gwad eto mai ef yw "y proffwyd," a ddisgwylid, yn ôl ffordd rhai o esbonio Deut. 18^{15}, o flaen y Meseia. Dyna yw syniad y ddirprwyaeth hon. Ond ar ôl hyn, fel y dengys 6^{14}: 7^{40}: Act. 3^{22},

cymerid "y Proffwyd" i olygu'r Meseia. Edrychid arno fel ail Foses (Act. 7^{37}).

Pan ddywaid y Bedyddiwr nad ef yw y Proffwyd, yr hyn a olyga ydyw nad ef yw'r Crist, fel y gwnaeth yn ad. 20. Y mae ef felly yn esbonio y rhagfynegiad am y Proffwyd (Deut. 18^{15}), nid fel y gwneid yn ei ddydd ef, ond fel y gwnaed ar ôl hynny. Ond sut y gallai? Yr eglurhad, efallai, ydyw mai'r awdur sy'n rhoi yr esboniad diweddarach yng ngenau'r Bedyddiwr. Cawn enghreifftiau tebyg eto yn yr Efengyl.

22. **"Beth a ddywedi di amdanat dy hun?"**

Y peth gorau, ym marn y ddirprwyaeth, ydyw i'r Bedyddiwr ei egluro'i hun.

23. Dyfyniad o Es. 40^{3} ydyw ateb y Bedyddiwr. Gweler Math. 3^{3}: Marc 1^{3}: Luc 3^{4}. Tybia Dr. Bernard mai oddi ar ei gof o'r Hebraeg y dyfynna Ioan, a'r Efengylwyr eraill o'r *LXX*. Mor ddiymhongar y sieryd y Bedyddiwr amdano'i hun: **"Myfi—llais un yn gweiddi yn yr anialwch, Unionwch ffordd yr Arglwydd"** (C.N.).

24. **"A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid,"** h.y., yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid (^{19}) oddi wrth y Phariseaid, neu ynteu o'r Phariseaid. Am eu bod yn Phariseaid, neu ynteu wedi eu hanfon ganddynt, yr holant ynghylch bedydd (^{25}). Plaid geidwadol iawn oeddynt a gymerai ddiddordeb mawr mewn materion crefyddol.

25. **Methant â deall paham yr oedd y Bedyddiwr yn bedyddio, ac yntau heb fod na'r Crist nac Elïas na'r proffwyd.**

Yn ôl y proffwydi (Esec. 36^{25}: Sech. 13^{1}), yr oedd puredigaeth, a bedydd fel arwyddlun ohono, yn rhan o waith y Meseïa. Bedyddid proselytiaid i Iddewiaeth yn awr, ond yr hyn a ddrysai'r ddirprwyaeth oedd mai bedyddio Iddewon a wnâi'r Bedyddiwr, ac yntau'n ddim ond "llais" yn gweiddi "Paratowch ffordd yr Arglwydd."

Sylwer bod y bobl hyn yn gwahaniaethu rhwng y "proffwyd" a'r Crist ac Elïas.

26. Etyb trwy egluro natur ei fedydd—mai arwyddlun yn unig yw: **"Mewn dwfr yr wyf fi'n bedyddio. Yn eich canol saif un nad adwaenoch chwi."** Tybia Dr. Bernard fod yr Iesu yn sefyll yn y dorf ar ôl ei fedyddio gan Ioan, ac mai ar dystiolaeth Ioan fab Sebedeus y dywedir hyn.

27. **Ni chyfrifai'r Bedyddiwr ei hun yn deilwng hyd yn oed i ddatod carrai esgid y Meseia.** Gwaith caethwas yn unig oedd cario esgidiau (Math. 3^{11}), neu ddatod carrai esgid. Yn ôl y Rabbiniaid, gallai disgybl wneud pob gwasanaeth i'w athro a wna caethwas i'w feistr ag eithrio datod carrai ei esgidiau.

Terfyna'r drafodaeth yn sydyn. Y mae tystiolaeth y Bedyddiwr i'w israddoldeb i'r Meseia yn ddigon i bwrpas yr awdur.

28. **"Ym Methania, dros Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio, y bu hyn."**

Nid "Bethabara" yw'r darlleniad cywir, ond "Bethania." Origen (O.C. 184–254) a newidiodd yr olaf i'r cyntaf am na wyddai am le dros Iorddonen o'r enw "Bethania." Nid yr un lle yw, wrth gwrs, â Bethania cartref Lasarus, dwy filltir o Jeriwsalem.

Adn. 29–34. Y BEDYDDIWR YN PWYNTIO ALLAN Y CRIST.

29. **"Trannoeth"**—i'r ddirprwyaeth at y Bedyddiwr (19). Yn yr Efengyl hon y ceir y manylion mwyaf ynghylch dyddiau, er nad bywgraffiad ydyw. Y mae yn y bennod hon bedwar, neu bump, o ddyddiau (19, 29, 35, 43). Gweler hefyd 2^{1}, ^{12}: 4^{43}: 6^{22}: 11^{6}, ^{17}: 12^{1}: 20^{26}.

Yn ôl ad. 32 yr oedd yr Iesu wedi ei fedyddio gan y Bedyddiwr cyn y trannoeth hwn. Ond nid yw'r awdur hwn yn rhoi hanes y Bedydd na'r Temtio.

"Dyma Oen Duw sy'n tynnu ymaith bechod y byd" (C.N.). Y mae'r fannod gyda'r gair "oen"—"*the lamb of God*." Efallai mai ystyr "oen Duw" ydyw, yr oen a ddarparwyd gan Dduw. Cym. Gen. 22^{8}. Ond gall olygu mwy na hyn—nad oes neb yn oen Duw ond ef—"oen *Duw* yw hwn," gyda phwyslais ar "Duw."

A ddywedodd y Bedyddiwr pan welodd ef yr Iesu, **"Dyma oen Duw sy'n tynnu ymaith bechod y byd,"** ai rhywun—Ioan fab Sebedeus, neu'r awdur—sy'n rhoi hynny yn ei enau? Os felly, y mae'r cwestiwn yn newid. Nid beth a feddyliai'r Bedyddiwr ydyw, ond beth a feddylia'r awdur wrth "oen Duw." Priodola'r geiriau, "sy'n tynnu ymaith bechod y byd," werth prynedigol iddo. Gelwir Crist yn "oen" yn y T.N., heblaw yma, yn ad. 36: 1 Pedr 1^{19}: Act. 8^{32}: ac yn Dat. yn fynych. Daeth y Cristionogion bore i esbonio marw Crist yng ngolau dau beth yn arbennig—y waredigaeth o'r Aifft, oen y Pasg: a syniadau'r ail Eseia am y Gwas yn dioddef. Gweler 1 Cor. 5^{7}: Dat. 5^{6}: Es. 53^{7}. Ar ôl iddo ddioddef y gwnaed hyn, ond yma dywedir i'r Bedyddiwr gyfeirio at yr Iesu fel oen Duw, a chysylltu gwerth prynedigol ag ef. Gwyddai ef felly, yn ôl yr awgrym sy'n yr adnod, y byddai i Grist ddioddef, ac y byddai ei farwolaeth yn brynedigaeth i'r byd. Ond nid yw hynny'n ymddangos yn gyson â'r Efengylau Synoptig—mai'n gymharol ddiweddar yn ei weinidogaeth y soniodd yr Iesu gyntaf y byddai'n rhaid iddo ddioddef, a'i ladd. Ar y llaw arall, y mae'r Efengyl hon yn cytuno â Math. 3^{14} y gwyddai'r Bedyddiwr mai'r Iesu oedd y

Meseia, ac efallai mai dyna'r cwbl a ddywedodd y Bedyddiwr amdano pan welodd ef yn awr, ac nad yw'r Tyst sy'n adrodd y Bedyddiwr yn golygu dim mwy na hynny, er ei fod yn rhoi yn ei enau y teitl "oen Duw," gyda'i holl gynnwys, yng ngolau'r Groes.

Yr un gair â "dileu," yn 1 Ioan 3^5, ydyw "tynnu ymaith," ac y mae'r ffaith mai yn yr amser presennol y mae yn cadarnhau'r dybiaeth mai iaith yr Eglwys fore ydyw, ac nid geiriau'r Bedyddiwr yn llythrennol.

30. **Y Bedyddiwr yn parhau i siarad am y Meseia.**

Gweler ad. 15, a'r nodiadau arni. Ailadroddiad llythrennol o honno ydyw hon. Cym. hefyd ad. 27.

31. **"A minnau, nis adwaenwn ef,"** h.y., fel y Meseia.

Ond ym Math. 3^{14} awgrymir ei fod yn ei adnabod fel y Meseia cyn iddo ei fedyddio. Sylwer fel y pwysleisir safle israddol y Bedyddiwr o hyd—"i'w amlygu i Israel," dyna ei neges ef: "gan fedyddio mewn dwfr," dim ond yr arwyddlun.

32. **Trwy weled yr Ysbryd yn disgyn fel Colomen o'r nef, ac yn aros arno, yr adnabu'r Bedyddiwr yr Iesu fel Meseia.**

Sylwer ar Math. 3^{16}: Marc 1^{10}: Luc 3^{22}. Ni ddywedir yn unlle arall i'r Bedyddiwr weled yr Ysbryd yn disgyn fel colomen. Sut weled ydoedd tybed? Yr un yw'r gair a gyfieithir "gwelais" â "welsom" yn ad. 14, a ddefnyddir bob amser yn y T.N., ebe rhai, am weled â'r llygaid.

Felly mewn rhith corfforol (Luc 3^{22}), nid mewn gweledigaeth y gwelodd y Bedyddiwr hyn. Cytuna'r Efengylwyr oll, ebe Dr. Bernard, i golomen ddisgyn ar yr Iesu. Ond, ar y llaw arall, sylwer yn fanwl, ar y geiriau, "Gwelais yr Ysbryd, etc." Yn ad. 33 am yr Ysbryd yn disgyn ac yn aros arno, yn unig, y sonnir, h.y., gweled yr ysbryd yn disgyn arno, nid gweled colomen, a argyhoeddodd y Bedyddiwr mai Ef oedd y Meseia. Y mae'n ymddangos felly mai disgrifio natur yr Ysbryd y mae "fel colomen," oblegid gweinidogaeth addfwynder oedd gweinidogaeth Crist. Yr oedd y golomen ym Mhalesteina yn aderyn santaidd, ac yn syniad y Rabbiniaid yn arwyddlun o'r Ysbryd.

33. **Yr oedd y Bedyddiwr wedi ei hysbysu gan Dduw ymlaen llaw o'r arwydd sicr hwn.**

Gwneir gwahaniaeth eto gan yr awdur rhwng gweinidogaeth y Bedyddiwr a gweinidogaeth Crist: **"bedyddio mewn dwfr,"** a **"bedyddio â'r Ysbryd Glân,"** neu'n llythrennol **"ag Ysbryd Glân."** Ym Marc 1^4, gwahaniaethir fel hyn: "bedydd edifeirwch er (h.y. ar gyfer) maddeuant pechodau." Deffro'r dyhead am y bywyd newydd a wnai'r Bedyddiwr, ond Iesu Grist yn unig a allai ei ddiwallu.

34. **" Ac yr wyf innau wedi ei weled, ac wedi tystio mai hwn yw Mab Duw "** (C.N.).

Teitl am y Meseia ydyw " Mab Duw " yng ngenau'r Bedyddiwr, ac eraill (1^{49} : 11^{27}). Felly hefyd yn yr Efengylau Synoptig (Math. 14^{33} : 26^{63} : Marc 3^{11}). Fel teitl am y Meseia yr esbonnid Salm 2^{7}, " Fy Mab ydwyt ti."

Ond y mae i'r teitl " Mab Duw " ystyr ddyfnach, cyfystyr â'r Gair tragwyddol, weithiau yn yr Efengyl hon (10^{36} : 19^{7} : 20^{31}).

Adn. 35–42. Y BEDYDDIWR A DAU O'I DDISGYBLION.

35. **" Trannoeth drachefn safai Ioan a dau o'i ddisgyblion."**

A chyfrif ad. 19, hwn yw'r ail " drannoeth," a'r trydydd dydd. Yn ad. 40, dywedir mai Andreas oedd un o'r ddau ddisgybl, ond ni enwir y llall. Ioan fab Sebedeus oedd yn ôl traddodiad, ac felly y credir gan lawer eto. Tybia eraill mai'r Tyst, y sydd y tu ôl i'r Efengyl, ydoedd, ac nad Ioan fab Sebedeus oedd hwnnw.

36. **" Ac wedi syllu ar yr Iesu'n rhodio o amgylch, dywaid : Dyma Oen Duw "** (C.N.).

Nid " edrych ar " ond " syllu " ar ydyw ystyr y gair. Yr unig enghraifft arall ohono yn llenyddiaeth Ioan ydyw ad. 42.

37. **" A chanlynasant yr Iesu."**

Efallai nad ei ddewis fel Athro yn lle'r Bedyddiwr a olygir, ond myned ar ei ôl.

38. Y mae'r disgrifiad byw yn awgrymu atgof llygad-dyst.

" Ond troes yr Iesu "—sylw nad ystyrrid yn rhy ddibwys i'w groniclo gan un a oedd yn gyfarwydd ag ystum arwyddocaol yr Iesu. **" Beth yr ydych yn ei geisio ?"** oedd y geiriau cyntaf a glywodd y ddau hyn o enau'r Iesu. Nid *pwy* yr ydych yn ei geisio. Etyb y ddau â chwestiwn : **" Rabbi, ym mha le yr wyt ti'n aros ?"** Eisiau gwybod ym mha le y lletyai yr oeddynt, fel y caffent ei gwmni.

Teitl o barch yn unig yw " Rabbi " yn y fan hon, ond arferid ef am y Bedyddiwr fel athro (3^{26}), fel y gwneid yn gyffredin gan ddisgyblion am eu hathro. Dyna pam y dywedir mewn cromfachau, " yr hyn a alwn ni, o'i gyfeitihu, yn Athro " (C.N.). Gair Aramaeg yw " Rabbi," i'w gael yn fynych yn yr Efengyl hon, ac yn braw efallai mai atgofion llygad-dyst a geir ynddi.

39. **" Deuwch a chwi a gewch weled."**

Trwy gyffyrddiad personol â'r Iesu y'n hargyhoeddir. **" Daethant gan hynny a gwelsant ym mha le yr oedd yn aros."** I'r llygad-dyst y mae cyfriniaeth felys yn y dywediadau hyn. **" Ac arosasant gydag ef y diwrnod hwnnw,"** y diwrnod rhyfedd, byth-

gofiadwy hwnnw. Cym. 11^{49}, "y flwyddyn honno." Sylwer ar y sylw cwta, "**oddeutu'r ddegfed awr ydoedd hi,**" h.y., pan ddaethant a gweled y lle yr oedd yn aros. Onid yw'n anodd credu nad llygad-dyst a edrydd yr hanes? Er nad oedd clociau yn y wlad (Dr. Bernard), y mae'r Tyst yn cofio'r awr—pedwar o'r gloch yn y prynhawn. O godiad haul i'w fachlud y cyfrifid amser yn Ymherodraeth Rhufain. Y mae'r awdur wrth ei fodd yn nodi'r awr (4^{6}, ^{52}: 19^{14}: 20^{19}).

40. "**Andreas, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau a glywodd gan Ioan, ac a'i canlynodd ef.**"

Gweler ad. 37. Yr oedd Andreas felly yn ddisgybl i'r Bedyddiwr, ac Ioan fab Sebedeus hefyd, os ef yw'r llall. Tuedd beirniadaeth ddiweddar ydyw dysgu mai Ioan fab Sebedeus oedd y llall, ac mai ei atgofion ef yw'r rhain, ac eraill yn yr Efengyl. Efallai mai hynny yw'r rheswm na elwir ef wrth ei enw o gwbl yn yr Efengyl.

Yr oedd yn rhaid dweud bod Andreas yn frawd i Simon Pedr, am nad oedd cyn enwoced â'i frawd yn hanes yr Eglwys.

41. "**Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun, Simon.**"

Y mae'r darn cyntaf o'r ad. hon yn amwys. Os "hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun" sy'n gywir, yna y mae'n awgrym i'r disgybl arall ar ôl hynny gael ei frawd yntau—i Ioan, dyweder, gael Iago. Ond y mae darlleniad arall: "Hwn a gafodd yn gyntaf ei frawd ei hun," h.y., y peth cyntaf a wnaeth oedd cael ei frawd ei hun.

Y mae ffordd arall eto i'w gyfleu: "Y mae hwn yn y bore yn cael ei frawd ei hun"—ar ôl treulio'r nos efo'r Iesu yn ei lety. Nid yw'r gwahaniaeth yn un pwysig, ond fel y cyffwrdd ag awduriaeth yr Efengyl.

Yr Efengyl hon yn unig a rydd le amlwg i Andreas. Lle bynnag y gwelir ef dwyn rhywun at yr Iesu a wna (6^{8}: 12^{22}). Cychwynnodd gartref a gorffennodd efo'r Groegiaid. Dim ond tri gair a ddywedodd Andreas wrth Pedr, yn ôl y Roeg: "Cawsom y Meseia." Teitl Aramaeg am Grist ydyw "Meseia, ac ni ddefnyddir ef yn y T.N. y tu allan i'r Efengyl hon (yma a 4^{25}). Er mwyn darllenwyr Groeg eglura'r awdur ef—"yr hyn o'i gyfieithu yw Crist." Ceir llawer o eiriau Aramaeg yn Ioan (1^{38}, ^{42}: 5^{2}: 9^{7}: 19^{13}). Y mae'n rhyfedd fod Andreas yn gwybod mor gynnar mai'r Iesu oedd y Meseia. Nid yw hynny'n cytuno o gwbl â'r Efengylau Synoptig, oblegid rhoir credyd mawr i Pedr am ei gyffes yn ddiweddar yng ngweinidogaeth Crist. Efallai, er hynny, i'r disgyblion yn eu brwdfrydedd cyntaf ac ar dystiolaeth y Bedyddiwr, dybio mai Ef oedd y Meseia, ac iddynt golli eu cred am ysbaid oblegid ei ddysgeidiaeth aruchel am y deyrnas. Ar ôl hynny daeth y trobwynt mawr yng Nghesarea Philipi (Marc 8^{29}).

42. **" Dug ef at yr Iesu "**—nodweddiadol iawn o Andreas.

" Wedi edrych arno," h.y. ar Simon. Dyma'r ail dro, a'r tro olaf yn Ioan, y cawn y gair am " edrych," edrych yn graff, syllu. Gweler ad. 36. Defnyddia Luc (22^{61}) ef am yr Iesu yn craffu ar Pedr ar ôl y gwadu mawr.

Fel hyn y cyfarchodd yr Iesu Pedr: **" Simon fab Ioan wyt ti: Ceffas fydd dy enw (yr hyn a gyfieithir yn Garreg)."** " Simon fab Ioan " y gelwir Pedr yma a 21^{15-17}, ond ym Math. 16^{17}, " Simon fab Jona." Awgrymir yma i'r Iesu y tro cyntaf erioed y gwelodd ef roi enw newydd i Simon—Ceffas, yn yr Aramaeg, cyfystyr â Petros (Pedr) yn y Roeg, a olyga Garreg, neu Graig. Ym Marc hefyd (3^{16}) awgrymir iddo gael yr enw newydd yn gynnar. Gellid tybio'n wahanol oddi wrth Math. 16^{18}, " ti yw Pedr," mai yng Nghesarea Philipi, yn ddiweddar, y derbyniodd ef.

Tybia rhai fod yr awdur hwn yn cyn-ddyddio y digwyddiad a gofnodir ym Math. 16^{18}. Ni ellir bod yn sicr.

O ran dim a ddywedir yma, yr oedd yr Iesu'n gwybod enw gwreiddiol Pedr cyn iddo erioed ei weled, ac yn medru darllen ei gymeriad. Cawn amryw o enghreifftiau cyffelyb yn yr Efengyl.

Adn. 43–51. PHYLIP A NATHANAEL.

Ar y tu dwyrain i Iorddonen y mae'r Iesu yn awr, ond penderfyna fyned allan i Galilea. Ar y ffordd yno cyfarfu â Phylip, a dug yntau Nathanael at yr Iesu.

43. **" Trannoeth penderfynodd fyned allan i Galilea, ac y mae'n cael Phylip."**

Ni ddywedir pwy a benderfynodd fyned allan i Galilea, a chael Phylip. Efallai mai Pedr a olygir, ac nid yr Iesu.

Galwad i fod yn ddisgybl ydyw " Dilyn fi " yn 21^{19}: Marc 2^{14}, a mannau eraill. Ond tybia Dr. Bernard mai gwahoddiad i Phylip i fyned gyda'r Iesu i daith ydyw yma.

44. **" Ac o Fethsaida, o dref Andreas a Phedr, yr oedd Phylip."**

Yn yr Efengylau eraill â Chapernaum y cysylltir Andreas a Phedr. Ystyr " Bethsaida " ydyw tre pysgod. Yn 12^{21} dywedir bod Phylip o Fethsaida yng Nghalilea, ond Bethsaida Jiwlias a olygir yno yr un fath ag yma. Rhydd yr awdur le amlwg i Phylip, fel i Andreas. Gweler 6^{5}: 12^{21}: 14^{8}.

45. **Phylip yn cael Nathanael.**

Y mae cryn ddirgelwch o gwmpas y Nathanael hwn. Ni sonnir amdano gan neb arall wrth yr un enw. Yn 21^{2} dywedir mai o Gana yng Ngalilea yr oedd. Hebraeg ydyw " Nathanael," cyfystyr â Theodore yn y Roeg. Yn ddiweddar credid nad oedd yn berson

hanesyddol, ond ffigur delfrydol o "Israeliad yn wir"—"*the symbol of the perfect disciple*." Yn ôl E. F. Scott, efallai mai cymar arwyddluniol ydyw i Paul, h.y., mai Paul sydd gan yr awdur eisiau ei ddangos ynddo. Ond y mae'n amlwg na chyrhaeddodd ei amcan, oddieithr fod gan ei gyfoeswyr fwy o oleuni ar y mater nag a feddwn ni.

Y farn gyffredin ydyw mai yr un â Bartholomew yn yr Efengylau Synoptig yw, am y rhesymau hyn: (1) nad yw'r enw Nathanael yn yr Efengylau Synoptig na Bartholomew yn hon; (2) nad enw priodol ydyw Bartholomew, ond tad-enw yn unig fab Tholmai; (3) cysylltir Phylip â Bartholomew ac â Nathanael.

Ond ar y llaw arall, ymddengys na chredai neb hyd y nawfed ganrif mai'r un person oedd y ddau hyn. Yn ôl eraill Mathew, neu Fathias, neu'r Disgybl Annwyl, neu Simon y Cananead yw Nathanael.

Disgrifiad Phylip o'r Meseia ydyw "Iesu, fab Joseff, o Nasareth." Gweler 1^{45}. Ni chymer yr awdur unrhyw sylw o waith Phylip, ac eraill (6^{42}), yn galw'r Iesu yn fab Joseff, ac nid yw'n deg tybio na wyddai ddim am y geni gwyrthiol. Awgryma rhai fod ganddo ofn i'r traddodiad am y geni goruwchnaturiol fwrw amheuaeth ar gynfodolaeth y Gair, trwy roi lle i'r dybiaeth mai trwy'r geni gwyrthiol y daeth yn Fab Duw.

46. **"A dywedodd Nathanael wrtho, A all dim da ddyfod o Nasareth? Tyred a gwel, ebe Phylip wrtho."**

Yr oedd gan Nathanael hawl i ofyn hyn, oblegid nid yw hyd yn oed enw Nasareth yn yr H.D., ac yng Ngalilea yr oedd. Yr oedd yn ddihareb na chyfodai Proffwyd o Galilea (7^{52}). Iesu Grist yn gyfangwbl sydd wedi gwneud Nasareth yn enwog. Cyngor da i un mewn amheuaeth ydyw "Tyred a gwêl." Pan ddown at yr Iesu ei Hun, diflanna pob ryw ragfarn.

47. **"Wel dyma mewn gwirionedd Israeliad heb ddim twyll ynddo"** (C.N.).

Cyfeirir efallai at Jacob y disodlwr yn dyfod yn Israel, tywysog gyda Duw. Y mae ym Mhaul hefyd y syniad am y "wir Israel," a'r Iddew yn y dirgel (Rhuf. 2^{29}). Gweler hefyd Salm 32^{2}: Es. 53^{9}, lle y rhagwelir y wir Israel.

48. **"Sut yr wyt ti'n fy adnabod?"** (C.N.).

Clywsai Nathanael felly y sylw a wnaed arno. Yn ei ateb, "pan oeddit dan y ffigysbren, gwelais di," cyfeiria'r Iesu at ryw ddigwyddiad mawr yn ei fywyd, pan fyfyriai dan y ffigysbren. Yn ôl yr Efengyl hon, yr oedd pob peth yn noeth ac yn agored i lygaid yr Iesu (1^{42}: 2^{25}: 4^{29}).

49. **"Rabbi, ti yw Mab Duw, ti yw brenin yr Israel"** (C.N.). Cenfydd Nathanael, fel Andreas a Phylip, y Meseia yn yr Iesu. Teitlau am y Meseia ydyw Mab Duw, a brenin yr Israel, fel yn ad. 34. Gweler 11^{27}: 12^{13}: Salm 2^{6}, ^{7}. A barnu oddi wrth y cysylltiadau, brenin yr Israel mewn gwirionedd a olygir. Ond y mae'r awdur pan yw'n ysgrifennu yn gwybod mwy nag a wyddai Nathanael.

50. Nid beio Nathanael a wna'r Iesu am na fuasai wedi credu cyn dywedyd ohono **"gwelais di dan y ffigysbren,"** ond llawenhau oblegid ei ffydd barod (MacGregor). **"Cei weled mwy na hyn,"** h.y., na'i fod y Meseia.

51. **"Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Chwi a welwch y nef yn agored ac angylion Duw'n esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn."** Ioan ydyw'r unig un o'r Efengylwyr sy'n defnyddio'r ffurf ddwbl, "Yn wir, yn wir," llyth. "Amen, Amen." Gwna hynny, fel rheol, i gyflwyno mater newydd. Gadawer allan y geiriau "Ar ôl hyn." Y mae dylanwad gweledigaeth Jacob ym Methel (Gen. 28^{12}) ar yr ad. hon, oblegid y mae "angylion" Duw'n esgyn ac yn disgyn yn yr un drefn ag yno, er mai Jacob y disodlwr oedd ef ym Methel.

Ffigur am agosrwydd Duw at ddynion a'i gyfathrach â hwynt ydyw'r "nef yn agored, ac angylion Duw'n esgyn a disgyn." Dyma'r tro cyntaf y defnyddir y teitl "mab y dyn" yn yr Efengyl. Beth yw ystyr y geiriau "gweled y nef yn agored ac angylion Duw'n esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn?" I'w deall rhaid troi'n ôl at adn. 49, 50. I Nathanael, Meseia yn ystyr gyfyng a chenedlaethol y teitl oedd yr Iesu—"Mab Duw, brenin yr Israel." Ond yr oedd ef, ac eraill o gyffelyb ffydd, i weled mwy na hyn—i adnabod yr Iesu fel Mab y dyn, ac i ddeall cynnwys yr ymgnawdoliad, oblegid trwy Fab y dyn y daeth Duw a'r byd anweledig yn *real* i ni.

Beth yw ystyr y teitl "Mab y dyn"?

Gydag un eithriad, yn yr Efengylau yn unig y defnyddir y teitl am yr Iesu (oddeutu 80 gwaith), a hynny ganddo Ef ei Hun, ac amdano'i Hun yn sicr. Yr eithriad ydyw Act. 7^{56}, yng ngenau Steffan wrth farw. Sylwer nad oes neb yn ei ddefnyddio yn y T.N. ond Iesu Grist. Efallai nad yw hyn yn gwbl gywir, oblegid y mae'n bosibl fod yr awdur hwn yn ei ddefnyddio am yr Iesu, megis yn 3^{13}, ^{14}. Ond y mae'n amlwg na ddaeth y teitl am Grist yn un poblogaidd yn yr Eglwys fore. Peth arall sy'n sicr ydyw na chymerai neb y teitl yng ngenau'r Iesu yn gyfystyr â Meseia—neb o'i gyfeillion na neb o'i elynion.

Pan ofynnodd yr Iesu i'w ddisgyblion, yn ôl Math. 16^{13}, "Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i, Mab y dyn?" a phan atebodd Pedr dros y disgyblion "Ti yw'r Crist," cafodd ganmoliaeth mawr am ei ateb. Ond ni fuasai'n haeddu hynny petasai Mab y dyn a

Meseia yn golygu'r un peth iddo. Tybia rhai mai oherwydd y dirgelwch a berthynai i'r teitl y defnyddiai'r Iesu ef amdano'i Hun. Ond fel enw ar y Meseia yr esbonnid ef yn Dan. 7^{13}; ac yn llyfr Enoch (O.C. 80), teitl personol am y Meseia ydyw, yn nhyb rhai. Oherwydd yr ystyr Fesseianaidd a roddid iddo yn ei ddydd Ef, dewisodd yr Iesu ef yn enw arno'i Hun gan honni mai Ef oedd y Gwaredwr a ddisgwylid gan ei genedl ar hyd yr oesoedd, ac nad iddi hi yn unig yr oedd yn Waredwr, ond i ddynoliaeth gyfan. Y mae'r ystyr gyfrin hon yn y teitl y waith gyntaf y defnyddir ef yn yr Efengyl hon, oblegid trwy Fab y dyn y sefydlir y cymundeb bythol rhwng nef a daear, Duw a dyn.

PENNOD II.

Adn. 1–11. TROI'R DWFR YN WIN.

Yn Efengyl Ioan yn unig y cofnodir y Wyrth hon, a geilw'r awdur hi yr "arwydd" cyntaf a wnaeth yr Iesu, ac iddi amlygu ei ogoniant, ac ennill ei ddisgyblion i gredu ynddo. Yng ngolau'r ddau beth olaf hyn, yn bennaf, yr edrych Ioan ar y gwyrthiau—datguddiant y gogoniant a berthynai i'r Iesu, a thystiant i'w genhadaeth ar y ddaear. Ni phwysleisir y gwirionedd mai gan dosturi y cymhellir hwynt, na bod ffydd yn amod, fel y dangosir yn yr Efengylau eraill. Gair pwysig yn yr Efengyl ydyw "tystiolaeth," ac fel tystion yr edrychir ar y gwyrthiau. Eu hamcan yng ngolwg yr awdur ydyw cynyrchu ffydd trwy ddatguddio personoliaeth oruwchnaturiol yr Iesu, a neges ei ddyfodiad. Weithiau, ond nid bob amser, y mae'r wyrth yn "arwydd" o ryw wirionedd am Grist. Efallai y gellir dweud hynny am roi golwg i'r Dall, ac am atgyfodiad Lasarus.

Am Droi'r dwfr yn Win y mae amryw olygiadau.

1. Cred rhai mai dameg, neu alegori, ydyw wedi ei seilio ar ddysgeidiaeth yr Iesu (Marc 2^{22}) ynghylch costrelau hen a gwin newydd.
2. Mai stori ydyw a ddyfeisiwyd gan yr awdur i ddysgu fod yr Iesu wedi troi dwfr Iddewiaeth yn win Efengyl.
3. Fod yr awdur yn credu i'r Iesu'n llythrennol droi dwfr yn win, fel y dywedir, ond nad hanes yn unig ydyw iddo ef, eithr arwydd hefyd o weinidogaeth chwyldroadol yr Iesu.
4. Nad dameg na stori, ond hanes gwir ydyw.

Nid oes a wnelo'r syniadau hyn ddim â'r cwestiwn mwy—a allai'r Iesu droi dwfr yn win, neu'r posibilrwydd o wyrth. Y mae credu y gallai yn hawdd i bawb a gred yn ymgnawdoliad y Gair tragwyddol.

A ellir cyfiawnhau gwyrth mor aruthrol tan y fath amgylchiadau yw'r cwestiwn. Fel y ceir gweled, ni ddengys yr awdur iddi wneud argraff neilltuol.

1. Yr Iesu yng Nghana Galilea.

"Y trydydd dydd"—ar ôl galw Phylip a Nathanael. Tybia rhai bod hwn y seithfed dydd a chyfrif o 1^{19}, a bod yr awdur yn cyfrif dyddiau'r byd newydd hwn, fel y gwneid yn nechrau'r hen fyd (Gen. 1). Yr oedd "Cana yng Nghalilea" (4^{46}: 21^{2}) oddeutu wyth milltir y fan bellaf o Nasareth. Brodor oddi yno oedd Nathanael.

"Mam yr Iesu," ebe Ioan bob amser (2^{12}: 6^{42}: 19^{25}), ac nid Mair o gwbl. Yr oedd a wnelo hi rywbeth â'r briodas, y mae'n ymddangos. Yn ôl un traddodiad priodas Ioan fab Sebedeus ydoedd hon, ac yr oedd mam yr Iesu yn fodryb iddo, chwaer i Salome ei fam. Ond yn ôl traddodiad arall, mab dibriod a fu Ioan fab Sebedeus ar hyd ei oes.

2. Hwn yw'r cyfeiriad cyntaf yn yr Efengyl at "*ddisgyblion*" yr Iesu. Fel yn yr Efengylau eraill, defnyddir y gair am y deuddeg, ac amdanynt hwy ac eraill (20^{30}). Ni wyddom pa nifer o'r deuddeg a oedd yn y briodas.

3. **"A phan ballodd gwin, medd mam yr Iesu wrtho, Nid oes ganddynt win"** (C.N.).

Mam yr Iesu yn siarad fel hyn am y gwin yn pallu ydyw'r Eglwys Iddewig yn cydnabod ei methiant, yn ôl syniad rhyfedd rhai. I'r Iesu yr edrydd Mair yr anffawd, oblegid yr oedd ganddi ffydd yn ei allu Ef, a gwelai gyfle iddo i'w amlygu. Ond nid oes gennym hanes iddo gyflawni gwyrth cyn hyn.

4. **"Ac medd yr Iesu wrthi, 'Beth sydd rhyngof ā thi, wreigdda?'"** (C.N.). Yn llythrennol, "Beth i mi â thi?" Gweler ymyl y ddalen, a Barn. 11^{12}: 2 Sam. 16^{10}. Yr ystyr ydyw "Gad y mater i mi." Dengys 19^{26} mai o barch y geilw'r Iesu ei fam yn "wraig." Ond y mae'n bosibl ei fod yn awgrym nad oes ganddi awdurdod drosto bellach. Y cwbl a olyga "ni ddaeth fy awr i eto" yn y fan hon ydyw y gŵyr Ef pa bryd i ymyrryd. Ond yn 7^{8}: 8^{20}: 12^{23}: 13^{1}, y mae i'r ymadrodd ystyr ddyfnach.

5. Gwêl Mair oddi wrth ei ateb y bydd iddo gyfryngu yn ei amser da ei Hun.

6. **"Ac yr oedd yno chwe dyfrlestr maen wedi eu gosod yn ôl defod glanhad yr Iddewon, yn dal dau neu dri ffurcyn bob un"** (C.N.).

Cyfle i'r gwahoddedigion i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyd oedd y dyfrlestri. Daliai pob un ohonynt oddeutu 20 galwyn, a'r cwbl efo'i gilydd 120 galwyn.

Y mae'r awdur yn hysbys yn arferion crefyddol yr Iddewon. Er mwyn Groegiaid anghyfarwydd y dywaid "yn ôl defod glanhad yr Iddewon."

7. **"Hyd yr ymyl,"** i ddangos, efallai, nad oedd dim ond dwfr yn y dyfrlestri. Nid wrth fesur y bydd yr Iesu'n rhoi bendithion (1^{16}). Ond sylwer na ddywedir mai ar orchymyn yr Iesu y llanwyd hwy *hyd yr ymyl*.

8. **"Tynnwch allan yn awr a dygwch i lywydd y wledd: dygasant hwythau"** (C.N.).

Y mae'r ad. hon yn amwys, am na ddywaid yn bendant o ba le y dygwyd y dwfr a wnaed yn win.

Yr un gair yw "Gollyngwch," neu "tynnwch allan" â "codi ŵfr" o ffynnon yn 4[15]. Am y rheswm hwn dadlau Westcott mai yn syth o'r ffynnon y codwyd y dwfr hwn a ddygwyd i lywydd y wledd, ac mai'r unig ddwfr a droed yn win oedd y dwfr a godid o'r ffynnon yn ôl yr alwad. Ar y llaw arall, dywaid Dr. Bernard y gellir defnyddio'r gair "gollwng" yn gwbl briodol am dywallt dwfr o lestr mawr, fel y dyfrlestri, i lestr llai. Felly, eb ef, y golchid dwylo'r gwahoddedigion, trwy dywallt ar eu dwylo o lestr bach ddwfr a godasid o'r dyfrlestri. Gwyddai'r llywydd oddi wrth y math ar lestr a ddygwyd iddo mai gwin i'w brofi a oedd ynddo. Y mae'n anodd gwybod i ba amcan y llanwyd y dyfrlestri, os y dwfr a ddygwyd yn syth o'r ffynnon a wnaed yn win.

9. **"Pan brofodd llywydd y wledd y dwfr a aethai'n win"** (C.N.).

Nid y dwfr a oedd yn y dyfrlestri a brofwyd ganddo, ond y dwfr a ddygwyd iddo, un ai o'r ffynnon, neu ynteu o'r dyfrlestri. Y mae'n anodd credu i'r Iesu droi'r holl ddwfr yn 120 galwyn o win.

Petai'r gwin a yfid y pryd hwnnw yn anfeddwol, neu'n ddieples, symudid peth o'r anhawster. Ond camsyniad a fyddai tybio hynny. I rai pobl y mae'n gymaint o broblem credu i'r Iesu droi ychydig o ddwfr yn win â chredu iddo droi 120 galwyn. Troi pob diferyn o win yn ddwfr a wnâi ambell un ohonom ni pe gallai. Sonia Dr. Bernard am y syniad a ddeil rhai na throes yr Iesu y dwfr yn win o gwbl, ond mai peri i'r gwestai gredu eu bod yn yfed gwin a wnaeth, a hwythau mewn gwirionedd yn yfed dim ond dwfr.

Ni wyddai'r llywydd o ba le yr oedd y dwfr a aethai'n win, ac felly y mae ei glodydd ef yn gwbl ddiduedd.

10. Gwna'r llywydd gryn stŵr o'r digwyddiad. Geilw'r priodfab a dywaid wrtho, "**Bydd pawb yn rhoddi'r gwin da i ddechrau, yna pan fônt feddw y gwin gwaelach**" (C.N.).

Pan fônt feddw ydyw ystyr briodol y geiriau "wedi iddynt yfed yn dda." Ni sonnir dim am yr argraff a wnaed ar feddwl eraill. Geiriau cyrhaeddgar yw'r rhai sy'n cloi'r stori: **"Tithau, cedwaist y gwin da hyd yn awr"** (C.N.). "Gras am ras" (1[16]).

11. Dyma'r ffordd orau i gyfleu'r ad. hon: **"O'r arwyddion a wnaeth yr Iesu hon yng Nghana Galilea oedd y gyntaf, ac amlygodd ei ogoniant, a chredodd ei ddisgyblion ynddo."**

Dywaid E. F. Scott fod y wyrth hon yng ngolwg yr awdur yn mynegi pwrpas dyfodiad yr Iesu i'r byd—trawsnewid y ddynoliaeth i rywbeth uwch a chyfoethocach. Am y rheswm hwn y geilw hi yn "arwydd," ac y dywaid fod ei weithredoedd yn dystion iddo (5[36]: 6[26]).

Adn. 12–22. GLANHAU'R DEML.

Yn wahanol i'r Efengylau Synoptig, dyry Ioan y weithred o lanhau'r Deml yn nechrau gweinidogaeth yr Iesu, yn lle ar ei diwedd. Y mae'n anodd credu bod hynny'n gywir—y buasai'n cyflawni gweithred mor ysgubol a honiadol mor gynnar yn ei fywyd cyhoeddus. Y mae'n haws credu mai wedi iddo ennill y bobl gydag Ef y buasai'n protestio fel hyn yn erbyn traha'r bendefigaeth. Erbyn ei ymweliad olaf â Jeriwsalem gellid dweud bod y byd wedi myned ar ei ôl (12[19]), ond pan aeth i Jeriwsalem y tro hwn yr oedd yn gwbl ddieithr. Ni wyddom paham y gesyd Ioan hi yn y lle hwn, ond y mae'n gwbl gyson â'r honiadau mawr a rydd ef yng ngenau'r Iesu o'r dechrau. Beth oedd amcan yr Iesu yn y weithred? Yn ôl rhai, protestio yn erbyn y gyfundrefn aberthol yn gyfangwbl, megis y cymerasai ei safle cyn hynny yn erbyn y Saboth Iddewig, beichus a chaeth. Ym marn eraill, condemnio y masnachu hy o fewn y deml, a'r budr elwa ynglŷn ag ef.

12. **I Gapernaum am ychydig o ddyddiau.**

Y mae'r cwmni hyd yma yn gymysg—yr Iesu, a'i deulu, a'i ddisgyblion. Yr oedd o Gana i Gapernaum bellter o tuag 20 milltir. Ychydig o ddyddiau a arosasant yng Nghapernaum am fod Gŵyl y Pasg yn agos. Sonnir am "ei frodyr" eto (7[5]). Dywaid Ioan, fel yr Efengylwyr eraill, nad oeddynt yn credu yn yr Iesu. Ond daeth Iago yn Esgob cyntaf Jeriwsalem. Yr oeddynt un ai'n frodyr cyfain i'r Iesu, ac yn ieuangach nag Ef, neu ynteu'n feibion i Joseff yn unig, o briodas flaenorol. Cyn O.C. 200 tyfodd syniad yn yr Eglwys Gristionogol am Foryndod Mair. Buasai'n anodd o leiaf iddo dyfu i fyny, ebe Dr Bernard, a rhai o'r brodyr hyn yn amlwg yn yr Eglwys, un ohonynt yn Esgob Jeriwsalem, oni bai mai'r olaf o'r ddau sy'n wir—mai meibion i Joseff o briodas flaenorol oeddynt.

13. **"Ac yr oedd pasg yr Iddewon yn agos ac aeth yr Iesu i fyny i Jeriwsalem."**

Y mae'n amlwg oddi wrth lawer o bethau yn yr Efengyl hon fod yr awdur yn Iddew, ac yn gyfarwydd iawn ag arferion yr Iddewon. Ond sylwer arno'n dweud "pasg yr Iddewon," a "gŵyl yr Iddewon" (5[1]: 6[4]: 7[2]: 11[55])—er mwyn darllenwyr Groeg, yn ddiau.

14. **Yn y Cysegr allan, cyntedd y Cenhedloedd, y cynhelid y farchnad.** Y mae yn y paragraff hwn ddau air Groeg a gyfieithir yn "deml," fel y ceir egluro eto. Golyga'r un sydd yma, ac yn 15 (hieros) yr holl adeilad, y cysegr.

Cyfle i ddieithriaid, ac eraill, i brynu defaid ac ychen a cholomennod i'w haberthu, ac i newid arian Rhufeinig i arian Iddewig er mwyn

talu'r dreth deml—dyna oedd y fasnach a gynhelid yn yr ŵyl hon.

15. Ioan yn unig a ddywaid i'r Iesu wneud **"fflangell o reffynnau."** Y mae'r sylw yn awgrymu llygad-dyst, ebe Dr. Bernard. Yn ôl traddodiad yr oedd y Meseia i ymddangos â fflangell, ac felly yn llaw'r Iesu yr oedd yn arwyddlun o awdurdod. Ni ellir bod yn bendant i'r Iesu fwrw'r gwerthwyr a'r prynwyr allan, oblegid y ffordd gywir o gyfieithu ydyw—**"bwriodd hwy oll allan o'r cysegr, y defaid a'r ychen."** Ond am y newidwyr arian, gwnaeth waith ysgubol arnynt hwy—tywallt allan eu harian a dymchwelyd eu byrddau. Y mae'n anodd dychmygu dim mwy beiddgar, ac yn anos na hynny credu iddo wneud hynny ar ddechrau ei weinidogaeth.

16. **Dengys yr Iesu gwbl lywodraeth dros ei deimladau.**

Buasai ambell un ohonom ni mewn tymer ddrwg yn bwrw allan y cewyll colomennod. Ond â Ef at y gwerthwyr colomennod a dywaid wrthynt, **"Eweh â'r pethau yna allan"** (C.N.). Dylid rhoi atalnod ar ôl y gair "allan." Wedi clirio popeth allan, llefodd wrth bawb, **"Na wnewch dŷ fy Nhad yn dŷ marchnad."** Ymddengys oddi wrth hyn mai protest yn erbyn camddefnyddio'r Cysegr ydyw, nid yn erbyn y gyfundrefn aberthol. Ni sonia Ioan ddim am fudr-elwa chwaith, fel y gwna Marc (11^{17}).

Er bod yr ymadrodd "fy Nhad" (nid *ein*, na *eich* Tad) yn un eithriadol ac awgrymiadol, ni ddywedir yma fod neb yn synnu ato. Ymddengys y gwneir hynny yn 5^{18}. Gweler Luc 2^{49}.

17. **"Cofiodd y disgyblion fod yn ysgrifenedig, Sêl dy dŷ di a'm hysa i."**

Ioan yn unig a edrydd hyn. Cofiodd y disgyblion air y Salmydd (69^{9})—Salm a ystyrid yn rhagfynegiad o'r Meseia, ac a ddyfynnir yn y T.N. yn amlach nag unrhyw un. Yng ngolau'r weithred feiddgar hon gwelsant y Meseia yn yr Iesu. Troesant air y Salmydd ("a'm hysodd i") i "Sêl dy dŷ di a'm hysa i" (amser dyfodol) fel pe rhagwelent y diwedd, y marw ar Galfaria. Cred rhai mai praw ydyw hyn o atgofion un a oedd yno—Ioan fab Sebedeus—ac eraill, ar y llaw arall, mai'r awdur ymhell ar ôl hynny sy'n esbonio'r weithred yng ngolau'r Groes a oedd erbyn hynny'n ffaith.

18. **Daw'r Iesu i wrthdrawiad â'r Iddewon.**

Yn y weithred gwelant ymhoniad o awdurdod Diwygiwr, a gofynant am "arwydd" i brofi hynny. Y mae'r awdur yn gwbl gyson â'r Efengylau Synoptig (Math. 16^{1}: Marc 8^{11}: Luc 23^{8}).

19. Gwrthyd yr Iesu ddangos iddynt arwydd. Yn lle hynny rhy her iddynt: **"Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau**

cyfodaf hi." Yn y modd gorchmynnol y mae'r ferf—Dinistriwch, os mynnwch, nid, chwi a ddinistriwch. Gweler enghraifft gyfystyr ym Math. 23^{32}. Y mae'r gair am "deml" yma, ac yn 20, 21, yn wahanol i'r un sydd yn 14 a 15. Golyga hwn (*naos*) y cysegr sanctaidd, preswyl Duw, nid yr holl adeilad fel y llall (*hieros*). Felly pan ddywaid yr Iesu, "Dinistriwch y deml hon," yr hyn a olyga ydyw'r deml yn Jeriwsalem, ond nid fel cerrig a morter, eithr fel canolfan bywyd ysbrydol, neu addoliad y genedl. Yn ôl Marc hefyd (13^{2}) rhagwelai Ef gwymp y deml o achos cildynrwydd yr Iddewon. Dyna'r ystyr sydd i deml yn y fan hon, yn ôl ein tyb ni.

Ond beth a olyga "ac mewn tridiau atgyfodaf hi"? h.y., y deml. Gellid disgwyl yn naturiol mai'r un peth ydyw "hi" â "y deml hon." Os y deml yn Jeriwsalem ydyw "y deml hon," yna y deml yn Jeriwsalem hefyd a atgyfodir mewn tridiau. Ar un olwg y mae hynny'n wir, ac ar olwg arall nid yw felly. Y deml yn Jeriwsalem fel y cynrychiola fywyd ysbrydol y genedl a ddinistrir, ond teml arall ysbrydol, lle'r addolir y Tad mewn ysbryd a gwirionedd, a atgyfodir yn ei lle. Yn ôl Mathew (26^{61}) a Marc (14^{58}) un cyhudd iad a ddygwyd yn erbyn yr Iesu yn ei Braw oedd iddo ddweud "Mi a ddinistriaf y deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau adeiladaf arall heb fod o waith llaw." Nid yw o bwys mawr mai "Dinistriwch" a ddywaid Ioan ac mai "Mi a ddinistriaf" a ddywaid yr Efengylwyr eraill, oblegid gŵyrdroid geiriau'r Iesu o flaen y llysoedd.

Nid yw "mewn tridiau," o anghenraid, yn golygu ar y trydydd dydd. Efallai mai o fewn tridiau, neu mewn byr amser, a ddynoda. Ond yn ôl Mathew (16^{21}) a Luc (9^{22}) rhagfynegodd yr Iesu yr atgyfodai ar y trydydd dydd.

20. Camddeallwyd Ef gan yr Iddewon, fel y gellid disgwyl. Peth mynych yn yr Efengyl ydyw dywediad tywyll, ei gamddeall, a'i egluro. Nid oedd dim yn fwy naturiol nag iddynt dybio mai'r deml yn Jeriwsalem yn gerrig a morter a olygai'r Iesu. Ond hyn sydd yn syndod, iddynt anwybyddu'r geiriau "Dinistriwch y deml hon," a dal yn unig ar y geiriau "ac mewn tridiau atgyfodaf hi."

"Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu'r deml hon," h.y. y mae hynny o amser er pan ddechreuwyd ei hadeiladu, ac nid yw wedi ei chwblhau eto. Yn y flwyddyn C.C. 20 y dechreuwyd, ac yn O.C. 64 y gorffennwyd ei hadeiladu. Cyfrifir fod y Pasg hwn felly yn y flwyddyn O.C. 27, neu 28. Y mae'r cywirdeb manwl hwn yn braw bod rhywun cyfarwydd â'r ffeithiau y tu ôl i'r adroddiad.

21. **" Ond am deml ei gorff y dywedai ef."**

Dyma eglurhad yr awdur ar y dywediad cyfrin yn ad. 19, ac y mae'n un o'r rhai anhawsaf yn yr Efengyl. Enghreifftiau eraill o nodiadau eglurhaol ydyw 4^{2}: 6^{23}: 11^{51}: 12^{6}: 18^{32}.

Yn ein tyb ni eglurhad ar y geiriau " ac mewn tridiau atgyfodaf hi " (19) *yn unig* ydyw'r ad. hon. Nid oes a fynno â'r geiriau " Dinistriwch y deml hon " (19). Anwybyddwyd y rhai olaf hyn gan yr Iddewon hefyd, a gofynasant yn unig " a atgyfodi di hi mewn tridiau " ? Felly nid hyn ydyw eglurhad yr awdur—" Dinistriwch fy nghorff ac atgyfodaf ef ar y trydydd dydd." Yn hytrach, teml ei gorff yng ngolwg yr awdur ydyw'r Eglwys Gristionogol a atgyfodir ar ludw'r grefydd Iddewig. Yn 2 Cor. 6^{16} gelwir y credinwyr yn " deml Dduw " : yn Col. 1^{18} yn " gorff Crist " : yn 1 Pedr 2^{5} yn " dŷ ysbrydol." Ar y llaw arall, ni ddywedir yn unman fod Crist yn deml Dduw. Teml ei gorff ydyw'r deml nid o waith llaw, yn ôl Marc 14^{58}.

22. **" Felly pan gyfododd o feirw, cofiodd ei ddisgyblion iddo ddywedyd hyn, a chredasant yr Ysgrythur a'r gair a ddywedodd yr Iesu."**

Ceir enghraifft debyg yn 12^{16}. " Pan atgyfododd o feirw, cofiodd y disgyblion iddo ddywedyd hyn." Gadawer allan y geiriau " wrthynt hwy," oblegid at yr hyn a ddywedodd wrth yr Iddewon y cyfeirir. Ond beth ydyw " hyn " ? Yn sicr, y geiriau " ac mewn tridiau atgyfodaf hi," yn ad. 19, rheswm ychwanegol tros ddweud mai eglurhad ar y geiriau hynny yn unig ydyw ad. 21. Ni chwalwyd y deml yn Jeriwsalem hyd y flwyddyn O.C. 70. Ond yr oedd yr Eglwys Gristionogol wedi ei hatgyfodi ymhell cyn hynny, trwy rym ei atgyfodiad Ef. Gellid ar yr wyneb dybio mai'r hyn a ddywedir ydyw i'r disgyblion gofio, pan atgyfododd o feirw, iddo ddweud y cyfodai ar y trydydd dydd. Ond nid yw mewn tridiau yn golygu o raid ar y trydydd dydd. Yr ydym yn cydnabod na ddylid taflu ymaith yr esboniad hwn yn ddibris, ond i'n tyb ni y llall ydyw'r gorau. Pa " ysgrythur " a gredwyd ganddynt ? Ym marn rhai, Salm 16^{10}, a ddyfynnir yn Act. 2^{31}: 13^{35}, ac a esbonnid yng ngolau atgyfodiad Crist o'r bedd. Os hyn sy'n gywir y mae'n ffafrio'r esboniad mai'r trydydd dydd a feddylir wrth " mewn tridiau," ond nid yw'n gwrthddweud yr eglurhad a dderbyniwyd gennym.

Adn. 23–25. DYLANWAD EI WEINIDOGAETH YN YR ŴYL.

23. **" Credodd llawer yn ei enw, wrth weled yr arwyddion a wnai."** (C.N.).

Gweler 1^{12} am yr ymadrodd "credu yn ei enw." Ei arwyddion oedd yr atyniad mawr i'r rhain. Gweler 6^{26}.

24. **"Ond nid oedd yr Iesu yn ei ymddiried ei hun iddynt, am ei fod yn eu hadnabod oll."**

Yn fynych iawn pwysleisir gwybodaeth wyrthiol yr Iesu (1^{48}: 4^{29}: 6^{64}: 13^{11}).

25. **Nid oedd angen arno ef i neb dystio am ddyn, oherwydd gwyddai ef beth oedd mewn dyn.**

Y mae'n hawdd gweled oddi wrth sylw fel hyn gan yr Efengylydd ei hun fod yr hyn a ddywedir am y Gair yn y Rhagarweiniad yn lliwio'r Efengyl. Y Gair a ddaeth yn gnawd yw'r Iesu.

Adn. 1–10. YR IESU A NICODEMUS.

1. **" Ac yr oedd dyn o'r Phariseaid, Nicodemus wrth ei enw, Cynghorwr ymhlith yr Iddewon."**

Nid oes sôn am Nicodemus yn yr Efengylau Synoptig, ond gwneir hynny deirgwaith yn hon (7^{50} : 19^{39}).

Cymeriad ffug ydyw o ddyfais yr awdur yn syniad rhai, yn cynrychioli Iddewiaeth diwedd y ganrif gyntaf. Ond y mae'n anodd dygymod â hyn yng ngolau'r hyn a ddywedir amdano yn 7^{50} : 19^{39}. Yn y Talmwd enwir un Nicodemus a oedd yn un o ganlynwyr yr Iesu, a fu byw hyd ddinistr Jeriwsalem (O.C. 70). Cred rhai mai'r un un yw â'r llywodraethwr ieuanc a ddaeth at yr Iesu â neges debyg i hon (Marc 10^{17}). Yr oedd, ebe Ioan, yn un o'r Phariseaid, yn aelod o'r Sanhedrin (7^{50}), ac yn gyfoesthog (19^{39}).

Deil Dr. Bernard fod yr hanes hwn am Nicodemus yn ddiweddarach yng ngweinidogaeth yr Iesu yn ôl yr Efengyl yn wreiddiol, a bod rhywun wedi ei symud i'r cysylltiad hwn.

2. **" Daeth hwn ato yn y nos "** (C.N.), rhag ofn yr Iddewon, efallai, neu ynteu am fod yn haws cael ymddiddan cyfrinachol â'r Iesu. Cyfeirir at y ffaith yn 19^{39}. I rai esbonwyr tywyllwch ei feddwl ydyw nos.

Gan bwy, tybed, y cafodd y Tyst, neu'r Efengylydd, yr hanes hwn, a'r ymddiddan rhwng yr Iesu a'r wraig o Samaria, onid oedd rhywun heblaw'r Iesu a'r person yn bresenno! ?

Teitl o barch ydyw " Rabbi " (1^{38}). I Nicodemus, fel i eraill (9^{16}), yr oedd yr " arwyddion " yn braw ddyfod yr Iesu oddi wrth Dduw.

3. **" Atebodd Iesu a dywedodd wrtho."**

Ateb i'w ffydd hanerog ydyw'r ad. hon. Nid yw gweled yr arwyddion yn ddigon, y mae'n rhaid cin geni drachefn. Neu gwyddai'r Iesu, efallai, mai ymofyn am y bywyd tragwyddol (Marc 10^{17}) y mae Nicodemus.

" Oddieithr geni dyn drachefn ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." Gair amwys iawn ydyw " drachefn." Gall olygu " drachefn " (Gal. 4^{9}) : " o newydd " : neu " oddi uchod " (3^{31} : 19^{11} : Iago 1^{17} : 3^{15} : Marc 15^{38}). Ymddengys oddi wrth ad. 4 i Nicodemus ei gymryd i olygu " drachefn," ond y mae camddeall rhyw wirionedd cyfrin yn beth mynych yn yr Efengyl hon. " Oddi uchod," yn ôl ein tyb ni, yw'r ystyr gysonaf â'r hyn a ddywedir mewn mannau eraill yn yr Efengyl (3^{5} : 1^{13}), a'r ateb gorau i'r syniadau paganaidd am aileni a ddysgid yn y ganrif gyntaf. Ymad-

rodd mynych yn yr Efengylau Synoptig ydyw "teyrnas Dduw," ond yr unig enghreifftiau ohono yn Ioan ydyw ad. 5 ac yma. Am fywyd a bywyd tragwyddol y sonia Ioan. Ond cym. Marc 10[15].

Defnyddir "gweled" fel yn 8[51], am brofiad o beth, ac y mae'n gyfystyr â "myned i mewn" (ad. 5).

4. Os cymerir ateb Nicodemus yn llythrennol, ymddengys yn un hurt iawn, y darn olaf ohono yn arbennig: **"a all ef fyned i mewn yn ei ôl i groth ei fam a'i eni?"** (C.N.). Ei anhawster cyntaf ydyw "pa fodd y gall dyn gael ei eni ac yntau'n hen ŵr"? Tybia Plummer mai cellwair a wna. Ond y mae'n haws gennym ni gredu nad yn llythrennol y dylid ei gymryd, ac mai yn syniadau paganaidd yr oes am aileni y ceir y golau arnynt. Dadlau rhai mai dyma'r ystyr—fod mor amhosibl newid calon dyn a fyddo wedi ymsefydlu mewn pechod, ag a fyddai i un fyned yn ôl i groth ei fam a'i eni.

5. **"Atebodd Iesu, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oni bydd dyn wedi ei eni o ddwfr ac Ysbryd, ni all fyned i mewn i deyrnas Dduw."**

Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng yr ad. hon ag ad. 3. Yn lle "geni oddiuchod" ceir geni "o ddwfr ac ysbryd": yn lle "gweled" y deyrnas ceir "myned i mewn."

Yr Ysbryd Glân yn sicr a olygir wrth "ysbryd" er na ddefnyddir y fannod. Ond beth yw geni "o ddwfr"? Yn ddieithriad bron esbonnir ef i olygu bedydd, un ai bedydd y Bedyddiwr, neu ynteu'r bedydd Cristionogol. Priodola'r awdur yr ad. hon i'r Iesu, ond y mae i gredu hynny ei anhawster, pa un bynnag ai bedydd Ioan neu ynteu'r bedydd Cristionogol y cyfeirir ato. Y mae'n anodd credu y buasai'r Iesu'n gwneud ymostwng i fedydd Ioan yn amod y geni oddi uchod. Peth arall, y mae cysylltu bedydd Ioan â'r Ysbryd Glân efo un arddodiad ("o ddwfr ac ysbryd," nid "o ddwfr ac o'r Ysbryd"), a phriodoli geni i fedydd Ioan fel i'r Ysbryd, yn gwbl groes i'r gwahaniaeth a wneir rhwng gweinidogaeth y Bedyddiwr a gweinidogaeth yr Iesu (1[33]).

Os geiriau'r Iesu'n unig yw'r rhain, ac os at y bedydd Cristionogol y cyfeirir, yna gosodir ymostwng i fedydd nad oedd eto mewn bod yn amod myned i mewn i deyrnas Dduw.

Ar ôl hyn, wrth gwrs, y sefydlwyd y bedydd Cristionogol ac y daeth yn ymrwymiad o ffyddlondeb i Grist.

Yr unig ffordd, yn ein barn ni, i ddyfod allan o'r anhawster ydyw credu mai "eni o'r Ysbryd" yn unig a ddywedodd yr Iesu, ac mai'r Efengylydd biau'r geiriau "o ddwfr."

Y mae "geni o ddwfr" yn ymadrodd cryf, ac yn yr ad. hon, fel y dywedwyd, yn gyfochrog â'r syniad o "eni o'r Ysbryd." Y rhes-

wm am hyn ym marn rhai ydyw y priodolid effeithiolrwydd cyfriniol i'r Bedydd Cristionogol yn y ganrif gyntaf. Yr un peth ydyw geni "o Ysbryd" ag yw geni "oddi uchod" yn ad. 3, fel mai'r unig chwanegiad yn hon ydyw "geni o ddwfr." Y mae "geni o Dduw" yn nodweddiadol o Ioan (1^{13}: 1 Ioan 4^{7}: $5^{1, 18}$).

6. **"Yr hyn a aned o'r cnawd, cnawd yw, a'r hyn a aned o'r ysbryd, ysbryd yw"** (C.N.).

Ateb yw'r ad. hon i gwestiwn Nicodemus yn ad. 4. Nid trwy fyned yn ôl i groth ei fam y gall dyn gael ei eni'n ysbrydol, oblegid cnawd ydyw cynnyrch cnawd, ac o'r ysbryd y genir ysbryd. Yn y golau hwn datganiad cyffredinol ydyw'r ad. hon. Y mae ystyr arall yn bosibl—na all dyn trwy nerth ei ewyllys ei achub ei hun, ond bod yn rhaid iddo ddyfod tan ddylanwad nerthoedd Ysbryd Duw. Yn ôl hyn, yr Ysbryd Glân ydyw'r "ysbryd."

7. **"Na ryfedda ddywedyd ohonof wrthyt, Rhaid yw eich geni chwi oddi uchod."**

Cyfieither "drachefn" yn "oddi uchod," fel yn ad. 3, yr hwn sy'n gyfystyr â "o'r ysbryd" yn ad. 5. Sylwer fel y mae'r Iesu yn gwasgu'r gwirionedd adref trwy ddweud "chwi" yn lle "dyn" (3). Ni ddywaid "ni" chwaith gan ei gynnwys Ef ei Hun. Ef ydyw'r unig eithriad.

8. Dyma'r ffordd orau o gyfieithu'r ad. hon: **"Y mae'r Ysbryd yn anadlu lle y myn, ac yr wyt yn clywed ei lais, ond ni wyddost o ba le y mae'n dyfod nac i ba le y mae'n myned: felly y mae pob un a aned o'r Ysbryd."** Yn y C.N. fel hyn y cyfieithir—"Mae'r gwynt yn chwythu lle y myn," etc. Yr un gair (*pneuma*) yn y Roeg ydyw'r un a gyfieithir yn "wynt" a'r hwn a gyfieithir yn "Ysbryd" yn yr ad. hon, ac yn adn. 5, 6. Ni olyga *pneuma* wynt yn unman arall yn y T.N. Gair arall (*anemos*) a ddefnyddir bob amser. Ond chwythu ydyw ystyr y ferf o *pneuma* bob amser yn y T.N., ac eithrio 'r ad. hon, efallai.

Am y gair arall, a gyfieithir "sŵn" yn yr hen gyfieithiad, llais a olyga'n wastad yn yr Efengyl hon. Ond sut bynnag ei cyfieithir, y mae'n anodd deall pwynt yr adnod. Os yw'r cyfieithiad a dderbynnir gennym yn gywir, y meddwl yw fod yr hwn a aned o'r Ysbryd, fel yr Ysbryd ei Hun, tu hwnt i'n dirnadaeth. Ond y mae'n anodd deall, er hynny, y cysylltiad ag ad. 7, ac â'r cyd-destunau.

Yn 8^{14}: 9^{29} pwysleisir y dirgelwch a berthyn i Grist mewn ymadroddion tebyg i'r ad. hon.

Dywaid Dr. Bernard mai yn y drydedd ganrif yr esboniwyd yn gyntaf yr ad. hon i olygu "y mae'r gwynt yn chwythu."

9. **"Atebodd Nicodemus . . . Pa fodd y gall y pethau hyn fod?"**

Nid ar y *pa fodd* y mae'r pwyslais yn awr, oblegid y mae Nicodemus o'r diwedd yn deall mai am gyfnewidiad ysbrydol y llefara'r Iesu, ond ar y posibilrwydd.

Hwn yw'r gair olaf a ddywaid Nicodemus. Wedi ei synnu y gadewir ef.

10. **" Oni wyddost ti'r pethau hyn, a thithau'n ddysgawdwr yn yr Israel ?"** (C.N.).

Ac yntau fel dysgawdwr yn hyddysg yn ei Feibl, dylasai wybod rhywbeth am weithrediadau dirgel yr Ysbryd (Salm 139 : Esec. 36^{26}).

11. Gesyd yr awdur yr ad. hon yng ngenau'r Iesu, ond gan mai aileni yw'r pwnc, neu weithrediad yr Ysbryd Glân yn y cyfnewidiad hwnnw, y mae'n ad. ryfedd oddi ar wefusau'r Iesu, oblegid yn ei enw'i Hun y llefara Ef bob amser, hyd yn oed yn yr ad. nesaf (^{12}). Yma y ffurfiau lluosog a geir—*a wyddom*, a *welsom*, *a'n* tystiolaeth *ni*. Sylwer hefyd debyced yw hon i ad. 32, am Grist yn y trydydd person. Y gamp yn aml yn yr Efengyl hon ydyw gwybod pa un ai'r Efengylydd, neu ynteu rhywun arall sy'n llefaru. Ein barn ni ydyw mai'r Eglwys Apostolig sy'n dweud ei phrofiad trwy'r Iesu yn yr ad. hon. Gwyddai hi trwy brofiad am waith creadigol Ysbryd Duw yn ei bywyd, a gwelsai ei ddylanwad ym mywyd y ganrif gyntaf. Llefara yn hon yr un mor bendant ag a wna yn 1 Ioan $5^{19, 20}$, " Ni a wyddom."

Y mae'r ffordd arall o esbonio'r ad. hon yn llai boddhaol i'n golwg ni—mai'r Iesu a'r Tad, neu Iesu a'r disgyblion sy'n tystio.

12. Newidir y lluosog am yr unigol (" os dywedais "), ond cyferchir Nicodemus yn " chwi." Os parhad yw'r ad. hon o'r ymddiddan rhwng yr Iesu a Nicodemus, yr hyn a olygir wrth " bethau daearol," neu " bethau'r ddaear," ydyw'r pethau y mae gennym brofiad ohonynt, a'r effeithiau a welir gennym ar fywyd dynion, y geni o'r Ysbryd a'r cyfnewidiad a bair : a'r " pethau nefol," neu " bethau'r nefoedd," ydyw'r datguddiad o Dduw a'i bwrpas grasol, pethau na all neb eu mynegi ond yr hwn a ddisgynnodd o'r nef (^{13}).

13. **" Ac nid oes neb wedi esgyn i'r nefoedd, ond yr hwn a ddisgynnodd o'r nefoedd, Mab y dyn "** (C.N.).

Gadawer allan y geiriau " yr hwn sydd yn y nefoedd," am eu bod yn absennol o lawysgrifau pwysig. Ond cafwyd y syniad yn 1^{18}. Ni ellir bod yn sicr pa un ai'r Iesu neu ynteu'r awdur a biau'r ad. hon. Os yr awdur, yna y mae ef yn defnyddio'r teitl Mab y dyn am Iesu Grist. Cymerir yn ganiatáol gan lawer mai'r Iesu yn unig a'i harfer amdano'i Hun (ac eithrio Act. 7^{56}), ond efallai nad yw hynny'n wir am yr Efengyl hon. Y mae yn yr ad. hon reswm arall yn nhyb rhai tros gredu mai'r awdur a'i piau—y cyfeiria'n ôl at Esgyniad Crist. Ond y mae'r geiriau " neb wedi esgyn i'r nefoedd " **gystal**

ag atgof o Deut. 30^{12}, ac yn gyfystyr â dweud nad oes neb yn abl i ddatguddio "pethau'r nefoedd" (^{12}) ond Mab y dyn, a ddisgynnodd o'r nefoedd.

Cyfeirir at Esgyniad Crist yn 6^{62}: 20^{17}.

Nodiad ar drefn yr Adnodau.

Y mae'n sicr fod yr Efengyl hon wedi ei had-drefnu gan rywun, neu rywrai, ar ôl iddi ddyfod o law'r awdur. Cawn weled hynny wrth fyned ymlaen. Ond ceir enghraifft ohono yn y bennod hon, a phair gryn ddryswch. Am mai'r Bedyddiwr a lefara yn ad. 30, cymerir yn ganiataol gan rai mai ef hefyd a lefara yn adn. 31–36. Ond yn ein barn ni yr awdur sy'n llefaru yn adn. 31–36, ac oherwydd hynny at resymau eraill, y mae ad. 13 yn cysylltu'n uniongyrchol ag ad. 31. Ni chytuna'r Esbonwyr ynghylch y drefn briodol, ond y maent oll yn ddiweddar yn ymwybodol o'r anhrefn. Dilyn y drefn draddodiadol a wnawn ni, a galw sylw'r darllenydd at y cyfnewidiadau pan fo angen.

14. **"Ac megis y dyrchafodd Moses y sarff yn yr anialwch, felly y mae'n rhaid dyrchafu Mab y dyn."**

Beth ydyw "dyrchafu Mab y dyn?" Ei ddyrchafu ar y Groes, yn ein tyb ni, oblegid dyna yw ystyr "dyrchafu" yn yr Efengyl hon (8^{28}: 12^{32}), a hynny a rydd y pwynt gorau i gymhariaeth dyrchafu'r sarff yn yr anialwch (Num. 21^{7-9}). Darpariaeth oedd hynny i iachau'r bobl oddi wrth wenwyn y seirff tanllyd. Yn yr Apocryffa (Doeth. 16^{6}) dywedir bod y sarff bres yn "arwydd iechydwriaeth" ac yn gysgod o "Iachawdwr pob peth."

Ond ar y llaw arall, ni ddefnyddir y gair "dyrchafu" y tu allan i'r Efengyl hon am y dyrchafu ar y Groes. Yn Act. 2^{33}: 5^{31} am Esgyniad Crist ei defnyddir. Ni phetrusa Ioan ddweud i'r Iesu gyfeirio fel hyn yn gynnar yn ei weinidogaeth at ei farw ar y Groes, er na chytuna hynny â'r Efengylau Synoptig (Marc 8^{31}: Math. 16^{21}: Luc 9^{22}).

Dywedir fod yn "rhaid" dyrchafu Mab y dyn, gair a ddefnyddir mewn cysylltiad tebyg gan Fathew (16^{21}) a Luc (24^{26}). Ond yn yr Efengyl hon defnyddir ef yn fynych (3^{30}: 9^{4}: 10^{16}), a'r syniad sydd oddi tano yn amlach na hynny—rhagordeiniad Dwyfol na ellir ei groesi na'i ddrysu.

15. **"Fel y bo i bob un a gredo ynddo gael bywyd tragwyddol,"** neu **"a gredo gael ynddo fywyd tragwyddol."**

Fel yna y mae yn gywir, heb y geiriau "na choller." Cael bywyd tragwyddol yn ôl Ioan ydyw cyfranogi yn awr yn y byd hwn o fywyd Duw a bywyd Crist. Y mae'n eiddo presennol i'r credadun, am mai cyflwr ysbrydol ydyw. Gyda'r gair "bywyd" yn unig y

defnyddia Ioan y gair "tragwyddol," ac nid yw'r gair "ffydd" yn ei Efengyl o gwbl, dim ond *y ferf* "credu."

16. Ni wyddom yn sicr pa un ai'r Iesu, neu ynteu'r awdur sy'n llefaru oddi yma i ddiwedd ad. 21. Y mae'r gair "uniganedig," na cheir yn unman arall yng ngenau'r Iesu, yn awgrymu mai'r awdur biau'r ad. hon. Nid yw'n debyg chwaith y buasai'r Iesu'n dweud "carodd, danfonodd, rhoddodd," fel petasai'n edrych yn ôl o bell arnynt. Sylwer hefyd mor debyg yw'r ad. hon i 1 Ioan 4^{9}. Dyma'r C.N.: **"Canys cymaint y carodd Duw y byd ag y rhoes ei uniganedig fab fel na chyfrgoller neb a gredo ynddo, ond cael ohono fywyd tragwyddol."**

Dywedir ynddi mai cariad Duw ydyw tarddiad trefn y cadw: ei fod yn cofleidio pawb: mai'r praw diymwad ohono ydyw rhoi uniganedig fab: mai dwyn pawb i afael â bywyd tragwyddol yw ei amcan.

17. **"Oherwydd ni ddanfonodd Duw y mab i'r byd er mwyn barnu'r byd, ond er mwyn achub y byd drwyddo ef"** (C.N.).

Yr un gair a gyfleithir yn "ddamnio" yn yr ad. hon ag a gyfleithir yn fynych yn yr Efengyl yn "farnu." Y gair Groeg am farn ydyw *crisis*, o ferf yn golygu gwahanu, ond weithiau dynoda gondemniad. Camgymeriad ydyw tybio mai'r un ystyr sydd iddo drwy'r Efengyl. Yn 9^{39} dywedir peth hollol groes i'r ad. hon—"i farn y deuthum i'r byd hwn." Tybia rhai nad yw'r awdur yn gofalu llawer am gysondeb, nac yn hyn nac mewn pethau eraill. Yr oedd dyfodiad Crist yn y cnawd yn rhwym o ddosbarthu dynion, oblegid ni all neb yn ei bresenoldeb Ef fod yn amhartïol (*neutral*). Ymddygiad dynion ato Ef sy'n penderfynu eu tynged. Ond nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw Ef, eithr i achub y byd trwyddo Ef.

Yn ôl traddodiad, yr oedd barnu dynion yn waith arbennig y Meseia. Gweler 5^{27}: Math. 25^{31}.

18. **"Y neb a gredo ynddo nis bernir: y neb nid yw'n credu, y mae ef wedi ei farnu eisoes, am nad yw wedi credu yn enw uniganedig fab Duw"** (C.N.).

Sylwer ar y pwyslais mawr a roir ar "gredu ynddo." Credu, neu beidio â chredu ynddo ef, sy'n penderfynu tynged pawb. Barnu ydyw ystyr y gair "damnio" eto. Y mae'r farn yn perthyn i'r amser presennol—"a farnwyd eisoes." Fe welir oddi wrth yr ad. hon fod barnu ynddi yn gyfystyr â chondemnio. Yn 12^{48} sonnir am farn yn y dydd diweddaf, ond eithriad ydyw yn Ioan.

19. **"A hon yw'r ddamnedigaeth,"** h.y. y farn.

Efallai nad yr ystyr ydyw, dyma'r condemniad, ond, fel y dywaid Dr. Bernard, "fel hyn yr â'r barnu ymlaen."

Achlysur y farn oedd dyfod y Goleuni, ond yr hyn a'i try'n gondemniad ydyw caru o ddynion y tywyllwch yn hytrach na'r Goleuni. Rheswm tros fod dynion yn caru'r tywyllwch ydyw " canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg."

20. Rheswm yw hon tros fod dynion sydd â'u gweithredoedd yn ddrygionus yn caru'r tywyllwch yn hytrach na'r goleuni. Dyma'r rheswm—y mae'r goleuni yn dadlennu eu cymeriad.

21. Yr un rheswm eto, ar ei ochr arall. Y mae'r dyn da yn dyfod i'r goleuni am ei fod yn datguddio mai yn Nuw y mae gwraidd ei gymeriad.

Am " wneuthur y gwirionedd " cym. 1 Ioan. 1^6.

Adn. 22–30. Y BEDYDDIWR.

Y mae'n amlwg ddigon nad yw'r adran yma yn ei chysylltiad priodol, ond anghytuna'r esbonwyr ynghylch y cysylltiad. Rhwng adn. 12 a 13 ym mhennod II. y gesyd Moffatt hi, ac eraill ar ddiwedd y bennod hon.

22. **" Ar ôl y pethau hyn aeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Jiwdea, ac arhosai gyda hwy yno a bedyddiai."**

Ac yntau yn Jiwdea eisoes, yn ôl y bennod hon, y mae'n rhyfedd dweud iddo ef a'i ddisgyblion fyned " i wlad Jiwdea." Ond yr ardal tu allan i Jeriwsalem a olygir, efallai, nid Talaith Jiwdea. Ym Marc 1^5 hefyd gwneir gwahaniaeth tebyg.

Ni ddywaid neb yn y T.N. ond Ioan fod yr Iesu, neu ei ddisgyblion (4^2), yn bedyddio. Arwyddlun o buredigaeth foesol oedd bedydd Ioan, ond y mae'n anodd dyfalu beth a allai bedydd yr Iesu fod. Ar ôl y Pentecost sefydlwyd Bedydd fel Sacrament yn yr Eglwys Apostolig, yn enw'r Drindod (Math. 28^{19}).

23. **" Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon yn ymyl Salim."**

Am mai ffynhonnau ydyw ystyr " Ainon " a heddwch " Salim," cred rhai mai enwau arwyddluniol ydynt. Ond darganfuwyd yn gynnar le o'r enw Ainon ar lan Iorddonen yn ymyl saith o ffynhonnau.

24. **" Canys ni fwriesid Ioan eto yng ngharchar."**

Bernir mai amcan y sylw hwn ydyw ffitio'r hanes i'r traddodiad Synoptig. Ym Marc 1^{15} sonnir am weinidogaeth yr Iesu yng Ngalilea ar ôl traddodi Ioan, pan alwyd rhai o'r Deuddeg. Yr oedd y weinidogaeth hon yn Jiwdea, ebe'r awdur, o flaen yr un yng Ngalilea. Felly pan ddywaid yn ad. 22 i'r " disgyblion " fyned gyda'r Iesu i wlad Jiwdea nid y Deuddeg a olyga.

25. **" Am hynny cyfododd dadl o du disgyblion Ioan ag Iddewon ynghylch puredigaeth."**

Rhy'r C.D. " ag Iddew " yn lle " ag Iddewon." Ond dywaid Dr. Bernard pe hynny a olygid mai " *rhyw* Iddew " a ddywedid. Puredigaeth oedd pwnc y ddadl, ac o du disgyblion y Bedyddiwr y cyfododd. Y mae'n debyg mai gwerth cymharol bedydd Crist a bedydd Ioan oedd y pwnc. Yr oedd y ddau fedydd yn ymddangos yr un fath, ond tystiasai'r Bedyddiwr y byddai i'r Iesu fel Meseia fedyddio â'r Ysbryd Glân (1[33]).

26. Â disgyblion Ioan ato i gwyno wrtho fod yr Iesu'n bedyddio, a phawb yn dyfod ato. Y ffaith fod yr Iesu'n bedyddio ac Ioan yn colli ei boblogrwydd sy'n eu poeni.

27. Etyb y Bedyddiwr hwynt â gosodiad cyffredinol : **" Ni all neb dderbyn dim heb ei fod wedi ei roddi iddo o'r nefoedd "** (C.N.).

Dyma'r praw gorau fod dyn wedi ei ordeinio gan Dduw i waith neilltuol. Oddi wrth Dduw yn unig y gall gwir lwyddiant ysbrydol ddyfod. Derbyniasai'r Bedyddiwr yntau ei gomisiwn o'r nef, ond i fod yn " llais " (1[23]) yn unig. Ni sonia ddim am werth cymharol y ddau fedydd.

28. Cyfeiria'r Bedyddiwr hwy at ei dystiolaeth gynt : **" Nid myfi yw'r Crist** (1[20]), **ond yr wyf wedi f'anfon o'i flaen ef."**

29. Llefara y Bedyddiwr am ei berthynas â'r Meseia mewn iaith ffigurol—y priodfab a'r briodferch. O'r H.D. y daw'r gymhariaeth. Yno yr Arglwydd yw'r priodfab ac Israel y briodferch (Es. 54[5] : Hosea 2[19]). Ond yn y T.N. y priodfab yw Crist a'r briodferch yw'r Eglwys, yr Israel newydd (2 Cor. 11[2] : Eff. 5[32] : Dat. 19[7]). Yn ôl Marc 2[19], defnyddia'r Iesu y ffigur wrth ei gymharu ei Hun â'r Bedyddiwr, ac am hynny tybir gan rai mai'r awdur hwn sy'n rhoi geiriau'r Iesu yng ngenau'r Bedyddiwr. Ni ddywedir yma yn eglur mai Crist yw'r priodfab ac mai'r Eglwys yw'r briodferch, ond dyna yw'r ystyr. **" Y priodfab yw hwnnw y mae'r briodferch ganddo "** (C.N.), ebe'r Bedyddiwr.

Cyfaill y priodfab ydyw'r Bedyddiwr yn dwyn y priodfab a'r briodferch at ei gilydd—i undeb priodas. Y mae ef, sydd yn sefyll ac yn clywed, yn llawenhau'n fawr wrth lais y priodfab. Dyna lawenydd y Bedyddiwr, ac y mae yn awr yn gyflawn oblegid y mae'r Meseia a'r Eglwys wedi eu dwyn at ei gilydd. Ar ôl hyn bydd ef yn neilltuo.

Ystyr y gair Cymraeg " mau " ydyw " o'r eiddof i "—fy llawenydd i. Nid yw'n rhaid wrth " fi " ym " mau fi," ebe Tecwyn, ond weithiau fe chwanegir rhagenwau cynorthwyol ar ôl y ffurfiau **mau** ' mine,' *tau* ' thine," *eiddo* ' his,' megis " mau *fi* " (cym. Marc 13[31]) " tau *di*," " eiddo *ef*."

30. **" Y mae'n rhaid iddo ef gynyddu, ac i minnau leihau."**
Dyma ffarwel y Bedyddiwr. Ni ellir dychmygu dim gwell i fynegi ei ysbryd boneddigaidd. Tynnodd dyrfaoedd mawr ar ei ôl: cyffrôdd ei genhedlaeth i'w gwaelodion: a dinoethodd ei geudeb. Ond " pan gododd yr haul, ciliodd yn dawel a bodlon, fel y seren fore." Y mae ei air olaf yn ddeddf ym mhob cylch o fywyd, yn " rhaid " digyfnewid, ac yn wir bythol am Grist—" y mae'n rhaid iddo **Ef** gynyddu."

Adn. 31–36. YR IESU FEL TYST DUW.

Geiriau'r awdur yw'r rhain, ar uchafiaeth y datguddiad trwy Grist. Am ei fod oddi uchod llefara feddyliau Duw. Ag ad. 13 y dylid eu cysylltu, yn ôl ein barn ni, nid ag ad. 21, fel y gwneir gan Moffatt ac eraill. Ond ni all neb fod yn bendant ar y mater. Ni ddefnyddir enw o gwbl hyd ad. 35—" y Mab," ond Crist ydyw'r pwnc drwy'r paragraff.

31. **Am fod Crist oddi uchod y mae goruwch pawb.**
Cyfeither fel hyn: **" Y mae'r hwn sy'n dyfod oddi uchod goruwch pawb: yr hwn sydd o'r ddaear, o'r ddaear y mae, ac o'r ddaear y llefara: y mae'r hwn sy'n dyfod o'r nef goruwch pawb."**
Teitl am y Meseia ydyw " yr hwn sy'n dyfod." Yr un gair â " drachefn " yn ad. 3 ydyw'r un a gyfeithir yn " oddi uchod. Awgrymir na all un dysgawdwr gyfodi uwchlaw ei darddiad. Ymadroddion nodweddiadol o Ioan ydyw " o'r ddaear ": " o Dduw " (7^{17}): " o'r byd " (15^{19}): o'r gwirionedd " (18^{37}).

32. Y mae'r ad. hon yn ailadroddiad o ad. 11, gyda'r gwahaniaeth bod hon yn y trydydd person, a'r llall yn y person cyntaf.
Y mae gan Grist wybodaeth uniongyrchol o bethau'r nefoedd—pethau a welodd ac a glywodd a dystia Ef. Ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth—geiriau prudd iawn o law un a ysgrifennai ar ddiwedd y ganrif gyntaf. Y mae'n anodd credu y buasai'r Bedyddiwr yn llefaru fel hyn.

33. Y mae hon yn cymedroli tôn brudd ad. 32. Nid yw'n wir, wedi'r cwbl, nas derbynnir gan neb. **" Y mae'r hwn sy'n derbyn ei dystiolaeth ef yn selio bod Duw yn eirwir."**
Ffigur oddi wrth yr arfer o roi sêl ar weithred gyfreithiol ydyw " selio." Ceir un enghraifft arall ohono yn Ioan (6^{27}).

34. **" Canys y mae'r hwn a anfonodd Duw yn llefaru geiriau Duw, oblegid nid wrth fesur y rhydd yr Ysbryd."**
Rheswm tros ad. 33 yw rhan gyntaf yr ad. hon. Y mae'r hwn sy'n derbyn tystiolaeth Crist, yr Hwn a anfonodd Duw, yn selio bod Duw yn eirwir, canys geiriau Duw a lefara Ef. Cym. 2 Cor. 1^{20},

lle y dywedir bod Duw yn cyflawni ei addewidion yng Nghrist. Rheswm yw'r ail ran o'r ad. tros y rhan gyntaf—y mae'n llefaru geiriau Duw "oherwydd nid wrth fesur y rhydd yr Ysbryd." Yn y frawddeg yn gywir ni ddywedir pwy a rydd yr Ysbryd nac i bwy ei rhoddir. Ond y mae'r darlleniad arall, er yn anghywir, yn cyfleu'r meddwl—mai Duw sy'n rhoi'r Ysbryd heb fesur i Grist. Wrth fesur y rhydd Duw Ef i bawb arall. Nid yw'r ffordd arall o esbonio cystal—mai Crist a rydd yr ysbryd heb fesur i'r credinwyr,—oblegid y mae'n amherthynasol.

35. **"Y mae'r Tad yn caru'r Mab, ac wedi rhoddi popeth yn ei law"** (C.N.).

Dyma'r waith gyntaf yn yr adran hon i alw Crist wrth unrhyw deitl, ac eithrio "yr hwn sy'n dyfod" (31). Yma gelwir ef "y Mab," teitl na fuasid yn ei ddisgwyl o gwbl gan y Bedyddiwr, ond sy'n gwbl naturiol i'r awdur. Syniad mynych yn yr Efengyl hon ydyw rhoddi pob peth yn llaw Crist, neu'r Mab ($5^{22, 26, 27}$: 13^{3}: $17^{2, 11, 24}$). Amcan dweud hynny yma ydyw egluro nad wrth fesur y rhydd Duw yr Ysbryd iddo Ef (34).

36. Dengys yr ad. hon fod tynged dragwyddol dynion yn dibynnu ar eu perthynas â'r Mab. Y mae'r awdur yn mynegi argyhoeddiad yr Eglwys Apostolig. Trwy undeb â'r Mab, a fedd fywyd ynddo'i Hun, y ceir bywyd tragwyddol. Sylwer ar amser presennol y berfau, ac eithrio "ni wêl": *sydd* yn credu: *y mae* ganddo: *sydd* heb gredu: *yn aros.*

Dyma'r unig le yn yr Efengyl y sonnir am "ddigofaint Duw," a geir yn fynych ym Mhaul (Rhuf. 1^{18}: 3^{5}: 9^{12}: Eff. 5^{6}), ond na cheir o gwbl yng ngenau'r Iesu.

PENNOD IV.

YR IESU'N GADAEL JIWDEA, YN MYNED YN OL I GALILEA DRWY SAMARIA.

Adn. 1–4. EGLURHAD AR Y SYMUD O JIWDEA.

Y mae arddull yr adran hon yn afrwydd, fel y gwêl pawb a sylwo. Os yr Efengylydd a'i piau, y mae rhywun wedi ymyrryd â'r adran, fel â rhannau eraill o'r Efengyl.

1. Y rheswm pam y gadawodd yr Iesu Jiwdea ydoedd, fod arno ofn dyfod i wrthdrawiad â'r Phariseaid. Gwybu i'r Phariseaid glywed ei fod Ef yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion na Ioan Fedyddiwr. Y mae'r gystrawen yn anystwyth, ac yn hynny yn gwbl wahanol i arddull Ioan. Defnyddir "yr Arglwydd" yn deitl am yr Iesu, fel y gwneir mewn nodiadau eglurhaol eraill (6^{23}: 11^{2}), ond "Iesu" yw'r enw drwy'r Efengyl, ac eithrio wedi iddo atgyfodi, pan ddefnyddir "yr Arglwydd" hefyd. Dywedir bod yr Iesu "yn gwneuthur" disgyblion, h.y., fod y rhai a fedyddid yn dyfod yn ddisgyblion iddo. Ond yn nhyb rhai dylanwad y Bedydd Cristionogol, a sefydlwyd ar ôl hyn, sydd ar y dull hwn o lefaru, oblegid trwy'r Bedydd hwnnw deuid yn ddisgyblion i'r Iesu. Efallai mai sylwadau rhyw Olygydd yw'r rhain.

2. **"Er nad oedd Iesu ei hun yn bedyddio, eithr ei ddisgyblion"** (C.N.).

Y mae'n amhosibl gwybod pa un ai'r awdur, ynteu rhywun ar ei ôl ef, biau'r sylw hwn. Os yr awdur, ei wasanaeth ydyw cywiro'r hyn a ddywedwyd yn 3^{26}, "y mae hwnnw'n bedyddio," a dangos nad oedd y sôn a glywsai'r Phariseaid ddim yn gywir. Os y Golygydd, ei amcan efallai ydyw amddiffyn urddas yr Iesu trwy ddangos nad gweinyddu'r ddefod allanol a wnâi Ef, eithr ei gwneud yn effeithiol i ailenedigaeth trwy weithrediad yr Ysbryd Glân. Yn yr Eglwys Gristionogol cysylltai rhai bwysigrwydd anghymesur â'r ddefod ynddi ei hun.

3. **"Gadawodd Jiwdea ac aeth yn ôl i Galilea,"** neu, i gyfeiriad Galilea. Yn ad. 43 y dywedir iddo gyrraedd Galilea. Dywedir "drachefn," neu'n ôl i Galilea oblegid iddo fod yno cyn hyn (1^{43}: 2^{12}).

4. **"Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria."**

Rhy'r Efengyl hon gryn le i ragordeiniad Dwyfol ynglŷn â symudiadau'r Iesu, ac felly nid at yr amgylchiadau ar y pryd y cyfeiria "rhaid" bob amser (3^{14}). Ond efallai mai'r rheswm am y "rhaid" hwn ydyw, mai trwy Samaria yr oedd y ffordd fyrraf. Heb iddo gymryd hon, buasai'n rhaid iddo fyned drwy Berea.

Adn. 5–42. YR IESU YN SAMARIA.

Yn yr Efengyl hon yn unig y cofnodir y daith hon drwy Samaria, a'r unig Efengylydd arall a ddug yr Iesu i gyfathrach â Samariaid ydyw Luc (9^{52}: 17^{16}: 10^{30}).

Wrth anfon y deuddeg allan dywedodd yr Iesu wrthynt, yn ôl Mathew (10^{5}), "i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn." Ond yn yr Adroddiad hwn dywedir i'r Iesu fynegi'n groyw i'r wraig mai Ef oedd y Meseia: i'r disgyblion fyned i dref yn Samaria i brynu bwyd, yn groes i arfer yr Iddewon: i'r Iesu bregethu i'r wraig ar addoliad ysbrydol, annibynnol ar le a theml. Ni ddywedir wrthym fod neb yn gwrando'r ymddiddan. O ba le felly y cafodd yr awdur yr hanes?

Cred rhai mai alegori neu ddameg yw'r stori, i ddysgu uchafiaeth crefydd ysbrydol ar grefydd ddefodol ac arwyddluniol.

Ym marn eraill, y mae'r awdur yn helaethu ar ychydig ffeithiau a gawsai i gyfiawnhau'r cam beiddgar a gymerwyd gan yr Eglwys Apostolig i sefydlu cenhadaeth yn Samaria (Act. 8^{5}). Ei amcan ef ydyw dangos i'r Iesu fod yno o flaen pawb, a chael llwyddiant mawr.

Dadlau Dr. Bernard mai hanes gwir ydyw i'r Iesu fyned trwy Samaria, a chyfarfod y wraig wrth ffynnon Jacob, ac iddo greu cyffro mawr yn y wlad, ond na ddylid cymryd yr ymddiddan yn llythrennol wir. Amcan yr awdur yn y stori ydyw dangos rhagoriaeth y grefydd ysbrydol ar bob crefydd gaeth a defodol—"*the triumph of the new faith over the old*" (Scott).

Ymddengys i ni fod yn anodd amau cywirdeb y golygiad olaf hwn. Weithiau teimlir bod dysgeidiaeth yr Iesu uwchlaw cyrraedd y wraig, ond ar y llaw arall bod y disgrifiad byw a syml yn awgrymu hanes gwir.

5. **"Gan hynny, daw i ddinas yn Samaria, a elwir Sychar, yn ymyl y tir a roes Jacob i'w fab Joseff."**

Yr un un yw Sychar ag "Ascar" heddiw, rhyw bum milltir o ffynnon Jacob. Bernid unwaith mai llysenw ar Sichem ydoedd Sychar, yn golygu tref feddw. Ond dwy dref wahanol oeddynt fel y bernir heddiw.

Am y "rhandir" a roes Jacob i Joseff, gweler Gen. 33^{18}.

6. **"Ac yno yr oedd Ffynnon Jacob,"** h.y., a gloddiwyd ganddo ef, er na ddywedir hynny o gwbl yn yr H.D.

Yr un enw sydd i'r Ffynnon hyd y dydd hwn. Buwyd yn ei harchwilio droeon, a dywedir wrthym ei bod yn 100 troedfedd o ddyfnder. **"Wedi blino gan y daith, am hynny eisteddodd yr Iesu fel yr oedd wrth y ffynnon,"** h.y., ar lawr wrth y ffynnon, nid ar y ffynnon. Dyma un o gyffyrddiadau byw y stori. Cofier

1[14], "A'r Gair a ddaeth yn gnawd." Dyma gyffyrddiad byw arall—**"oddeutu'r chweched awr oedd hi"**—h.y., hanner dydd. Cym. 1[39]. Paham y dywedir mai hanner dydd oedd? Efallai i egluro pam yr oedd yr Iesu wedi blino gan y daith: neu ynteu i ddangos sut y cafodd yr Iesu a'r wraig y lle iddynt eu hunain, oblegid yn yr hwyr yr arferid cyrchu dwfr.

7. **"Daw gwraig o Samaria i dynnu dwfr: ebe'r Iesu wrthi, Dyro i mi i yfed."**

Y mae'r arddull yn fyw a chwta. Yr oedd y wraig yn cyrchu dwfr tros afon, ebe rhai, wrth ddyfod i Ffynnon Jacob, hanner milltir o'r pentref, oblegid yr oedd digon o ffynhonnau yn nes adref. Awgrym ydyw hynny, yn ôl rhai, bod dynion yn glynu'n afresymol wrth hen draddodiadau a chrefyddau. Fel yna yr esbonnir yn ôl y dull alegoriaidd!

8. **"Canys aethai ei ddisgyblion ymaith i'r ddinas i brynu bwydydd"** (C.N.).

Rheswm yw'r ad. hon tros waith yr Iesu'n gofyn i'r wraig am ddiod. Yn ôl arfer teithwyr y pryd hwnnw, yr oedd gan y disgyblion fwced o groen i godi dwfr, ond aethent â hi gyda hwy i'r ddinas (11). Dyma'r unig le yn y T.N. y defnyddir y gair "bwydydd" yn y llu-osog. Gwaharddai'r Rabbiniaid i Iddewon fwyta bwyd y Samariaid. Fel hyn y dywedent: "y mae'r neb a fwyty fara'r Samariaid yr un peth â'r hwn a fwyty gig moch." Ond ni chedwid y gorchymyn yn gaeth. Awgrymir yn ad. 33 i'r disgyblion oll fyned ymaith i'r ddinas. Pa fodd felly y gwybu neb am yr ymddiddan rhwng yr Iesu a'r wraig?

9. Synna'r wraig, neu cymer arni synu, fod yr Iesu ac yntau'n Iddew, yn gofyn am ddiod ganddi hi, a hithau'n Samariad. Ond ysmalio a wna, ebe Dr. Bernard, oblegid nid oedd dim yn chwithig mewn gofyn i nac estron na gwraig, na hyd yn oed i elyn am ddwfr (Diar. 25[21]).

Sylw o eiddo'r awdur, neu'r Golygydd, ydyw **"canys nid yw'r Iddewon yn ymgyfeillachu â'r Samariaid."** Ni ddigwydd y gair am "ymgyfeillachu" yn unman arall yn y T.N. Arferent fasnachu â'i gilydd.

10. **"Pe buasit yn gwybod rhodd Duw"** (C.N.).

Am yr Ysbryd Glân y defnyddir y gair "dawn," neu rodd, bob amser yn yr Actau. Ond efallai mai Ef ei Hun a olygai'r Iesu, neu fywyd ysbrydol, fel y barna rhai. Yn ôl yr ad. hon *rhoi*'r dwfr byw a wna'r Iesu. Ond yn yr H.D. y mae "ffynnon y dyfroedd byw" yn ffigur am yr Arglwydd (Jer. 2[13]: 17[13]). Ar y llaw arall yn Es. 35[7], a gyfrifid yn broffwydoliaeth o'r Meseia, dywedir y bydd y tir sychedig yn "ffynhonnau dyfroedd." Nid yw'n hawdd felly

gwybod beth a olygir wrth " ddawn Duw," ac efallai na ddisgwyliai'r Iesu i'r wraig ei ddeall. Ei gamddeall a wnaeth, sut bynnag. Dwfr rhedegog sy'n tarddu'n ddiball ydyw " dwfr bywiol," neu byw.

11. Ceir yn yr Efengyl hon lawer enghraifft o ddywediad cyfrin yn achosi camddeall, fel yn yr ad. hon. Esbonio geiriau'r Iesu yn llythrennol a wna'r wraig: **" Syr, nid oes gennyt fwced, ac y mae'r pydew'n ddwfn: o ba le gan hynny y mae gennyt y dwfr byw?"**

12. Yn ei dryswch llefara'r wraig yn huawdl, os nad yn ddirmygus hefyd: **" A wyt ti, sydd tan orfod gofyn i mi am ddiod, yn fwy na Jacob ein tad ni, a roes y pydew inni, ac a gafodd ynddo ddigon o ddwfr da i'w ddiodi ef, a'i feibion a'i anifeiliaid?"** Gair dieithr ydyw'r un am " anifeiliaid," na cheir ond yma yn y T.N., a gall olygu gweision hefyd. Honnai'r Samariaid eu bod yn disgyn o Jacob trwy Joseph a galwent ef " ein tad ni," fel y gwnâi'r Iddewon.

13. **" Pob un sy'n yfed o'r dwfr hwn, sycheda drachefn."**

14. Etyb yr Iesu trwy ddweud bod y dwfr a rydd Ef yn digoni'n dragywydd: **" ni sycheda yn dragywydd."**

Y mae'r geiriau olaf yn amwys. Fel hyn y mae'r C.N., **" ond â'r dwfr a roddaf i iddo yn ffynhonnell ddwfr ynddo yn ffrydio i fywyd tragwyddol."** Efallai mai'r Ysbryd Glân ydyw'r ffynhonnell ddwfr ynom. Ond cym. 6.[35].

Beth bynnag yw'r ystyr, dysgir y bodlonir holl eisiau dyn yn Iesu Grist, ac y mae hynny yn newydd dan gamp.

15. **" Dywedodd y wraig wrtho, Syr, dyro inni'r dwfr hwn, fel na sychedwyf, a dyfod yma i dynnu dwfr."**

Nid yw hi'n deall ateb yr Iesu, hyd yn oed nad am ddwfr y ffynnon y llefara. Ond y mae fel petai'n ysmalio. Sut bynnag, ni sonnir dim chwaneg am y dwfr, a'r wraig sy'n cael y gair olaf.

16. **" Dywedodd yr Iesu wrthi, Dos, galw dy ŵr a thyred yma."**

Newidir y pwnc yn sydyn. Ond darnau'n unig o'r ymddiddan a gofnodir. Dyry'r awdur ar ddeall inni fod yr Iesu yn gwybod ei hanes heb fod angen i neb dystio iddo (2[25]).

17. **" Nid oes gennyf ŵr."** Fel yna, yn gwta, yr etyb. Y mae cais yr Iesu wedi ei sobri.

18. **" Da y dywedaist, Nid oes gennyf ŵr, canys pump o wŷr a fu gennyt, a'r hwn sydd gennyt yr awron, nid yw ŵr i ti: dywedaist hyn o wir."**

Priodolir i'r Iesu wybodaeth oruwchnaturiol, ac y mae ateb y wraig yn ad. 19 yn awgrymu mai'n llythrennol yr ydym i gymryd geiriau'r Iesu. Ond yn ôl rhai esbonwyr ffigur o'r Samariaid ydyw'r wraig,

a'u duwiau, a fu iddynt unwaith, ydyw'r "pump o wŷr, a Jehofa ydyw'r hwn "nid yw wr i ti" yr awron. Yn y flwyddyn 800 C.C. poblogwyd Samaria â phum cenedl, a daeth pob un ohonynt â'i duw gyda hi (2 Bren. 17^{24-33}). Addolent Jehofa yr un amser, a chymerent Bum Llyfr Moses yn Feibl iddynt eu hunain. Am y gwrthodent y gweddill o'r H.D., paganiaeth oedd eu crefydd yng ngolwg yr Iddewon, ac ni feddent hawl i alw Jehofa yn Dduw iddynt eu hunain. Y peth ni wyddent a addolent (ad. 22). Ceir enghraifft gyffelyb o'r dull hwn o esbonio'n alegorïol ym Mhaul (Gal. 4^{24}), ac yn yr Efengyl hon hefyd (13^{18}: 19^{24}).

Ar y llaw arall, myn amryw esbonwyr na ellir amddiffyn yr esboniad uchod, am y rhesymau hyn: (1) nid pump o dduwiau a ddygwyd i Samaria gan y cenhedloedd a ddaeth yno yn 800 C.C., eithr saith (2 Bren. $17^{30, 31}$): (2) nad cywir a fyddai dweud bod y duwiau paganaidd yn wŷr cyfreithlon, ond nad oedd Jehofa'n gyfreithlon.

Chwanega Dr. Bernard fod y gyfatebiaeth rhwng pump o wŷr a pump, neu fwy, o dduwiau yn torri i lawr yn hyn, mai gyda'i gilydd yr addolid y duwiau paganaidd yn Samaria, ac nid yn ddilynol i'w gilydd. Cymerir yn ganiataol ganddo ef, ac eraill hefyd, mai ystyr "pump o wŷr a fu i ti," ydyw pump yn gyfreithlon y naill ar ôl y llall. Onid oes i eiriau'r Iesu yn yr ad. hon ryw ystyr gyfrin, y mae'n anodd dyfalu i ba amcan eu cofnodir,—onid i ddatguddio gwybodaeth lwyr yr Iesu o ddyn.

19. **"Dywedodd y wraig wrtho, Syr, mi a welaf dy fod yn broffwyd."**

Am iddo ddarllen ei hanes mor gywir a manwl y dywaid hi hyn, oblegid y stori, o'i chymryd yn llythrennol, ydyw fod iddi gynt bump o wŷr, ac nad yw'r un sydd ganddi'n awr yn ŵr iddi. Nid rhagweled y dyfodol yn unig a wna'r proffwyd, ond darllen y presennol hefyd (Luc 7^{39}).

20. Tyf yr ymddiddan o du'r wraig i fater crefyddol a dadleuol. Am ei fod yn broffwyd yn ei golwg gesyd broblem o'i flaen—Ai yn Gerisim neu ynteu yn Jeriwsalem y dylid addoli? Y mae hi, er yn bagan, yn hyddysg ym Mhum Llyfr Moses ac yn cymryd diddordeb mawr yn y ddadl grefyddol a oedd yn gwestiwn llosg. "Addolodd ein tadau ni yn y mynydd hwn," ebe hi, gan gyfeirio at fynydd Gerisim a welid yn amlwg o'r safle y safai arno.

Yn Deut. 27^{4}, dywedir mai "ym mynydd Ebal" y cyfodwyd yr allor gyntaf, ond ym Meibl y Samariaid (5 Llyfr Moses) "ym mynydd Gerisim" a ddarllenir. Am Gerisim gweler hefyd Deut. 11^{29}: 27^{12}. Ar ôl caethglud Babilon cyfododd y Samariaid deml ar fynydd Gerisim, ond chwalwyd hi gan Hyrcanus yn C.C. 130. Yno y parhaent i addoli yn amser Crist.

Ar sail 2 Chron. 6^6: 7^{12}, dadleuai'r Iddewon mai Jeriwsalem oedd y lle'r oedd yn rhaid addoli ynddo, ond i'r Samariaid nid oedd i 2 Chron. awdurdod am ei fod y tu allan i'w Canon hwy.

21. Etyb yr Iesu yn y tair ad. nesaf hyn.

" Cred fi, O, wraig, y mae amser yn dyfod pan nad addoloch y Tad nac yn y mynydd hwn nac yn Jeriwsalem."

Yn amser Crist yr oedd y deml ar fynydd Geresim yn adfail, a phan ysgrifennwyd yr Efengyl hon yr oedd yr un peth yn wir am y deml yn Jeriwsalem. Ond yr oedd y gwirionedd a fynegir yma, ac yn 2^{19}, yn amser Crist yn un ysgubol. Buasai'n amhosibl y pryd hwnnw i Iddew, beth bynnag am Samariaid ei sylweddoli. Yr oedd eisiau trawsnewid eu syniad am Dduw o flaen popeth, a hynny a wnaeth yr Iesu. Yn y gair " Tad," a ddefnyddir ganddo am Dduw, y ceir y golau mwyaf ar grefydd ysbrydol, a dylid rhoi pwyslais mawr arno yn yr adnodau hyn. Gweler Seff. 2^{11}: Mal. 1^{11}, lle y rhagwelir y gwirionedd hwn, yn ôl yr esbonwyr.

22. **" Yr ydych chwi'n addoli'r hyn ni wyddoch, a ninnau'n addoli'r hyn a wyddom, oblegid y mae'r iachawdwriaeth o'r Iddewon."**

Yr un Duw a addolid gan y Samariaid â chan yr Iddewon, ond yng ngolau Pum Llyfr Moses yn unig yr adwaenid Ef gan y Samariaid. Gwyddai'r Iddewon ar y llaw arall am syniadau aruchel y Proffwydi a'r Salmyddion—am ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd a'i gariad.

Ni phetrusa'r awdur fynegi dyled yr Eglwys Gristionogol i Iddewiaeth. O'r Iddewon, ebe Crist, y mae'r waredigaeth, h.y., y waredigaeth ysbrydol trwyddo Ef. Gweler Gen. 49^{10}: Rhuf. 9^5, " o'r rhai yr hanoedd Crist yn ôl y cnawd."

Fel Iddew y llefara'r Iesu yma, oblegid dyna yw eto i'r wraig, ac am hynny dywaid " ninnau " ydym yn addoli'r hyn a wyddom.

23. **" Ond y mae'r adeg yn dyfod, ac y mae yn awr "** (C.N.).

Braidd nad yw'r geiriau " ac y mae yn awr " yn bradychu amgylchiadau diweddarach nag amser Crist. Efallai mai chwanegiad ydynt gan yr awdur, neu'r Golygydd.

" Pan addolo'r gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd." Nid gwir mewn cyferbyniad i gau ydyw ystyr " gwir addolwyr," ond yn hytrach ysbrydol mewn cyferbyniad i ddefodol ac arwyddluniol. Fel yn ad. 21, rhoir pwyslais mawr ar mai addolwyr " y Tad " ydynt. Y datguddiad arbennig hwn o Dduw sy'n gwneud crefydd yn ysbrydol ac yn gyffredinol. Pan ddeallwyd y gwirionedd hwn am Dduw y daeth addoli yn wir addoli. Beth yw addoli " mewn ysbryd a gwirionedd ?" Rhydd Moffatt y brif lythyren yn " ysbryd " fel petai'n golygu'r Ysbryd Glân. Gwna

Dr. Bernard y geiriau "mewn ysbryd" yn gyfystyr â "gwirionedd" —mewn cytgord â'r Ysbryd Glân ac felly mewn gwirionedd.

Gall "ysbryd" olygu ysbryd yr addolwr, ond ni ellir gwahanu hwnnw oddi wrth yr Ysbryd Glân mewn gwir addoli.

Syniad tlws ydyw fod y Tad yn ceisio addolwyr, ond y mae'n bwysig inni gofio mai'r gwir addolwyr yn unig a gais Ef.

24. **"Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr addoli mewn ysbryd a gwirionedd"** (C.N.).

Nid oes yn yr H.D. osodiad pendant fel yr un sydd yma mai "Ysbryd yw Duw." Ond yn 1 Bren. 8^{27}: Es. 31^{3} awgrymir hynny. Yn ôl adn. 21, 23, "y Tad" a ddywaid yr Iesu am wrthrych addoliad, ac y mae'r ad. hon yn hollol ar ei phen ei hun heb ddim yn ei chysylltu ag ad. 23. Oherwydd hyn credwn mai'r awdur a'i piau. Cym. ymadroddion eraill tebyg ganddo am Dduw yn ei hanfod: "Goleuni yw Duw" (1 Ioan 1^{5}): "Cariad yw Duw" (1 Ioan 4^{8}).

25. **"Dywaid y wraig wrtho, Mi a wn fod Meseia yn dyfod, a elwir yn Grist. Pan ddêl ef, mynega inni bopeth."**

Terfyna'r ymddiddan ynghylch addoli gydag ad. 24. Cred Dr. Bernard y dyfalai'r wraig fod yr Iesu yn fwy na phroffwyd (^{19}), ac y disgwyliai iddo ddweud mwy amdano'i Hun. Nid "y Meseia" a ddywaid hi, ond "Meseia," heb y fannod. Disgwyliai'r Samariaid a'r Iddewon y byddai i'r Meseia, pan ddelai, fynegi iddynt bopeth.

Sylw o eiddo'r awdur ydyw "a elwir yn Grist."

26. **"Ebe'r Iesu wrthi, Myfi sydd yn ymddiddan â thi ydyw."**

Cymerir yn ganiataol gan rai mai unig ystyr y geiriau hyn ydyw Myfi yw'r Meseia, fel yn 9^{37}. Ond y mae'n ymddangos fod yn yr Efengyl hon ystyr gyfriniol weithiau i "Myfi yw," yn ôl ffordd yr Arglwydd o lefaru amdano'i Hun yn yr H.D. (Gen. 17^{1}), ac felly mai dwyfoldeb Crist a fynegant. Ond pa un bynnag ai dweud ei fod yn ddwyfol neu ynteu ei fod y Meseia a wneir, erys yr anhawster —iddo lefaru yn groyw fel hyn amdano'i Hun wrth wraig o Samaria, ac yn gynnar yn ei weinidogaeth. Ar y llaw arall, nid oedd neb yn bresennol hyd y gwyddom, ond yr Iesu a'r wraig, ac efallai fod hynny yn un rheswm tros iddo wneud y datganiad mawr "Myfi yw." Dyma uchafbwynt yr ymddiddan.

27. Daw'r disgyblion yn ôl o'r ddinas, **"a synnent ei fod yn siarad â merch"** (C.N.). Yr oedd i Rabbi ymddiddan yn gyhoeddus â merch yn groes i arfer a chyngor. Ebe'r Rabbiniaid, "na siaraded neb â merch yn yr ystryd, hyd yn oed â'i wraig ei hun." Ond o barch iddo Ef ni fynnai'r disgyblion ofyn i'r wraig "Beth a geisi?" neu iddo Ef "Paham yr wyt yn siarad â hi?"

28. Gedy'r wraig ei dwfr-lestr wrth y ffynnon, ac â yn ôl i'r ddinas. Pwy ond llygad-dyst a fuasai'n gwneud sylw fel hwn?

29. Ebe'r wraig wrth y dineswyr, "**Deuwch i weled dyn a ddywedodd wrthyf bopeth a wneuthum**" (C.N.).

Nid yr ymddiddan am Addoliad ysbrydol ydyw'r peth uchaf ar ei meddwl, ond y dinoethi yn ad. 18. Rhyfedd yng ngolau ad. 26 ydyw, "Tybed nad hwn yw'r Crist?" neu'n fwy amheus fyth, "Nid hwn yw'r Crist, ai e?"

30. "**Aethant allan o'r ddinas, ac yr oeddynt yn dyfod ato.**" Yr oedd y disgyblion gyda'r Iesu yn awr, ac y mae'r ad. hon fel tystiolaeth un a welodd y tyrfaoedd.

Adn. 31–38. YR IESU A'R DISGYBLION.

31. "**Yn y cyfamser**"—rhwng ymadawiad y wraig ([28]) a dyfodiad y Samariaid ([30]). Oherwydd eu gofal amdano dywaid y disgyblion wrth yr Iesu, "Rabbi bwyta."

32. Etyb yr Iesu yn gyfrin, fel y gwna yn fynych yn yr Efengyl hon. Yr oedd ganddo fwyd i'w fwyta na wyddai'r disgyblion amdano—llawenydd o weled o lafur ei enaid. Rhoir pwyslais ar y rhagenwau "fi" a "chwi" i ddangos y gwahaniaeth rhyngddo Ef a hwy.

33. Nid yw'r disgyblion yn deall. Tybiant mai am fwyd i'r corff y llefara. Yn fynych iawn yn yr Efengyl dilynir gosodiad tywyll gan gamddeall. Gweler 8^{16}. Yma hefyd (4^{11}). Yr oedd yn anodd gan y disgyblion gredu i neb yn Samaria ddyfod â bwyd iddo: "**Yn sicr, ni ddaeth neb â dim iddo i'w fwyta!**"

34. Dyma eglurhad yr Iesu ar y bwyd na wyddai'r disgyblion ddim amdano. Gwneuthur ewyllys Duw a gorffen ei waith Ef yw cynhaliaeth ysbrydol yr Iesu. Gweler 5^{30}: 6^{38}. Am y syniad o "orffen" y gwaith gweler 5^{36}: 17^{4}: 19^{30}.

35. Y mae'r ad. hon a'r tair sy'n dilyn yn rhai dyrys iawn. Dihareb yn ôl pob tebyg ydyw "**Pedwar mis eto a bydd yn gynhaeaf,**" a dihareb Aramaeg, ebe Dr. Bernard, oherwydd ei bod yn fwy o wir am Balesteina nag am Roeg.

Ond tybia rhai nad yw'r geiriau "pedwar mis" i'w cymryd yn llythrennol, eithr am y cyfnod rhwng hau a medi, boed fwy neu lai. Yr argraff a wneir arnom gan y cyfeithiad "Onid ydych chwi'n dywedyd" ydyw bod y disgyblion yn ymddiddan â'i gilydd wrth edrych ar feysydd Sychar ac yn dweud "Pedwar mis eto a bydd yn gynhaeaf." Ond golygai hynny eu bod yn ymddiddan ym mis Rhagfyr neu Ionawr, pan oedd cyflawnder o ddwfr. Ond yn ôl yr hanes sydd yn y bennod hon yr oedd dwfr yn brin. Y ffordd orau i gyfeithu ydyw, "Oni *byddwch* chwi'n dywedyd, Pedwar mis eto a bydd yn gynhaeaf?" Yr oedd y gair yn wir am gynhaeaf natur, ond nid oedd felly bob amser am gynhaeaf ysbrydol, fel y

gwelid yn awr yn achos y Samariaid hyn. Y mae'r meysydd yn wynion i gynhaeaf er mai heddiw yr heuwyd yr had. Perthyn i ad. 36 y mae'r gair "eisoes."

36. **"Y mae'r medelwr eisoes yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragwyddol, fel y byddo i'r heuwr a'r medelwr lawenhau ynghyd."**

Am yr achos eithriadol hwn yn Samaria y dywedir hyn. Y cyflog a dderbyn y medelwr eisoes ydyw casglu ffrwyth i fywyd tragwyddol a'r llawenydd ynglŷn â hynny. Heddiw dyma'r heuwr a'r medelwr, yn groes i drefn natur, ac weithiau yn groes i'r byd moesol, yn cydlawenhau wrth weled y Samariaid yn dylifo at y Meseia.

"Y mae'r crop yn aeddfed i gynhaeaf cyn i'r heuwr adael y maes." Gweler Esboniad y Parch. O. Madoc Roberts ar Amos (9^{13}).

37. **"Canys yn hyn y mae'r gair yn wir, Un sy'n heu ac arall yn medi."**

Dihareb arall yw'r rhan olaf, a arferid mewn siom ac weithiau yn wawdlyd (Deut. 28^{30}: Job 31^{8}: Mica 6^{15}). Y mae'n wir mynych ym mywyd dyn. Nid bob amser y caiff yr hwn sy'n heu mewn dagrau fedi mewn gorfoledd. Ond yr oedd yr achos hwn yn Samaria yn gwrthddweud y ddihareb, oblegid y mae'r heuwr a'r medelwr yn llawenhau ynghyd. Nid geiriau'r Iesu, yn ein tyb ni, ydyw'r ad. hon na'r ad. nesaf, ond eglurhad yr awdur ydynt o safle ei ddydd ef. Cyfeirio ymlaen a wna "yn hyn," nid yn ôl at adn. 35, 36 fel y gellid tybio. Dyma'r ystyr—y rheol yw mai un sy'n heu ac arall yn medi, ond nid felly yr oedd yn Samaria yn awr.

38. Yr awdur sy'n llefaru ond trwy'r Iesu, a rhoi enghraifft a wna o wirionedd y ddihareb yn ad. 37—un yn heu ac arall yn medi. Y mae hynny'n wir am y disgyblion a'r Iesu yn Sychar, oblegid medi'r hyn ni lafuriasant wrtho a wnaent hwy. Ond y mae amser gorffennol y ferf—"anfonais chwi"—yn fwy naturiol o lawer o safle'r awdur ar ddiwedd y ganrif gyntaf, a'r unig le arall yn yr Efengyl y dywaid yr Iesu iddo "anfon" y disgyblion ydyw 17^{18}, a lliw amser diweddar ar yr enghraifft honno. Yr Iesu'n unig a lafuriasai yn Sychar, ond yma dywedir "*eraill* a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt."

Adn. 39–42. FFRWYTH Y GENHADAETH YN SAMARIA.

39. Credodd llawer o'r Samariaid o'r dref honno ynddo oherwydd gair y wraig, **"Dywedodd imi bopeth a wneuthum."** Ond gweler ad. 41 lle y dywedir rhywbeth gwell.

40. Erfyniai'r Samariaid arno aros gyda hwy. Arwydd da oedd hynny oblegid ni ddywedir mai er mwyn gweled gwyrthiau y gwnaent,

" Ac arhosodd yno ddeuddydd." Rhy Luc (9^{52}) hanes Samariaid yn gwrthod rhoi llety iddo. Ni ddywedir yn unlle, ebe Westcott, i'r Iesu aros dros nos yn Jeriwsalem o gwbl.

41. **" A chredodd mwy o lawer oherwydd ei ymadrodd ef ei hun."**

Nid " credu ynddo " ond " credu," gwahaniaeth a wneir yn fynych gan yr awdur. Ceir aml enghraifft yn yr Efengyl o ddylanwad ymadrodd neu air yr Iesu (7^{48} : 8^{30}).

42. **" Nid o achos dy siarad di yr ydym yn credu bellach, canys clywsom ein hunain, a gwyddom mai hwn mewn gwirionedd yw gwaredwr y byd "** (C.N.).

Rhaid gadael allan y geiriau " y Crist." Gwaredwr, neu Iachawdwr, y byd a ddywedasant.

Cawn enghraifft yn yr ad. hon o waith yr awdur yn priodoli i rai eiriau a oedd ar y pryd yn amhosibl iddynt. Dywaid Dr. Bernard na alwyd yr Iesu yn Waredwr (*Soter*) hyd oni ddeallwyd yr Efengyl fel prynedigaeth. Felly nid yw'n wir i'r Samariaid hyn yn llythrennol ddweud " hwn yw Gwaredwr y byd." Ni elwir y Meseia yn Waredwr yn yr H.D. o gwbl, ond gelwir Jehofa wrth y teitl, a'r unig le arall ei defnyddir am Grist yn y T.N. ydyw 1 Ioan 4^{14}—" Iachawdwr (Gwaredwr) y byd." Rhoed y teitl a berthynai i Dduw yn unig yn yr H.D. i Grist gan yr Eglwys Gristionogol. Trwy glywed yr Iesu ei Hun yr argyhoeddwyd y bobl hyn. Y cyffyrddiad personol ag Ef a ymlid ymaith ein amheuon, ac a dry ein chwilfrydedd yn iechydwriaeth. Y mae yn yr hanes hwn sy'n terfynu gyda'r ad. hon ddau uchafbwynt : un ydyw datganiad pendant yr Iesu (ad. 26) : y llall ydyw cred ddiysgog yn ei ymadrodd yn yr ad. hon. Gadael Sychar yw'r peth nesaf.

Adn. 43–45. AR Y FFORDD I GALILEA.

43. Ar ei ffordd i Galilea yr oedd yr Iesu yn ôl ad. 3, ond arhosodd ddeuddydd yn Sychar (^{40}). **" Aeth allan i Galilea."**

44. **" Oherwydd tystiodd yr Iesu ei hunan nad oes anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun "** (C.N.).

Yn y cysylltiad hwn, y mae'r ad. hon yn un ddyrys am y rheswm y dywaid i'r Iesu fyned i Galilea oherwydd y tystiai nad oes anrhydedd i broffwyd " yn ei wlad ei hun," gan awgrymu nad Galilea oedd ei wlad (*patris*) ei Hun, eithr Jiwdea. Ond yn Galilea y magwyd Ef, er mai ym Methlehem ei ganwyd. Felly y dywedir yn yr Efengyl hon fel yn yr Efengylau Synoptig (1^{46} : 7^{52} : 19^{19}).

Tybia Dr. Bernard mai chwanegiad diweddar ydyw'r ad. o Marc 6^{4}, un ai gan yr awdur neu ynteu gan y Golygydd, ac na ddylai fod o gwbl yn y lle hwn. Dyma'r eglurhad mwyaf boddhaol efallai,

Ond cynigir ffyrdd eraill o'i hesbonio: 1. Mai Jiwdea a olygir yma wrth ei wlad ei Hun, a'i fethiant yn Jiwdea a bair iddo symud i Galilea. 2. Mai Galilea yw ei wlad ei Hun, a'i reswm dros symud yno, lle na ddisgwyliai anrhydedd, ydyw'r llwyddiant a gafodd yn Jiwdea. 3. Mai ei wlad ei Hun ydyw Galilea, ond y gobeithiai yn awr, ar ôl ei lwyddiant yn Jiwdea (45) gael croeso yno, er iddo unwaith dystio nad oes anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun.

Tybed nad yn syth ar ôl ad. 45 y byddai'r ad. hon orau?

45. Pan ddaeth i Galilea, derbyniodd y Galileaid Ef ar ôl iddynt weled yr holl bethau a wnaeth yn Jeriwsalem ar yr ŵyl. **"Oherwydd aethent hwythau hefyd i'r ŵyl."** Cyfeiriad ydyw hwn at 2^{23}.

Adn. 46–54. IACHAU MAB PENDEFIG.

Yr un stori ydyw hon, y mae'n ymddangos, â'r un a edrydd Mathew (8^{5-13}) a Luc (7^{1-10}), er mai yng Nghapernaum a ddywedant hwy, a'r awdur hwn yng Nghana. Tybia rhai fod Ioan yn gosod yr Iesu yng Nghana er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd i'w allu goruwchnaturiol. Yr oedd o Gana i Gapernaum, lle y gorweddai'r claf, oddeutu ugain milltir, ac y mae'n briodol cofio bod gan yr awdur hwn bwrpas pellach nag adrodd hanes.

46. **"Felly daeth yn ôl i Gana Galilea, lle y gwnaethai'r dwfr yn win"** (C.N.).

Dyma hwyrach reswm arall tros osod "yr ail arwydd" (54) hwn yng Nghana,—am fod y ddau arwydd a wnaed yno yn gymheiriaid. Y mae yn y ddwy stori yn ôl adroddiad Ioan amryw gyffyrddiadau tebyg i'w gilydd.

Ystyr "pendefig" ydyw gŵr llys, h.y., swyddog milwrol yn llys Herod. Dyfaliad yn unig ydyw ei fod yn Iddew. Cenedl-ddyn ydyw'r "canwriad" ym Mathew a Luc. Geilw Ioan y claf yn "fab" bedair gwaith, ac yn "fachgen" unwaith.

47. Pan glywodd y swyddog ddyfod o'r Iesu i Galilea, daeth ato yr holl ffordd o Gapernaum i Gana. Y mae'n rhaid iddo glywed cyn hyn am allu a pharodrwydd yr Iesu i iachau, ond erfyn arno ddyfod i lawr i Gapernaum i iachau ei fab a wna.

48. Nid etyb yr Iesu ei gais pryderus. Y mae Ef yn gwbl hamddenol lle'r ymddengys perygl i ni. Iddo Ef hefyd y mae rhywbeth gwaeth nag afiechyd peryglus—gwanc afiach am arwyddion cyffrous. **"Oni welwch arwyddion a rhyfeddodau ni chredwch o gwbl."** Yr oedd yr afiechyd hwn yn gyffredinol. Caed enghraifft ohono yn yr ŵyl (2^{23}).

Ond ar y llaw arall, rhydd yr awdur hwn le amlwg i'r gwyrthiau fel arwyddion o ogoniant yr Iesu (2^{11}: 9^{3}: 11^{4}). Eto dengys fod

y ffydd heb weled yn uwchraddol i'r ffydd a ddibynna ar weled gwyrthiau (20[29]).

Nid eisiau gweled arwydd a ddug y tad hwn at yr Iesu, ond ei gariad angerddol at ei fab claf. Oherwydd hynny y mae geiriau'r Iesu'n ymddangos yn galed yn y cysylltiad hwn. Nid yw'n rhyfedd bod rhai yn tybio mai adlais o Marc 8[12] ydynt, a'u bod allan o'u lle yma.

49. **" Syr, tyred i lawr cyn marw fy machgen."**

Ni ddigalonnir ef gan eiriau'r Iesu ([48]). Dyma'r unig dro y llefara'r tad ei hun, a " fy machgen " a ddywaid ef, neu'n gywir " fy mhlentyn bach."

50. **" Ebe'r Iesu wrtho, Dos, y mae dy fab yn fyw."**

Gair sydyn a chwta i'n clust ni ydyw " Dos " neu " Dos ymaith," ond nid yw felly yn y Roeg. " *You may return home*," ebe Weymouth. Nid cystal Moffatt i'n tyb ni " *Go yourself*." Y mae'n werth sylwi bod yr ymadrodd " y mae dy fab yn fyw " yn y paragraff hwn dair gwaith (adn. 50, 51, 53). Beth yw ei ystyr ?

Yng ngolau ad. 52 dyma ydyw : " y mae dy fab wedi troi ar wella," h.y., bydd dy fab yn iach, nid y mae dy fab yn iach—" *your son has recovered* " (Weymouth). Yn ôl Dr. Bernard arwydd o *wybodaeth* oruwchnaturiol yr Iesu, os oedd hefyd yn wybodaeth wyrthiol, yn hytrach nag o'i *allu* goruwchnaturiol ydyw'r stori hon. Y cwbl a wnaeth yr Iesu oedd dweud wrth y tad, wedi iddo ddisgrifio'r afiechyd, " bydd dy fab yn iach." Yr oedd yr wybodaeth hon i Ioan yn ymddangos yn oruwchnaturiol, ond pe gwybuasai gymaint ag a wyddom ni heddiw am fedr meddygon ni thybiasai ef hynny, ac ni welsai ddim " *beyond human powers*." Fel yna yr edrych Dr. B rnard ar y mater. Cawn weled eto ai cywir neu anghywir ydyw.

" Credodd y dyn y gair a ddywedodd yr Iesu, a chychwynnodd " (C.N.). Beth bynnag a feddyliai'r Iesu pan ddywedai " y mae dy fab yn fyw," credodd y tad ef. Ar y cyntaf tybiai y buasai'n rhaid i'r Iesu fyned yr holl ffordd i Gapernaum a gweled ei fachgen er mwyn ei iachau. Yn awr cred un ai ei fod yn iach, neu ynteu ei fod wedi troi ar wella ac y byddai byw.

51. **" Ag yntau eisoes ar ei ffordd i lawr, daeth ei weision i'w gyfarfod a dywedyd bod ei fachgen yn fyw "** (C.N.).

" Bachgen " (*pais*) a ddywedir yma am y mab, yr unig dro yn yr Efengyl hon y defnyddir y gair Groeg hwn. Yn ad. 49 " bachgen bach " (*paidion*) a ddywedir.

52. **" Yna holodd hwynt am yr awr y gwellhasai arno,"** neu'n well " y dechreuodd wella," neu " y troes ar wella."

Y mae'n ymddangos oddi wrth gwestiwn y tad mai'r hyn a olygai'r disgyblion wrth " bod ei fachgen yn fyw " ydoedd ei fod wedi troi

ar wella, ac nid ei fod yn holliach. Nid oedd y tad chwaith yn disgwyl ei fod wedi llwyr wella : eisiau gwybod a oedd arno pa awr y troes ar wella. Yr ystyr felly a rydd ef i eiriau'r Iesu—" y mae dy fab yn fyw " (50)—ydyw, y mae dy fab wedi troi ar wella, ac nid fel y dywaid Dr. Bernard, y mae efe'n siwr o wella. A chaniatau nad yw'r stori yn enghraifft o " *telepathic healing* "—iachâd trwy deimlad o bell,—y mae'n datguddio gwybodaeth tu hwnt i allu dynol.

Y mae ateb y gweision yn bendant : " **Doe ar y seithfed awr y gadawodd y dwymyn ef** " (C.N.), h.y. am un o'r gloch y prynhawn. Twymyn, neu gryd, y geilw Ioan ei afiechyd, ond " parlys " ebe Mathew am was y Canwriad. Yr oedd yn drannoeth pan gyrhaeddodd y tad Gapernaum.

53. " **Gwybu'r tad felly mai dyna'r awr y dywedodd yr Iesu wrtho, Y mae dy fab yn fyw. A chredodd ef a'i dylwyth i gyd** " (C.N.).

Gellir darllen rhwng llinellau'r stori hon fod gan y swyddog hwn ffydd, ond i Ioan cynnyrch y gwyrthiau, yn fwy na'u hamod, ydyw credu.

54. Y mae'r ad. hon yn yr hen gyfieithiad yn aneglur fel adn. 2^{11} sy'n cloi'r arwydd cyntaf. Fel hyn y mae orau : " **Dyma eto ail arwydd a wnaeth yr Iesu ar ôl dyfod o Jiwdea i Galilea.** " Yr arwydd cyntaf oedd troi'r dwfr yn win yng Nghana Galilea (2^{11}). Ond y mae'r ystyr yn amwys o hyd : un ai (1) dyma'r ail arwydd a wnaeth yng Ngalilea, ac ar ôl dyfod o Jiwdea y gwnaeth hwn : neu ynteu (2) ar ôl dyfod o Jiwdea y gwnaeth yr arwydd hwn, ac ar ôl dyfod o Jiwdea y gwnaeth y cyntaf.

Os yw dyfaliad rhai yn gywir, y mae'r ail ystyr yn well na'r gyntaf. Dywedant fod yr awdur yn awyddus iawn i ddangos mai yn Jeriwsalem y cychwynnodd Cristionogaeth, ac mai yno y cwblhawyd hi. Mynnai'r gelynion yn amser yr awdur mai cynnyrch Galilea ydoedd, mai o laid Galilea y tyfasai.

PENNOD V.

Gesyd Moffatt ac eraill y bennod hon rhwng penodau VI. a VII., am mai felly yr oedd yn ddiau yn y cyfansoddiad a ddaeth o law'r awdur. Gwelir rheswm tros hyn yn y ffeithiau a ganlyn: yng Ngalilea y mae'r Iesu yn ôl diwedd pennod IV., ac yng Ngalilea y mae hefyd yn ôl pennod VI. drwyddi oll. Ond yn Jiwdea y mae yn y bennod hon, ac ar ddechrau pennod VII. dywedir iddo rodio ar ôl y pethau hyn yng Ngalilea, gan awgrymu mai yn Jiwdea (pennod V) yr oedd yn uniongyrchol cyn hynny.

Dilyn y drefn draddodiadol a wnawn ni, a cheisio cadw mewn cof y drefn newydd.

Rhoddir yn y bennod hon hanes iachau claf yn Jeriwsalem, a dadl fawr rhwng yr Iesu a'r Iddewon ynghylch y Saboth yn gyntaf, a'i honiadau Ef wedyn.

Adn. 1–9. IACHAU'R CLAF WRTH LYN BETHSATHA.

Ioan yn unig a edrydd y stori hon. Ond ar rai pwyntiau y mae'n debyg i hanes iachau'r claf o'r parlys gan yr Efengylwyr Synoptig. I rai esbonwyr, alegori ddigymysg ydyw i egluro Efengyl y Bywyd. Iddewiaeth yn ei gwendid yw'r claf, ac yng Nghrist yn unig y mae'r waredigaeth. Yng ngolwg eraill y mae'n hanes gwir wedi ei gael gan un a wyddai—Ioan fab Sebedeus efallai,—a'i ddewis gan yr awdur i egluro ymddygiad yr Iesu at y Saboth Iddewig, ac i ddatguddio'r bywyd ynddo'i Hun a fedd Ef. Ac eto nis geilw'n "arwydd" fel y gwna weithiau mewn achosion eraill. Yn ôl pob tebyg, yr oedd iachau'r claf yn wyrth yn syniad yr awdur am na allai neb ond un â gallu dwyfol ei chyflawni. Ond ni chred Dr. Bernard ei bod yn wyrth. Gwendid *nerves*, yn ôl ei farn ef, oedd yr afiechyd, a well-heir yn fynych heddiw trwy foddion cyffelyb i'r un a gymerodd yr Iesu. Gall y sylw hwn achlysuro dadl iach a llesol.

1. **"Wedi hynny yr oedd gŵyl yr Iddewon."**

Ni ellir bod yn bendant pa ŵyl a olygir, er bod rhai llawysgrifau yn darllen "*yr* ŵyl." Yn 6[4], a ddylai flaenori'r bennod hon, dywedir bod "y pasg . . . yn agos," ac efallai yn ôl hynny mai'r Pasg a olygir yma—yr ail Basg yng ngweinidogaeth yr Iesu. "Ac aeth Iesu i fyny i Jeriwsalem," wrtho'i Hun efallai er mwyn osgoi terfysg, oblegid ni sonnir dim yn y bennod hon am y disgyblion.

2. Nid yw dweud "*y mae* yn Jeriwsalem" yn profi bod yr atgofion hyn wedi eu hysgrifennu *cyn* dinistr y ddinas (O.C. 70). Yr oedd yn naturiol llefaru fel yma am lyn, fel y gwneir am afon. Gweler "oedd" yn 11[18].

Nid "Bethesda" ond "Bethsatha" ydyw enw cywir y llyn, enw a roed, yn ôl Joseffus, ar ran ogleddol y ddinas—y Drenewydd. Ansoddair ydyw "y defaid" yn y Roeg, a dylid chwanegu sylweddair ato—marchnad, neu porth. Ond fel hyn y mae'r C.N.: "wrth y Ddefeidiog" (*sheep-walk*). Yn Nehemeia (3^1: 12^{38}) sonnir am "borth y defaid" y gyrrid defaid trwyddo i'r ddinas. Ni ŵyr neb ym mha le y mae'r llyn, ond tybir mai'r un un ydyw â Ffynnon y Forwyn heddiw, am fod ei dwfr yn bwrlymu.

3. Fel hyn y mae'r ad. hon yn gywir: **"Yn y rhain gorweddai tyrfa o gleifion, yn ddeillion, cloffion, a gwywedigion"** (C.N.).

Gadawer allan y geiriau "yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr, a'r cwbl o ad. 4. Rhoed hwy i mewn yn ddiweddarach nag amser yr awdur i egluro'r geiriau "pan gynhyrfer y dwfr" yn ad. 7. Y maent o ran arddull yn wahanol iawn i ffordd Ioan o sgrifennu.

4. Rhoed yr ad. hon a rhan olaf ad. 3 i mewn yn y testun o ymyl y ddalen gan rywun wrth gopïo'r llawysgrif. Darn o draddodiad gwerin ydyw. Mewn llên Rabbinaidd cysylltir angel yn aml ag elfennau Natur. Gweler Dat. 7^1: 16^5, "angel y dyfroedd."

5. **"Ac yr oedd yno un wedi bod dan ei glefyd am ddeunaw mlynedd ar hugain"** (C.N.).

Gan dybio mai alegori yw'r stori hon cymerir "deunaw mlynedd ar hugain" gan rai yn ffigur am y cyfnod a dreuliodd y genedl yn yr anialwch (Deut. 2^{14}). Ond *deugain* mlynedd a fuasai felly, oblegid aethai hynny heibio cyn iddi gyrraedd Canan. Ond y mae gan Ioan amryw wyrthiau aruthrol; a dyma un ohonynt, y mae'n ymddangos. Cym. Luc 13^{11}: Act. 9^{33}. Efallai fod gan yr awdur hefyd y ddadl ynghylch y Saboth yn ei feddwl, pan ddywaid i'r dyn hwn ddioddef cyhyd. Peth dibwys a fuasai iddo aros yn ei wendid hyd drannoeth ar ôl dioddef am ddeunaw mlynedd ar hugain, a thrwy hynny barchu'r Saboth Iddewig. Ond nid felly y meddyliai'r Iesu.

6. Wedi iddo wybod ei hanes, neu ac Ef yn gwybod ei hanes dywaid yr Iesu wrtho, **"A fynni di ddyfod yn iach?"**

Yr oedd gan yr Iesu yn ôl Ioan wybodaeth wyrthiol o ddynion, o leiaf am eu calonnau (2^{24}). Ond gweler 4^{18}. Ond ni ddywaid y gwyddai i'r dyn hwn ddioddef ers "deunaw mlynedd ar hugain," dim ond "ers hir o amser bellach." Trwy holi neu glywed heb holi y gwybu hynny, yn nhyb rhai ohonom.

Peth rhyfedd oedd gofyn iddo "A fynni di ddyfod yn iach?" Ond yr oedd ei brofiad chwerw (ad. 7) wedi parlysu ei obaith am iachâd, ac amcan y cwestiwn ydyw ei baratoi i ddisgwyl hynny. Er nad yw Ioan yn rhoi lle amlwg i ffydd fel amod yn y gwyrthiau a edrydd, nid yw'n anghofio hynny chwaith.

7. Nid yw cwestiwn yr Iesu yn awgrymu i'r claf mai yn yr Iesu y mae'r gobaith am ei iachâd. Dyn dieithr oedd yr Iesu iddo (ad. 13). Iddo ef ym mwrlwm y llyn ac mewn rhywun i'w fwrw ef iddo y mae ei obaith hyd yma.

" Syr, nid oes gennyf neb i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr, ond tra fyddwyf fi'n dyfod, â rhywun arall i lawr o'm blaen i." Y geiriau " pan gynhyrfer y dwfr " a roes fod i'r traddodiad sydd yn adn. 3, 4.

Credid mai yn y bwrlwm yr oedd iachâd, ac mai'r cyntaf a ddisgynnai iddo a âi yn iach. Ond efallai mai lle i un yn unig oedd yn y ffynnon.

8. **" Medd yr Iesu wrtho, Saf, cyfod dy wely a cherdda "** (C.N.).

Y mae'r ad. hon yn neilltuol o sydyn a dramatig ar ôl tôn anobeithiol y claf. Gesyd yr awdur bwyslais mawr yn yr Efengyl ar " lais " yr Iesu. Gweler 5^{25} : 11^{43}.

Os yw â'i " lais " yn deffro'r meirw, gall â'r un llais ein galw ninnau o ddyfnderoedd ein hanobaith.

Y mae'r gorchymyn a roed i'r claf hwn bron yn yr un geiriau â'r un a roed i'r claf o'r parlys (Marc 2^{11}), a'r gair am " gwely " yr un un yn y ddau le—matras, gwely'r tlawd. Ond y mae meddwl oddi wrth hynny a rhai pwyntiau eraill, mai'r un stori ydynt, yn annaturiol.

9. **" Ac ar unwaith daeth y dyn yn iach, a chododd ei wely a cherddai."**

Tan ddylanwad " awgrym " yr Iesu (ad. 8) y gwnaeth y cwbl, ebe Dr. Bernard. Yn ei farn ef, nid yw'n wyrth yng ngolwg yr awdur. Yng nghysylltiad y stori â'r Saboth y mae ei ddiddordeb ynddi. Ni ddywedir bod neb o'r disgyblion gyda'r Iesu yn awr. O ba le felly y cafodd yr awdur neu'r Tyst yr hanes ? Yr ydym yn symud y frawddeg olaf yn yr ad. hon i ad. 10.

Adn. 10–16. CWESTIWN Y SABOTH.

10. **" Ac yr oedd hi'n Saboth ar y diwrnod hwnnw."**

Nid yw'n anodd credu mai yn y ffaith hon y mae diddordeb mwyaf yr awdur. Cwestiwn y Saboth a ddug yr Iesu yn gyntaf i wrthdrawiad â'r Iddewon.

Ciliasai o'r lle wedi iddo iachâu'r claf. Daeth yr Iddewon at y dyn a iachesid, er na wyddent hwy efallai eto ei iachau. Dyn iach yn cario'i wely ydyw iddynt hwy, ac yn torri'r Saboth wrth wneuthur hynny, oblegid yr oedd cario baich ar y Saboth yn drosedd a haeddai farwolaeth (Neh. 13^{19}).

11. **"Yr hwn a'm gwnaeth yn iach, hwnnw a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely a cherdda"** (C.N.).

Fel y dall o'i enedigaeth, ymresyma hwn yn gall ac yn fedrus: "yr oedd gan un a'm gwnaeth yn iach awdurdod hefyd i'm gorchymyn i godi fy ngwely ar y Saboth." Yn ei eiriau ef yr ydym yn clywed tinc cleddau dadl y Saboth, ac yn deall safle'r awdur. Trwy gyfrannu bywyd ysbrydol y mae Crist yn ein rhyddhau oddi wrth gaethiwed traddodiadau cul. Dyna un cyfraniad gwerthfawr a wna'r Efengyl hon.

12. **"Pwy ydyw'r dyn a ddywedodd wrthyt, Cyfod a cherdda?"** (C.N.).

Hwn yw'r cwestiwn mawr, pwy a'i gorchmynnodd i dorri'r Saboth, ac nid pwy a'i gwnaethai'n iach. Ond dengys ad. 7^{23} fod y cwestiwn o dorri'r Saboth trwy iachau arno wedi cyfodi yn ddiweddarach.

13. Ni allai'r dyn eu hateb oblegid ni wyddai pwy oedd yr hwn a'i hiachasai, a chiliasai'r Iesu am fod tyrfa yn y lle. Nid "ciliasai *o'r* dyrfa" sy'n gywir, ond "am fod tyrfa yn y lle." Yr oedd yn awyddus i osgoi cyffro. Nid yw'n ymddangos fod y disgyblion gydag Ef.

14. Wedi hynny y mae'r Iesu'n cael y dyn yn y deml. Ymddengys ei fod yn awyddus i ymddiddan ag ef, oblegid cael ar ôl chwilio ydyw ystyr "a'i cafodd" fel yn 1^{43}: 9^{35}. Buasai wedi ymddiddan ag ef wrth y llyn oni bai fod arno ofn cyffro. Dywedodd wrtho **"Dyma ti wedi dy iachâu: paid â phechu mwyach rhag digwydd rhywbeth gwaeth i ti"** (C.N.). Yr oedd â wnelai afiechyd y dyn rywbeth â'i gymeriad, y mae'n ymddangos.

Yn rhyfedd iawn, sonnir am yr un peth yn hanes y claf o'r parlys (Marc 2^5). Gweler 9^2.

Efallai mai afiechyd gwaeth na'r cyntaf ydyw "rhywbeth gwaeth," neu ynteu ganlyniadau moesol.

15. **"Aeth y dyn ymaith a dywedodd wrth yr Iddewon mai Iesu oedd yr hwn a'i gwnaeth yn iach"** (C.N.).

Nid "*yr* Iesu" a ddywedodd ef, ond "Iesu"—dim ond ei enw yn syml. Ni ellir dim ond dyfalu ei amcan yn hysbysu'r Iddewon. Y ffaith yn unig sydd o ddiddordeb i'r awdur; oblegid heb i'r Iddewon wybod mai Iesu oedd, y mae'r gwrthdrawiad rhyngddynt yn amhosibl.

16. **"Ac o achos hyn yr erlidiai'r Iddewon yr Iesu, am ei fod yn gwneuthur y pethau hyn ar y Saboth."**

Gwelir ar unwaith mai sylw cyffredinol ydyw hwn, am arfer yr Iesu o dorri'r Saboth Iddewig a gwaith yr Iddewon yn ei erlid. Y mae Ioan yn hyn yn cytuno â'r Efengylwyr Synoptig (Marc 3^6), a ddywedant i'r Phariseaid gychwyn ei erlid am iddo iachâu ar y

Saboth. Pan ysgrifennwyd yr Efengyl hon yr oedd dadl y Saboth wedi llosgi allan, ebe'r esbonwyr, ac felly y mae'r lle sydd i'r cwestiwn yn yr Efengyl yn braw go dda mai atgofion Tyst a geir yma, neu ynteu'r traddodiad Synoptig. Ni pherthyn y geiriau "ac a geisiasant ei ladd ef" i'r ad. hon.

Adn. 17–47. AMDDIFFYNIAD YR IESU.

O hyn i ddiwedd y bennod yr Iesu'n unig sy'n llefaru, oddicithr bod yr awdur weithiau yn llefaru trwyddo Ef, oblegid gwneir hynny yn y *trydydd* person yn gystal ag yn y person cyntaf. Y mae'r arddull yn hollol wahanol i ddim a geir yn yr Efengylau Synoptig, ac eithrio, dyweder, adnod yma ac acw, megis Math. 11^{27}: Luc 10^{22}. Efallai mai un cyfrif am y gwahaniaeth ydyw bod yr Iesu yn yr Efengyl hon yn *dadlau* ag Iddewon Jiwdea yn eu dull Rabbinaidd hwy, ond yn yr Efengylau Synoptig yn *ymddiddan* â Galileaid syml ac anghyfarwydd yn arddull y Rabbiniaid. Cyfrif arall ydyw bod yr awdur wedi gosod delw ei athrylith ef ei hun ar y bregeth hon ac eraill. "Nid hanesydd yn unig ydyw ef, ond dehonglydd hanes hefyd." Eithr cred Dr. Bernard iddo glywed yr Iesu'n llefaru i'r Galileaid syml, ac yn dadlau â'r Iddewon diwylliedig.

17. **"Atebodd yntau iddynt, Y mae fy Nhad yn parhau i weithio, ac yr wyf innau'n gweithio."**

Ei amddiffyn ei Hun yn erbyn y cyhuddiad o dorri'r Saboth a wna'r Iesu yn yr ad. hon, a barnu oddi wrth y cysylltiadau. Ond y mae'r awdur wedi gorffen gyda phwnc y Saboth, ac eithrio'n achlysurol (7^{23}). Rhagdybia'r Iesu nad yw Duw yn cadw'r Saboth, er y dywedir yn yr H.D. iddo orffwys ar y dydd hwnnw (Gen. 2^{2}: Ex. 31^{17}). Dywaid Philo hefyd nad yw Duw yn peidio â gweithio. Ond yn y geiriau "ac yr wyf innau'n gweithio" honna'r Iesu fwy na'i fod yn dilyn esiampl ei Dad. Golyga fod ganddo *awdurdod* i weithio ar y Saboth fel y sydd gan ei Dad. Felly y deallwyd Ef gan yr Iddewon (ad. 18).

Yn ôl Marc (2^{28}) dywedodd ei fod yn "Arglwydd ar y Saboth." Yr un peth a olyga yma, ond mewn arddull gwahanol am ei fod yn dadlau â phersonau diwylliedig, neu ynteu am mai dyma ffordd yr awdur o'i gyfleu.

18. Cilia pwnc y Saboth i roi lle i gwestiwn mwy, a awgrymwyd yn honiad mawr yr Iesu yn ad. 17—ei berthynas arbennig, ddigymar Ef â Duw.

"Am hynny yr oedd yr Iddewon yn ceisio'n fwy ei ladd ef, am iddo nid yn unig dorri'r Saboth, ond hefyd alw Duw'n Dad iddo'i hunan, a'i wneuthur ei hunan yn gyfartal â Duw" (C.N.).

Daliodd yr Iddewon ar ddau beth yn honiad yr Iesu. Y cyntaf oedd "*fy* Nhad"—galw Duw'n Dad iddo'i Hunan, mewn ystyr nad yw'n Dad i neb arall. Gweler Rhuf. 8^{32}. Ond yn rhyfedd iawn ni wnaethant hynny yn 2^{16}.

Yr ail beth y sylwasant arno ydoedd iddo "ei wneuthur ei hun yn gyfartal â Duw" trwy honni bod ganddo Ef fel ei Dad awdurdod i weithio ar y Saboth.

Ond synia rhai mai esboniad yr awdur ydyw'r geiriau "a'i wneuthur ei hunan yn gyfartal â Duw," un ai wrth ddweud "*fy* Nhad" neu ynteu trwy honni awdurdod cyfartal ag Ef. Ni fuasai Ioan, ebe Dr. Bernard, byth yn dweud yma, ac ni ddywaid yn unman arall fod y Mab yn *gyfartal* â'r Tad, oblegid y buasai hynny'n rhannu'r Duwdod. "Yr oedd y Gair yn Dduw" (1^{1}) a ddywaid ef. Ar y llaw arall, dywaid Paul ei fod yn gyfartal ("ogyfuwch") â Duw (Phil. 2^{6}).

19. Etyb yr Iesu, **"Ni all y Mab wneuthur dim ohono'i hunan, ond yr hyn a wêl y Tad yn ei wneuthur. Canys y pethau a wnêl ef, dyna'r pethau a wna'r Mab yn yr un modd."**

Nid yr hyn a ddysg yr ad. hon ydyw bod y Mab yn ddibynnol ar y Tad, neu'n israddol iddo, ond bod y Tad ac Yntau, yn un (10^{30}), ac am hynny na all y Mab wneuthur dim ohono'i Hunan. Nid gwrthddweud yr hyn a ystyrid gan yr Iddewon yn gabledd a wna'r Iesu, eithr yn hytrach ailadrodd yr ymhoniad ei fod yn gyfartal â Duw.

20. Parhad o eiriau'r Iesu, megis y prawf **"fel y rhyfeddoch chwi."** Dywaid fod y Tad yn caru'r Mab ac yn dangos iddo bopeth a wna ei Hunan, ac y bydd iddo ddangos iddo weithredoedd mwy na'r rhain, h.y., mwy na'r gwyrthiau. "Gweithredoedd mwy" ydyw barnu, a chyfodi'r meirw, y cyfeirir atynt yn y bennod hon.

21. **"Canys fel y mae'r Tad yn cyfodi'r meirw ac yn eu bywhau, felly hefyd y mae'r Mab yn bywhau y rhai a fyn."**

Dyma un o'r "gweithredoedd mwy" (ad. 20). Tybia rhai esbonwyr mai'r awdur a biau'r ad. hon.

Pa un ai'n gorfforol neu ynteu'n ysbrydol y mae'r Mab yn "bywhau" y rhai a fyn? Petai "cyfodi'r meirw" a "bywhau" yn rhan gyntaf yr ad. yn golygu cyfodi'r meirw o'u beddau, ni fyddai'n dilyn, o anghenraid, mai dyna ydyw ystyr "bywhau" yn yr ail ran. Y dyb ydyw na fuasai'r awdur yn gwahaniaethu rhwng y bywhau materol a'r bywhau ysbrydol. Nid yw'n ymddangos y credai ef yr atgyfodir neb o'r bedd ond y credadun (11^{26}).

Priodolir awdurdod annherfynol yn yr ad. hon i'r Mab—"bywhau *y rhai a fyn*." Yn yr H.D. (Deut. 32^{39}) rhagorfraint Duw yn unig ydyw lladd a bywhau.

22. Eglurhad ydyw'r ad. hon ar eiriau olaf ad. 21: **"Y rhai a fyn, canys nid yw'r Tad yn barnu neb, ond y mae wedi rhoddi pob barn i'r Mab."**

Yn ôl yr H.D. rhagorfraint Duw yn unig oedd "barnu" hefyd (Deut. 1^{17}). Meddylier gan hynny am y ffaith ei fod wedi rhoi pob barn i'r Mab."

Pan ddywedir nad yw'r Tad yn barnu neb, yr ystyr ydyw nad yw'n gwneud hynny'n annibynnol ar y Mab, oblegid perthynas dynion â Christ sy'n penderfynu eu tynged.

23. **"Er mwyn i bawb anrhydeddu'r Mab fel y maent yn anrhydeddu'r Tad"**—i hynny y mae'r Tad wedi rhoddi pob barn i'r Mab.

Y mae y tu ôl i'r ad. hon eto ymhoniad mawr—y Mab i'w anrhydeddu fel yr anrhydeddir y Tad!

Nid oedd yr Iddewon hyn yn anrhydeddu'r Mab, y mae hynny'n amlwg. Ond nid oeddynt yn anrhydeddu'r Tad chwaith, oherwydd eu bod yn amharchu'r Hwn a anfonwyd ganddo.

24. Sylwer ar y newidiad o'r trydydd person i'r person cyntaf, yn yr ad. hon a'r nesaf.

Y mae gan y neb sy'n gwrando ar air Crist, ac yn credu i'r Hwn a'i hanfonodd, fywyd tragwyddol, **"ac i farn ni ddaw, ond y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd"** (C.N.). Dyma yw'r ystyr—y mae gan y credadun fywyd tragwyddol *yn awr*, ac nid yw ef ar y ffordd i farn, oherwydd trwy groesi o farwolaeth i fywyd y mae wedi ei farnu eisoes.

Gwelir trwy hyn fod i "farn" yn yr Efengyl hon amryw ystyron—praw, dydd praw, condemniad, rhyddhad.

25. **"Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae amser yn dyfod, ac y mae yn awr, pan glywo'r meirw lais Mab Duw, a'r rhai a'i clyw a fydd byw."**

Mewn ystyr ysbrydol y dylid cymryd "meirw" a "byw" fel y prawf y geiriau "ac y mae yn awr." Ond yn adn. 28, 29 golygir yr atgyfodiad yn y dydd diwethaf.

"Llais" ydyw'r cyfieithiad gorau o'r gair "llef." Rhydd yr awdur bwyslais mawr ar "lais" yr Iesu, a glywodd ef ei hun hwyrach lawer gwaith, ac ar adegau pwysig. Gall y llais hwn beri i'r meirw yn eu pechodau a'r meirw yn eu beddau ddyfod allan i fywyd a rhyddid. Ioan ydyw'r unig un a ddywaid i'r Iesu ei Hun ddefnyddio'r teitl "Mab Duw" amdano'i Hun.

26. Symudir i'r trydydd person yn yr ad. hon. Dywaid Dr. Bernard fod "canys megis," fel yn ad. 21, yn braw mai'r awdur a'i

piau. Y mae'n anodd gwybod beth yw'r cysylltiad. Efallai mai dyma ydyw: Y mae'r Mab yn bywhau'r meirw sy'n clywed ei lais, canys y mae ganddo Yntau fywyd ynddo'i Hunan megis y mae gan y Tad fywyd ynddo'i Hunan. Ond ailadroddiad o adn. 21, 22 ydyw non a'r nesaf.

Am y Gair (Logos) dywedwyd "ynddo ef yr oedd bywyd" (1[4]), ond yma, am y Mab, fod ganddo fywyd ynddo'i Hunan *wedi ei roddi iddo gan y Tad*. Un o syniadau mynychaf Ioan ydyw "rhoddi" i'r Mab. Nid yw ef yn gwahaniaethu rhwng y Gair tragwyddol a'i Iesu yn y cnawd.

27. **"Rhoes awdurdod iddo i wneuthur barn oherwydd ei fod yn Fab dyn."**

Yr awdur biau'r ad. hon etc. Gyda chwanegiad, ail-adroddiad ydyw o'r syniad sydd yn ad. 22.—Sylwer ar yr ymadrodd "Fab dyn," ac nid "Fab y dyn." Ond efallai mai "Mab y dyn," h.y., y Meseia a olyga, ac nid "dyn" yn syml.

Mewn llenyddiaeth Iddewig rhoddir lle mawr i'r Meseia fel Barnwr, ac efallai mai hynny a feddylir yn "oherwydd ei fod yn Fab dyn." Ond y mae'r ystyr arall yn gwbl naturiol—am ei fod yn ddyn, wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â'r rhai a fernir ganddo.

28. **"Na ryfeddwch at hyn"** (C.N.).

Nid yw'r ymadrodd hwn yn profi mai'r Iesu sy'n llefaru. Tybia Garvie mai sylw gan y Golygydd ydyw'r ad. hon a 29. Cyfeirir at yr atgyfodiad yn y dydd diwethaf, a'r farn olaf, fel rheswm tros ddweud bod y Mab yn bywhau yn ysbrydol y rhai a fyn, a bod y meirw ysbrydol yn bywhau wrth ei lais (ad. 25). Pe gellid profi'r cyntaf ni fyddai'n anodd profi'r ail. Rhydd yr awdur ychydig o le i'r atgyfodiad yn y dydd diwethaf (6[39], [40]: [44], [54]: 11[24]).

29. **"A deuant allan: y rhai a wnaeth dda i atgyfodiad bywyd, y rhai a wnaeth ddrwg i atgyfodiad barn."**

Yn ad. 28 dywedir y clyw *pawb* sydd yn y beddau ei lais Ef. Oddi wrth yr ad. hon yr ydym yn deall bod "pawb" yn golygu'r drwg a'r da. Yn 6[39] ymddengys mai'r cyfiawn yn unig a atgyfodir yn y dydd diwethaf, a dyna ydyw safle'r awdur yn 11[25]. Ac eithrio Act. 24[15], dyma'r unig le yn y T.N. y dywedir *yn bendant* y cyfyd y drwg a'r da. Ond dywaid Paul fod yn rhaid inni oll ymddangos gerbron brawdle Crist (2 Cor. 5[10]).

30. Lleferir o hyn ymlaen yn y person cyntaf **"Ni allaf fi wneuthur dim ohonof fy hunan."**

Ailadroddiad o ad. 19 mewn rhan ydyw'r ymadrodd hwn. Swm a sylwedd yr ad. hon ydyw bod barn Crist yn "gyfiawn," oblegid meddwl y Tad yw ei feddwl Ef, a cheisio cwyllys y Tad a wna. Y mae'r ad. hon yn esboniad da ar 10[30].

31. **" Os myfi sy'n tystio amdanaf fy hun, nid yw fy nhystiolaeth i'n wir."**

Y mae deall y cysylltiad yn anodd iawn, onid sylw cyffredinol ydyw. Y meddwl ydyw, onid oes gennyf dystion i gadarnhau fy honiadau amdanaf fy Hun, nid yw fy nhystiolaeth i'n safadwy. Ond y mae'ganddo dystion (32). Ymddengys 8[14] yn hollol groes i hon.

Rhoddai'r Rabbiniaid Iddewig bwys mawr ar dystiolaeth dau mewn dadleuon diwinyddol yn gystal ag mewn materion cyfraith (Deut 19[15]).

32. Oddi yma hyd ad. 39, galw tystion a wna'r Iesu. Tystiolaeth *y Tad* sydd yn yr ad. hon. **" Y mae Arall yn tystio amdanaf i, a gwn mai gwir yw'r dystiolaeth a dystia ef amdanaf."** Tybia rhai mai'r Bedyddiwr ydyw'r " Arall " hwn, ond prin y buasid yn dweud amdano ef " y *mae*'n tystio," ac yntau yn ôl pob tebyg wedi marw.

33. Dyma dystiolaeth y Bedyddiwr. **" Anfonasoch chwi at Ioan, a thystiodd i'r gwirionedd."** Cyfeirir at y ddirprwyaeth a anfonwyd ato (1[19]). Ond sylwer ar " i'r gwirionedd " yn lle " amdanaf fi," fel y buasid yn disgwyl. Crist yw " y gwirionedd " (14[6]) yn ôl Ioan, ac eto dywaid Crist o flaen Pilat ei fod Ef yn " tystio i'r gwirionedd " (18[37]).

34. **" Ond nid gan ddyn yr wyf fi'n derbyn tystiolaeth, eithr fel y'ch cadwer chwi yr wyf yn dywedyd y pethau hyn."**

Nid er ei fwyn ei Hun y cyfeiria yn ad. 33 at dystiolaeth y Bedyddiwr ond fel yr achuber yr Iddewon. Lle israddol a rydd yr awdur i'r Bedyddiwr ym mhob man y mae arno eisiau dangos Crist.

35. **" Y lamp yn llosgi ac yn goleuo oedd ef, a chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu tros amser yn ei olau ef."**

Wrth ddweud " *oedd* ef " awgrymir nad oedd y Bedyddiwr yn fyw, ond gellid, ar y llaw arall, lefaru yn y gorffennol am ei dystiolaeth er iddo fod yn awr yn fyw. " Y lamp " yr oedd yn rhaid ei chynnau, ac a'i llosgai ei hun allan wrth oleuo, oedd ef. Ond gwnaeth wasanaeth amhrisiadwy—goleuo'r llwybr i ddynion at y Gwir Oleuni.

Esbonnid Salm 123[17], " darperais lamp i'm Heneiniog," fel cyfeiriad at y Bedyddiwr.

Nid bai yr Iddewon oedd " gorfoleddu " yn ei olau ef, ond gwneud hynny " tros amser," am orig fach, yn lle dal ar ei dystiolaeth. Chwarae plant (Math. 11[16]) ydoedd—" *gnats playing in the sunshine.*"

36. Dyma dystiolaeth y gweithredoedd, sydd fwy na thystiolaeth y Bedyddiwr.

Rhoir lle mawr i'r " gweithredoedd " fel tystion i Grist yn yr Efengyl hon. Cynhwysant fwy na'r gwyrthiau fel y dengys y geiriau **" a roes y Tad i mi i'w gorffen,"** neu eu cwblhau. Gweler 17[4].

37. Tystiolaeth y Tad eto, am yr ail waith os Ef ydyw'r "arall" yn ad. 32.

Fel hyn y mae cyfeithu'r darn cyntaf o'r adnod: **"A'r Tad a'm hanfonodd, y mae ef wedi tystio amdanaf,"** nid "a dystiodd" rywbryd yn y gorffennol.

Ond pa bryd a pha fodd? Yn ôl rhai, ym Medydd Crist: yn ôl eraill, yn yr Ysgrythurau: ym mhrofiad y credinwyr, ym marn eraill. Ond nid yn y Bedydd yn sicr, oblegid dywedir "Ni chlywsoch chwi *erioed* ei lais ef, ac ni welsoch ei wedd," neu ei ffurf. Ni ellid beio'r Iddewon hyn am na chlywsant lais y Tad na'i ffurf Ef yn y Bedydd.

Ond y mae'n ymddangos i ni mai at brofiad yr Eglwys Gristionogol y cyfeirir, fel y gwneir hefyd cfallai yn 3^{11}. Golyga hynny fod yr awdur yn cymhwyso profiad diweddarach y credinwyr at yr amgylchiadau hyn; ond y mae'n gwneud hynny'n fynych yn yr Efengyl. Gallai ddweud wrth y rhai a wrthodai Grist yn ei ddydd ef "Ni chlywsoch chwi ei lais Ef erioed ac ni welsoch ei lun." Cym. 1 Ioan 5^{10}, "sydd ganddo'r dystiolaeth ynddo'i hun."

Gellid tybio mai ystyr y rhan olaf o'r ad. ydyw, na welodd *neb* Dduw erioed (1^{18}), ond y mae hynny'n amherthynasol yma.

38. **"A'i air ef nid yw gennych yn aros"** (C.N.).

Cyfeiriad at brofiad y credinwyr ydyw hwn eto. Gweler 1 Ioan 1^{10}: 2^{14}, "gair Duw yn aros ynoch."

Yn y profiad o Grist y ceir y profiad o air y Tad yn aros ynom, oblegid ynddo Ef y ceir y datguddiad o'r Tad. Am y rheswm hwn y dywedir "oherwydd yr hwn a anfonodd ef, hwnnw nid ydych yn credu ynddo."

39. Tystiolaeth yr Ysgrythurau. Cred eraill fel y gwelwyd mai hyn sydd hefyd yn adn. 37, 38.

Y mae'n well cyfeithu'r ferf "chwilio" yn y modd mynegol, fel hyn: **"Yr ydych yn chwilio'r ysgrythurau am eich bod yn tybio cael ynddynt fywyd tragwyddol."**

Tybio ar gam ydyw ystyr "tybio" bron ym mhob enghraifft ohono yn yr Efengyl. Gweler 5^{45}: 11^{13}: 13^{29}: 16^{2}: 20^{15}. Ni fuasai'r Iesu'n dweud wrth yr Iddewon "*Chwiliwch* yr ysgrythurau am eich bod yn tybio ar gam gael ynddynt fywyd tragwyddol." Ond yr oeddynt hwy yn tybio (ar gam) gael bywyd tragwyddol trwy ddim ond efrydu'r H.D. Yn hynny yr oedd eu damnedigaeth—efrydu'r llythyren a methu â gweled y Crist y tystia'r Ysgrythurau amdano: "ac y mae'r rheini yn tystio amdanaf fi,"

40. **" Ac eto ni fynnwch ddyfod ataf fi fel y caffoch fywyd."** Dyma'r trychineb ofnadwy—chwilio'r ysgrythurau, yr ysgrythurau sydd yn tystio am y Meseia, ac eto ei wrthod pan yw'n ei gynnig ei Hun iddynt!

Cym. yr alargan uwchben Jeriwsalem (Math. 23[37]).

41. **" Nid wyf yn derbyn clod gan ddynion."**

Y mae'r cysylltiad yn aneglur. Efallai mai dyma ydyw: Nid am fy mod yn ceisio clod gan ddynion yr wyf yn eich beio, ond oherwydd nad oes gennych gariad Duw ynoch ([42]). Cafwyd syniad tebyg yn ad. 34.

42. **" Ond adwaen chwi nad oes gennych gariad Duw ynoch "** (C.N.).

Ystyr fynychaf " cariad Duw " ydyw cariad oddi wrth Dduw at ddyn, ond weithiau golyga gariad dyn at Dduw. Efallai mai'r ystyr gyntaf sydd orau yma, cyfystyr â " ei air ef ynoch " yn ad. 38. Ond ym mhrofiad y credadun ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y ddwy ystyr. Dyma genadwri'r ad. hon: " Yr wyf yn eich cyhuddo am fy mod yn gwybod nad oes gennych gariad Duw, a'ch achub chwi yw fy amcan."

43. **" Dyma fi wedi dyfod yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn: os daw arall yn ei enw ei hun, chwi a dderbyniwch hwnnw."**

" Dyfod yn enw y Tad " ydyw dyfod gyda datguddiad neilltuol ohono Ef, oblegid saif mewn cyferbyniad i " yn ei enw ei hun " yn ail hanner yr adnod. Yn uchafiaeth y gwirionedd a ddysg y gwahaniaetha Crist, yn un peth, oddi wrth bawb arall. " O'r ddaear " y llefara pawb arall (3[31]). Buasai pob un arall yn *honni* ei ddyfod ei hunan *oddi wrth* Dduw.

Tybia rhai fod " arall " (nid *rhywun* arall) yn cyfeirio at berson penodol. Petai'n golygu'r Anghrist, a ddisgwylid ar ddiwedd y ganrif gyntaf, yna geiriau'r awdur a fyddai'r rhain wedi eu rhoddi ganddo ef yng ngenau'r Iesu. Ond ar y llaw arall, cym. Marc 13[6], " Daw llawer yn fy enw i."

44. **" Pa fodd y gellwch chwi gredu a chwithau'n derbyn clod y naill gan y llall, a heb geisio'r clod a ddaw oddi wrth yr unig Dduw?"**

Y mae'n foesol amhosibl i un sy'n byw ar glod dynion ddeall y neb nad yw'n ceisio dim ond y clod a ddaw oddi wrth Dduw. Cym. Math. 23[5]: Rhuf. 2[29].

45. **" Na thybiwch y cyhuddaf i chwi gyda'r Tad: y mae a'ch cyhudda chwi,—Moses,—yr hwn yr ydych chwi wedi gobeithio ynddo,"**

Sut y gallent o gwbl dybio y byddai iddo eu cyhuddo *wrth y Tad*, a hwythau yn gwrthod credu iddo ddyfod oddi wrth y Tad? Tybia Dr. Bernard fod rhai ohonynt yn dechrau anesmwytho, ac yn ofni ei ddyfod oddi wrth y Tad, ac y gwyddai'r Iesu hynny.

Yr oedd dweud bod Moses yn eu cyhuddo yn ergyd drom: "y mae un sy'n eich cyhuddo chwi—Moses."

Yn eu golwg hwy, Moses oedd eu hamddiffynnydd pennaf. "Disgyblion Moses ydym ni," ebent (9[28]).

46. Dyma'r rheswm tros ddweud bod Moses yn eu cyhuddo: **"Canys pe credech ym Moses, credech ynof i, oblegid amdanaf fi yr ysgrifennodd ef."**

Cyfrifai'r Rabbiniaid bod Deut. 18[18] yn rhagfynegiad pendant o'r Meseia. Ond cynhwysir mwy na hynny, fel y prawf y geiriau "amdanaf fi yr *ysgrifennodd* ef." Cym. Luc 24[27].

47. **"Eithr onid ydych yn credu yn ei ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch yn fy ngeiriau i?"**

Ni ellir cymhwyso'r gwirionedd hwn yn gyffredinol, h.y., gallwn ni heddiw gredu yng Nghrist heb hefyd gredu yn ysgrifeniadau Moses. Dywaid Dr. Bernard na fuasai'r awdur ar ddiwedd y ganrif gyntaf, na neb ar ôl hynny yn yr Eglwys Gristionogol, yn ymresymu fel hyn. Ond yn y ddadl rhwng yr Iesu a'r Iddewon yr oedd yn ymresymiad cadarn ac anatebadwy. Rhoddai'r Iddewon bwys mawr ar awdurdod Moses a'r Ysgrythur, a chytunai'r Rabbiniaid fod Deut. 18[18], er enghraifft, yn rhagfynegiad o'r Meseia. Ar eu tir hwy eu hunain yr ymresymir yn yr adn. hyn.

Oherwydd hyn dadlau Dr. Bernard fod yr hyn a adroddir yma yn gofnodiad dilys o hanes, er mor annhebyg ydyw i'r ymddiddanion rhwng yr Iesu a'r Phariseaid yng Ngalilea a edrydd yr Efengylwyr Synoptig.

PENNOD VI.

Dywedasom ar ddechrau pennod V. y dylai'r bennod hon flaenori honno. Yng Ngalilea y mae'r Iesu ar ddiwedd pennod IV ac yno y mae ar ddechrau'r bennod hon a thrwyddi oll. Dyma gwrs ei Weinidogaeth felly yn y penodau hyn: (1) trwy Samaria i Galilea (pen. iv.): (2) yng Ngalilea (pen. vi.): (3) yn Jiwdea (pen. v.): (4) yn ôl i Galilea am ysbaid byr (pen. vii. 1): (5) i Jiwdea eto (pen. vii. 10).

Adn. 1–15. PORTHI'R MILOEDD.

Hwn ydyw'r unig ddigwyddiad a gofnodir yn y *pedair* Efengyl. Geilw Ioan ef yn "arwydd" (6^{14}), a thybir gan rai, oherwydd ei gysylltiad â'r bregeth ar Fara'r Bywyd (adn. 51–58), mai er ei mwyn hi y cofnoda ef.

Y mae yn y bennod hon anawsterau lawer, a dylem eu hwynebu. Cred y Dr. Bernard nad yw Ioan yn cyfrif yr "arwydd" hwn yn wyrth, fel y gwna'r Efengylwyr Synoptig yn ôl pob tebyg. Dywaid Rawlinson (ar Marc) mai anfoddhaol iawn ydyw pob ymgais a wnaed i brofi nad yw porthi'r miloedd yn "wyrth." Yng ngolwg yr Efengylwyr Synoptig gwyrth ydoedd yn ddiddadl, ebr ef. Cwestiwn arall ydyw sut yr edrych *Ioan* ar y digwyddiad. Yn wahanol i'r Efengylwyr eraill, cymer ef ryddid i ddefnyddio'r digwyddiadau i'w bwrpas aruchel.

1. Yng Nghana Galilea yr oedd yr Iesu ddiwethaf (4^{54}), ond aeth oddi yno i Gapernaum, ac yna "dros fôr Galilea," gan ei groesi ar draws ei ran ogleddol am bedair milltir o lan i lan (Luc 9^{10}).

Y mae'r eglurhad "môr Tiberias" yn un diddorol iawn am ei fod yn cyffwrdd â dyddiad yr Efengyl. Yr unig leoedd yn y T.N. y ceir yr ymadrodd ydyw yma a 21^{1}, ac nis ceir gan neb arall hyd ganol yr ail ganrif (O.C. 150).

Oddi wrth dref "Tiberias" y rhoed yr enw ar y "môr," ond yn amser Crist tref newydd sbon ydoedd. Wedi iddi ddyfod yn hen y gallai roi ei henw ar y "môr."

2. **"Ac yr oedd tyrfa fawr yn ei ganlyn am eu bod yn gweled yr arwyddion a wnâi ar y cleifion"** (C.N.).

Yn yr amser amherffaith y mae'r berfau i gyd yn yr ad. hon, yr hyn a ddengys i'r dyrfa ei ganlyn cyn hyn.

3. Y mae'r Iesu yn awr wedi croesi môr Galilea i'r lan arall. **"Ond aeth Iesu i fyny i'r mynydd, ac yno yr eisteddai gyda'i ddisgyblion."** Defnyddia Ioan yr enw "Iesu" heb y fannod weithiau, fel yn y fan hon.

Gŵyr yntau fel yr Efengylwyr Synoptig yr arferai Iesu fyned i'r mynydd, ac eistedd i addysgu fel y gwnâi'r Rabbiniaid.

4. Y "pasg" hwn ydyw'r ŵyl, y sonnir amdani yn 5^{1}, oblegid y mae'r bennod hon i flaenori pennod v.

Gofala'r awdur, er mwyn darllenwyr Groeg, ddweud "gŵyl *yr Iddewon*. Gweler 2^{13}: 5^{1}: 7^{2}: 11^{55}.

Paham y dywaid fod y pasg "yn agos"? Yn ôl rhai, am fod cysylltiad yn ei feddwl ef rhwng porthi'r miloedd a'r pasg. Pan ysgrifennai yr oedd y Sacrament Cristionogol o Swper yr Arglwydd wedi cymryd lle'r pasg Iddewig, ac arwyddlun o'r Cymun ydyw'r porthi iddo ef, ac i'r Iesu. Y mae hwn i'n tyb ni yn esboniad rhy gywrain. Nid dyma'r unig waith y dywedir bod y pasg "yn agos" (2^{13}). Tybed nad cyfrif ydyw am y dyrfa fawr yn dyfod ato, y pererinion ar eu ffordd i'r ŵyl (ad. 5)?

5. Yr Iesu yn ôl Ioan sy'n cymryd y cam cyntaf trwy holi Phylip, **"O ba le y prynwn fara i'r rhain gael bwyd?"** (C.N.). Yn ôl yr Efengylwyr Synoptig, y disgyblion sy'n pryderu am y dorf. Nid yw'r Efengyl hon yn rhwym wrth y traddodiad Synoptig. Cym. 1 Ioan 4^{10}, "iddo Ef ein caru ni." Dylasai Phylip wybod ym mha le y ceid bara oblegid yr oedd ef o Fethsaida lle'r oeddynt yn awr.

6. **"Ond i'w brofi ef y dywedai hyn wrtho, canys gwyddai ef beth yr oedd am ei wneuthur."**

Sylw o eiddo'r awdur, neu ynteu'r Golygydd, ydyw'r ad. hon. Y rheswm amdano ydyw ofni i neb dybio mai am na wyddai'r Iesu y gofyn ef i Phylip. Ond weithiau rhoddir cwestiynau yn ei enau heb unrhyw eglurhad arnynt (11^{34}: 21^{5}). Cym. Marc 5^{30}: 8^{23}: 9^{21}. Ni ddefnyddir y gair hwn am "profi" gan Ioan ond yma yn unig. Yr un gair â "temtio" ydyw. Dyma ydyw ystyr y sylw—nid er mwyn gwybod beth fyddai ateb Phylip y gofynnodd iddo, nac am ei fod yn bwriadu prynu bara o gwbl, ond i ddangos Phylip iddo'i hun. Gwyddai Ef nad trwy brynu bara y byddai iddo borthi'r miloedd.

Sut bynnag yr esbonnir hynny nid yw anwybodaeth yr Iesu yn nyddiau ei gnawd ynghylch rhai pethau o gwbl yn anghyson â'r syniadau mwyaf uniongred am ei Dduwdod.

7. Etyb Phylip: pe gwerrid pob ceiniog a oedd ganddynt yn y pwrs (13^{29}) a phrynu bara ni fyddai hynny'n ddigon hyd yn oed **"i bob un gael rhyw dameidyn"** (C.N.).

Sonia Marc hefyd (6^{37}) am wario "deucan ceiniog." Cyflog gweithiwr am ddiwrnod oedd "ceiniog," cyfartal i naw ceiniog a dimai o'n harian ni, ac felly yr oedd "deucan ceiniog" yn saith neu wyth bunt.

8. Dywedir "brawd Simon Pedr" am Andreas eto (1[40]). Ym mhob man ei gwelir dwyn rhywun at yr Iesu a wna ef—"ei frawd ei hun" (1[41]): y bachgen bach hwn: a'r Groegiaid (12[22]).

9. **"Y mae yma fachgen bach a chanddo bum torth haidd a dau bysgodyn, ond beth yw hynny rhwng cynifer?"**

Hwn yw'r unig le yn y T.N. y ceir y gair sydd yma am "fachgen bach" (*paidarion*). Ni sonnir dim amdano yn yr Efengylau eraill. Ioan hefyd ydyw'r unig un a ddywaid mai o "haidd" yr oedd y torthau. Bara'r tlawd oedd "haidd." Ni cheir y gair sydd yma am "bysgodyn" chwaith yn unlle arall yn y T.N. Ei ystyr ydyw pysgodyn wedi ei biclo. Dengys y pethau hyn fod adroddiad Ioan yn wahanol ar amryw bwyntiau i eiddo'r Efengylwyr Synoptig.

Yn 2 Bren. 4[42–44] ceir stori debyg i hon am Eliseus. Darllener hi ar bob cyfrif. Sonnir ynddi am "ugain torth haidd a thywysennau o ŷd newydd." Yn Lef. 23[10] cysylltir "ŷd newydd" neu "ysgub blaenffrwyth" â'r Pasg. Yn awr tybia rhai mai chwedl ydyw'r stori hon am borthi'r pum mil wedi ei llunio o'r stori am Eliseus. Y mae gan Ioan "fachgen bach" ynddi, ac yn y stori am Eliseus "weinidog," a sonnir am fara "haidd" yn y ddwy. Ond y mae'n anodd credu mai dameg yn syml ydyw'r stori yn Ioan yn wyneb tystiolaeth yr Efengylau Synoptig. Efallai fod y stori am Eliseus wedi dylanwadu ar yr awdur, a'i fod wedi dwyn i mewn iddi rai pethau i ateb ei bwrpas ef—dangos mai arwydd ydyw o Grist ein Pasg ni.

10. Y mae "dynion" a "gwŷr" yn ddau air gwahanol yn y Roeg hefyd. Y C.D. ydyw **"Gwnewch i'r bobl eistedd i lawr.. felly eisteddodd y dynion."** Y mae "dynion" yn y Gymraeg yn cynnwys meibion a merched a phlant. "Ac yr oedd glaswellt lawer yn y lle"—praw arall o gydnabyddiaeth â Marc (6[39]).

11. Fel hyn y mae'r ad. hon yn gywir, a dylid sylwi ar y gwahaniaeth: **"Yna cymerth yr Iesu y torthau ac wedi diolch rhannodd hwy i'r rhai oedd yn eistedd, felly hefyd o'r pysgod, faint a fynnent."**

Yn y cyfieithiad hwn gadewir allan y geiriau "i'r disgyblion, a'r disgyblion." Y maent yn y stori ym Mathew (14[19]), ond dywedir wrthym na ddylent fod *yma*. Wrth eu gadael allan awgrymir, a dim ond hynny, mai'r Iesu ei Hunan a rannodd y torthau a'r pysgod i'r bobl, h.y., mai o'i law Ef yn uniongyrchol y derbyniodd y bobl hwy. Dyma un peth a bair i'r esbonwyr feddwl bod Ioan yn cyfrif y weithred hon yn wasanaeth Sacramentaidd, fel y daeth Swper yr Arglwydd ar ôl hyn.

Nid yw Ioan yn adrodd hanes sefydlu'r Swper, ond yn ôl Marc (14[22, 23]) yr Iesu ei Hun a roes y bara a'r cwpan yn y Swper.

Credir bod yma awgrym arall yr edrych yr awdur ar y "wyrth" hon yn Sacramentaidd. Defnyddia ef y gair "diolch," gair a ddaeth ar ôl hyn i feddu ystyr arbennig ynglŷn â'r Cymun Sanctaidd.

Yn yr Efengylau Synoptig "bendithio" ydyw'r gair yn lle "diolch" yn hanes porthi'r pum mil, ond dywedir "diolch" ynddynt hwy yn hanes porthi'r *pedair* mil. Sylwer ar y llaw arall na ddywaid Ioan i'r Iesu "dorri'r bara," fel y gwneir gan yr Efengylwyr eraill yn hanes porthi'r pum mil, a hefyd y pedair mil, ac yn hanes sefydlu'r Swper (Marc 14^{22}). Bwysiced oedd y lle a feddai hyn yn y Cymun Cristionogol fel y daeth "Torri'r bara" yn *enw* arno yn gynnar yn hanes yr Eglwys (Act. 2^{42}) cyfystyr â Swper yr Arglwydd neu Fwrdd yr Arglwydd. Rhyfedd na fuasai Ioan wedi gofalu dweud i'r Iesu "dorri'r bara" os oedd y weithred yn Sacrament yn ei olwg ef. Dywaid Marc (6^{41}) i'r Iesu hefyd "edrych i fyny," ac yr oedd hynny'n arfer yn y Cymun Cristionogol. Cym 11^{41}: 17^{1}. Ond ni sonia Ioan ddim amdano yma.

12. **"Cesglwch y darnau sydd yn weddill rhag difetha dim"** (C.N.).

Ioan ydyw'r unig un a ddywaid hyn. I ba beth tybed? Yn ôl rhai, i bwysleisio'r ffaith fod y bara *oll* yn gysegredig am fod y weithred yn Sacrament. Hysbysir ni gan Lightfoot ei bod yn arfer ymhlith yr Iddewon i adael y gweddill ar ôl pryd o fwyd i'r rhai a fyddai'n gweini.

Ond ebe'r Iesu "rhag difetha dim," heb sôn am na Sacrament nac arfer Iddewig. Yr awdur, ebe'r Dr. Bernard, a biau'r geiriau olaf—"rhag difetha dim." Paham y dywaid y Dr. Bernard hynny, ni wyddom.

13. **"A llanwasant ddeuddeg basged â darnau o'r pum torth haidd yn weddill gan y rhai a fwytasai"** (C.N.).

Oddi wrth y nifer "deuddeg"—bernir mai basgedi'r Apostolion oedd y rhain. Ond yn y bennod hon (ad. 67) y sonnir gyntaf yn yr Efengyl am "y deuddeg" (apostol).

Iddynt hwy fel rhai oedd yn gweini, yn ôl arfer yr Iddewon ar ôl pryd o fwyd, yr âi'r gweddill. Dywaid Marc fod yno weddill "o'r pysgod" hefyd, ond ni sonia Ioan ddim am hynny. Ailedrydd yr ymadrodd "pum torth haidd."

Gyda hyn terfyna'r stori am borthi'r pum mil.

14. Pan welodd y bobl yr "arwydd" hwn dywedent, **"Hwn yn wir yw'r proffwyd sy'n dyfod i'r byd,"** h.y., y proffwyd y rhagfynegasid amdano (Deut. 18^{15}) ac y disgwyliai'r genedl amdano. Cofier bod y geiriau "sy'n dyfod i'r byd" bron bod yn deitl am y Meseia (Salm 118^{26}).

15. Yr oedd ym mryd y bobl **" ei gipio i'w wneuthur yn frenin,"** h.y., yn Feseia yn ôl eu syniad poblogaidd hwy am Feseia. Ond ciliodd yr Iesu **" yn ôl i'r mynydd wrtho'i hun."** Yr oedd ganddo ddau amcan—osgoi dadwrdd y bobl (Ioan) a myned i weddio (Marc 6^{46}). Ni ddywaid Ioan wrthym ddarfod temtio'r Iesu yn yr anialwch, ond yr oedd brwdfrydedd y bobl efallai yn demtasiwn iddo.

Adn. 16–21. Y STORM AR Y MÔR.

Yr ydym yn awr yn dyfod at stori arall, a elwir gan rai yn " Iesu'n rhodio ar y môr." Ond ni ellir bod yn sicr a ddywaid Ioan iddo rodio *ar y môr*. Ym marn rhai nid gwyrth ydyw yng ngolwg yr awdur. Nis geilw hyd yn oed yn " arwydd " fel y gwna'r hanes o'i blaen—porthi'r pum mil (ad. 14). Ceir gan Mathew (14^{22}) a Marc (6^{47}) hanes am yr Iesu'n rhodio *ar y môr*. Yr un un yw'r stori hon, ond bod Ioan yn ei newid yn fwriadol, ebe'r Dr. Bernard. Bernir ei fod ef weithiau 'n cywiro'r traddodiad Synoptig. Efallai mai hynny a wna yma. Dyna un golygiad ar yr hanes hwn.

Ar y llaw arall, tybia eraill mai *gwyrth* ydyw yng ngolwg yr awdur, a bod ganddo amcan arbennig wrth ei chofnodi yn y lle hwn, yn y bennod Sacramentaidd hon. Yr amcan ydyw dangos y gall Ef roddi ei gnawd i'w fwyta (ad. 51) am nad oedd o ran y corff yn rhwym wrth ddeddfau amser a lle, ac nad yn y Cymun yn unig y mae'n bresennol, ond hefyd ym mywyd a helyntion yr Eglwys. Dywaid Rawlinson (ar Marc 6^{14}) mai amcan yr Efengylydd hwnnw ynddi ydyw dangos fod yr Iesu eto'n fyw, a chyda'i Eglwys yn ei chollediion, wedi iddi golli Paul a Phedr.

Ceisiwn yn y nodiadau hyn gyfleu'r ffeithiau yn annibynnol ar unrhyw dybiaeth flaenorol.

16. **" A phan aeth yn hwyr, aeth ei ddisgyblion i lawr i'r môr."**

Yr Iesu a'u gyrrodd, ebe Marc.

17. **" Ac wedi dringo i long, yr oeddynt yn myned dros y môr i Gapernaum."**

O Gapernaum y daethent i'r lan hon (ad. 1). " Ac yr oedd hi eisoes yn dywyll, ac ni ddaethai'r Iesu atynt eto." Buont yn disgwyl amdano cyn cychwyn ohonynt i'r môr, neu ynteu disgwylient ei weled ym Methsaida, fel yr awgrymasai, yn ôl Marc (6^{45}).

18. **" Ac yr oedd y môr yn dygyfor gan wynt mawr yn chwythu."**

19. **" Felly wedi rhwyfo tua phum neu ddeg ystâd ar hugain, y maent yn gweled yr Iesu'n rhodio ar y môr ac yn dyfod yn agos i'r llong, a daeth ofn arnynt "** (C.N.).

Sylwer yn fanwl ar yr ad. hon. Cyn gweled ohonynt yr Iesu rhwyfasai'r disgyblion oddeutu tair neu bedair milltir. Yr oedd "ystâd (neu "stad") yn gyfartal i 200 o lathenni. Ar eu ffordd i Gapernaum yr oeddynt (ad. 17) ond ni ddywedir i ba gyfeiriad y rhwyfasent, neu y cludwyd hwynt gan y gwynt mawr yn chwythu.

Wedi rhwyfo'r pellter hwn "y maent yn gweled yr Iesu'n rhodio ar y môr, ac yn dyfod yn agos i'r llong." Dyma ddweud yn eglur iddynt weled yr Iesu'n rhodio "*ar* y môr," fel y dywaid Mathew (14^{26}) a Marc (6^{48}). At hyn dywaid Marc bod y disgyblion "ar ganol y môr" pan ddaeth yr Iesu atynt. Ond ymadrodd amwys ydyw "ar y môr (*epi tes thalasses*). Gall olygu "*wrth* y môr," fel y dynoda'n sicr yn 21^{1}, "*wrth* fôr Tiberias." Hwyrach felly mai ystyr "rhodio ar y môr" ydyw rhodio *wrth* y môr, h.y., ar y lan. Myn Dr. Bernard na ddylai "ar ganol y môr" ym Marc gynnwys dim mwy na bod y môr o'u cwmpas. Ond dywedir hefyd i'r disgyblion ofni—"a daeth ofn arnynt." Paham yr ofnasant? Yr ateb a rydd Mathew a Marc ydyw am y tybient mai "drychioleath" oedd yr Iesu. Ond dyma ateb y Dr. Bernard,—am na wyddent yn sicr beth a welent ar y lan. Ar y cyntaf "drychioleath" ydoedd i'w meddwl hwy. Ond gofala Ioan beidio â dweud hynny rhag rhoi dim yn ffordd y Docetiaid a ddysgai mai rhith oedd dyndod yr Iesu. Credai Mathew a Marc i'r Iesu rodio "*ar* y môr" a dyna a ddysgai'r traddodiad Synoptig, pa un bynnag a oedd yn gywir neu'n anghywir. Ond i'r awdur hwn ar y lan y rhodiai, ac felly nid gwyrth oedd iddo ef.

Dyna a ddysg y Dr. Bernard am y digwyddiad hwn. Oddi wrth nodiadau eraill yn yr Esboniad hwn gwelir ei fod ef yn gredwr cadarn nid yn unig yn y posibilrwydd o wyrth, ond hefyd yn y ffaith i'r Iesu droi'r dwfr yn win, ac efallai gyfodi Lasarus o'r bedd ac yntau wedi marw ers tros dri diwrnod.

20. **"Myfi yw: nac ofnwch,"** neu **"Myfi sydd yma, peidiwch ag ofni"** (C.N.). Edrydd Mathew (14^{27}) a Marc (6^{50}) yr un geiriau.

21. **"Yna derbyniasant ef yn chwannog i'r llong, ac ar unwaith yr oedd y llong wrth y tir yr oeddynt yn myned ato."**

Os ar y *lan* y rhodiai'r Iesu peth rhyfedd ydyw dweud iddynt ei dderbyn i'r llong. Ond berf ydyw'r gair a gyfieithir yn "chwannog," yr un un ag a gyfieithir yn "a fynasent" yn 7^{44} ac "ewyllysio" yn 16^{19}, a'r ystyr y mae'n debyg ydyw "Dymunent felly ei dderbyn i'r llong, ac yr oedd y llong ar unwaith wrth y tir y cyfeirient ato," h.y. dymunent ei dderbyn ond ni wnaethant am fod y llong wrth y tir, a'r Iesu ar y lan yn disgwyl amdanynt. Gellid disgwyl "ond" yn lle "ac," eithr nid yw Ioan bob amser yn gwahaniaethu rhyng-

ddynt. Tybia'r Dr. Bernard mai gan Ioan fab Sebedeus y cafodd yr awdur yr hanes hwn, a'i fod yn cywiro'r traddodiad Synoptig.

Adn. 22–25. Y DORF YN CROESI I GAPERNAUM.

Nid yw'n debyg mai'r awdur a ysgrifennodd y paragraff hwn (22–24). Y mae'n hollol wahanol i'w arddull syml ef. Dyma swm a sylwedd yr adnodau: Arhosodd rhai o'r bobl a borthasid gan yr Iesu dros nos ar yr ochr honno i'r môr. Y diwrnod y porthwyd hwy gwelsant y disgyblion yn myned i long, yr unig long a oedd yno. Ond nid aeth yr Iesu gyda'r disgyblion, a gwyddent hwy hynny. Daethant i'r casgliad fyned o'r Iesu rywsut i Gapernaum, ac aethant hwythau yno ar ci ôl mewn llongau o Diberias a chwythasid gan y storm y nos gynt.

22. Dywedir yma bedwar peth: (1) i'r dyrfa, neu ran ohoni, aros ar yr ochr draw i'r môr, gyferbyn â Chapernaum: (2) mai un cwch oedd yno: (3) iddynt weled y disgyblion yn myned i'r cwch: (4) y gwyddent nad aeth yr Iesu gyda hwynt.

"Cwch" ydyw ystyr y gair am "llong"—"nad oedd un cwch arall yno." Ond y mae'r meddwl yn aneglur: efallai nad oedd ond un cwch yn rhwym wrth y llong yr aethai'r disgyblion iddi.

23. Sut y croesodd y dyrfa felly i Gapernaum? Nid oedd yno ddim ond un cwch (ad. 22). Ond am y noson gynt y sonia ad. 22, ac am drannoeth y dywaid ad. 24. Yn hon dywedir i longau ddyfod o Diberias, ar yr un ochr i'r môr â Chapernaum. Ond y mae lle i dybio nad Ioan a biau'r ad. hon. Gelwir Tiberias yn "dref," yr unig le yn y T.N., ac efallai nad oedd yn dref eto: gelwir y pum torth haidd yn "fara" fel y gwneid ar ôl hyn "fara" y Cymun Sanctaidd: dywedir "wedi i'r Arglwydd *roddi diolch*" heb ddim pwrpas ond un sacramentaidd: gelwir yr Iesu yn "Arglwydd" yr hyn ni wna Ioan o gwbl hyd onid atgyfododd. Ar y llaw arall, tybia rhai, fel y gwelwyd, fod Ioan yn cyfrif porthi'r pum mil yn weithred Sacramentaidd.

24. Aeth y dyrfa hefyd i'r cychod a ddaethai o Diberias, a daethant i Gapernaum. Ceisio'r Iesu oedd eu hamcan. Tybient ei fod ar yr un lan â hwythau. Ond pan welsant nad oedd Ef yno, na'i ddisgyblion, argyhoeddwyd hwynt iddo ymadael rywsut. Gwyddent i'r disgyblion fyned ymaith y noson gynt, ond meddylient y buasent efallai yn dyfod yn ôl i gyrchu'r Iesu. Dyna pam y dywedir "na'i ddisgyblion."

25. Cawsant yr Iesu **"y tu hwnt i'r môr,"** h.y. ar ochr Capernaum. Cred rhai fod y cwestiwn "Pa *bryd* y daethost yma" yn cynnwys hefyd "Pa *fodd*?" gan awgrymu mai trwy fyned mewn

llong yn unig y gallsai fod yno o'u blaen hwy. Yn ôl y Dr. Bernard, fel y cofir, nid aeth yr Iesu i long o gwbl y noson gynt.

Adn. 26–51. PREGETH AR FARA'R BYWYD.

Cawn enghraifft deg yn y paragraff hwn o'r gwahaniaeth sydd rhwng yr Efengyl hon a'r Efengylau Synoptig. Dyma drafodaeth gymhleth ar Fara'r Bywyd. Efallai fod yma ddwy bregeth, a draddodwyd i ddwy gynulleidfa wahanol, wedi eu cymysgu â'i gilydd. Gellir tybio oddi wrth ad. 26 mai i'r rhai a ddaeth drosodd i Gapernaum gan geisio'r Iesu y traddodwyd y cwbl, ond yn ad. 41 dygir "yr Iddewon" i mewn, h.y., yr Iddewon gelyniaethus. Yna yn ad. 59 hysbysir ni mai "mewn synagog" yng Nghapernaum y dywedodd hyn. Anhawster arall yma, fel mewn rhannau eraill o'r Efengyl, ydyw gwybod a yw'r bregeth yn adroddiad o *eiriau*'r Iesu.

26. Etyb yr Iesu gwestiwn y dyrfa **"Pa bryd y daethost yma?"** **"Nid am i chwi weled arwyddion yr ydych yn fy ngheisio i, ond am i chwi fwyta o'r torthau a'ch digoni."**

"Arwyddion" a ddywedodd, nid "y gwyrthiau," a'r ystyr ydyw na welsant ddim ond y torthau materol. Y mae'r "arwyddion" yn ddyfnach na'r gweledig. Pe gwelsent y rheini buasent yn ceisio'r Iesu er ei fwyn ei Hun.

Efallai ei fod yn defnyddio'r gair arbennig sydd yma am "borthi" er mwyn gwasgu'r wers adref. Nid yr un gair ydyw â "digoni" yn ad. 12, ond golyga'n llythrennol besgi anifail ag ebran."

27. Ennyg hwynt i lafurio am y bwyd sy'n para i fywyd tragwyddol.

"Y bwyd a dderfydd," neu "sy'n darfod" oedd y manna gynt (Ex. 16^{20}). Y mae'r ferf "a ddyry" yn yr amser dyfodol, ac yn cyfeirio, ym marn rhai, at ei gnawd ei Hun, fel y gwneir yn ad. 51. Efallai fod yr awdur felly hyd yn oed yma yn meddwl am y Cymun Sanctaidd. Tybia rhai fod yr Iesu ei Hun yn meddwl amdano er na sefydlwyd ef am flynyddoedd.

"Canys y Tad, Duw, a'i seliodd ef," h.y., a seliodd Fab y dyn, nid y bwyd sy'n para. Gwelsom y gair "a seliodd" yn 3^{33} am ddyn yn gwarantu bod Duw yn eirwir. Ond yma Duw ei Hun sy'n selio dilysrwydd Mab y dyn. Sylwer bod amser y ferf yn cyfeirio at ryw adeg benodol—Bedydd yr Iesu pan ddisgynnodd arno'r Ysbryd Glân ac y daeth llais o'r nef, yn ôl pob tebyg. Yn 2 Cor. 1^{22}: Eff. 1^{13} y bedydd Cristionogol ydyw'r "sêl" ym marn rhai esbonwyr.

28. **"Dywedant hwythau wrtho, Beth a wnawn ni fel y gweithiwn weithredoedd Duw?"**

Wrth "weithredoedd Duw" y golygir y gweithredoedd y mae Duw yn eu gofyn gennym ni (9^3). Eu syniad hwy am grefydd ydyw *gwneud* yr hyn y mae Duw yn ei ofyn. Ond yr oeddynt yn camddeall yr Iesu, fel y dengys ad. 29.

29. **"Hyn yw gwaith Duw, credu ohonoch yn yr hwn a anfonodd ef."**

Y mae'n anodd cyfleu yn y Gymraeg ystyr "credu ohonoch." Dynoda gredu yn barhaus, nid unwaith am byth. Nid gweithred mohono, eithr yn hytrach cyflwr sefydlog. "*Faith is the life of works*," ebe Westcott. Gwelir bod yr ad. hon bron yn iaith Paul—nid cadw'r ddeddf, ond ffydd yng Nghrist.

30. Etyb rhywrai Ef. Llefarant yn debyg i Iddewon gelyniaethus. Os y bobl a gafodd eu digoni â'r torthau ydynt, y mae'n rhyfedd eu bod yn gofyn **"Pa arwydd a wnei?"** Yn ôl ad. 14 gwelsent ynddo "y proffwyd sy'n dyfod i'r byd." Ym Marc (8^{11}) dywedir i'r Phariseaid wneud cais tebyg yn syth ar ôl porthi'r pedair mil.

31. Parha'r bobl i lefaru.

"Bwytaodd ein tadau y manna yn yr anialwch, fel y mae'r ysgrythur: Bara o'r nef a roes iddynt i'w fwyta."

Daliant ar eiriau'r Iesu yn ad. 27, "y bwyd sy'n para, a ddyry Mab y dyn." Y bwyd sy'n darfod a gawsant ganddo'r diwrnod cynt. Os gallai roi iddynt fwyd sy'n para i fywyd tragwyddol, byddai iddo ragori hyd yn oed ar Moses a roes fara o'r nef.

Ond efallai nad hyn yw eu meddwl, eithr i Moses roi bara *o'r nef*, yr hyn na ellid ei ddweud am y torthau. Rhoed Yntau arwydd cyfartal i eiddo Moses!

Dysgai'r Rabbiniaid mai camp fawr Moses oedd rhoi'r manna, ac y byddai i'r Meseia beri i fanna ddisgyn o'r nef.

Yn Neh. 9^{15} yn unig y dywedir bod y manna "o'r nef," ond awgrymir hynny yn Salm 78^{24}.

32. Dyma ateb yr Iesu iddynt: **"Nid Moses a roes ichwi'r bara o'r nef: ond y mae fy Nhad yn rhoddi ichwi'r gwir fara o'r nef."**

Y mae'r cyfieithiad hwn yn gliriach na'r hen.

Yn yr hanner cyntaf cywirir y rhagdybiaeth ym meddwl y dyrfa—mai *Moses* a roes y manna i'r tadau. Ni ddywedsant hynny yn eglur, ond y mae'n rhaid mai dyna a olygent, ac yr oeddynt yn cyfeiliorni. Dywaid Moses ei hun (Ex. 16^{15}) mai'r *Arglwydd* a roes y bara.

Yn yr ail frawddeg nid am y manna gynt y sonnir ond am y *gwir* fara o'r nef. Rhwng y manna gynt a roes yr Arglwydd a'r gwir fara a rydd Ef yn awr y mae'r cyferbyniad. Gan hynny y mae'r Iesu yn fwy na Moses ac yn fwy na'r manna y canmolid cymaint arno. Gan mai rhwng y manna a'r bwyd sy'n para y mae'r cyferbyniad ystyr "gwir" ydyw *real* mewn gwrthgyferbyniad i'r arwyddluniol neu'r cysgodol.

33. Rheswm ydyw'r ad. hon tros ran olaf ad. 32.

"Canys bara Duw ydyw'r hwn sy'n dyfod i lawr o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd."

Am y gwir fara dywedir hyn: (1) "bara Duw" ydyw: (2) ei fod *yn* dyfod i lawr o'r nef: (3) ei fod yn rhoddi *bywyd*: (4) ei fod yn rhoddi bywyd *i'r byd*.

Sylwer y mynegir y syniad o "ddyfod o'r nef" am Grist yn barhaus yn y bennod hon (adn. 38, 41, 42, 50, 51, 58). Ni ddywaid yr Iesu mai Ef yw "bara'r bywyd" hyd ad. 35. Pan yw'n dweud "bara Duw" am "y gwir fara," ac Yntau'n sôn am y manna, llefara am beth a ddeallai'r Iddewon. Dengys 1 Cor. 10^3 mai hawdd oedd camu oddi wrth y manna at "fwyd ysbrydol."

34. **"Syr (neu Arglwydd), dyro inni am byth y bara hwn."** Cais tebyg i eiddo'r wraig o Samaria (4^{15}).

Nid yw'r bobl yn ei gamddeall, oblegid os rhoes Moses y manna gallai'r Meseia roi mwy. Dyna oedd y syniad poblogaidd amdano.

35. Etyb yr Iesu â datganiad pendant: **"Myfi ydyw bara'r bywyd."** Dyma'r tro cyntaf iddo ddweud hyn. Oddi yma hyd ad. 40 llefara yn y person cyntaf—"myfi." Yr honiadau personol hyn, ymhlith pethau eraill, a wahaniaetha'r Efengyl hon oddi wrth yr Efengylau Synoptig. Ailadroddir "Myfi ydyw bara'r bywyd" yn ad. 48. Cym. Marc 14^{22}, "hwn yw fy nghorff."

Bara sy'n cyfrannu bywyd ydyw ystyr "bara'r bywyd." Yn ad. 51 ceir ffurf arall, "Myfi yw'r bara byw," ond ystyr hwnnw ydyw y bara sy'n cynnwys bywyd ynddo'i hun.

Yr un peth ydyw "dyfod ataf fi" a "chredu ynof fi." Y mae "ni newyna" yn naturiol wrth sôn am fara, ond dywedir "ni *sycheda*" hefyd. Efallai mai'r awdur sy'n gyfrifol am lawer o eiriau'r bregeth hon, ac mai ef wrth feddwl am y Cymun Cristionogol a ddywaid "ni sycheda byth."

36. **"Ond dywedais wrthych eich bod wedi fy ngweled ond nad ydych yn credu."**

Y mae bron yn amhosibl deall y cysylltiad, ac nid oes gennym enghraifft ohono'n dweud cyn hyn "eich bod wedi fy ngweled." Gadewir allan y gair "fy" o rai llawysgrifau, ac y mae hynny'n fantais inni ddeall yr adnod. Cyfeiriad fyddai felly at yr hyn a

ddywedwyd yn ad. 26 iddynt weled y porthi, ond na welsant "arwyddion"—"ond dywedais wrthych ichwi weled ond nad ydych yn credu."

37. Syniad prudd ydyw "nad ydych yn credu" (ad. 36). Ond **"y cwbl y mae'r Tad yn ei roddi i mi a ddaw ataf."** Er mai "pob peth" ydyw ystyr lythrennol "yr hyn oll" neu'r "cwbl," dynion a olyga. Defnyddia'r awdur y neodr (*neuter*) weithiau am ddynion (17^{2}, ^{24}). Yr hyn a ddysgir felly yn yr ad. hon ydyw bod y Tad wedi rhoddi dynion i Grist, ac y daw y rhain ato Ef, neu y bydd iddynt gredu ynddo. Ceir y syniad hwn yn yr Efengyl eto droeon. Gweler 6^{39}, ^{65}: 10^{29}: 17^{6}.

"Nis bwriaf ef allan ddim." Dyma ymhoniad aruthrol Tan ei awdurdod Ef y mae'r drws i'r bywyd. Cym. Math. 22^{13}.

38. Rheswm ydyw hon tros ddweud na bydd iddo fwrw allan y neb a ddyry'r Tad iddo—canys i wneuthur ewyllys y Tad, nid ei ewyllys ei Hun, y daeth i lawr o'r nef.

39. Eglurir cynnwys ewyllys y Tad yn yr ad. hon. **"A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd—o'r cwbl a roes imi na chollwyf ddim, ond ei atgyfodi yn y dydd diwethaf"** (C.N.).

Ailadroddir y geiriau "ei atgyfodi yn y dydd diwethaf" yn adn. 40, 44, 54. Yn yr Efengyl hon yn unig yn y T.N. y ceir yr ymadrodd "y dydd diwethaf" (11^{23}: 12^{48}).

Gwelsom am atgyfodi'r corff yn 5^{28}, ^{29}, h.y., atgyfodi pawb yn ddrwg a da. Ond yn y bennod hon atgyfodiad y credadun yn unig ydyw.

40. Math ar ailadroddiad o ad. 39 ydyw hon. Newidir rhai ymadroddion—yn lle "dyfod at" ceir "gweled y Mab a chredu ynddo."

Sylwer nad yw'r ymadrodd "a myfi, etc.," nac yn berthynasol nac yn ramadegol gywir. Symudir o'r trydydd person—"y Mab"—i'r person cyntaf—"Myfi." Barn rhai yw nad yr awdur a'i hysgrifennodd.

41. Torrir ar draws y drafodaeth gan "yr Iddewon." Dechreuasant furmur amdano oherwydd iddo ddweud **"Myfi yw'r bara a ddaeth i lawr o'r nef."**

Nid yw o bwys mawr pwy oedd "yr Iddewon" hyn. Yr ystyr sydd i'r teitl yn gyffredin yn yr Efengyl hon ydyw gelynion yr Iesu pa un bynnag ai o Jiwdea neu ynteu o Galilea y bônt. Dywedir yn ad. 42 eu bod yn adnabod tad a mam yr Iesu. "Murmur" yr oeddynt amdano. Daeth ymhoniad yr Iesu yn destun ymddiddan rhyngddynt.

42. Synna'r Iddewon fod *hwn* yn dweud **"O'r nef y disgynnais."** **"Onid Iesu yw hwn, fab Joseff?"**

Y mae gan Marc enghraifft debyg i hon yn y synagog yn Nasareth, a thybia rhai mai yno y cafwyd yr hanes hwn. Ond y mae'n hawdd

credu bod y siarad hwn yn beth cyffredin. Yn ôl y traddodiad Synoptig nid oedd yr Iesu yn fab i *Joseff* (Math. 1^{23}: Luc 1^{35}). Nid yw Ioan un amser yn gwrthddweud ei fod yn fab iddo (1^{45}). Un rhan o'r honiad yn ad. 41 sy'n drysu'r Iddewon—"o'r nef yr wyf wedi disgyn." Ni chymerant sylw o'r rhan arall "myfi yw'r bara." Pa fodd y baidd hwn ddweud "o'r nef y disgynnais" ac yntau'n fab Joseff, a ninnau'n adnabod ei dad a'i fam? Sylwer ar 7^{27}.

43. Etyb yr Iesu hwynt: **"Peidiwch â murmur drwy'ch gilydd"** (C.N.).

44. Â'r Iesu at wraidd eu beirniadaeth.

"Ni all neb ddyfod ataf fi heb i'r Tad a'm hanfonodd ei dynnu ef." Dyma syniad tebyg i'r un a welsom yn ad. 37. Gorwedd hefyd tan yr ateb i Nicodemus (3^{3}). Defnyddir y gair am "dynnu" eto, yn 12^{32}: 18^{10}: $21^{6, 11}$. Yr un un yw â "llusgo" yn Act. 16^{19}. Y mae Jer. 31^{3} yn esboniad da arno.

Ailadroddir y byrdwn "a minnau a'i hatgyfodaf," etc.

45. **"A byddant bawb wedi eu dysgu gan Dduw,"** gyda phwyslais ar "Dduw."

Dyfyniad rhydd ydyw hwn o Es. 54^{13} i ddangos na all neb ddyfod at Grist heb i Dduw ei dynnu (ad. 44). Ar eu tir hwy eu hunain y dadlau'r Iesu â'r Iddewon. Iddynt hwy yr oedd grym mawr mewn dyfyniad o'r H.D.

"Daw pob un sydd wedi gwrando ar Dduw a dysgu ataf fi." Nid "pob un *a glywodd*," ond "sydd wedi *gwrando*." Felly y rhai sy'n gwrando ar Dduw y mae Ef yn dynnu (ad. 44).

46. **"Nid bod neb wedi gweled y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw: gwelodd ef y Tad."**

Ni ellir dweud yn bendant pa un ai geiriau'r Iesu ynteu geiriau'r awdur ydyw'r ad. hon. Yn $8^{26, 40}$: 15^{15} dywedir bod *Crist* yn "clywed gan y Tad," fel y mynegir yn ad. 45 y gallwn ninnau "glywed gan y Tad." Y mae gan yr awdur efallai ofn i neb dybio bod "clywed gan y Tad" o'n tu ni yn golygu hefyd "*weled* y Tad." Ond nid yw felly, eb Ef: "Nid bod neb wedi gweled y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw," h.y., Crist. Ef yn unig a welodd y Tad, oblegid Ef yn unig sydd o Dduw, ac am hynny nid oes neb a all ddatguddio'r Tad i ni oddieithr Ef. Pa un bynnag ai "*o* Dduw" ynteu "*oddi wrth* Dduw" ydyw'r cyfieithiad cywir, defnyddir ef eto gan yr Iesu am rywbeth arbennig a berthyn iddo Ef (7^{29}).

47. **"Yn wir, yn wir,"** i gyflwyno rhan arall o bregeth. **"Y mae gan yr hwn sy'n credu fywyd tragwyddol."**

Ni pherthyn y dywediad hwn, ebe'r Dr. Bernard, i'r cyd-destunau o gwbl. Saif wrtho'i hun fel datganiad mawr, tebyg i "Goleuni'r byd ydwyf fi." Cyweirnod yr Efengyl hon ydyw.

48. **" Myfi yw bara'r bywyd."** Gwelsom yr ymadrodd yn hollol yr un fath yn ad. 35. Ceir ei gyffelyb yn adn. 41, 51. Ei ystyr ydyw y bara sy'n cyfrannu bywyd. Efallai mai ei wasanaeth pennaf yma ydyw cyflwyno'r bregeth sy'n dilyn.

49. **" Bwytaodd eich tadau y manna yn yr anialwch, a buont feirw."** Gweler adn. 31, 32. Yr ydym eto yn awyrgylch y bregeth gyntaf. Y mae yma olion cymysgu gan rywun. Cym. adn. 50 a 58.

" A buont feirw," h.y., ac eto buont feirw. Defnyddia Ioan " ac " (*cai*) yn fynych lle y gellid disgwyl " ond " (*de*).

50. Dyma'r ffordd orau i gyfleu'r ad. hon : **" Y mae'r bara sy'n dyfod o'r nef yn gyfryw ag na bo farw y neb a fwytao ohono."** Ffordd arall yw hon o ddweud mai bara ysbrydol ydyw.

Ym mha ystyr y dywedir " na bo farw y neb a fwytao ohono " ?

Yr ateb arferol ydyw mai mewn ystyr ysbrydol. Ond nid ydym yn cytuno â hynny. Tyr y cyferbyniad i lawr os yn ysbrydol yr esbonnir ef. Buasai'n chwithig dweud " bu farw eich tadau yn gorfforol er bwyta ohonynt y manna, ond ni bydd farw yn ysbrydol y neb a fwytao o'r bara hwn, er iddo yntau farw yn gorfforol."

Y mae'r awdur i'n tybi ni yn dysgu na bydd farw yn gorfforol y neb a fwytao'r bara o'r nef. Tybia rhai y dysg hefyd na bu Crist farw yn gorfforol. Dywedir wrthym y dysgai Irenaeus hefyd fod ein *corff* yn etifeddu bywyd tragwyddol trwy ein gwaith yn cyfranogi o'r Cymun Sanctaidd. Sylwer nad yw'r ad. hon yn y person cyntaf, fel y mae adn. 49, 51. Gellir credu felly mai eglurhad o eiddo'r awdur ydyw.

51. **" Myfi yw'r bara byw sy'n dyfod i lawr o'r nefoedd "** (C.N.).

Ailadroddiad ydyw hyn, gydag ychydig newid, o adn. 50a, 33. Rheswm ydyw tros ddweud na bydd farw neb a fwytao'r bara hwn. (ad. 50). Ystyr " bara byw " ydyw bara sydd â bywyd ynddo'i hun, ac felly'n para i fywyd tragwyddol. Ymadrodd tebyg iddo ydyw " y dwfr byw " (4^{10}). Y mae'n well cysylltu'r rhan olaf o'r ad. hon â'r ad. nesaf.

Adn. 51b–58. BWYTA CNAWD AC YFED GWAED MAB Y DYN.

Cyfrifir y paragraff hwn yn un o'r rhai anhawsaf yn yr Efengyl. Y mae o leiaf *wedi ei wisgo* yn iaith y Cymun Sanctaidd, ond un anhawster ynddo ydyw ei fod yng ngeiriau'r Iesu Ei Hun, er na sefydlwyd y Cymun Cristionogol am amser maith ar ôl hyn. Ymddengys i ni mai *esboniad* yr awdur ydyw ar ddysgeidiaeth yr Iesu amdano'i Hun fel Bara'r bywyd, yng ngolau'r syniadau a ffynnai

yn ei ddydd ef am y Cymun Sanctaidd. Iddo ef y mae'r Cymun yn un moddion cymdeithas â'r Iesu a chyfranogi o'i fywyd Ef. Nid ydym yn credu ei fod yn edrych ar gyfranogi o'r Cymun fel amod hanfodol cyfranogi o Grist, h.y., iddo ef nid gwir gnawd a gwir waed Crist ydyw'r bara a'r gwin. Prawf ad. 63 mai'n ysbrydol, neu'n symbolig, y defnyddia ef y termau "cnawd" a "gwaed," a "bwyta ac yfed." Rhodder sylw manwl i'r nodiadau.

Barna'r Dr. Bernard mai esbonio geiriau'r Iesu pan sefydlodd Ef y Swper, ac nid ei eiriau mewn synagog yng Nghapernaum, a wna'r awdur. Cytuna bron bawb na fuasai cynulleidfa gymysg mewn synagog (ad. 59) yn deall iaith gyfriniol yr adran hon.

51b. **"A mwy na hynny, y bara a roddaf fi, fy nghnawd i ydyw dros fywyd y byd."**

Sylwer ar hyn: yn ôl ad. 32 y Tad sydd yn rhoddi (yn awr) y gwir fara, ond yma Crist a rydd y bara (yn y dyfodol): Crist *yw*'r bara yn ôl adn. 35, 48, ond yma ei *roddi* a wna: Ef ei Hun ydyw'r bara yn adn. 35, 48, ond ei gnawd ydyw yma.

Defnyddir y gair "cnawd" saith gwaith yn y cyd-destunau. Yn 1^{14} golyga ddyndod gyflawn a pherffaith yr Iesu. Ond dywedir yma yn groyw mai'r bara ydyw, ac y bydd iddo ei roddi dros fywyd y byd.

Un ffordd o esbonio hyn ydyw cymryd "cnawd" fel yn 1^{14} i olygu ei ddyndod perffaith, ac y byddai iddo ar y Groes ei roddi tros fywyd y byd, yn yr un ystyr ag y dywaid ei fod yn rhoddi ei einioes (10^{17}). Gweler 1 Ioan 3^{16}.

Y ffordd arall o esbonio hyn ydyw mai yn y Cymun Sanctaidd y byddai iddo roddi ei gnawd, h.y., ei Hunan.

Nid yw "dros fywyd y byd" yn cytuno cystal â'r ail i'n golwg ni, ag yw â'r cyntaf.

52. Â'r Iddewon i ddadlau â'i gilydd ynghylch ystyr y dywediad olaf yn ad. 51: **"Pa fodd y gall hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwyta?"**

Ni cheir dim golau o'r cwestiwn hwn ar y gosodiad yn ad. 51. Pa un bynnag ai ei gnawd yn llythrennol ynteu Ef ei Hun o ran ei bersonoliaeth a olygai'r Iesu, yr oedd yn amhosibl yng ngolwg yr Iddewon. Sut y gallent hwy y pryd hwnnw ddeall y gall person ei gyfrannu ei hun i arall?

53. **"Yn wir, yn wir, oni fwytewch gnawd Mab y dyn ac yfed ei waed, nid oes gennych fywyd ynoch eich hunain."**

Nid yw'r ad. hon yn ateb i gwestiwn yr Iddewon, oblegid â'i gilydd y dadleuant. Nid "*fy* nghnawd" (ad. 51) a ddywedir yma, eithr "cnawd *Mab y dyn*." Yn ad. 27 y gwelsom y teitl hwn ddiwethaf—"y bara a ddyry Mab y dyn i chwi." Ond bwriada'r awdur inni ddeall mai'r Iesu ei Hun sy'n llefaru yma.

Dyma'r waith gyntaf i'r Iesu sôn am "fwyta ei gnawd ac yfed ei waed." Yr Iddewon a'i mynega gyntaf (52) fel casgliad naturiol oddi wrth ad. 51b. Ond â'r Iesu ymhellach na hwy—nid bwyta ei gnawd yn unig, ond hefyd "yfed ei waed"—syniad mwy gwrthun i Iddew na hyd yn oed bwyta cnawd. Gwaharddai'r Gyfraith yn bendant yfed gwaed (Gen. 9^4: Deut. 12^{23}) am y credid y cartrefai'r enaid yn y gwaed. Dyna'r sefyllfa pan ymddiddanai'r Iesu â'r Iddewon hyn. Ond pan ysgrifennwyd yr Efengyl yr oedd "bwyta cnawd" ac "yfed gwaed" yn ymadroddion cyffredin ynglŷn â'r Cymun Cristionogol, yn enwedig yn y Crefyddau Cyfrin, h.y., y crefyddau paganaidd. Er mai'r Iesu sy'n llefaru yma, yn ôl yr awdur, iaith diwedd y ganrif gyntaf sydd yma, a dim ond ei hiaith. I'r awdur nid bwyta cnawd Mab y dyn ac yfed ei waed *yn llythrennol* a olygai'r Iesu, ond ffigurau ydynt i fynegi'r syniad o gyfranogi o ysbryd a meddwl Crist. "Gweled y Mab" a "chredu ynddo" (ad. 40) ydyw amodau cyfranogi ohono Ef ei Hun. Mynegir hyn yn eglur yn ad. 47.

54. Dywedir yn yr ad. hon fod gan y neb a fwytao'i gnawd, ac a yfo'i waed, **"fywyd tragwyddol,"** fel y dywedwyd o'r blaen yn ad. 47 fod gan yr hwn "a gredo" fywyd tragwyddol. Y mae'n amlwg gan hynny nad yw'r awdur yn gaeth i syniadau ei ddydd am fwyta cnawd ac yfed gwaed Crist *yn llythrennol*, er ei fod yn defnyddio eu hiaith.

Nid yr un gair ydyw "bwyta" yn yr ad. hon â'r un sydd yn ad. 53. Ei ystyr ydyw bwyta gyda blas, ac y mae yn yr amser presennol—parhau i fwyta. Yr unig le arall yn y T.N. y defnyddir ef ydyw Math. 24^{38}, ac eithrio'r paragraff hwn yn adn. 56, 57, 58 a 13^{18}.

Adroddir am y bedwaredd waith y byrdwn, "a myfi a'i hatgyfodaf ef yn y dydd diwethaf."

55. **"Canys gwir fwyd yw fy nghnawd i, a gwir ddiod fy ngwaed."**

I ddangos bod gan y neb a fwytao'i gnawd ac a yfo'i waed "fywyd tragwyddol" y mynegir hyn.

Efallai mai ystyr "gwir" ydyw perffaith, mewn cyferbyniad i'r amherffaith neu'r arwyddluniol. Ond y mae syniad arall yn bosibl—ysbrydol, h.y., bwyd sy'n cynhyrchu ac yn cynnal y bywyd ysbrydol.

56. Mynegir syniad newydd, na chafwyd o'r blaen, yn yr ad. hon—fod y credadun yn aros yng Nghrist ac Yntau yn y credadun. Ond bwyta'i gnawd Ef ac yfed ei waed ydyw'r amod. I roi cyfrif am y "bywyd tragwyddol" sydd gan y credadun (ad. 54) y dywedir hyn. Ym mharhad yr undeb y mae'r sicrwydd am y bywyd tragwyddol.

Yr un gair ydyw "bwyta" ag yn ad. 54—bwyta gyda mwynhad a pharhau i fwyta. Yn wythnosol, neu'n anamlach na hynny, y cyfranogid o'r Cymun, ond y mae cyfranogi o fywyd Crist yn waith parhaus.

57. Yn yr ail ran o'r ad. hon mynegir syniad tebyg i'r hyn a gafwyd droeon o'r blaen yn yr adran hon, **"yr hwn sydd yn fy mwyta i, bydd yntau fyw trwof fi."**

Ond yn yr hanner cyntaf cyfleir cyfatebiaeth—**"megis yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr wyf fi'n byw drwy'r Tad."** Fel y mae'r Tad yn ffynhonnell bywyd Crist, felly y mae Yntau yn ffynhonnell y neb a'i bwytao Ef.

Gellid tybio mai geiriau amherthynasol i'r pwnc yw "megis yr anfonodd y Tad byw fi," ond trwy gael ei anfon y daeth Ef i'n natur ni, a thrwy ddyfod yn gnawd, h.y., yn ddyn, y gellir cyfranogi ohono. "Fy mwyta *i*," ac nid bwyta fy *nghnawd*, a ddywaid yma, ac ni sonnir am "yfed." Tybed nad yw hyn yn ddigon i ddangos bod yr awdur yn meddwl mwy am gyfranogi o ysbryd a meddwl Crist yn barhaus nag am y Cymun Cristionogol?

Golyga "bwyta" eto bwyta'n barhaus.

58. Dyma glo ar y bregeth ar Fara'r Bywyd a chrynodeb ohoni. Ailadrodd a wna gyda mân newidiadau adn. 49–51.

Adn. 59–71. Y BREGETH YN BARNU.

59. **"Mewn synagog yng Nghapernaum wrth ddysgu y dywedodd y pethau hyn."**

Cym. 8^{20}. Gwyddai'r awdur, fel y dengys 18^{20}, am le'r synagog ym mywyd yr Iesu, er mai Jeriwsalem a'r Deml yw maes ei weinidogaeth yn yr Efengyl hon.

60. **"Gan hynny dywedodd llawer o'i ddisgyblion a'i clywodd, Caled yw'r gair hwn. Pwy a all wrando arno?"** h.y., ar y gair, ac nid ar yr Iesu. Ystyr "caled" ydyw anodd i'w ddioddef, nid anodd i'w ddeall. Ei holl ddilynwyr a olygir wrth "ei ddisgyblion," gan gynnwys efallai'r "deuddeg" (ad. 70). Ni ellir bod yn sicr pa "air" neu "ymadrodd" a gyfrifent yn galed, ond gellid tybio oddi wrth ad. 62 mai "y bara a ddaeth i lawr o'r nef," er bod yr ad. honno yn debycach i waith yr awdur nag i waith yr Iesu.

61. Er mai **"murmur"** a wnaent gwyddai'r Iesu hynny ynddo'i Hun. Gweler 2^{25}. "A yw hyn yn eich maglu chwi?" ebr Ef.

62. **"Pe gwelech Fab y dyn yn dyrchafu i'r lle yr oedd gynt?"**

Cwestiwn ydyw'r ad. hon, ond un anorffenedig. Efallai pe gorffennid ef mai fel hyn y byddai: "Pe gwelech Fab y dyn yn dyrch-

afu i'r lle yr oedd gynt, a feglid chwi wedyn tybed ?" Y mae hon yn ad. go ddyrys.

Yn 20[17] am esgyniad Crist y defnyddir y gair "dyrchafu," a dyna a olyga yma yn ddiau. Nid yw "gweled" o anghenraid yn cynnwys gweled â'r llygaid er y byddai hynny'n llythrennol wir i'r Apostolion, yn ôl Luc (24[51]) a'r Actau (1[9]). Ond byddai *gwybod* iddo esgyn i'r lle yr oedd gynt, heb ei *weled* yn esgyn, yn ddigon i bwrpas yr hyn a ddysgir yma.

Cwestiwn rhagdybiol (*hypothetic*) ydyw hwn, a dylid cofio hynny. Ond beth yw ei ystyr ? Hyn i'n tyb ni : dangos mai'r bara *a ddaeth i lawr o'r nef* ydyw Crist, ac y bydd byw yn dragywydd y neb a fwytao ohono. Ar ôl deall iddo esgyn byddai dau beth yn eglur wedyn : (1) mai o'r nef y daeth : (2) mai'n ysbrydol yr ymborthir arno. Y mae'r ad. hon gan hynny yn braw nad yn faterol y bwyteir ei gnawd ac yr yfir ei waed.

Dywedir wrthym y coleddid syniadau materol ynglŷn â'r Cymun Cristionogol cyn diwedd y ganrif gyntaf, fel y gwneir heddiw gan Eglwys Rufain ac Uchel-Eglwyswyr, ond i'n tyb ni y mae'r awdur hwn yn dangos yn eglur ei fod ef yn gwbl rydd oddi wrthynt.

63. Dyma ad. arall i gadarnhau mai'n ysbrydol yr edrychir yma ar ymborthi ar Grist, ac nad yw'r awdur yn gaeth i syniadau'r Crefyddau Cyfrin.

"Yr ysbryd sy'n bywhau, nid yw'r cnawd yn lleshau dim."

Gwirionedd cyffredinol, sydd yn wir ym mhob achos, ydyw hwn, oblegid nid "*fy* ysbryd" a "*fy* nghnawd" a ddywedir. Ond ei bwpras yn y fan hon ydyw dangos nad yn llythrennol yr ydym yn bwyta cnawd ac yn yfed gwaed Mab y dyn, a'n bod yn ymborthi arno weithiau yn annibynnol ar ffurf o addoliad, megis y Cymun Sanctaidd.

Fel hyn y dylid cyfieithu'r hanner olaf : **"Y geiriau a leferais** (nid "wyf yn eu llefaru") **i wrthych, ysbryd ydynt a bywyd ydynt."** At eiriau'r bregeth flaenorol y cyfeirir. Ond nid yw'r ystyr yn gwbl glir. Fel hyn y dywaid rhai : "Y mae'r geiriau a leferais i wrthych i'w cymryd yn ysbrydol, ac nid yn llythrennol." Eithr nid hyn a olygir, yn ôl ein barn ni, ond yn hytrach fod ei eiriau Ef yn ysbryd ac yn cyfrannu bywyd, ac am hynny yn lleshau. Drwy'r Efengyl rhydd yr awdur bwyslais mawr ar "eiriau" 'r Iesu, oblegid eu bod yn fynegiant ohono Ef ei Hun—y Gair tragwyddol.

64. **"Ond y mae rhai ohonoch nad ŷnt yn credu."**

Dyma'r nodyn prudd unwaith eto.

Sylw o waith yr awdur ydyw'r gweddill o'r ad. hon : **"Gwyddai'r Iesu o'r dechrau pwy oedd y rhai nad oeddynt yn credu, a phwy oedd a'i bradychai ef."**

Efallai mai o'i gysylltiad Ef â hwy ydyw ystyr "o'r dechrau." Am enghreifftiau eraill ohono, gweler 15^{27}: 16^{4}.

Y mae'r awdur hwn yn ofalus iawn i ddangos gwybodaeth lwyr yr Iesu o ddynion. Ond dywedir wrthym gan yr Efengylwyr Synoptig fod yr Iesu'n rhyfeddu at ffydd (Math. 8^{10}) ac anghrediniaeth (Marc 6^{6}). Cred Ioan y gwyddai'r Iesu pwy na chredai a phwy a'i bradychai "o'r dechrau." Paham y dewisodd Ef Jiwdas i fod yn un o'r deuddeg os gwyddai cyn ei ethol y byddai iddo'i fradychu? Ein tuedd ni ydyw cymryd yn ganiataol y gwyddai'r Iesu, ac anghofio bod i'w wybodaeth derfynau pan oedd Ef yn y cnawd.

65. **"A dywedai, Oherwydd y dywedais wrthych na all neb ddyfod ataf fi, oni fyddo wedi ei roddi iddo gan y Tad."**

Cyfeiriad at yr hyn a ddywedodd yn adn. 37, 44 ydyw'r geiriau hyn, a chyfrif am anghrediniaeth rhai (ad. 64). Rhaid i'r Tad eu tynnu (ad. 44). Y mae tuedd yn yr awdur i olrhain llwyddiant a methiant yr Iesu i ewyllys Duw. Cawn enghreifftiau cyffelyb eto.

66. **"Ar hyn aeth llawer o'i ddisgyblion yn eu holau, ac ni rodient mwy gydag ef."**

67. **"Am hynny dywedodd yr Iesu wrth y deuddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?"**

Dyma'r waith gyntaf yn yr Efengyl y sonnir am yr Apostolion—"y deuddeg." Yn y "deuddeg" basged yn ad. 13 gwelsom gyfeiriad atynt. Fel hyn yn gywir y dywedodd yr Iesu wrthynt, "Nid oes awydd myned ymaith arnoch chwithau, a oes?" (C.N.). Cyfle iddynt ydyw i fynegi eu ffyddlondeb.

68. Atebodd Simon Pedr: **"Arglwydd, at bwy yr awn? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyt."**

Rhan o'i ateb ydyw hwn: y mae'r rhan arall ohono yn ad. 69. Yn iaith ac arddull Ioan y llefara Pedr, fel y gellir dweud mai Ioan ŷ fesur sy'n llefaru drwy Pedr. Ymadrodd nodweddiadol o'r Efengyl hon ydyw "bywyd tragwyddol."

69. Dyma ran arall o gyffes Pedr. Fel hyn y mae yn gywir: **"Ac yr ydym ni wedi credu ac yn gwybod mai ti yw Sanct Duw."**

Yn ôl yr Efengylau Synoptig gwnaeth Pedr gyffes fawr yng Nghesarea Philipi (Math. 16^{16}: Marc 8^{29}: Luc 9^{20}).

Tybir gan rai mai honno a edrydd Ioan yma er ei bod yn wahanol o ran ffurf. Cyffes o Grist fel *Meseia* a wnaed gan Pedr yng Nghesarea Philipi, a chyffes ohono fel *Meseia* ydyw hon, er mai "ti yw Sanct Duw" a ddywedodd yn ôl Ioan, oblegid dywedir bod "Sanct Duw" yn deitl am y Meseia. Ym Marc 1^{24}: Luc 4^{34} defnyddir ef gan yr ysbrydion aflan. Sylwer hefyd ar Ioan 10^{36}, lle y mae "mab Duw" a "yr hwn a *sancteiddiodd* y Tad" yn gyfystyr. Ond dy-

waid Rawlinson mai'r Eglwys Gristionogol a roes "Sanct Duw" yn deitl ar y Meseia. Os yw hynny'n wir y mae Pedr yn llefaru o flaen ei oes.

70. Etyb yr Iesu, ond yn wahanol iawn i'r modd yr atebodd Pedr yng Nghesarea Philipi. Fel hyn y dywaid yma: **"Onid myfi a'ch dewisais chwi, y deuddeg? Ac eto y mae un ohonoch yn gythraul."**

Rhoddir pwyslais ar y ffaith mai'r *Iesu* a'u dewisodd—"onid *myfi*?" Cystal â dweud y dylent felly fod yn lân bawb. Gweler ad. 64. Braidd nad awgryma na wyddai Ef pan yn eu dewis y byddai un ohonynt yn gythraul.

Beth yw amcan yr Iesu yn dweud "y mae un ohonoch yn gythraul?" Efallai i osod yr un ar ddeg ar eu gwyliadwriaeth rhag Jiwdas: efallai i rybuddio'r bradwr ei hun.

Hwyrach bod yr awdur yn awyddus i ddangos y gwyddai'r Iesu nad oeddynt yn lân bawb oll. Fel y gelwir Pedr yn "Satan" (Marc 8^{33}), felly y gelwir Jiwdas yn "gythraul"—am mai'r cythraul oedd yn gweithio ynddo. Efallai nad oedd Jiwdas cynddrwg eto. Gweler 13^{2}, ^{27}.

71. **"Ond am Jiwdas fab Simon o Gerioth y dywedai: canys hwn oedd i'w fradychu ef, ac ef yn un o'r deuddeg."**

Sylwer ar y gwahaniaeth a wneir gennym yn yr enw. Enw priodol ydyw "Jiwdas Iscariot," a geir yn yr Efengylau eraill. Ioan ydyw'r unig un a ddywaid "o Gerioth." Enw ar le ydyw "Cerioth," ac am hynny dywedir "*Simon* o Gerioth"—yma a 13^{2}, ^{26}—a "*Jiwdas* o Gerioth" (12^{4}: 14^{22}).

Yr oedd "Cerioth" un ai ym Moab (Jer. 48^{24}) neu yn Jiwdea (Josua 15^{25}). Jiwdas felly oedd yr unig un o'r deuddeg heb fod o Galilea.

Geiriau amwys ydyw "hwn oedd ar fedr ei fradychu ef," neu "hwn wedi hynny a'i bradychai ef," neu "hwn oedd i'w fradychu ef." Y mae yn yr Efengyl hon syniad o ragordeiniad Dwyfol, ac ni fyddai'n syndod o gwbl pe mai'r ystyr fyddai "canys hwn oedd i'w fradychu ef."

Edrychir wrth gwrs yn ôl ar waith Jiwdas. I ddangos hacrwch y weithred y dywedir "ac ef yn un o'r deuddeg." Gweler 20^{24} am Thomas.

PENNOD VII.

Yn ôl y drefn newydd y mae'r bennod hon i ddilyn pennod v. yn uniongyrchol. Yn Jiwdea y mae'r Iesu ar derfyn pennod v., ac yn pennod vii.[1] dywedir iddo rodio ar ôl hyn yng Ngalilea.

Adn. 1–9. GADAEL JIWDEA AM GALILEA.

1. O achos y gwrthdrawiad â'r Iddewon (5^{19-47}). ymedy'r Iesu â Jeriwsalem ac â i Galilea: **"ni fynnai rodio yn Jiwdea oblegid bod yr Iddewon yn ceisio ei ladd."**

2. **"Ac yr oedd gŵyl yr Iddewon yn agos, gŵyl y pebyll"** (C.N.).

Gŵyl Diolch am y Cynhaeaf oedd hon ar y dechrau, a gynhelid "ddiwedd y flwyddyn" (Ex. 34^{22}). Yn Deut. 16^{13} gelwir hi'n "ŵyl y pebyll," i'w chadw yn niwedd Medi neu ddechrau Hydref (Lef. 23^{34}) am saith diwrnod. Ar ôl hynny chwanegwyd ati wythfed diwrnod (Num. 29^{35}). I goffau am eu dwyn allan o'r Aifft trigai'r bobl mewn pebyll yn llawen.

3. Cynghora'i frodyr Ef i fyned i Jiwdea er mwyn i'w ddisgyblion weled ei weithredoedd. Gweler y nodiad ar 2^{12}. Y bobl yn Jiwdea a oedd mewn cydymdeimlad ag Ef a olygant wrth ei "ddisgyblion." Dengys hyn fod yr awdur yn gwybod mai yng Ngalilea y gwnaethai'r Iesu fwyaf o "weithredoedd." Er ei fod yn gyngor buddiol, efallai nad oedd y brodyr yn ddilys (ad. 4). Cym. Marc. 3^{21}.

4. Sylw cyffredinol ydyw **"Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn y dirgel ac yntau'n ceisio bod yn gyhoedd."** Oherwydd ei fod yn honni bod yn Feseia yr oedd yr Iesu i'w golwg hwy'n ceisio bod yn gyhoedd, ond yr oedd ei guddio'i Hun yng Ngalilea yn anghyson â hynny. Jiwdea oedd y lle i gyhoeddi ei honiadau. Gall "os wyt yn gwneuthur y pethau hyn" olygu "*gan* dy fod, etc."

5. **"Oherwydd nid oedd ei frodyr, hyd yn oed, yn credu ynddo,"** h.y., fel y Meseia.

Y mae'r sylw hwn yn un plaen a gonest. Cred E. F. Scott fod yr awdur yn yr Efengyl yn gwrthwynebu beirniadaeth ei oes,—mai methiant fu'r Iesu. Ond os yw hynny'n wir, y mae'n rhyfedd ei fod yn dweud hyn am y brodyr.

6. Etyb yr Iesu'r brodyr: **"Ni ddaeth fy amser i eto, ond y mae'ch amser chwi yn wastad yn barod,"** h.y., i fyned i fyny i'r ŵyl ac i'w amlygu ei Hun i'r byd. Pan sonia am ei Groes "fy *awr* i" a ddywaid, ond "fy *amser* i" a ddywaid yma. Yr oedd yn

rhaid iddo Ef wylio'i gyfle rhag ei ddyfod i wrthdrawiad anamserol â'i elynion. Yr unig neges a feddai'r brodyr yn Jiwdea oedd cadw yr ŵyl.

7. Er mwyn dangos y gwahaniaeth rhyngddo Ef a'i frodyr pwysleisia'r rhagenwau: **"Ni all y byd eich casau** *chwi*, **ond** *myfi* **y mae'n ei gasau, am fy mod i'n tystio amdano fod ei weithredoedd yn ddrwg."** Gweler 3^{20}. Ni ddywedir wrthym fod neb o'r deuddeg yn bresennol. Ym mha le felly y cafodd yr awdur yr ymddiddan?

8. **"Ewch chwi i fyny i'r ŵyl: nid wyf fi eto yn myned i fyny i'r ŵyl hon, oblegid na chyflawnwyd fy amser i eto.** Pwysleisir y rhagenwau eto—"chwi" a "mi." Tybir ei fod yn dweud yr "wyl *hon*" am ei fod yn meddwl am ŵyl arall—y Pasg y condemniwyd Ef arno.

9. Aros yng Ngalilea a wnaeth yr Iesu—am bedwar neu bum mis i gyd, o'r amser y gadawodd Ef Jeriwsalem pan iachaodd y claf (5^{8}). Ni ddaeth byth yn ôl i Galilea wedi iddo adael y wlad yn awr.

Adn. 10–14. YNG NGŴYL Y PEBYLL.

10. **"Ond wedi i'w frodyr fyned i fyny i'r ŵyl, yna aeth yntau i fyny, nid yn amlwg ond megis yn ddirgel,"** h.y., aeth yno wrtho'i Hun heb neb o'r deuddeg gydag Ef. Ni sonnir dim am y deuddeg yn yr hanes hwn.

11. **"Am hynny chwiliai'r Iddewon amdano yn yr ŵyl, a dywedent, Ple mae ef?"**

Am nad aethai gyda'r dyrfa y chwiliant amdano. Ei elynion ydyw "yr Iddewon," enghraifft dda o'r ystyr a ddyry'r awdur i'r teitl.

12. Murmur y bobl yn eu plith eu hunain amdano. **"Dyn da ydyw"** (C.N.), ebe rhai: **"Nage, ond camarwain y bobl y mae"** (C.N.), ebe eraill.

13. **"Er hynny ni lefarai neb ar gyhoedd amdano rhag ofn yr Iddewon."**

Dyma braw mai'r gelynion a olygir wrth "yr Iddewon." Dywaid Ioan droeon fod ar y bobl eu hofn (9^{22}: 12^{42}: 19^{38}: 20^{19}).

14. Yr Iesu'n myned i'r ŵyl. **"A phan oedd yr ŵyl ar ei chanol, aeth Iesu i fyny i'r deml a dechreuodd ddysgu"** (C.N.).

Y pedwerydd, neu'r pumed dydd oedd "canol yr ŵyl." Dyma'r sôn cyntaf yn yr Efengyl hon am yr Iesu'n *dysgu* yn Jeriwsalem.

Adn. 15–24. YN DADLAU Â'R IDDEWON.

Y mae'r adran hon, yn ôl pob tebyg, yn perthyn i bennod v., ac felly nid yng Ngwyl y Pebyll y bu'r ddadl hon. Gwelir hynny'n amlwg wrth efrydu'r paragraff.

15. **" Am hynny rhyfeddai'r Iddewon, a dywedent, Pa fodd y mae hwn yn medru dysgeidiaeth, ac yntau heb ei addysgu ?"** Dyma a olygent : pa fodd y mae hwn mor hyddysg yn ei Feibl ac yntau heb fod erioed yn ddisgybl i neb o awdurdod ? Ond efallai y golyga " dysgeidiaeth " (*grammata*) llên yn gyffredinol gan gynnwys y Beibl a'r traddodiadau Rabbinaidd. Fel hyn y dywaid Moffatt : " *How can this uneducated fellow manage to read ?*" Yr un gair ydyw " dysgeidiaeth " ag " ysgrifeniadau " yn ad. 5^{47} ; ac yn ôl y ffordd newydd o ad-drefnu, â'r ad. honno y dylid cysylltu'r ad. hon. Soniodd yr Iesu am " ysgrifeniadau " Moses (5^{47}), a dyma'r Iddewon tan synnu yn gofyn, Pa fodd y gŵyr hwn am " ysgrifeniadau," neu " dysgeidiaeth "? Yn Act. 4^{13} gelwir Pedr ac Ioan yn wŷr " anllythrennog (*agrammata*) ac annysgedig " am na dderbyniasent addysg yn yr ysgolion Rabbinaidd.

16. Etyb yr Iesu : **" Nid eiddof fi fy nysgeidiaeth, ond eiddo'r hwn a'm hanfonodd i "** (C.N.).

Nid ei addysgu ei Hun a wnaeth Ef, ond derbyn ei ddysgeidiaeth gan y Tad. Clywir am hyn eto droeon (8^{28} : 12^{49} : $14^{10, 24}$).

17. Ond cyn y gall neb wybod mai o Dduw y mae ei ddysgeidiaeth Ef, ac nad Ef ohono'i Hun sy'n llefaru, y mae'n rhaid iddo ewyllysio gwneuthur ewyllys Duw. Ni all neb, â'i galon yn anianol, ddeall pethau ysbrydol (1 Cor. 2^{14}). Yn yr ad. hon awdurdod bendant ei ddysgeidiaeth ydyw'r praw ei fod wedi ei ddysgu gan Dduw. Ond y mae'n rhaid inni fod yn gwbl lân oddi wrth ragfarn i deimlo'r awdurdod.

18. Dyma'r praw arall mai o Dduw y mae ei ddysgeidiaeth Ef— cywirdeb yr Hwn sy'n llefaru.

Gosodiadau cyffredinol a wneir yma sy'n gymwysadwy ar y naill law at unrhyw un a lefara ohono'i hun, neu ar y llaw arall at un a gais ogoniant yr hwn a'i henfyn. Ond yn $5^{30, 41}$, adnodau a berthyn yn agos i hon, dywedir nad yw'r Iesu yn ceisio'i ewyllys ei Hun, nac yn derbyn clod gan ddynion.

19. **" Oni roes Moses y gyfraith i chwi ? Ac eto nid oes neb ohonoch yn gwneuthur y gyfraith. Paham y ceisiwch fy lladd ?"** (C.N.).

Gan mai rhan o bennod v. ydyw'r adran hon y mae'r cyfeiriad at Moses a'r gyfraith a'r cais i'w ladd yn hollol berthynasol. Am iddo dorri'r Saboth wrth iachau'r claf (5^{10}) yr oeddynt am ei ladd

(5^{18}). "Y gyfraith" felly yn yr ad. hon ydyw'r gyfraith ynglŷn â'r Saboth, fel y prawf ad. 22 hefyd, ond dywaid yr Iesu na chedwid cyfraith y Saboth yn fanwl gan yr Iddewon eu hunain.

20. **"Atebodd y dyrfa: Y mae rhyw gythraul arnat. Pwy sy'n ceisio dy ladd?"** (C.N.).

Y bobl a fuasai'n gwrando'r ddadl sy'n ateb.

"*This is a lifelike touch.*" "Y mae rhyw gythraul arnat," ebr hwy, h.y., yr wyt yn wallgof wrth feddwl bod neb yn ceisio dy ladd. Yr oedd y rhain yn byw ym mharadwys ffyliaid. Dywedid am y Bedyddiwr hefyd fod cythraul arno am ei fod yn byw bywyd y meudwy (Math. 11^{18}). Yn ôl 8^{48}, â'r Iddewon—y gelynion—ymhellach na'r bobl hyn trwy ddweud ei *feddiannu* gan gythraul.

21. Anwybyddu sylw'r dyrfa a wna'r Iesu, ac â ymlaen i ddadlau â'r Iddewon.

"Un weithred a wneuthum ac yr ydych oll yn rhyfeddu at hyn." Yr "un weithred" hon oedd torri'r Saboth trwy orchymyn i'r claf godi ei wely (5^{10}), ac nid y weithred o iachau, neu'r wyrth ynddi ei hun, oblegid gwnaethai lawer gwyrth. At ei waith yn torri'r Saboth y rhyfeddant.

Nid yw Ioan byth yn defnyddio'r unigol "gweithred" am wyrth, nac yn dweud, fel y dywaid yr Efengylwyr Synoptig, fod y bobl yn rhyfeddu at y gwyrthiau.

22. Gadawer allan y geiriau **"Am hynny."** Cysylltwyd hwy gennym â diwedd ad. 21—"at hyn."

"Rhoes Moses yr enwaediad ichwi . . . ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Saboth."

Yn ôl y Rabbiniaid gellid enwaedu *ar y Saboth* pan ddigwyddai'r Saboth fod yn wythfed dydd o'r enedigaeth—y dydd y dylid enwaedu.

Efallai mai sylw o eiddo'r awdur, neu'r Golygydd, ydyw'r geiriau mewn cromfachau—"nid ei fod o Moses, ond o'r tadau." Yr oedd enwaediad yn hŷn na Moses (Gen. 17^{10}: 21^{4}). Os yr awdur neu'r Golygydd a'u piau, eu hamcan ydyw cywiro'r sylw "Rhoes *Moses* yr enwaediad." Ond y mae'n bosibl mai geiriau'r Iesu ydynt, ac mai ei ddadl yw hon: y dylid dodi heibio enwaedu ar yr wythfed dydd, defod nad oedd "o Moses," pan ddigwyddai'r wythfed dydd fod yn Saboth, er mwyn cadw deddf y Saboth.

23. Dyma'r ffordd orau o ddigon i gyfleu'r ad. hon: **"Os derbyn dyn enwaediad ar y Saboth fel na thorrer cyfraith Moses, a ydych yn ddig wrthyf fi am imi wneuthur dyn cyfan yn iach ar y Saboth?"**

Wrth "gyfraith Moses" y golygir enwaedu ar yr wythfed dydd, er nad o Moses yr oedd, a llefaru'n fanwl. Felly yr ymresymiad ydyw

hwn efallai: os yw'n iawn iachau un aelod o'r corff ar y Saboth trwy enwaedu, yn sicr y mae'n iawn iachau dyn cyfan ar y Saboth. Yn hwn y mae'r cyferbyniad rhwng iachau *un aelod* ac iachau *dyn cyfan*.

Hwyrach mai fel hyn y dadleuir: os gellir *darnio* aelod o'r corff ar y Saboth er mwyn cadw cyfraith Moses, gallaf Fi yn sicr gyfrannu *iechyd* i'r holl ddyn ar y Saboth.

Cym. Math. 12^{11} lle y ceir dadl debyg, ond yn Ioan yn unig yr ymresymir oddi wrth *enwaediad*.

24. **" Na fernwch wrth yr olwg, ond bernwch y farn gyfiawn "** (C.N.).

Y meddwl ydyw bod iachau'r claf yn ymddangos yn dorri'r Saboth, ond nid oedd felly mewn gwirionedd, a barnu'n deg. Cym. " barnu'n ôl y cnawd " (8^{15}). Dyma derfyn ar y ddadl ynghylch y Saboth.

Adn. 25–36. YNG NGWYL Y PEBYLL.

Deuwn yn ôl yn awr at hanes yr Iesu yng ngŵyl y pebyll (ad. 14). Ymyrrwyd â'r adroddiad gan yr adran 15–24 a ddylasai fod gyda phennod v. Y mae'r hyn a adroddir yn y paragraff hwn fisoedd ar ôl y ddadl ynghylch y Saboth ($^{15-24}$).

25. Gair mawr ac afrwydd ydyw " Hierosolymitaniaid." Yr unig le arall, diolch am hynny, y ceir ef yn y T.N. ydyw ym Marc 1^{5}, ond y mae'r ffurf Gymraeg arno'n fyrrach a chywirach yno. Ei ystyr ydyw " pobl Jeriwsalem." Hyn a ofynnant: **" Onid hwn yw'r un a geisiant ei ladd ?"** Gwyddai'r rhain, yn wahanol i'r bobl yn ad. 20, am y cais i'w ladd.

26. Rhyfedda pobl Jeriwsalem fod yr Iesu'n cael llonydd i lefaru ar gyhoedd, os Ef ydyw'r un a geisient ei ladd. Tybed fod y penaethiaid wedi eu hargyhoeddi mai Ef yw'r Crist, h.y., y Meseia ? Dyna ydyw ystyr eu cwestiwn.

27. Ond petai'r penaethiaid yn credu hynny amdano, gŵyr y bobl hyn yn amgenach: **" Ond gwyddom ni am hwn, o ba le y mae, ond am Grist, pan ddêl, ni ŵyr neb o ba le y mae."**

Ffynnai traddodiad ymhlith yr Iddewon mai'n sydyn ac annisgwyliadwy yr ymddangosai'r Meseia, a gwyddai'r awdur a'r bobl hyn amdano. Gwelir ôl y traddodiad ar 1^{31}: 6^{42}: Math. 24^{26}.

28. **" Gwaeddodd yr Iesu gan hynny, wrth ddysgu yn y deml."**

Y mae'r awdur yn hoff iawn o ddweud i'r Iesu " weiddi." Gweler 7^{37}: 11^{43}: 12^{44}, a Math. 27^{50}.

Etyb yr Iesu mewn iaith gyfrin syniad y bobl amdano (ad. 27). Gwyddent am ei deulu a'i gartref **" Chwi a'm hadwaenoch, a**

gwyddoch o ba le yr wyf"—ond ni wyddent nad ohono'i Hun y daeth, eithr ei anfon allan gan y Tad, yr Hwn sydd wir.

Dywediad miniog i Iddewon a honnai wybodaeth o'r Tad ydyw "yr hwn ni wyddoch chwi amdano" (C.N.). Yn 8^{19}, ^{55} mynegir ef eto.

29. **"Adwaen i ef, oblegid oddi wrtho ef yr wyf, ac ef a'm hanfonodd."**

Honna ddau beth—ei fod Ef yn adnabod y Tad, ac mai'r Tad a'i hanfonodd. Ceir y cyntaf eto, yn 8^{55}: 17^{25}: a'r ail yn fynych iawn. Cym. Math. 11^{27}: Luc 10^{22}, geiriau tebyg o ran arddull a syniad i'r hyn sydd yn yr Efengyl hon.

Y mae'r geiriau "oblegid oddi wrtho ef yr wyf" yn egluro pam nad adwaenai'r Iddewon y Tad—am nad oes neb yn ei adnabod ond yr Hwn a ddaeth oddi wrtho Ef (Math. 11^{27}).

30. **"Am hynny ceisient ei ddal, ond ni roes neb ei law arno, am na ddaethai ei awr ef eto."**

Am bobl Jeriwsalem y soniwyd ddiwethaf (ad. 25), ond y penaethiaid, h.y., aelodau o'r Sanhedrin a geisiai ei ddal, fel y ceisiasent cyn hyn (5^{18}). Am ei honiadau (ad. 28, 29), disail fel y meddylient hwy, y ceisient ei ddal yn awr. Gair nas defnyddir yn yr Efengylau Synoptig ydyw'r un a gyfieithir "dal." Yr un un yw ag yn 21^{3}, ^{10} am "ddal" pysgod.

Ym marn yr awdur yr oedd rhyw Arfaeth fawr yn rheoli bywyd yr Iesu (7^{44}: 8^{20}: 10^{39}) fel na allai neb roi ei law arno eto—"am na ddaethai ei awr ef."

31. "Ond" ydyw'r gair a ddylai fod yma: **"Ond o'r dyrfa credodd llawer ynddo"** (C.N.).

Efallai mai hyn ydyw'r rheswm pam na roes neb ei law arno, oblegid yr oedd gan y Sanhedrin ofn y bobl (Math. 21^{46}). Nid yw'r bobl hyn yn sicr mai Ef ydyw'r Crist, a'r profion o ddilysrwydd y Meseia, pan ddelai, fyddai ei "arwyddion." Yr oedd disgwyl cyffredinol am i'r Crist gyflawni gwyrthiau.

32. **"Clywodd y Phariseaid y dyrfa yn murmur hyn amdano,"** nid clywed eu bod yn murmur. Galwyd y Sanhedrin, a phenderfynwyd anfon swyddogion i'w ddal. Ceir y cyfuniad "yr archoffeiriaid a'r Phariseaid" yn 7^{45}: 11^{47}, ^{57} hefyd. Y Sanhedrin, y prif lys Iddewig yn Jeriwsalem a olygir wrtho. Yr oedd yn y llys hwn dri dosbarth o aelodau: (1) yr archoffeiriaid, yn cynnwys yr archoffeiriad a fyddai mewn swydd a'r offeiriaid a fuasai mewn swydd: (2) y Phariseaid: (3) a'r henaduriaid. Perthynai (1) a (3) i blaid y Sadduceaid, a chynrychiolent y bendefigaeth gan ffurfio gwrthblaid i'r Phariseaid.

Cytunai'r ddwyblaid modd bynnag i anfon swyddogion i ddal yr Iesu. Hwn yw'r cais ffurfiol cyntaf i'w ddal. Fel y dengys ad. 33, 34, gwêl yr Iesu ynddo gysgod ei Groes.

33. Gadawer allan "wrthynt hwy." Math ar ymson ydyw geiriau'r Iesu: **"Am hynny dywedodd yr Iesu, Am ychydig amser eto yr wyf gyda chwi ac yna yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd i."**

Am yr ymadrodd "ychydig amser" (neu "ennyd") gweler 12^{35}: 13^{33}: 14^{19}: 16^{16}. Myned at Dduw ydyw marw i'r Iesu—ymadrodd mynych a thlws yn yr Efengyl hon ($13^{3, 33, 34}$: $16^{5, 10}$).

34. **"Byddwch yn chwilio amdanaf, ond ni'm eewch, a'r lle yr wyf fi ni ellwch chwi ddyfod."**

Chwilio amdano i'w ddwyn i'r ddalfa a wnâi'r Iddewon yn awr, ond byddant rhyw ddiwrnod yn chwilio amdano i'w hachub o'u trybini, ac nis ceir.

Ymadrodd rhyfedd ydyw "a'r lle yr wyf i," a geir eto, yn 12^{26}: 17^{24}. Cyfeithir ef gan rai yn "a'r lle y *byddaf* fi," neu "a'r lle yr wyf fi'n *myned*." Ond y mae'n ymddangos i ni ei fod yn un o ymadroddion cyfrin yr Efengyl. Sylwer arno yn 12^{26}: 17^{24}.

35. Camddeall yr Iddewon Ef, neu camesboniant Ef yn fwriadol. Siarad â'i gilydd yn wawdlyd a wnânt—**"yn eu mysg eu hunain." "I ba le y mae hwn am fyned na ddeuwn ni o hyd iddo?"** (C.N.). **"A ydyw am fyned at y rhai sydd ar wasgar ymhlith y Groegiaid, a dysgu'r Groegiaid?"**

Yr awgrym gwawdlyd iddo yw ei fod yn fethiant yn ei wlad ei hun ac am iddo newid maes ei lafur lle y byddai'n debycach o lwyddo yn ei olwg ei hun.

Yr Iddewon a drigai ym mysg y Cenhedloedd a olygir wrth "y rhai sydd ar wasgar." Ond yr oedd y syniad o "ddysgu'r Groegiaid" yn beth dirmygus iawn yng ngolwg yr Iddew yn amser Crist. Pan ysgrifennwyd yr Efengyl, ar y llaw arall, yr oedd yn ffaith yr ymffrostid ynddi. Tybed nad yw'r geiriau felly yn braw go dda mai ffeithiau llythrennol a adroddir yma?

36. Dim ond dyfalu'n wawdlyd a wnâi'r Iddewon yn ad. 35. Y mae geiriau'r Iesu yn ad. 34 yn parhau i'w poeni. Gorchwyl anodd ydyw cellwair â geiriau'r Iesu. "*Christ's words cannot be shaken off.*" Sylwer fel yr adroddant ei eiriau drosodd a throsodd. Terfynir yr ymddiddan yn swta. Gedy'r awdur yr Iddewon i fwmian y geiriau na ellir yn hawdd eu hanghofio. Ond trwy sylwi ar 8^{21}, gwelir bod yno ateb i ddyfaliadau'r Iddewon. Bernir gan rai fod y penodau hyn wedi eu cymysgu gan rywun.

Adn. 37–44. Y DYDD DIWETHAF O'R ŴYL.

Yn yr adran hon disgrifir effeithiau pregeth yr Iesu yng Ngŵyl y Pebyll. Achosodd ddwyblaid yn y dyrfa.

37. Ar y dydd diwethaf o Ŵyl y Pebyll safodd yr Iesu a gwaeddodd: **"Os oes syched ar neb, deued ataf fi, ac yfed"** (C.N.).

Y dydd diwethaf oedd "diwrnod mawr yr ŵyl"—yr wythfed diwrnod, a chwanegwyd ar ôl ei sefydlu (Num. 29^{35}). Bob bore o'r ŵyl cludid dwfr mewn cawg aur o lyn Siloam a thywelltid ar yr allor gan yr offeiriad. Tybir mai'r ddefod hon a barodd i'r Iesu godi ar ei draed a gweiddi "Os oes syched ar neb, deued ataf fi ac yfed." Eistedd a wnâi Yntau wrth ddysgu, ond i roi pwyslais ar ei eiriau yma ac yn ad. 38 cododd ar ei draed a gwaeddodd. Gwelsom cyn hyn hoffed ydyw Ioan o sôn am ei waedd.

38. Am amryw resymau y mae hon yn ad. anodd.

"Yr hwn sy'n credu ynof fi, fel y dywedodd yr ysgrythur, Afonydd o ddwfr bywiol a ddylifa o'i groth ef." Yn ein tyb ni perthyn i ad. 37 y mae'r geiriau cyntaf yn hon, fel hyn: "Os oes syched ar neb deued ataf fi: ac yfed yr hwn sy'n credu ynof fi." A dyma'r ad. hon hebddynt: "megis y dywaid yr ysgrythur, Afonydd o ddwfr byw a lifa o'i groth," h.y., o groth, neu ymysgaroedd y Crist. Symudir o'r person cyntaf ("deued ataf *fi*") yn ad. 37 i'r trydydd person ("o'i groth *ef*") yn yr ad. hon. Y rheswm am hynny ydyw mai dyfyniad ydyw "Afonydd o ddwfr byw a ddylifa o'i groth." Oherwydd mai galw sylw y dyrfa ato'i Hun y mae'r Iesu, y mae'r esboniad hwn yn well na'r un a ddywaid mai o groth y credadun y llifa'r dwfr byw. At hyn y mae lle i gredu mai i goffáu am y dwfr o'r graig, y sonnir amdano yn Ex. 17^{6}, y tywelltid y dwfr ar yr allor, ac yr oedd hwnnw'n gyfeiriad naturiol at y Meseia, fel y dengys Paul (1 Cor. 10^{4}, "a'r graig oedd Crist"). I gloi'r mater dywaid Ioan, ac ef yn unig, i *ddwfr* yn gystal â gwaed ddyfod allan o ystlys yr Iesu ar y Groes (19^{34}).

Y mae'n deg dweud nad yw'r eglurhad mai o groth y credadun y llifa'r dwfr byw yn gwbl ddieithr i'r Efengyl (4^{14}).

39. Eglurhad yr awdur ydyw'r ad. hon ar adn. 37, 38.

"Hyn a ddywedodd am yr Ysbryd a dderbyniai'r rhai a gredodd ynddo ef." Nid yw'r sylw hwn ynddo'i hun yn ffafrio'r naill na'r llall o'r esboniadau ar ad. 38. Fel hyn y mae'r hanner olaf o'r adnod: **"canys nid oedd Ysbryd eto, am na ogoneddwyd yr Iesu eto"** (C.N.). "Wedi ei roddi" ebe'r cyfieithwyr, a dyna yw'r ystyr. Yr oedd Ysbryd, ond nid oedd eto "wedi ei roddi."

"Ysbryd" hefyd a ddywedir, ac nid "*yr* Ysbryd *Glán*" er mai Ef a olygir. Gweler Act. 19^{2}.

Pan ysgrifennai'r awdur, a chyn hynny hefyd wedi gwybod atgyfodi Ohono, nid gwaradwydd oedd Croes Crist, eithr gogoniant mawr: "am na *ogoneddwyd* yr Iesu eto." Gweler hefyd 12^{16}, ^{23}: 13^{31}). Iddo ef y mae marw yn amod gogoneddu i bawb (12^{24}). Yn yr Eglwys fore gelwid marw merthyr yn "ogoneddiad." Ni allai'r Pentecost chwaith fod o flaen Calfaria. Pan atgyfododd yr anadlodd Ef yr Ysbryd ar yr apostolion (20^{22}).

40. Dywedodd y bobl a glywodd yr Iesu'n llefaru yn yr Ŵyl, **"Hwn yn wir yw'r proffwyd,"** h.y., y proffwyd y rhagfynegir amdano (Deut. 18^{15}), ond nid y Meseia yng ngolwg y rhain, fel y prawf ad. 41. Yn 6^{14} y Meseia ydyw'r "proffwyd." Yn gynnar yn yr Eglwys Apostolig y Meseia oedd (Act. 3^{22}: 7^{37}). Yn Ioan ceir y ddwy farn, yr hyn sy'n braw da mai adrodd hanes gwir a wna ef.

41. **"Dywedai eraill, Hwn yw'r Crist. Ond dywedai eraill, Ai o Galilea y daw'r Crist?"**

Gwelir oddi wrth yr ad. hon nad "y Crist" a feddyliai'r rhai cyntaf (ad. 40) wrth "y proffwyd."

Gwyddai'r bobl hyn mai o Galilea yr oedd yr Iesu, oblegid dyma yw ystyr eu cwestiwn, "Nid o Galilea y daw'r Crist, ai e?"

42. Parha'r trydydd dosbarth i ofyn cwestiynau: **"Oni ddywaid yr ysgrythur, O had Dafydd ac o Fethlehem, y dref lle yr oedd Dafydd, y daw'r Crist?"**

Gwyddent yr ysgrythur yn dda (Mica 5^{2}: Es. 11^{1}: Jer. 23^{5}), ond ni wyddent eni'r Iesu ym Methlehem. Dyma braw arall mai adrodd hanes a wneir yma, oblegid yr oedd y gwir am yr Iesu yn gwbl hysbys pan ysgrifennwyd yr Efengyl.

43. **"Felly aeth yn ddwyblaid yn y dyrfa o'i achos"** (C.N.).

Y Roeg am "ddwyblaid," neu "ymrafael" ydyw *schisma* (Saes. *schism*). Nid dyma'r tro olaf, ysywaeth, iddi fynd yn rhwyg o'i achos Ef.

44. **"A mynnai rhai ohonynt ei ddal, ond ni roes neb ei ddwylo arno"** (C.N.).

Rhai o'r dyrfa a olygir, ac nid yr Iddewon gelynol.

Adn. 45–53. YR IESU A'R SANHEDRIN.

45. Daeth y swyddogion a anfonasid i ddal yr Iesu (ad. 32) yn ôl hebddo Ef.

I'r Sanhedrin y daethant hebddo—**"at yr archoffeiriaid a'r Phariseaid."** Yn 8^{59} dywedir i'r Iesu ymguddio a myned allan

o'r deml, ac ym marn rhai esbonwyr i ddilyn yr ad. honno y dylid gosod yr hanes hwn. Ond eto yn ad. 46 awgrymir nad oherwydd iddo ymguddio y daeth y swyddogion yn ôl heb yr Iesu.

46. **"Atebodd y swyddogion, Ni lefarodd neb erioed fel y dyn hwn."**

Dyma'r rheswm a rydd y swyddogion dros ddyfod yn ôl heb yr Iesu ganddynt. Efallai hefyd fod yr eglurhad arall yn rhan o'r gwir—iddo lithro allan o'r deml (8^{59}). Tybia'r Dr. Bernard na fuasai'n ddiogel iddynt roi eu dwylo arno o achos y ddwyblaid (ad. 43). Sut bynnag, yr oedd hyn yn rhan o'r gwir onid e ni fuasai'r swyddogion yn ei fynegi—eu parlysu gan ei eiriau.

47. Y blaid fwyaf eiddigus dros iawngred oedd y Phariseaid, a hwy sy'n ateb: **"A ydych chwithau wedi eich hudo?"** Yr un gair â "twyllo" (ad. 12) ydyw "hudo," yn golygu camarwain.

48. **"A oes un o'r arweinwyr wedi credu ynddo, neu o'r Phariseaid?"**

Yr oedd hyn yn wir hyd yma efallai, ond nid oedd felly yn nes ymlaen yn ôl 12^{42}.

49. **"Ond am y bobl hyn na wyddant y gyfraith y maent tan felltith."**

Tan farn Duw ydyw ystyr "tan felltith" neu "melltigedig," yr unig le yn y T.N. y digwydd. Yr hyn a olygir ydyw, y mae'r Iesu hwn sy'n torri'r Saboth ac yn cablu yn Fescia i'r werin sy'n anwybodus o'r H.D. Yn yr ail ganrif gwawdid Cristionogaeth gan Celsus oherwydd y croeso a roddai i'r anwybodus. Dyma ei hiaith hi, ebr ef: "Os yw neb yn ffwl, deued." Gweler 1 Cor. 1^{26}.

50. Dyma Nicodemus yn taro nodyn anghytsain i'r Sanhedrin: **"Dywedodd Nicodemus (a ddaethai ato cyn hynny) ac yntau'n un ohonynt."**

Amcan y sylw mewn cromfachau ydyw dangos mai'r un un yw hwn â'r Nicodemus y sonnir amdano yn 3^{1}. Nid yw'r geiriau "yr Iesu o hyd nos" yn ddilys yma, ond yn 19^{39} y maent.

51. **"A ydyw ein cyfraith ni'n barnu'r dyn heb yn gyntaf ei glywed a gwybod pa beth y mae'n ei wneuthur?"**

Scilia ei brotest ar egwyddorion y gyfraith Iddewig (Ex. 23^{1}: Deut. 1^{16}). "Y dyn" a ddywaid gan gyfeirio efallai at yr Iesu yn bersonol. Ei bolisi ef ydyw oedi'r achos.

52. Â'r Sanhedrin i ymrafaelio yn awr.

"Nid wyt tithau hefyd o Galilea, a wyt? Chwilia a gwêl na chyfyd proffwyd o Galilea."

O Jeriwsalem yr oedd Nicodemus fel y gwyddai pawb yn y Sanhedrin. Ond cymer y rhain eto yn ganiataol mai *o* Galilea yr oedd yr Iesu.

Nid yw'r cyfieithiad "na *chododd* proffwyd" yn gywir, ond "na *chyfyd* proffwyd." Yr oedd Jona o Gath-Heffer yng Ngalilea (2 Bren. 14^{25}).

Terfyna'r bennod gyda'r ad. hon.

53. **"Ac aethant ymaith, bob un i'w dŷ ei hun"** (C.N.).

Ni pherthyn yr ad. hon i bennod vii. Dylai fod yn ad. gyntaf ym mhennod viii. Dechrau pennod viii. fel hyn, "*Ond* aeth Iesu i fynydd yr Olewydd."

PENNOD VIII.

Adn. vii. 53–viii. 1–11. YR IESU A'R ODINEBWRAIG.

Ni ddylai'r adran hon fod yn Efengyl Ioan o gwbl. Y mae'r arddull a'r iaith a thystiolaeth y llawysgrifau yn bendant yn ei herbyn. Y mae'n absennol o'r copïau hynaf o lawysgrifau, a'r ysgrifennwr Groeg cyntaf i'w hesbonio oedd rhywun tua O.C. 1100, a dywaid hwnnw nad oedd i mewn yn y copïau cywir o'r Efengyl. Efallai i'r stori ddyfod i mewn i gopïau diweddar am fod disgyblaeth yr Eglwys wedi llacio mewn achosion tebyg. Pan gosbid person yn ddidrugaredd am y pechod o odineb, teimlid nad oedd hynny'n gyson ag ymddygiad yr Iesu tuag at y wraig hon. Ond y mae'r arddull a'r eiriadaeth yn hollol groes i eiddo awdur yr Efengyl hon, a'r stori ei hun yn y lle hwn yn gwbl amherthynasol. Ar y llaw arall, tybia'r esbonwyr ei bod yn rhan ddilys o'r traddodiad efengylaidd, ac y gellir ei holrhain cyn belled yn ôl â'r bedwaredd ganrif. Y mae'n bortread cywir o'r Iesu, fel y disgrifir Ef yn yr Efengylau Synoptig, ac efallai mai tynerwch yr Iesu oedd y rheswm pennaf paham na ddaeth y stori i mewn i'r Canon.

Yn y nodiadau sy'n dilyn sylwir ar arddull ac iaith yn bennaf, i ddangos mor annhebyg ydynt i eiddo Ioan.

1. **"Ond aeth Iesu i fynydd yr Olewydd"**—yr unig le yn yr Efengyl y sonnir am Olewydd.

2. Ad. debyg i Luc 21^{38}. Nid yw Ioan byth yn defnyddio'r ffurf "yr holl bobl," na'r gair sydd yma am "y bore": ac "eistedd" ddwywaith yn unig.

3. Nid yw Ioan yn sôn am "yr ysgrifenyddion." I gael barn yr Iesu ar yr achos y deuant â'r wraig ato, fel y gallant ei gyhuddo (6). Y Sanhedrin yn unig a oedd i ddelio â hi. Yr un gair ydyw "a ddaliesid" ag "amgyffred" (1^{5}) a "dal" (12^{35}).

4. Ni cheir y gair am "godinebu" o gwbl yn Ioan.

5. Yr oedd hwn yn achos drwg o odineb, tebyg i "lances wedi ei dyweddïo i ŵr" (Deut. 22^{23}), ac yn galw am labyddio. Ystyr **"beth gan hynny a ddywedi di?"** ydyw, a ddylid ei llabyddio yn ôl dy farn di? Un o eiriau mynychaf Ioan ydyw "gan hynny" (*oun*), ond yma'n unig y ceir ef yn yr adran hon.

6. **"Dywedyd hyn yr oeddynt i'w brofi er mwyn cael lle i'w gyhuddo"** (C.N.).

Yr unig enghraifft o "temtio," neu brofi, yn Ioan ydyw 6^{6}. A ddylid llabyddio'r wraig hon yw'r cwestiwn. Pe dywedai'r Iesu y

dylid fe'i gosodai ei Hun yn erbyn cyfraith y wlad, oblegid yn ôl cyfraith Rufain nid oedd hawl gan yr Iddewon i ladd neb, dim ond dyfarnu un yn euog o farwolaeth. Pe dywedai *na* ddylid, cyhuddid ef gan ei elynion o fyned yn groes i ddeddf Moses. **" Ond wedi plygu i lawr, dechreuodd yr Iesu ysgrifennu ar y ddaear a'i fys."** Ni ddigwydd y gair am " ysgrifennu " yn unman arall yn y T.N., ac ni ddywedir yn unlle arall i'r Iesu ysgrifennu dim, na'i fod yn medru. Ond efallai nad oedd yn ysgrifennu dim yn awr, er dweud o un hen stori mai ysgrifennu pechodau ei gyhuddwyr yr oedd. Tybia rhai mai'r cyhuddiad a sgrifennai, a bod pwyslais ar y geiriau " ar y ddaear," h.y., yn y llwch, i ddangos nad oedd y cyhuddiad ddim i aros am byth. Yn ôl y geiriau " heb gymryd arno'u clywed," i ddangos nad oedd arno eisiau gwrando arnynt yr ysgrifennai Ond gadewir y geiriau hyn allan o'r testun fel y dangosir yn y cyfieithiad uchod.

7. **" Ond wrth eu bod yn dal i'w holi, ymunionodd, a dywedodd wrthynt: Y dibechod ohonoch, tafled hwnnw yn gyntaf garreg ati "** (C.N.).

Yn Luc (13^{11}: 21^{28}) yn unig, heblaw yma, y ceir " ymunioni." " Dibechod "—yn yr ystyr o fod yn rhydd oddi wrth bechod cyffelyb, o ran chwennych a gweithred (Math. 5^{28}). Yn ôl y ddeddf (Deut. 17^{7}) y tyst oedd i daflu'r garreg gyntaf. Ond gwnaed y dibechod, ebe'r Iesu; yn yr achos hwn.

8. **" Ac wedi iddo eto blygu i lawr, ysgrifennai ar y ddaear."** Amser amherffaith eto sydd i'r ferf " ysgrifennu "—mynd ymlaen i sgrifennu. I ba beth, tybed? I ddangos ei fod wedi dweud y cwbl a fwriadai hwyrach.

9. Aeth y temtwyr allan y naill ar ôl y llall, gan ddechrau o'r hynaf, a gadawyd yr Iesu ei Hun, a'r wraig yn sefyll yn y canol.

10. Erbyn i'r Iesu ymunioni yr oedd y cyhuddwyr oll wedi myned ymaith. **" Oni chondemniodd neb di?"** h.y., trwy daflu'r garreg atat. Nid yw'r gair sydd yma am " gondemnio " o gwbl yn Ioan.

11. Un peth prydferth iawn yn y stori ydyw fod y wraig mor ddistaw. Y cwbl a ddywaid ydyw **" Neb, Syr."** A dyma ddiwedd y stori: **" Nid wyf innau yn dy gondemnio: dos, a phaid â phechu o hyn allan."** Nid oedd yr Iesu yn ei chondemnio yn yr ystyr ei bod yn euog o benyd cyfraith Moses. Gadewir allan y geiriau " nid wyf innau yn dy gondemnio " o rai llawysgrifau am y rheswm y mae'n debyg, y gellid eu defnyddio yn esgus am lacrwydd mewn disgyblaeth Eglwys.

Gair cyfansawdd ydyw " condemnio " (ond nid yw yn Ioan) o'r gair am " barn " sydd mor fynych yn yr Efengyl. Ceir dwy enghraifft o " barn " yn y stori hon yn Ioan—7^{24}: 8^{15}, ac efallai mai i

ddysgu hynny—" na fernwch wrth yr olwg "—y rhoed y stori i mewn yma. Ni sonnir dim am faddeuant.

Adn. 12–20. " MYFI YW GOLEUNI'R BYD."

Y mae'n amhosibl penderfynu cysylltiad yr adran hon. Gwelsom nad yw $7^{53-81-11}$ yn rhan o'r Efengyl. Gan rai cysylltir hi â 7^{24}: gan eraill â 7^{52}: a chan craill â 9^{21}. Ni wyddom felly yn sicr pwy ydyw " wrthynt " yn ad. 12 onid y Phariseaid, a etyb yn ad. 13, ydynt. Y cwbl y gellir bod yn bendant arno ydyw mai yn y trysordy wrth ddysgu yn y deml y llefarwyd y geiriau hyn (ad. 20).

12. " **Myfi yw goleuni'r byd. Ni rodia neb sy'n fy nghanlyn i, yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.**"

Tybir mai yng Ngŵyl y Pebyll y dywedodd yr Iesu hyn, ac mai goleuo'r canhwyllbrennau aur yng nghyntedd y gwragedd a awgrymodd iddo'r ffigur o oleuni, neu a barodd iddo wneud yr honiad mawr, " Myfi yw Goleuni'r byd." Yr oedd y " trysordy " (^{20}) yn nesaf i gyntedd y gwragedd. Ond dywedai'r Rabbiniaid fod Goleuni yn enw ar y Meseia, ac am Was yr Arglwydd dywaid Eseia (42^{6}: 49^{6}) y byddai'n Oleuni i'r Cenhedloedd. Y mae honiad yr Iesu, fodd bynnag, yn ddihafal ac yn amhosibl i neb ond Ef. "*There is no Hebraic parallel to be found for such a thought*" (Bernard). Yn yr H.D. yr Arglwydd yw'r Goleuni (Salm 27^{1}: Es. 60^{19}), ac y mae'n anhraethol bwysig inni gofio hyn yn y fan hon. Gweler 1^{9}, a chym. Math. 5^{14}. Gan mai Ef yw Goleuni'r byd ni â neb sy'n ei ganlyn Ef ar gyfeiliorn: " ni rodia yn y tywyllwch." A mwy na hynny: " bydd ganddo oleuni'r bywyd," h.y., bydd goleuni'r bywyd yn eiddo iddo. Ni ellir bod yn sicr beth yw ystyr " goleuni'r bywyd "—pa un ai'r goleuni sy'n cyfrannu bywyd (fel " Bara'r bywyd ") neu ynteu'r goleuni sy'n llifo o fywyd. Efallai fod y ddau'n gywir.

13. Y Phariseaid sy'n ateb, ac felly wrthynt hwy y mae'n debyg y llefarwyd ad. 12. Gofynnai'r Rabbiniaid am dystiolaeth dau, hyd yn oed mewn dadleuon diwinyddol. Gweler 5^{31}.

14. Dadl yr Iesu ydyw fod ei ymwybyddiaeth o'i darddiad Dwyfol (" o ba le y deuthum "), ac o'i genhadaeth (" i ba le yr wyf yn myned ") yn gwneud ei dystiolaeth amdano'i Hun yn wir. Yr oedd yn wir hefyd i'r rhai a gredai hyn amdano. Ond ni wyddai'r Phariseaid o ba le yr oedd yn dyfod, nac i ba le yr oedd yn myned.

Ymddengys yr ad. hon yn groes i 5^{31}. Ond cydnebydd yr Iesu eto yn ad. 18 fod angen am dystiolaeth arall i wireddu ei dystiolaeth amdano'i Hun i ddynion.

15. " **Yr ydych chwi'n barnu yn ôl y cnawd, nid wyf fi'n barnu neb.**" Rhybuddiwyd hwynt cyn hyn (7^{24}) rhag barnu yn

ôl y cnawd. Iddynt hwy Iesu o Nasareth mab Joseff ydoedd yn unig.

Y mae "nid wyf fi'n barnu neb" yn gyson â'r hyn a ddywedir yn 3^{17}: 5^{45}: 12^{47}, ond yn gwrthddweud $5^{22, 27}$: 8^{16}: 9^{39}. Efallai mai'r ffordd i'w cysoni ydyw dweud mai amcan ei ddyfod i'r byd oedd i achub y byd ac nid i'w farnu, ond bod ei bresenoldeb yn y cnawd *yn* barnu dynion yn anocheladwy. Hyd yn oed yn yr ad. nesaf a 26 dywedir ei fod yn barnu.

16. Ni ddywedir yn bendant ei fod yn barnu, ond rhagdybir hynny ("os wyf"). Ond y mae ei farn Ef yn gywir (neu'n gyfiawn, 5^{30}) am ei fod mewn undeb gwastadol â'i Dad. Ei farn Ef, barn y Tad ydyw. Y mae'r syniad fod yr Iesu mewn cymundeb parhaus â'i Dad yn wirionedd amlwg yn yr Efengyl hon (ad. 29: 16^{32}). Dywaid y Dr. Bernard y rhagdybir yr un peth yn y waedd oddi ar y Groes: "Paham y'm gadewaist" (Math. 27^{46}: Marc 15^{34}).

17. **"Ac yn eich cyfraith chwi y mae wedi ei ysgrifennu fod tystiolaeth dau ddyn yn wir."**

Nid dyfyniad a geir yma, ond *cyfeiriad* at Deut. 17^{6}: 19^{15}. Y mae'n rhyfedd bod yr Iesu'n dweud "eich cyfraith *chwi*," yma ac yn 10^{34}, a "eu cyfraith *hwynt*" yn 15^{25}, fel pe na byddai'n gyfraith iddo Ef. Efallai mai i rymuso'i ddadl y dylent dderbyn ei dystiolaeth Ef a'i Dad y dywaid hynny. Ond yn ei ddadl o'r blaen â'r Iddewon ($7^{19, 23}$) "*y* gyfraith" a "chyfraith *Moses*" a ddywaid.

Caniatau mai adrodd geiriau'r Iesu a wna'r awdur, nid ydym i dybio ei fod yn gwneud hynny'n llythrennol.

18. **"Yr wyf fi yn tystio amdanaf fy hun, ac y mae'r hwn a'm hanfonodd, y Tad, yn tystio amdanaf."**

Gwelsom o'r blaen am y Tad yn tystio (5^{37}). Ond yma rhoir pwyslais cyfartal ar dystiolaeth yr Iesu a thystiolaeth y Tad, er na ddeall y Phariseaid hynny (^{19}).

19. **"Ym mha le y mae dy Dad?"** h.y., **"dwg Ef ymlaen i dystio amdanat fel y clywom ni."** Gwyddent mai am Dduw y Tad y llefarai. Ond awgrymant fod yn hawdd sôn amdano'n tystio ac Yntau'n anweledig. Dengys ateb yr Iesu iddynt hwy, fel i Phylip (14^{9}), mai eu hanwybodaeth amdano Ef sy'n cyfrif am eu cwestiwn ffôl: **"Nid ydych yn fy adnabod i, na'm Tad. Pe baech yn fy adnabod i, byddech yn adnabod fy nhad hefyd"** (C.N.). Yn ôl Ioan, i ddatguddio'r Tad y daeth yr Iesu (1^{18}: $14^{7, 9}$).

20. Y mae gan yr awdur amcan neilltuol wrth ddweud mai yn y trysordy wrth ddysgu yn y deml y dywedodd yr Iesu'r geiriau hyn, oblegid yr oedd y trysordy o fewn clyw i lys y Sanhedrin. Dyna'r pam y dywedir, **"Ac eto ni ddaliodd neb ef, am na ddaethai ei awr ef eto."** Gweler 7^{30}.

Adn. 21–59. YR IESU'N DADLAU Â'R IDDEWON.

Oddi yma i ddiwedd y bennod adroddir ymddiddan rhwng yr Iesu a'r Iddewon. Gwneir honiadau mawr ynddo gan yr Iesu, a daw'n fynych i wrthdrawiad â'i elynion. Y mae'n amhosibl penderfynu pa un ai parhad ydyw o adran 8^{12-20}, neu ynteu o ryw ran ym mhennod vii., ac nid yw o bwys mawr.

21. **"Yna dywedodd wrthynt wedyn,"** neu **"Am hynny (am na ddaliodd neb Ef) dywedodd wrthynt wedyn."** Ond y mae'r ad. hon bron yr un peth â 7^{33}, ^{34}, ac ailadroddir y rhan olaf eto, yn 13^{33}. Rhybudd dychrynllyd ydyw'r geiriau: **"Yr wyf fi'n myned ymaith, a byddwch yn chwilio amdanaf, a byddwch feirw yn eich pechod."** Peth ofnadwy yw'r syniad o chwilio'n ofer am y Ceidwad, a marw yn ein pechod. Gwelsom "Lle yr wyf fi'n myned, ni ellwch chwi ddyfod" yn 7^{34}.

22. **"Felly dywedodd yr Iddewon, A yw am ei ladd ei hun tybed pan ddywaid, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod?"**

Efallai mai'r ystyr ydyw, y mae am fyned allan o'n cyrraedd trwy ei ladd ei hun. Ond tybia eraill mai cyfeiriad ydyw at y syniad Iddewig mai uffern oedd yn aros y neb a'i lladdai ei hun. Yr unig le y gallai fyned allan o'u cyrraedd fyddai uffern.

23. Nid etyb yr Iesu hwynt. Ond â ymlaen i ddangos ei fod Ef a hwythau o darddiad gwahanol, ac mai hynny a gyfrif na ddeallent Ef yn ad. 21. Rheswm moesol sydd am eu camddeall, fel yn 7^{17}. **"Yr ydych chwi o'r pethau isod, a minnau o'r pethau uchod: yr ydych chwi o'r byd hwn, a minnau nid wyf o'r byd hwn."** Rhoir ystyr ddrwg i "y byd hwn," fel y gwna Paul weithiau (1 Cor. 5^{10}).

24. **"Dywedais am hynny wrthych y byddwch feirw yn eich pechodau."**

"Am hynny"—am eich bod oddi isod, ac o'r byd hwn.

Y mae ystyr y rhan olaf o'r ad. yn ansicr. Efallai mai'r ystyr orau ydyw "oblegid oni chredwch mai myfi yw, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau." Golyga hyn "mai myfi yw'r Meseia," neu, gyda'r un ystyr gyfriniol i "myfi yw" ag sydd yn yr H.D., fy mod i o'r hanfod ddwyfol. Ffordd arall o gyfieithu ydyw: "oni chredwch fy mod i (oddi uchod)." Modd bynnag, dengys yr Iesu mai am nad ydynt yn credu ynddo Ef y byddant feirw yn eu pechodau.

25. Ymddengys fod yr Iddewon wedi canfod rhyw ymhoniad cyfrin yng ngeiriau'r Iesu—hwyrach "Myfi yw" yn ystyr yr H.D. am Dduw. "*Who is this, that says I Am.*" Yna dywedent wrtho, **"Pwy wyt ti?"** Y mae'r cyfieithiad **"Yr hyn yr wyf yn ei ddy-**

wedyd hefyd wrthych o'r dechreuad" yn ateb pendant i'r cwestiwn "Pwy wyt ti?" Ond ni all fod yn gywir, oherwydd bod y ferf "dywedyd" yn yr amser presennol, ac felly na fyddai'n briodol dweud "o'r dechreuad" hefyd. Gellid dweud "yr hyn a ddywedais (neu, wyf wedi ei ddweud) o'r dechreuad." Hefyd nid yw'r geiriau a gyfieithir "o'r dechreuad" byth yn golygu hynny yn Ioan. Oherwydd hyn, dywaid y Dr. Bernard mai'r meddwl yw "Yn bennaf yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych," a myn mai hwn yw'r gorau. Ond ar ymyl dalen y C.D., ac yn y C.N. cyfieithir fel hyn: "Paham yr wyf fi hyd yn oed yn siarad â chwi o gwbl?" Yn ôl hwn, y mae'r Iesu wedi blino arnynt, fel y dywaid Marc amdano (9^{19}). Cyfrifir y frawddeg hon yn un o'r rhai mwyaf anodd yn yr Efengyl.

26. Os yw'n wir ei fod wedi blino ymddiddan â hwy, ymlaen i lefaru'r â'r Iesu, oblegid bod ganddo lawer o bethau i'w dweud. Yr ystyr, hwyrach, ydyw fod ganddo lawer o bethau caled i'w dweud, ond am fod yr Hwn a'i hanfonodd yn wir, bydd iddo fynegi i'r byd y pethau a glywodd ganddo.

27. **"Ni wyddent mai am y Tad y dywedai wrthynt."**

Un o sylwadau eglurhaol yr awdur ydyw'r adnod hon, i ddangos dylni'r Iddewon. Ond y mae'n gyflc, yn ei olwg ef, i'r Iesu ei egluro'i Hun ymhellach.

28. **"Am hynny dywedodd yr Iesu,"** h.y., am na wyddent mai am y Tad y soniai. Ond amdano'i Hun, nid am y Tad, y llefara'n bennaf yn yr ad. hon. **"Pan fyddoch wedi dyrchafu Mab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw, ac nad wyf yn gwneuthur dim ohonof fy hun, ond megis y dysgodd y Tad fi, hynny yr wyf yn ei lefaru."** At y Groes y cyfeirir yn "wedi dyrchafu Mab y dyn," fel y gwneir hefyd yn 3^{14}; $12^{32, 34}$. Nid yn llythrennol, wrth gwrs, yr ydys i gymryd "dyrchafu," ond ffigur ydyw am y gogoneddu, oblegid yn yr Efengyl hon y mae'r Groes yn ddatguddiad o ogoniant y Mab, a marw yn amod gogoneddu. Dangosir hyn yn yr ad. hon: "yna y cewch wybod mai myfi yw." Beth bynnag ydyw ystyr y frawddeg hon, cynnwys y byddai'r Groes yn ddatguddiad mawr o'r Iesu, ac efallai o'r Tad hefyd. I Ioan yr oedd yr Iesu'n Frenin tan ei goron ddrain ac yn ei wisg borffor (19^{5}). Y mae "mai myfi yw" yn ymadrodd amwys. Gall olygu "mai myfi yw Mab y dyn," neu "fy mod i" – "*That I Am*," yn yr un ystyr ag y dywedir am yr Arglwydd "Ydwyf yr Hwn Ydwyf" (Ex. 3^{14}) ac felly y byddai'r Groes yn ddatguddiad o'r Gair tragwyddol, ac o'r hanfod Dwyfol. Am "myfi yw," gweler ad. 24. Y mae'r geiriau "ac nad wyf fi'n gwneuthur dim ohonof fy hun" yn ffafrio'r esboniad mai o'r hanfod Dwyfol ydyw ystyr "myfi yw." Yr oedd y

Groes felly'n ddatguddiad o'r Tad ac o'r Mab, oblegid ei fod Ef a'r Tad yn un ($5^{19, 30}$: 10^{30}). Caiff yr Iddewon weled mai fel y dysgwyd Ef gan ei Dad y llefara'n awr.

29. Y meddwl yw, Am fy mod I'n gwneuthur bob amser y pethau sydd wrth ei fodd Ef, y mae'r Tad gyda Mi.

Dywedwyd o'r blaen (ad. 16) nad yw wrtho'i Hunan, gan olygu'r cymundeb parhaus rhyngddo Ef a'r Tad. Ond am ei fod yn gwneuthur bob amser y pethau sydd wrth ei fodd Ef y mae'r Tad gydag Ef. Sylwer ar yr honiad ysgubol ei fod Ef yn gwneuthur ewyllys y Tad *bob amser*. Ef yn unig a all ddweud hynny.

30. **" Ag yntau'n dywedyd hyn, credodd llawer ynddo."**

Os yr un bobl yw'r " llawer " hyn â'r Iddewon yn yr adnodau nesaf, ychydig o gadernid sydd yn eu credu. Ond efallai nad â hwy yr ymddiddan yr Iesu ar ôl hyn.

31. Yn hollol naturiol, gellid tybio mai'r un rhai yw'r " Iddewon " hyn â'r llawer a gredodd ynddo, yn ôl ad. 30. Ond tybia'r esbonwyr fod yr awdur yn gwahaniaethu rhyngddynt wrth ddiffinio'u ffydd. Y mae'r ffurf " credu ynddo " yn ad. 30 yn gryfach na'r ffurf a geir yn hon—credu'r hyn a ddywaid. Ond efallai nad oes cymaint gwahaniaeth rhwng y ddwy ffurf ag a dybia rhai.

" Os arhoswch chwi yn fy ngair i, yr ydych yn wir ddisgyblion i mi." Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng " aros yn fy ngair i " a " fy ngair i'n aros ynoch chwi " (ad. 37 : 5^{38}). Tybia'r Dr. Bernard fod y ddau'n dyfod i'r un peth. Gan mai mynegiad ohono Ef ei Hun ydyw ei air, y mae aros yn y gair yr un peth ag aros ynddo Ef. Nid efrydu ei ddysgeidiaeth ydyw aros yn ei air, ond cyfranogi o'r ysbryd a'r nerth a fynegir yn ei air. Fel hyn yn unig yr ydym yn wir ddisgyblion iddo.

32. **" A chewch wybod y gwirionedd."**

Y mae " gwirionedd " yn un o eiriau mawr yr Efengyl hon. Defnyddir ef droeon yn y bennod yma (40, 44, 45). Yn 14^{6} dywedir mai Crist yw'r " gwirionedd." Y *reality* ysbrydol sydd y tu ôl i'r ymddangosiadol ydyw. Efallai mai o Plato trwy athroniaeth Alecsandria a thrwy Philo y cafodd yr awdur y syniad. Ond iddo ef Duw ei Hun ydyw a wnaed yn hysbys i ni trwy Iesu Grist. Am hynny y dywedir yma y cawn wybod y gwirionedd trwy aros yng ngair Crist. Nid yw Ioan o gwbl yn defnyddio'r sylweddair gwybodaeth (gnosis), am y rheswm y rhoddai'r Gnosticiaid gam ystyr iddo. Ond defnyddia yntau y ferf " gwybod," am wybod trwy brofiad, nid trwy ddeall yn unig.

" A'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi." Y mae hwn yn wir cyffredinol—y gwirionedd sydd bob amser yn rhyddhau. Ond am ryddhau o gaethiwed pechod y sonia'r Iesu (ad. 34).

33. Camddeellir yr Iesu eto. Rhoir ystyr wleidyddol i'w eiriau. Nid yr Iddewon a gredasai ynddo (ad. 31), efallai, sy'n ateb, ond ei elynion, oblegid yn ad. 37 dywedir eu bod am ei ladd.

"Had Abraham ydym ni, ac ni buom gaethion i neb erioed." Buont yn gaethion yn yr Aifft a Babilon gynt, ac yr oeddynt felly yn awr tan Rufain. Ond eu dadl, efallai, ydyw na allent fod yn gaeth i neb gan mai had Abraham oeddynt, gan feddwl am Gen. 22^{17}.

34. **"Y mae pob un sy'n gwneuthur pechod yn gaethwas i bechod."**

Cyflwyna'r Iesu y gwirionedd mawr hwn gyda'r ffurf ddwbl "Yn wir, yn wir." "Caethwas" (*doulos*) ydyw'r gair am "gwas." Awgrymwyd ef gan yr Iddewon yn ad. 33, "ni buom gaethion." "Gwneuthur pechod" yn Ioan ydyw byw mewn pechod, nid llithro i bechod. Gweler 1 Ioan 3^{4}, ^{8}. Syniad dieithr i'r T.N. ydyw fod y neb sy'n pechu yn "gaethwas i bechod." Ceir ef gan Paul unwaith (Rhuf. 6^{17}) ac yn 2 Pedr 2^{19}, "caethwas i lygredd." Ar y llaw arall, y mae'r syniad fod crefydd yn ein rhyddhau o gaethiwed y ddeddf yn fynych gan Paul (Gal. 5^{1}).

35. **"Ac nid yw'r caethwas yn aros yn y tŷ am byth, y mab sy'n aros am byth."**

Nid yw'r cysylltiad yn eglur iawn. Ond y mae'n ymddangos mai dyma yw: caethwas yw'r hwn sy'n gwneuthur pechod, ac oherwydd mai caethwas yw, y mae yn y perygl o gael ei fwrw allan o'r tŷ. Er bod yr Iddewon hyn yn had Abraham, caethweision oeddynt wedi'r cwbl, a hwythau'n gwneuthur pechod. Rhaid ein geni o Dduw i gael aros yn nheulu Duw.

Cymhariaeth ydyw'r ad. drwyddi rhwng safle mab a safle caethwas yn y tŷ. Camgymeriad yw meddwl mai Crist yw'r mab. Efallai fod yma gyfeiriad at y stori am Agar ac Ismael (Gen. 21^{10}), neu at y defnydd a wna Paul ohoni (Gal. 4^{30}). Cym. Heb. 3^{5}.

36. **"Gan hynny, os y Mab a'ch rhyddha chwi, byddwch ryddion mewn gwirionedd."**

Y Mab yn yr ad. hon yw Crist. Gelwir Ef "y Mab" hefyd yn $3.^{35}$. Ag ad. 34 y cysyllta hon orau, oblegid y mae'r symudiad o fab y tŷ (^{35}) i Fab Duw (^{36}) yn un sydyn iawn. Tybiai'r Iddewon eu bod yn rhydd am eu bod yn had Abraham, ac eto'r oeddynt yn gaethion i bechod. Pan eu rhyddheir gan Grist byddant ryddion *mewn gwirionedd*. Sonia Paul hefyd am Grist yn ein rhyddhau (Gal. 5^{1}).

37. Ateb i ad. 33. **"Mi a wn mai had Abraham ydych, ond er hynny yr ydych yn weision i bechod, oblegid yr ydych yn ceisio fy lladd i."** O safle'r awdur, fel o safle Paul (Rhuf. 9^{6}, ^{8}), er eu bod yn blant i Abraham o ddisgyniad naturiol, nid oeddynt

felly trwy enedigaeth ysbrydol. Yn y geiriau **"am nad yw fy ngair i yn genni ynoch,"** rhoir y rheswm pam y ceisient ei ladd. Nid "geni" (*to be born*) cofier yw'r gair, ond "genni," a'i ystyr yw cynnwys, derbyn, rhoi lle. Ffurf dreigladol ohono yw "annent" (Marc 2^2). Gweler "Yr Iaith Gymraeg" gan Tecwyn. Ar yr ymylddalen rhoir "am nad oes le i'm gair i ynoch." Ond y mae'r gair Groeg (*chores*) a etyb i "genni" yn un amwys. Yn ôl rhai esbonwyr ei ystyr ydyw cynyddu, ennill tir (*to make progress*)—"yn cerdded ynoch" (C.N.). Os hyn sy'n wir, y meddwl yw fod gair Crist ynddynt ond nad yw'n ennill tir. Â phwy yr ymddiddan yr Iesu, y mae'n anodd gwybod, onid â'r Iddewon a gredasai ynddo (ad. 31).

38. Y mae'r ymddiddan yn newid ei gwrs yn hollol o gaethiwed pechod a'r rhyddid trwy'r Mab.

Nid yw'r ad. hon yn glir. Dyma un ffordd o'i chyfleu: **"Yr hyn a welais i gyda'm Tad yr wyf yn ei lefaru: ac yr ydych chwi yn gwneuthur yr hyn a glywsoch gyda'ch tad chwithau,"** h.y., y diafol. Yn ffafr hwn, "eich tad chwi" yn ad. 41 ydyw'r diafol. Ffordd arall ydyw: **"Yr hyn a welais i gyda'r Tad yr wyf yn ei lefaru: ac felly gwnewch chwithau yr hyn a glywsoch gan y Tad."** Yn ôl hon Duw ydyw'r "Tad" yn y ddau le. Y cyntaf sy'n ateb orau i'r cyd-destunau. Y mae'r Iesu'n llefaru yr hyn a welodd gyda'r Tad, ac nid yw'n rhyfedd felly fod yr Iddewon yn ceisio'i ladd a hwythau'n gwneuthur yr hyn a glywsent gan eu tad diafol. Nid yw'n debyg yr atebasai'r Iddewon "Ein tad ni yw Abraham," pe deallasent mai "Duw" a ddywedasai'r Iesu.

39. **"Abraham yw ein tad ni"** (C.N.).

Efallai na ddeallant mai'r diafol a olygai'r Iesu wrth "eich tad chwi." Y syndod ydyw eu bod yn ateb cyn glaeared, onid cellwair a wnânt: Gan ein bod yn gwneuthur yr hyn a glywsom gan ein tad, yr ydym yn gwneuthur yn dda, oblegid Abraham yw ein tad ni. Ond nid addef yr Iesu mai Abraham yw eu tad mewn gwirionedd heb iddynt wneuthur ei weithredoedd ef: **"Os plant Abraham ydych, gwnewch weithredoedd Abraham."** Nid bod o had Abraham yw bod yn blant iddo, ond cyfranogi o'i ffydd ef (Gen. 15^6). Gweler Rhuf. 9^7: Dat. 2^9.

40. Yn yr ad. hon yn unig y dywedir i'r Iesu ei alw'i Hun yn "ddyn." Ond yn Rhuf. 5^{15} dywedir "dyn Iesu Grist": 1 Tim. 2^5, "dyn Crist Iesu": Act. 2^{22}: 17^{31}, "gwr." Ond y mae'r ychydig enghreifftiau hyn yn ddadl dda tros y lle goruwchnaturiol a feddai yn syniad yr Eglwys fore. Yn 1^{14} gwelsom mai ystyr "a ddaeth yn gnawd" ydyw "a ddaeth yn ddyn." Dywaid y Dr. Bernard y buasai ei alw yn "ddyn" yng nghanol dadleuon diwinyddol yr ail

ganrif yn gwbl allan o le. Pwynt yr Iesu ydyw eu bod hwy yn ceisio lladd un a oedd wedi dywedyd y gwir wrthynt, gwir a glywsai gan Dduw. **" Dyma beth na wnaeth Abraham "** (C.N.), h.y., lladd y cenhadon nefol. Ond tybia'r ymadrodd fwy nag a ddywaid, iddo'u parchu (Gen. 18^{2}).

41. **" Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi,"** h.y., y diafol. Ond nid yw'r Iddewon yn deall mai'r diafol a olygir, dim ond nad Abraham na Duw. Am hynny dywedant, **" Nid o buteindra y cenhedlwyd ni : un tad sydd gennym —Duw."** Nid yw'n hawdd deall beth a feddyliant. Dyma'r tebycaf—eu bod yn blant cyfreithlon Abraham trwy Sara, ac yn wir Israeliaid, am mai Duw yw eu Tad. Felly, yn ôl yr esboniad hwn, dadleuant eu bod yn Israeliaid yn naturiol ac yn ysbrydol. Yn yr H.D. gelwir eilunaddoliaeth yn buteindra (Hos. 2^{4}), ac eilunaddolwyr yn " blant godineb," ac oherwydd hynny tybir gan rai mai'r ystyr ydyw na fuont hwy erioed yn euog o fyned ar ôl duwiau dieithr, mai Duw yn unig yw eu Tad.

42. **" Dywedodd yr Iesu wrthynt, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i."** Ceir yr un syniad yn 1 Ioan 5^{1}, ^{2}. Gweler hefyd 15^{23}, lle y dywedir fod yr hwn sy'n casáu Crist yn casáu ei Dad. Gellir cyfeithu'r geiriau " canys oddi wrth Dduw y deilliais ac y deuthum i " fel hyn : **" Canys o Dduw y deuthum i allan, ac yr wyf yma."** Yr unig le arall yn yr Efengyl y dywedir i Grist " ddyfod allan o (*ec*) Dduw " ydyw 16^{28}, ond yno, fel yma, cyfeithir ef yn " *oddi wrth* y Tad." Dywaid Westcott a Plummer mai tragwyddol genhedliad y Mab o'r Tad a olygir wrth " ddyfod allan o Dduw." Ond dyfod allan oddi wrth Dduw yn yr Ymgnawdoliad yw ei ystyr yn ôl y Dr. Bernard. Ni fyn ef fod gwahaniaeth rhwng yr arddodiaid " allan o " (*ec*) ac " oddi wrth " (*para*, *apo*) yn yr ymadroddion hyn. Daeth " o Dduw " (*ec Theou*) yn eiriau pwysig yng Nghredo Nicea i ddisgrifio perthynas arbennig y Mab â'r Tad.

Mynegi cenhadaeth Crist a wna'r geiriau " canys nid ohonof fy hun y deuthum, ond efe a'm hanfonodd."

43. **" Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i? Am na ellwch glywed fy ngair (logos) i."**

Gwelsom y gair am " lleferydd " yn 4^{42}, " ymadrodd." Defnyddir ef hefyd am dafodiaith Pedr (Math. 26^{73}). Golyga ddull o siarad. Yr oedd yr Iddewon hyn mor fyddar fel na allent glywed ei air, h.y., ei genadwri. Am y rheswm hwn nid oeddynt yn deall acenion bro ei enedigaeth.

44. Dyma uchafbwynt y dinoethi. **" O'ch tad, y diafol, yr ydych chwi ac yn dewis gwneuthur nwydau eich tad."** Awgrymasid cyn hyn eu bod o'r diafol (ad. 38, 41). Y gair cyntaf yn y

frawddeg ydyw "Chwi," gyda phwyslais "Chwi, o'ch tad, y diafol." Cym. 1 Ioan 3^8. Yn 1 Ioan 3^{15} y ceir yr unig enghraifft arall yn y T.N. o "lleiddiad dyn," h.y., llofrudd. Gelwir y diafol yn "llofrudd o'r dechrau" am y priodolid iddo gwymp dyn, ac y tybid mai trwy'r cwymp y daeth marwolaeth ar bob dyn. Ond efallai mai at waith Cain yn llofruddio Abel y cyfeirir (1 Ioan 3^{12}). Am y ceisient ladd yr Iesu y dywedir bod yr Iddewon hyn o'u tad, y diafol, ac yn dewis gwneuthur ei nwydau. Y ffordd orau i gyfieithu'r darn olaf o'r ad. ydyw: **"ac ni saif yn y gwir am nad oes wir ynddo. Pan ddywaid gelwydd, llefaru o'i natur ei hun y mae, oherwydd celwyddog ydyw ef, a thad iddo"** (C.N.).

Nid at gwymp y diafol y cyfeirir ond at y ffaith nad oes iddo safle yn y gwirionedd, a hynny am y rheswm mai twyllwr ydyw. O'i natur ddrwg ei hun y llefara, oherwydd mai celwyddog ydyw, a thad y celwydd. Ond nid yw'r meddwl yn gwbl glir.

45. **"Ond â mi yn dywedyd y gwir, nid ydych yn fy nghredu i."** Nid oes gyfathrach rhynggdynt a'r gwirionedd am mai'r celwyddog yw eu tad.

46. **"Pwy ohonoch a'm hargyhoedda i o bechod?"** h.y., a'm prawf i'n euog o bechod. Defnyddir yr ymadrodd "argyhoeddi o bechod" eto, yn 16^8. Nid yw'r Iesu'n honni trwy hyn ei fod yn ddibechod yn yr ystyr yr oedd mewn gwirionedd, ac fel y dysgai'r Eglwys fore, oblegid ni fuasai'r Iddewon yn deall hynny. Tybia Westcott mai hér iddynt i brofi ei fod yn euog o farwolaeth ydyw. Ond dengys y geiriau nesaf y golyga fwy na hynny. **"Os y gwir yr ydwyf yn ei ddywedyd, paham nad ydych yn fy nghredu i?"** Ni dderbyniodd neb ei hér, am hynny dylasent ei gredu.

47. **"Y mae'r hwn sydd o Dduw yn clywed geiriau Duw. Am y rheswm hwn nid ydych chwi yn clywed, am nad o Dduw yr ydych."**

Rhoir pwyslais eto, fel yn 7^{17}, ar y cymhwyster mocsol i ddeall y pethau ysbrydol. Plant Duw yn unig sy'n clywed geiriau Duw. Cym. 1 Ioan 4^6. Nid ydym yn hollol sicr nad Crist a olygir yn y frawddeg gyntaf, er nad awgrymir hynny gan neb o'r esbonwyr. Fel hyn y gesyd y C.N. hi: "Y mae'r hwn sy'n hanfod o Dduw yn clywed geiriau Duw." Am fod Crist o Dduw y mae'n clywed geiriau Duw. Am nad ydynt hwy o Dduw, nid yw'r Iddewon hyn yn clywed.

48. "Yr Iddewon" yn ateb. Yn ad. 31 y gwelsom y teitl "yr Iddewon" ddiwethaf. Torrant allan yn ffyrnig yn awr. Y mae'n rhyfedd iddynt eu dal eu hunain cyhyd. Dywedwyd wrthynt nad ydynt yn blant Abraham, nac yn blant Duw, eithr mai o'u tad diafol y maent. **"Onid ydym ni yn iawn wrth ddweud mai Samariad**

wyt ti, a bod gennyt gythraul?" Er mai hwn yw'r unig le y dywedir mai Samariad yw'r Iesu, y mae'n amlwg oddi wrth y dywediad ei fod yn siarad cyffredin. Ond paham y dywedir mai Samariad yw? Nid am y tybid ei fod o Samaria, wrth gwrs. Ond am ei fod Ef, ac Yntau'n Iddew, yn bradychu'r Iddewon trwy wadu eu hawl i fod yn blant Abraham. O achos hynny, nid oedd Yntau'n ddim gwell na Samariad. Tybia'r Dr. Bernard mai'r rheswm yw, am ei fod ef yn dadlau, fel y gwnâi'r Samariaid, nad yr Iddewon yn unig a feddai'r hawl i'r addewidion a roed i Abraham ac i'w had.

Cred rhai fod y gair Aramaeg am "Samariad" yn golygu "mab Satan." Nid hwn yw'r unig waith y dywedir bod ganddo gythraul. Gweler 7^{20}: 10^{20}. Yr hyn a olygir ydyw ei fod yn wallgof wrth lefaru fel y gwnâi.

49. **"Nid oes gennyf gythraul, ond yr wyf yn parchu fy Nhad, a chwithau'n fy amharchu i."**

Nid etyb yr Iesu'r sylw mai Samariad yw am ei fod yn parchu pob cenedl. Nid yw'n wallgof fel y tybient hwy, ond parchu ei Dad yw ei bwrpas Ef yn wastad. Ond er hynny ei ddirmygu a wnânt hwy, ac amharchu'r Tad yr un pryd (5^{23}).

50. **"Ond nid wyf fi'n ceisio fy ngogoniant fy hun: y mae a'i cais, ac a farn."**

Yr ystyr ydyw: Nid am fy mod yn ceisio fy ngogoniant fy Hun y cyhuddaf chwi o'm hamharchu Nid wyf yn dibynnu ar fy mharchu gan ddynion, oblegid y mae'r Tad yn ceisio fy ngogoniant I, ac yn barnu. Gweler 5^{41}: 8^{54}.

Y Tad yn ddiau yw'r Un sy'n ceisio gogoniant yr Iesu, er na ddywedir hynny'n glir. Ond dywedir ei fod yn barnu hefyd, yn groes i 5^{22}, "y Tad nid yw'n barnu neb." Dywaid y Dr. Bernard mai'r Iesu a fernir gan y Tad, yn ôl yr ad. hon, er bod y syniad yn un dieithr—y Tad yn barnu'r Mab. Fel arall yr esbonnir yn gyffredin—fod y Tad yn ceisio gogoniant y Mab ac yn barnu'n llym y rhai ni wrandawant ar y Mab. Y mae ad. 51 yn ffafriol iddo.

51. **"Os ceidw neb fy ngair i, ni wêl farwolaeth byth."**

Gellid tybio mai'r cysylltiad yw, mai trwy gadw gair yr Iesu y gellir osgoi barn y Tad (^{50}). Ond efallai mai crynodeb yw'r ad. hon o'r cwbl a ddywedwyd cyn hyn. Y mae'r awdur yn hoff o'r ffurf "cadw y gair" (logos): 8^{55}: 14^{23}: 17^{6}. Yr un peth yw dweud "ni wêl farwolaeth byth" â "a gaiff fywyd tragwyddol" (5^{24}).

Defnyddir "gweled" am brofi, neu gyfranogi o, yn 3^{3}, ac yn Luc 2^{26}: Heb. 11^{5}.

52. Y mae'r Iddewon yn camddeall yr Iesu yn ad. 51, un ai o ddylni neu ynteu o fwriad. Tybiant mai osgoi marwolaeth naturiol a olygai. Am hynny dywedant y gwyddant yn sicr yn awr fod

ganddo gythraul, oblegid honna ei fod yn fwy na Jehofa pan ddywaid **"os ceidw neb fy ngair i, ni wêl farwolaeth byth."** Bu farw Abraham a'r proffwydi er cadw ohonynt air yr Arglwydd. Sylwer nad yw'r Iddewon yn dyfynnu geiriau'r Iesu yn gywir. Dywedant "nid archwaetha" yn lle "ni wêl." Ond *esbonio*'i eiriau a wnânt i olygu marwolaeth naturiol, oblegid y mae archwaethu (neu brofi) marwolaeth yn ymadrodd am farw, fel y dengys Math. 16^{28}: Marc 9^{1}: Heb. 2^{9}.

53. **"A wyt ti'n fwy na'n tad Abraham, a fu farw?"**

Y mae'r cwestiwn hwn yn un cymedrol iawn, oblegid yn ôl eu dadl yn ad. 52 yr oedd yr Iesu yn ei wneud ei Hun yn fwy na Jehofa. **"Pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?"** Y syndod yw na fuasent wedi gofyn hyn ynghynt, oblegid y mae'r Iesu eisoes wedi gwneud honiadau aruthrol. Gofynnwyd iddo o'r blaen, "Pwy wyt ti?" (^{25}). Ond yr ydym yn delio ag awdur sy'n edrych ymlaen. Gweler ad. 56.

54. Nid yw'r Iesu'n cywiro'r Iddewon ynghylch "ni wêl farwolaeth," nac yn ateb eu cwestiynau yn ad. 53.

Nid yw yn ei ogoneddu ei Hun: y Tad sydd yn ei ogoneddu Ef trwy ei anfon a thystio iddo (5^{31}, ^{36}). Yn ad. 41 honasai'r Iddewon mai Duw yw eu Tad. Am hynny y dywaid yr Iesu **"yr hwn yr ydych chwi'n dywedyd mai eich Duw ydyw."**

55. **"Ac eto nid ydych wedi ei adnabod, ond adwaen i ef."**

Gweler 7^{28}, ^{29}, lle y dysgir yr un peth.

"Ac os dywedaf nas adwaen ef, byddaf fel chwi yn gelwyddog. Ond adwaen i ef, ac yr wyf yn cadw ei air" (C.N.).

Geiriau rhyfedd yw'r rhain. Dywedodd yr Iesu cyn hyn eu bod yn blant y diafol, tad celwydd, ond yma am y tro cyntaf y geilw hwy yn gelwyddog. Gwelsom y geiriau "cadw y gair" yn ad. 51, ond amdanom *ni* yn cadw gair Crist. Ond yma Crist sy'n cadw gair y Tad.

56. **"Gorfoleddodd Abraham eich tad chwi y gwelai fy nydd i: a gwelodd a llawenhaodd"** (C.N.).

Gofynnodd yr Iddewon (^{53}), "A wyt ti'n fwy na'n tad Abraham, a fu farw?" Dyma ateb yr Iesu iddynt.

Wrth "fy nydd i" y golygir yn ddiau dyddiau cnawd Mab y dyn, fel yn Luc 17^{22}, ^{26}, a'r hyn a ddywaid hanner cyntaf yr ad. ydyw, i Abraham orfoleddu yn y rhagolwg y gwelai ef ddyddiau'r Meseia. Yr oedd ei waith yn credu'r addewid y bendithid holl genhedloedd y ddaear yn ei had ef yn cynnwys cred yn y Meseia (Gen. 12^{3}: 22^{18}: Gal. 3^{8}). Fel yna y dysgai'r Rabbiniaid, y mae'n debyg. Ond y mae'r Iesu yn gwneud yr honiad mawr mai ei ddydd Ef a ragwelodd Abraham. Yn yr ail hanner o'r ad. dywedir iddo'n

weithredol weled dydd Crist, neu wybod bod y Meseia wedi ymddangos: "a gwelodd a llawenhaodd." Mewn rhai chwedlau disgrifir y patrieirch yn dyfod allan o'r byd arall i groesawu'r Meseia ar ei ddyfodiad. Yn ôl yr Efengylau Synoptig daeth Moses ac Elias at yr Iesu pan weddnewidiwyd Ef. Ond ni chytuna pawb mai yn weithredol y gwelodd Abraham ac y llawenhaodd, ond trwy ffydd pan oedd ar y ddaear. Y mae amser gorffennol (*Aorist*) y berfau yn ddigon i brofi hyn, i'w tyb hwy. Y cwbl felly yn ôl hyn a olygir ydyw iddo hiraethu gweled dydd Crist, ac iddo pan oedd ar y ddaear trwy ffydd sicr ei weled a llawenhau.

57. **"Nid wyt ti eto'n hanner can mlwydd, ac a welaist ti Abraham?"** (C.N.).

Os yr esboniad cywir ar hanner olaf ad. 56 ydyw i Abraham ar ôl marw, yn y byd arall, weled dydd Crist, fel arall ei deellir gan yr Iddewon—mai pan oedd ef yn fyw ar y ddaear y gwelodd ef. Ni ellir bod yn sicr beth oedd ystyr cwestiwn yr Iddewon, pa un ai "Ac a welaist ti Abraham?" neu "Ac a welodd Abraham di?" Yn y naill gwestiwn neu'r llall tybiant i'r Iesu ac Abraham gyfarfod â'i gilydd pan oedd yr olaf yn fyw ar y ddaear, onid e pa ddiben ydyw iddynt sôn am ei oed? Gellid tybio bod y geiriau "Nid wyt ti eto'n hanner can mlwydd" yn golygu bod yr Iesu rhwng deugain a hanner cant, neu ynteu'n ymddangos yn llawer hŷn nag ydoedd mewn gwirionedd. Dadleuai Irenaeus, oddi wrth yr ad. hon mewn rhan, ei fod yn ymyl hanner can mlwydd pan orffennodd ei weinidogaeth. Y syniad cyffredin ydyw nad oedd ond 33 neu 34 mlwydd oed pan groeshoeliwyd ef.

Ond ni ddylid cymryd y geiriau am ei oed yn llythrennol. Y cwbl a olygant ydyw nad oedd yn hen, oblegid yn ôl Num. 4^{3}, ^{39}: 8^{25}, ymneilltuid o wasanaeth y deml ac o wasanaeth milwrol pan oeddid yn hanner can mlwydd oed.

Wedi'r cwbl, cwestiwn rhyfedd ydyw ar ei orau.

58. **"Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi."**

Fel hyn yn llythrennol: "Cyn dyfod Abraham, yr wyf fi." "*Before Abraham came into being, I am.*" Ymadrodd mynych yn yr Efengyl hon ydyw "Yr wyf Fi" (*ego eimi*). Gwelsom ef yn y bennod hon yn ad. 24, 28. Ond yn y lle hwn, mewn cyferbyniad i "ddyfod Abraham," y mae'n ymhoniad o fodolaeth ddiddechrau a diddiwedd yn ôl a ddysgir gan yr awdur yn y Rhagarweiniad (1^{1}, ^{2}, ^{18}). Fel yr adroddir yma, yr Iesu sy'n gwneud yr honiad mawr hwn amdano'i Hun.

Ond y mae'n deg inni ddweud na chytuna'r holl esbonwyr mai ymhoniad o Ddiwdod ydyw. Tybia rhai mai cynfodolaeth y Meseia a ddynoda, yn ôl y syniad a ffynnai ymhlith yr Iddewon,

59. Fel hyn y mae'r ad. hon yn gywir: **"Am hynny cyfodasant gerrig i'w taflu ato, ond ymguddiodd Iesu, ac aeth allan o'r deml."** Nid awgrymir iddo ddianc yn wyrthiol. Am iddo, yn eu syniad hwy, gablu y cyfodasant gerrig i'w labyddio. Sylwer ar 5^{18}, ceisio'i ladd am iddo'i wneuthur ei Hunan yn gyfartal â Duw: 10^{33}, cyfodi cerrig i'w labyddio am iddo ei wneuthur ei Hun yn Dduw. Ond yn ôl 10^{24} ceisiant ganddo ddweud yn eglur ai Ef yw'r Meseia. Ymddengys oddi wrth hyn ei fod yn syniad yr Iddewon yn honni ei fod yn fwy na Meseia.

Yn ôl y ffordd gywir o ddarllen yr ad. hon, yr ymadrodd olaf ynddi ydyw, "ac aeth allan o'r deml." Efallai fod pennod viii. yn terfynu adran o'r Efengyl, ac mewn *tragedy* fel hyn y gorffen—yr Iesu'n gorfod myned allan o'r deml!

PENNOD IX.

RHOI GOLWG I UN A ANESID YN DDALL.

Dyma'r unig enghraifft yn yr Efengylau o un *a anesid* yn ddall yn cael ei olwg, oddieithr bod yr un a gofnodir ym Marc 8^{22} yn un arall. Ni elwir hon yn uniongyrchol yn "arwydd," ond gwneir hynny gan y bobl yn anuniongyrchol (ad. 16). Gwasanaetha efallai ddau bwrpas. Un ydyw dangos mai'r achos o elyniaeth yr Iddewon i'r Iesu oedd ei waith yn torri deddf y Saboth, fel ei hesbonnid gan y Rabbiniaid. Y llall ydoedd i wirio'r honiad mawr a wnaethai'r Iesu (8^{12}), "Myfi yw Goleuni'r byd," oblegid yn ad. 39 dywedir mai ei neges i'r byd ydyw rhoi gweledigaeth newydd i'r rhai sy'n ysbrydol ddall. Ond nid "arwydd" yn unig ydoedd yng ngolwg yr awdur, eithr gwyrth hefyd, fel y gellir casglu oddi wrth ddadl y dyn a iachesid (^{32}, ^{33}) a'r sylw a wneir arni yn 11^{37}.

Adn. 1–7. Y WYRTH.

1. **"Ac wrth fyned heibio, gwelodd ddyn dall o'i enedigaeth."** Gwelsom yn 8^{59} nad yw'r geiriau "ac felly yr aeth efe heibio" yn perthyn i'r ad. honno. Felly y mae'r cysylltiad rhwng y ddwy Bennod yn wannach. Ni ellir bod yn sicr mai yng nghyffiniau'r Deml y cardotai'r dall. Ni ddywedir o gwbl yn yr H.D. am neb dall yn cael ei olwg, ond yr oedd agoryd llygaid y deillion yn un o nodau'r Meseia disgwyliedig (Es. 35^{5}).

2. **"Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn ai ei rieni, fel y ganed ef yn ddall?"** (C.N.).

Ei ddisgyblion sy'n gofyn hyn, h.y., y Deuddeg, yn ôl pob tebyg, fel yr awgrymir gan y cyfarchiad cyfarwydd "Rabbi." Rhagdybia'r cwestiwn fod cysylltiad anocheladwy, uniongyrchol neu anuniongyrchol, rhwng pechu a dioddef, ac efallai mai canlyniad pechu ydyw dioddef ym mhob enghraifft. Y mae dioddef yn *gosb* hefyd am bechod mewn rhai enghreifftiau.

Ond pan ofynnir "Ai hwn a bechodd?" ac yntau wedi ei eni'n ddall, tybir iddo bechu cyn ei eni, yr hyn a oedd yn bosibl yn ôl y Rabbiniaid. Yn ddiweddarach, credid yng nghynfodolaeth yr enaid. Pan ofynnir "ai ei rieni," tybir bod ei ddallineb yn gosb am bechod ei rieni, neu'n ganlyniad eu pechod hwy, syniad a geir yn fynych yn yr H.D. (Ex. 20^{5}: Salm 109^{14}). Cym. 9^{34}.

3. **"Nid hwn a bechodd na'i rieni chwaith,"** h.y., nid cosb am bechod ydyw'r dallineb hwn. Ni allai fod hyd yn oed yn ganlyniad pechod y dyn ei hun ac yntau wedi ei eni'n ddall, ond gallai

fod yn ganlyniad pechod ei rieni. Yr hyn a wad yr Iesu ydyw ei fod yn *gosb* am bechod. Dywedir yn 5^{14} fod cysylltiad rhwng pechod a dioddef.

Beth ydyw ystyr y rhan arall o'r ateb—**"ond fel yr amlygid (neu, er mwyn amlygu) gweithredoedd Duw ynddo ef?"** Fod dallineb y dyn hwn wedi ei ordeinio er mwyn amlygu gweithredoedd Duw yn ei iachâd. Dyna'r unig esboniad teg ar y geiriau—geiriau a ddywedwyd, yn ôl yr awdur, gan yr Iesu. Ceir yn 11^{4} yr un syniad—mai er mwyn gogoniant Duw yr oedd clefyd Lasarus, ac y mae'n gwbl gyson â'r hyn a ddysgir drwy'r Efengyl hon. Y mae tuedd mewn rhai esbonwyr i geisio'u meddalu. Dywaid Westcott fel hyn: "Achlysur i'r wyrth yw ei ddioddefaint, nid y paratoad ordeiniedig." Nid dweud a wna'r Iesu yr amlygir gweithredoedd Duw yn y dyn, ond mai er mwyn hynny yr ordeiniwyd ei ddallineb. Gweler 6^{39}, ^{44}.

4. Y darlleniad cywir, y mae'n debyg, ydyw: **"Rhaid i ni weithio gweithredoedd yr hwn a'm hanfonodd tra fo hi'n ddydd"** (C.N.).

Ond myn y Dr. Bernard fod arddull yr awdur o blaid "Rhaid i *mi*." Am yr Iesu'n unig y defnyddia'r awdur "rhaid," ac amdano'i Hun y dywaid yr Iesu yng ngweddill yr ymadrodd—"yr hwn a'm hanfonodd." Cadarnha hynny'r darlleniad "Rhaid i *mi*."

5. **"Tra fwyf yn y byd, goleuni'r byd ydwyf"** (C.N.).

Cym. 8^{12}, "Myfi yw Goleuni'r byd." Y mae "goleuni'r byd ydwyf" yn wahanol: ni ddefnyddir yma y rhagenw cryf "myfi," na'r fannod gyda'r gair "goleuni." "*I am the Light of the world*" (8^{12}). Nid yr hyn yw Ef a fynegir yma yn gymaint â dylanwad ei bresenoldeb ar y ddaear. Am y rheswm hwn ni allai neb yn ei bresenoldeb Ef fod yn ddall, ond yr hwn na fynnai weled. Rhydd yr ad. hon help inni ddeall ffordd yr awdur o edrych ar y wyrth hon. Iddo ef y mae'n arwydd o'r Goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch, ac o'r tywyllwch yn cilio (1 Ioan 2^{8}) ym mhresenoldeb y Goleuni.

6. **"Wedi dywedyd hyn"** â yr Iesu ymlaen i roi golwg i'r dall. Ohono'i Hun, heb ei ofyn, yr iachâ'r Iesu ef fel y claf ym Methsatha (5^{6}). **"Poerodd ar lawr a gwnaeth laid o'r poer, a rhoes y llaid ar ei lygaid"** (C.N.). Dywaid Marc hefyd i'r Iesu ddefnyddio poer i iachâu ddwywaith—mud a byddar (7^{33}) a dall (8^{23}). Rhoddid coel mawr ar rinwedd poer yn yr amseroedd gynt, a gwneir hynny eto heddiw mewn rhai gwledydd. Priodolid rhinwedd cyffelyb i glai hefyd. Ni phrawf y ffaith iddo ddefnyddio poer a llaid y credai'r *Iesu* fod ynddynt rinwedd. Efallai mai ei amcan, fel ym Marc 8^{23}, ydoedd helpu ffydd y dall, er nad yw Ioan byth yn rhoi pwyslais ar ffydd fel amod iachâd.

7. Ar gais yr Iesu aeth y dyn i ymolchi yn llyn Siloam, a daeth yn gweled. Gellir cyfieithu, un ai **" Dos, ymolch yn llyn Siloam,"** neu **" Dos at lyn Siloam, ymolch "** (ad. 11).

Yr oedd y llyn hwn wrth droed Mynydd Seion yn nyffryn Cedron. Cyflenwid ef â dyfroedd trwy geuffordd gelfyddydol, a wnaed yn nydd Heseceia, o Ffynnon y Forwyn. Yr un ydyw â " pysgod-lyn Siloa " yn Neh. 3^{15}, a " dyfroedd Siloa sy'n cerdded yn araf " yn Es. 8^{6}. Am y rheswm yr anfonid, neu y cludid, y dwfr iddo trwy geuffordd y gelwid ef yn Siloam, a gyfieithir yn Anfonedig, ebe'r awdur er mwyn darllenwyr Groeg.

Ond cred rhai mai'n gyfriniol yr esbonnir yr enw gan Ioan pan ddywaid mai " Anfonedig " yw ei ystyr, am fod Crist yn anfonedig Duw. Y mae hyn yn gam â'r awdur, ebe'r Dr. Bernard. Yr un modd y mae'n debyg y gellir dweud am yr esbonwyr sy'n tybio bod Ioan yn meddwl am y Bedydd Cristionogol pan sonia am ymolchi yn llyn Siloam.

Aeth y dyn ymaith ar unwaith ar gais yr Iesu, ac aeth adref yn gweled.

Adn. 8–13. DIDDORDEB EI GYMDOGION.

8. Yn lle **" mai dall oedd,"** darllener **" mai cardotyn oedd."** Fel cardotyn yr adwaenent hwy ef. Y mae'n naturiol gofyn o ba le y cafodd yr awdur, neu'r Tyst, yr hanes hwn? Ni phetrusa Westcott ddweud mai gan y dyn ei hun, a dywaid y Dr. Bernard y gall hynny fod.

9. Yr oedd yr ymofynwyr hyn yn gyfarwydd â'r dyn a oedd yn eistedd ac yn cardota, ond y mae'n awr yn gweled ac yn symud o gwmpas. Hynny sy'n eu drysu. " Hwn ydyw," ebe rhai. " Nage," ebe eraill, " ond un tebyg iddo ydyw " (C.N.). " Myfi yw," ebe yntau.

10. **" Pa fodd yr agorwyd dy lygaid?"**

Y maent wedi eu hargyhoeddi mai'r cardotyn dall a welsent gynt ydyw, a'i fod yn awr yn gweled. Ond *pa fodd* y cafodd iachâd ydyw'r cwestiwn.

11. Edrydd yntau'r hanes yn fanwl. **" Y dyn a elwir Iesu "** yw ei ddisgrifiad o'i gymwynaswr. Dyna'r cwbl a wyr amdano eto (^{36}), ond deall pawb pwy a olyga.

Y mae " cefais fy ngolwg " yn awgrym iddo'i gael ar unwaith, nid yn raddol.

12. Paham y gofynnant **" Pa le y mae ef?"** gan olygu'r Iesu, ni ddywedir. Efallai mai fel y gallent ddweud wrth y Phariseaid i'r Iesu dorri'r Saboth wrth wneud clai o'r poeryn, er na soniasai'r

dyn (11) ddim am wneud clai. Aeth y dyn adref yn syth ar ôl cael ei olwg (7), ac ni welodd yr Iesu am ysbaid.

13. **" Dygant ef at y Phariseaid, yr un a oedd gynt yn ddall."** Os i un o is-lysoedd y Synagog y dygwyd ef, yna nid ar y Saboth yr oedd hynny, eithr trannoeth wedi ei iachâd.

Adn. 14–34. YR ACHOS O FLAEN LLYS.

14. **" Ac yr oedd hi'n Saboth ar y diwrnod y gwnaeth yr Iesu y clai ac yr agorodd ei lygaid ef."**

Y trosedd yn erbyn deddf y Saboth oedd gwneud gwaith trwy wneud y clai. Yn ôl yr Efengylau Synoptig (Math. 12^9: Luc 13^{14}) yr oedd gan y Phariseaid wrthwynebiad i hyd yn oed iacháu ar y Saboth. Efallai fod y geiriau " ac yr agorodd ei lygaid " hefyd yn tybio hynny. Ond yma ar wneud y clai, ac yn 5^{10} ar godi'r gwely, y rhoir y pwyslais.

15. Rhydd y Phariseaid eto bwyslais ar *y pa fodd* y cafodd ei olwg. Wrth ateb ni sonia'r dyn ddim am wneud y clai. Etyb yn fwy cwta hefyd nag yn ad. 11. Ond dywedir wrthym y gwahardd-ai'r Rabbiniaid, nid yn unig wneud clai ar y Saboth, ond hefyd ddefnyddio poer i wella llygaid ar y diwrnod hwnnw.

16. Ni chytuna'r Phariseaid yn eu barn am yr Iesu.

Dywaid rhai ohonynt **" Nid yw'r dyn hwn oddi wrth Dduw, oblegid nid yw'n cadw y Saboth."** Y mae'r rhain yn sicr yn eu meddwl nad yw'n cadw y Saboth, ac yna ni all fod oddi wrth Dduw, neu wedi ei anfon gan Dduw. Nid yw " o Dduw " yn gywir. Dyma'r unig le yn y Beibl y ceir yr ymadrodd, cyffredin yn ein dyddiau ni, " cadw y Saboth."

Cymer y lleill eu safle ar y wyrth ei hun, a mynegant eu dryswch mewn cwestiwn : " Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur ar-wyddion o'r fath ?" Yr un gair yw " ymrafael " ag yn 7^{43}, 10^{19}, a ddynoda " dwyblaid."

17. Apelia'r Phariseaid at y dyn ei hun : **" Beth a ddywedi di amdano, gan iddo agor dy lygaid ?"**

" Dywedodd yntau, Proffwyd ydyw." Y mae'n ddiddorol sylwi ar gamau'r dyn. " Y dyn a elwir Iesu," fel i'r dorf, oedd y cychwyn (ad. 11). " Proffwyd " yn y fan hon, fel i'r wraig o Samar-ia (4^{19}), h.y., un wedi dyfod oddiwrth Dduw â neges.

18. Dyma drofa sydyn—amau'r ffaith gael ohono'i olwg. Y mater o gadw y Saboth, neu ei dorri, a achosodd y ddwyblaid. Ond sylwer mai " yr Iddewon " a ddywedir yma, a'r Phariseaid cyn hyn. Efallai mai'r blaid wrthwynebol yn ad. 16 ydynt hwy. Trefnir i alw rhieni'r dyn a gawsai ei olwg.

19. Y rhieni gerbron y llys. Holir hwynt yn fanwl. Ond nid y peth rhyfeddaf ydyw'r holi a'r croesholi, eithr yr adroddiad manwl o'r cwbl.

20. Etyb ei rieni'n ofalus: **"Gwyddom mai hwn yw ein mab ni, ac mai'n ddall y ganed ef."**

21. Ni ŵyr y rhieni pa fodd y mae'n gweled yn awr, na phwy a agorodd ei lygaid.

"Holwch ef, y mae mewn oed, fe sieryd ef amdano'i hun" (C.N.).

22. **"Hyn a ddywedodd ei rieni am eu bod yn ofni'r Iddewon."** Rhydd yr awdur inni'r rheswm tros fod arnynt ofn—**"oblegid bod yr Iddewon eisoes wedi cytuno i dorri allan o'r synagog bob un a'i cyfaddefai ef yn Grist."**

Ioan yw'r unig un a sonia am y cytundeb hwn. Un gair ydyw "bwrw-allan-o'r-synagog," i'w gael yn yr Efengyl hon yn unig o fewn y Beibl (12[42]: 16[2]). Yr oedd y neb a dorrid allan o'r synagog i gael ymddwyn tuag ato fel un gwahanglwyfus. Nid oedd i gymysgu â phobl nac i'w gladdu'n barchus.

23. **"Dyna paham y dywedodd ei rieni, Y mae mewn oed, holwch ef."**

24. Gelwir eilwaith y dyn a fuasai'n ddall, a dywedir wrtho **"Dyro ogoniant i Dduw: gwyddom ni mai pechadur yw'r dyn hwn."** Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy ffordd o gyfeithu: (1) Dyro'r gogoniant i Dduw; (2) Dyro ogoniant i Dduw. Yr ail sy'n gywir. Ffurf o dynged ydyw (Jos. 7[19]) i'w rwymo i ddweud y gwir—"Dywed y gwir."

Ceisiant ganddo alw ei eiriau'n ôl, mai dall oedd a chael ohono ei olwg.

25. Etyb y dyn yn gyfrwys ac yn gadarn: **"Ai pechadur yw, nis gwn. Un peth a wn, mai dall oeddwn a'm bod yn awr yn gweled"** (C.N.).

26. Holir ef eto, gan obeithio, efallai, y byddai iddo'i wrthddweud ei hun, neu ynteu ddinoethi'r Iesu.

27. Y mae'r dyn a ddibynnai gynt ar gardod yn dangos annibyniaeth mawr ac osgo ymosod. Gwrthyd ateb eu cwestiynau: **"Dywedais wrthych eisoes, ac eto ni wrandawsoch."**

Y mae ei gwestiwn olaf yn un miniog iawn: **"Nid oes arnoch chwithau eisiau dyfod yn ddisgyblion iddo, a oes?"**

28. **"A difenwasant ef,"**—yr un gair â "difenwi" yn 1 Pedr 2[23], am y driniaeth a gafodd yr Iesu. Cyfranoga ef eisoes o brofiad yr Iesu. **"I hwn yr wyt ti'n ddisgybl, ond disgyblion Moses ydym ni."** Pwysleisir "ti" a "ni."

29. **" Gwyddom i Dduw lefaru wrth Moses, ond am hwn, ni wyddom o ba le y mae."**

Efallai mai ystyr " ni wyddom o ba le y mae " ydyw, ni wyddom ar awdurdod pwy y llefara. Gwyddai'r Iddewon mai mab Joseff ydoedd (6^{42}), a thrigolion Jeriwsalem o ba le'r oedd (7^{27}).

30. Dengys y pedair ad. hyn fod y dyn yn ddadleuydd medrus. Yma sieryd â gwatwareg : **" Dyma sy'n rhyfedd ynteu, na wyddoch chwi o ba le y mae, ac yntau wedi agor fy llygaid i!"** Rhy bwyslais mawr ar " chwi "—chwi, a ddylai wybod.

31. Ymresyma'n awr yn iaith profiad cyffredinol : **" Gwyddom nad yw Duw yn gwrando ar bechaduriaid "** (C.N.). " Y mae'n rhaid nad pechadur yw'r Iesu ac yntau wedi agor fy llygaid i." Dyma'r unig le yn y T.N. y ceir y gair a gyfieithir " addolwr-Duw."

32. **" Ni chlywyd erioed (o ddechrau'r byd) fod neb wedi agor llygaid un a anesid yn ddall."**

Rhoir pwyslais mawr yn y stori hon ar fod y dyn hwn wedi ei eni'n ddall (ad. 1, 2, 19, 20). Cilia cwestiwn y Saboth yn awr i roi lle i'r wyrth ei hun.

33. **" Onid oedd hwn oddiwrth Dduw, ni allasai wneuthur dim."** Dadl y Phariseaid oedd " Nid ydyw'r dyn hwn oddi wrth Dduw, oblegid nid yw'n cadw y Saboth " (adn. 16). Dyma ateb y dyn i'r ddadl, ar yr un egwyddor â Nicodemus (3^{2}).

34. Ateb yr Iddewon, ac un rhyfedd ydyw, oblegid y mae'n cydnabod yr hyn o'r blaen a geisient ei wadu—ei eni'n ddall. Pa un bynnag ai ei bechodau ef ei hun cyn ei eni, neu bechodau ei rieni, a olygir ganddynt, y maent yn cydnabod mai'n ddall y ganed ef. Y mae'r pwyslais ar y rhagenwau yn " ac a wyt *ti*'n ein dysgu *ni*," yn rhoi gwawd yn y cwestiwn.

" A bwriasant ef allan," h.y., ei fwrw allan o'r llys, nid ei dorri allan o'r synagog. Nid yr un gair yw ag yn ad. 22. O ran dim a ddywedir, nid oedd wedi arddel yr Iesu yn Grist, oblegid ni wyddai mai'r Meseia ydoedd (^{36}). Heblaw hynny y Sanhedrin yn unig a oedd â hawl i dorri un allan o'r synagog, ac nid o flaen y Sanhedrin y dygasid y dyn hwn.

Adn. 35–38. YR IESU A'R DYN YN CYDGYFARFOD.

35. Y mae'n ymddangos i'r Iesu chwilio amdano, wedi clywed iddynt ei fwrw allan o'r llys. Ac wedi ei gael dywedodd wrtho, **" A wyt ti'n credu ym Mab y dyn?"** 'Hwn yw'r darlleniad cywir, yn ôl y llawysgrifau gorau, ebe'r esbonwyr, ac nid " Mab Duw." Y mae amryw resymau o'i blaid. Un ydyw mai " Mab Duw " ydyw'r teitl arferol yng nghyffes ffydd yr Efengyl hon (1^{34}, ^{49} : 11^{27}), ac

nad yw'n debyg y buasai'r un copïwr yn ei newid, pe mai ef fyddai'r gwreiddiol, i "Mab y dyn." Rheswm arall ydyw, y buasai'r dyn hwn yn deall y teitl Mab Duw, os hynny a ddywedasai'r Iesu, ond nad yw'n syn o gwbl iddo fethu â deall y teitl "Mab y dyn" am y Meseia, oblegid fel y gwelsom (1^{51}) ni ddeallid bod Mab y dyn yn gyfystyr â Meseia. Ar y llaw arall, yn ôl 10^{36}, defnyddia'r Iesu y teitl "Mab Duw" amdano'i Hun, ac y mae'n anodd dyfalu paham y gofynnodd gwestiwn sy'n drysu'r dyn hwn. Gweler hefyd 20^{31}.

36. **"A phwy yw, Syr, er mwyn imi gredu ynddo?"**

Y mae ef eisoes wedi mynegi ei farn amdano fel Proffwyd (ad. 17) oddi wrth Dduw (ad. 33), ac yn awr y mae'n barod i gredu ym Mab y dyn.

37. **"Nid yn unig yr wyt ti wedi ei weled, ond yr hwn sydd yn siarad â thi ydyw"** (C.N.).

Meddylier am ddweud wrth ddyn na welsai ddim erioed hyd y diwrnod cynt, "yr wyt ti wedi ei weled"!

Gwelsom o'r blaen (4^{26}) enghraifft o ddarn olaf yr adnod.

38. **"Yr wyf yn credu, Arglwydd. Ac addolodd ef"** (C.N.).

Yr un gair ydyw "Arglwydd" â'r un a gyfeirthir gennym "Syr" yn ad. 36, ond yng ngolau'r ffaith iddo'i addoli y mae'r ystyr ddwysach yn well yn hon. Nid rhoi gwrogaeth ydyw "addoli" yma. Yr un gair yw ag "*addoli*'r Tad" yn 4^{23}. Yn yr Eglwys fore addolid yr Iesu hefyd. Yr olwg olaf a gawn ar y dyn a anesid yn ddall ac a gafodd ei olwg ydyw yn addoli Mab y dyn.

Adn. 39–41. YSTYR ARWYDDLUNIOL Y WYRTH.

Er nas gelwir yn Arwydd, ac eithrio ad. 16, y mae'r wyrth hon yn arwyddlun o Grist fel Goleuni'r byd (8^{12} : 9^{5}). Ymddygiad dyn at y Goleuni sy'n penderfynu ei dynged.

39. **"I farn y deuthum i i'r byd hwn, fel y gwelo'r rhai ni welant ac yr êl y rhai sy'n gweled yn ddeillion"** (C.N.).

I'r "byd hwn" (8^{23}), byd tywyll, y daeth yr Iesu.

Gair na cheir yn unlle arall yn yr Efengyl ydyw "barn" (*crima*), nid yr un a gyfeirthir yn farn (*crisis*) ym mhobman arall ynddi, ond ychydig, os dim, sydd o wahaniaeth rhwng y ddau. Geiriau rhyfedd i'n golwg ni ydyw, mai i farn y daeth Crist i'r byd, ac fel yr êl y rhai sy'n gweled yn ddeillion. Ond yr ystyr ydyw fod ei ddyfodiad yn datguddio cyflwr moesol dynion · mai amcan ei ddyfodiad ydyw agor llygaid y deillion ysbrydol, a bod gwrthod y goleuni'n peri i ddynion golli'r gallu i weled. Canlyniad ei ddyfodiad, nid ei amcan, ydyw fod y neb sy'n gweled, ac eto'n ei wrthod, yn myned yn ddall. Dywedir weithiau yn yr Efengyl nad i farnu'r byd y daeth (3^{17} : 8^{15} : 12^{47}), oblegid golyga'r gair yn y lleoedd hynny "condemnio."

40. **" Clywodd rhai o'r Phariseaid a oedd gydag ef y pethau hyn, a dywedasant wrtho, A ydym ninnau hefyd yn ddeillion ?"** Efallai mai yn ei ymyl ydyw ystyr " a oedd gydag ef," ac nid a oedd yn ddisgyblion iddo, neu'n bleidiol iddo.

41. **" Pe baech ddeillion, ni byddai pechod arnoch "** (C.N.).

Yr ystyr, y mae'n debyg, ydyw pe baech yn anwybodus, byddai gennych esgus am eich ymddygiad. Ond fel arall yr esbonnir gan rai : Pe baech yn ymwybodol o'ch dallineb, ac yn ei gydnabod, ni byddai pechod arnoch, ond yr ydym yn gweled, ebe chwi, ac yna y mae eich pechod yn aros. Yn ôl y cyntaf, ystyr " yr ydym yn gweled " ydyw, yr ydych chwi eich hunain yn cydnabod eich bod yn gweled, yna " y mae eich pechod yn aros." Pa un bynnag o'r ddau sy'n gywir, y mae eu hachos yn anobeithiol. Y mae bod-lonni ar hanner gweled, neu wrthod cydnabod ein hanwybodaeth yn ddamniol. Gweler Marc 3^{29}.

PENNOD X.

Y mae'r bennod hon wedi ei chymysgu gan rywun. Fel hyn yr ad-drefnir hi gan Moffatt: adn. 19–29 yn flaenaf: adn. 1–18 yn ail: adn. 30–42 yn olaf.

Dilyn yr hen drefn a wnawn ni, a chadw'r drefn newydd mewn golwg wrth esbonio. Rhag i rywun feddwl mai mympwy sy'n cyfrif am yr ad-drefnu sylwer ar y cyfeiriad yn ad. 21 at y wyrth a gofnodir ym mhennod ix, ac ar y symudiad sydyn yn yr hen drefn o bennod ix. i 10[1].

Adn. 1–5. DARLUN O FUGAIL DELFRYDOL.

Dameg yw'r adran yma o fugail delfrydol. Soniwyd cyn hyn am ddefaid yr Iesu (adn. 26, 27). Yn adn. 7–16 cymhwysa'r Iesu y ddameg ato'i Hun.

1. **" Yn wir, yn wir, meddaf i chwi."**

Nid yw Ioan, ebe'r Dr. Bernard, byth yn defnyddio'r ffurf " yn wir, yn wir " i gyflwyno pwnc newydd, ac ni wna yn y lle hwn os yw adn. 19–29 i flaenori.

Yr hwn *nid yw* fugail a ddisgrifir yn yr ad. hon: nid yw'n dyfod i mewn drwy'r drws i gorlan y defaid, ond dringo i fyny ffordd arall y mae, am mai ysbeilio'r defaid yw ei amcan. Y buarth o flaen y tŷ wedi ei gau i mewn â mur, ond heb dô arno, oedd y " gorlan."

2. Y gwir fugail a ddisgrifir yn yr ad. hon. Y mae'n hawdd i'w adnabod oddi wrth y modd y daw i mewn i'r gorlan: **" yr hwn sy'n dyfod i mewn drwy'r drws, bugail y defaid ydyw."**

3. Dangosir ei berthynas â'r porthor ac â'r defaid yn awr. I'r ddameg yn unig y perthyn ffigur " y drysor," neu'r porthor, h.y., nid oes iddo le yn y cymhwysiad.

Y mae'n arfer hyd y dydd heddiw gan fugeiliaid y Dwyrain i roi enwau ar eu defaid, fel y rhoddir enwau ar wartheg mewn rhai ffermydd gyda ni. Cymysgid defaid o wahanol ddiadelloedd weithiau mewn un gorlan dros y nos, ac yn y bore galwai'r bugeiliaid eu defaid eu hunain wrth eu henwau a'u tywys allan i'r borfa.

4. **" Pan yw'n gyrru allan ei holl ddefaid ei hun, y mae'n myned o'u blaen."**

Gair dipyn yn arw ydyw " gyrru " yn y cysylltiad hwn, ond y mae'n rhan gywir o'r darlun am fod rhagor rhwng dafad a dafad hyd yn oed y pryd hwnnw. Ond efallai mai gair o ddewis yr awdur ydyw gydag amcan, oblegid defnyddir ef yn 9[34] am yrru'r dyn dall allan o'r llys.

5. **" Ond byth ni ddilynant ddieithryn "** (C.N.).

Edrydd Plummer hanes am ryw Ysgotyn a newidiodd ddillad â bugail yn y Dwyrain fel y gallai ef fel y tybiai arwain y defaid allan. Ond ar ôl *llais* y bugail yr aethant, ac nid ar ôl ei *ddillad*.

6. Sylw gan yr awdur ydyw'r ad. hon am y darlun yn adn. 1–5.

Geilw ef yn " ddameg " (*paroimia*), a defnyddia'r gair eto—yn $16^{25, 29}$. Gair arall (*parabole*) a gyfieithir yn " ddameg " yn yr Efengylau Synoptig. Gorchwyl difudd ydyw ceisio dangos y gwahaniaeth rhyngddynt, oblegid gwahaniaeth bach ydyw.

I baratoi ar gyfer y cymhwysiad yn adn. 7–10, dywaid yr awdur wrthym na " wyddent hwy beth oedd yr hyn a ddywedai wrthynt." Pwy ydyw'r " hwy " ? Yr Iddewon y soniwyd amdanynt eisoes yn ad. 19, oblegid yn ôl y drefn newydd y mae'r adran yma i ddilyn honno.

Adn. 7–10. MYFI YW'R DRWS.

Y mae'n ymddangos mai eglurhad ydyw'r paragraff hwn ar " y drws " (ad. 2), er mai lle bychan sydd i'r ffigur yn y ddameg ($1–5$). Cred y Dr. Bernard mai hwn oedd yr anhawster mwyaf i'r Iddewon. Deallent yn burion fod yr Iesu yn honni mai Ef oedd Bugail y defaid, oblegid dywedsai eisoes " fy nefaid i " (ad. 27).

7. **" Am hynny dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn . . . Myfi yw drws y defaid."**

Dyma gyfieithiad Dr. Moffatt—" Myfi yw *Bugail* y defaid," a dadlau drosto er mwyn y synnwyr, er bod y llawysgrifau yn ei erbyn. Ar y llaw arall, dywaid rhai nad oedd angen am i'r Iesu ddweud mai Ef oedd *Bugail* y defaid am y deallent hynny (adn. 26, 27). Beth yw ystyr " Myfi yw drws y defaid ?" Yn y darlun (adn. 1–5) ei ystyr ydyw'r drws drwy'r hwn yr â'r defaid i mewn ac allan, a thrwy'r hwn yr â'r bugail i mewn.

Pan gymhwysir ef golyga'r drws yr â'r bugail drwyddo i'r Eglwys (ad. 8), a'r drws yr â'r aelodau i mewn ac allan drwyddo (ad. 9).

8. **" Pawb a ddaeth o'm blaen i, lladron ydynt ac ysbeilwyr, ond ni wrandawodd y defaid arnynt "** (C.N.).

O ran amser ydyw ystyr " o'm blaen i." Gadewir yr ymadrodd allan o rai llawysgrifau, am y cyfrifid ef yn rhy ysgubol efallai. Ar yr wyneb awgryma mai lladron ac ysbeilwyr oedd pawb a geisiodd fyned i mewn at y defaid. Ond dylid edrych ar y gosodiad yng ngolau'r cyd-destunau. Yn ôl ad. 24, ai yr Iesu yw'r Crist, h.y., y Meseia, ydyw'r pwnc, ac felly y lladron a'r ysbeilwyr ydyw'r rhai a gyfodasai'n ddiweddar gan broffesu mai hwy oedd y Meseia. Sylwer ar yr ymadrodd " lladron ac ysbeilwyr *ynt*." Cyfeirir hefyd yn

ddiau at y gau-athrawon oedd yn dringo drosodd i'r gorlan gan geisio llithio'r Cristionogion bore oddi wrth Grist.

Y mae'r frawddeg "ond ni wrandawodd y defaid arnynt" yn datguddio cymeriad yr ymhonwyr a'r Cristionogion gwir. Defaid Crist ydyw "*y* defaid" trwy'r bennod, ac nid adwaenant lais dieithriaid (ad. 5). Gweler ad. 26, "nid ydych chwi o'm defaid i."

9. **"Myfi yw'r drws: os â neb i mewn trwof i, bydd yn gadwedig, ac â i mewn ac allan a chaiff borfa."**

Yn adn. 7, 8, am Grist fel drws a'r gwir fugeiliaid y sonnir, ond yma am Grist a'r defaid. Eithr y mae'r ystyr yn amwys. Efallai mai'r gwir fugail, nad yw'n dringo ffordd arall ond sy'n myned i mewn trwy'r drws a ddisgrifir. Bydd ef yn ddiogel, ac â i mewn ac allan gyda rhyddid ac awdurdod gwir fugail, a chaiff borfa i'w ddefaid. Cym. Num. 27^{17}, 1 Cron. 4^{40}.

10. **Crist a'r bugeiliaid gau.**

I ladrata a lladd a distrywio y daw'r lleidr. **"Deuthum i fel y caffont fywyd a'i gael yn helaethach,"** "*and may have it to the full*" (Dr. Bernard).

Cawn yma un o eiriau mawr yr Efengyl—"bywyd."

Adn. 11–18. Y BUGAIL DA.

Yma ceir dameg newydd—yr Iesu fel y Bugail Da mewn cyferbyniad i'r gwas cyflog.

11. **"Myfi yw'r Bugail da,"** h.y., y Bugail delfrydol sy'n gofalu ym mhob modd am y defaid. Y mae yn y T.N. ddau air a gyfieithir yn "da"—*calos* (yn y lle hwn) ac *agathos*. Ond defnyddir hwynt weithiau yn gyfystyr. Yn 2^{10} dywedir "gwin da" (*calos*) ond Bugail da (*agathos*) a ddywaid Philo mewn disgrifiad tebyg i'r un sydd yma. **"Y mae'r Bugail da yn rhoddi ei fywyd dros y defaid"** (C.N.). Y mae "rhoddi ei fywyd" yn ymadrodd nodweddiadol o Ioan (adn. 15, 17: $13^{37, 38}$: 15^{13}: 1 Ioan 3^{16}). "Rhoddi ei *enaid*" ydyw'r ymadrodd yn llythrennol.

12. Y gwrthgyferbyniad i'r Bugail da ydyw'r "gwas cyflog," yr hwn nad yw'n fugail, ac nad yw'r defaid yn eiddo iddo ef ei hunan (C.N.).

Rhwng y bugail a'r lleidr ac ysbeiliwr y mae'r cyferbyniad yn adn. 1–5, yn eu hawl i fyned i'r gorlan a'u hawdurdod tros y defaid, ond yma rhwng y bugail a'r gwas cyflog nad yw'n fugail, yn eu gwasanaeth i'r defaid. Y mae'r bugail hefyd yn was cyflog, ond y mae'n fwy na hynny am fod ei ddiddordeb gymaint yn y defaid â phe baent yn eiddo iddo ef ei hunan.

Y mae'r gwas cyflog **"yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid ac yn ffoi, ac y mae'r blaidd yn eu llarpio, a'u tarfu."**

13. Fel hyn y mae'r ad. hon yn gywir: **"Am mai gwas cyflog ydyw, ac nad yw'n hidio am y defaid"** (C.N.).

14. **"Myfi yw'r Bugail da, ac yr wyf yn adnabod fy nefaid fy hun, ac y mae fy nefaid yn fy adnabod i."**

Ailadroddiad yw hon o'r hyn a ddywedwyd yn adn. 3, 4, ac ad. 27 yn arbennig.

15. **"Fel yr edwyn y Tad fi, felly yr adwaen innau'r Tad: ac yr wyf yn rhoddi fy einioes tros y defaid."**

Os edrychir ar yr ad. hon yn annibynnol ar ad. 14, fel yna y cyfieithir hi. Ond y mae felly yn cyflwyno mater newydd ac amherthynasol.

Dylid felly gysylltu'r ddwy adnod fel hyn: **"Yr wyf i'n adnabod fy nefaid, ac y mae fy nefaid yn fy adnabod i, fel y mae'r Tad yn fy adnabod i a minnau'n adnabod y Tad, ac yr ydwyf yn rhoddi fy mywyd dros y defaid"** (C.N.).

16. **"A defaid eraill sydd gennyf nad ydynt o'r gorlan hon, a'r rheini hefyd y mae'n rhaid i mi eu cyrchu, a gwrandawant ar fy llais, a bydd un ddiadell, un bugail"** (C.N.).

Wrth y "gorlan hon" y golygir yr Eglwys Iddewig, a'r "defaid eraill" ydyw'r Cenhedloedd ar wasgar (11^{52}) na feddent gorlan o gwbl. Y maent hwythau'n ddefaid iddo eisoes, oblegid y mae eu cyrchu hwy yn y pwrpas dwyfol. Sylwer fel y defnyddir "rhaid" eto—"y mae'n *rhaid* i mi eu cyrchu"—am yr hyn a ragordeiniwyd gan Dduw. Syniad dymunol ydyw y bydd i'r defaid eraill wrando ar ei lais, oblegid y maent hwythau fel y lleill yn adnabod ei lais Ef ([4])

Y cyfieithiad cywir yn lle "a bydd un *gorlan*" ydyw "a bydd un *ddiadell*." Daeth y cyfieithiad "un gorlan" i mewn trwy gamgymeriad—un o'r cyfieithiadau mwyaf anffodus o ran syniad a dylanwad, ebe Westcott. Cofier felly, ac nac anghofier byth, mai "un *ddiadell*" a ddywedodd yr Iesu, ac nid "un *gorlan*." Bydd llawer corlan, llawer Eglwys, ond "un ddiadell, un Bugail."

Rhy'r awdur hwn ar ddeall inni yma i Iesu Grist ddweud yn bendant fel hyn fod y Cenhedloedd hefyd yn ddefaid iddo, ac y byddai iddo Ef eu cyrchu, ac y byddai un ddiadell ac un Bugail. Y mae hyn yn gwbl gyson â safbwynt yr Efengyl fel y dengys y daith trwy Samaria, ymofyn y Groegiaid (12^{20}), a "Myfi yw Goleuni'r byd" (8^{12}). Ond ni chytuna, ar yr wyneb ag osgo'r Efengylau Synoptig (Math. $10^{5, 6}$). Efallai mai'r cyfrif am safle'r awdur ydyw ei fod yn ysgrifennu yng ngolau diwedd y ganrif gyntaf, ymhell ar ôl y ddadl fawr ynghylch hawl y Cenhedloedd i ddyfod i mewn i'r Eglwys

Gristionogol heb fyned trwy borth Iddewiaeth. Ar y llaw arall, cym. Math. 8^{11}.

17. **"Am hyn y mae'r Tad yn fy ngharu i am fy mod yn rhoddi fy mywyd fel y cymerwyf ef drachefn."**

Ymlaen y cyfeiria "am hyn"—am fy mod yn rhoddi fy mywyd. Sonnir yn 5^{20} hefyd am y Tad yn caru'r Mab. Ond yma dywedir mai oherwydd ei hunan-aberth y mae'r Tad yn ei garu Ef. Sylwer **mai** er mwyn iddo gymryd drachefn, neu gael yn ôl, ei fywyd y rhydd ei fywyd i lawr. Yn ôl Ioan y mae marw yn amod gogoneddu'r Iesu ($12^{24, 32}$), a ninnau hefyd (12^{25}). Marw gwirfoddol i bwrpas neilltuol fel y gallai fyw drachefn—dyna yw'r ystyr.

18. **"Ni chymerth neb ef (fy mywyd) oddi arnaf."**

Hwn efallai yw'r darlleniad cywir yn lle "Nid oes neb *yn ei ddwyn* oddi arnaf." Ond peth rhyfedd ydyw dweud "ni chymerth," fel petai *wedi* rhoddi ei fywyd. Tybed nad llithriad heb yn wybod ydyw gan un a edrych yn ôl ar y marw? **"Ond myfi sydd yn ei roddi ohonof fy hun,"** h.y., yn ewyllysgar a gwirfoddol, ac eto mewn ufudd-dod i ewyllys y Tad. (5^{19}).

"Y mae gennyf awdurdod i'w roddi, ac y mae gennyf awdurdod i'w gymryd drachefn." Yr un gair ydyw "meddiant," awdurdod, neu hawl, â'r un a gyfieithir "gallu" yn 1^{12}. Y mae ganddo awdurdod wedi ei gael gan y Tad i roddi ei fywyd yn wirfoddol, ac awdurdod ganddo i gael ei fywyd yn ôl yn yr Atgyfodiad. Yn ôl y T.N. *trwy nerth Duw* yr atgyfododd Crist. **"Derbyniais y gorchymyn hwn gan fy Nhad."** Sonnir am orchymyn gan y Tad eto, yn 12^{49}.

Adn. 19–30. YMRAFAEL YNGHYLCH YR IESU.

Fel y dywedwyd gennym ar ddechrau'r bennod dyma'r adran a ddylai fod yn flaenaf ynddi. Esboniwyd paragraff 1–18 yn y golau fod yr adran hon yn blaenori hwnnw.

19. **"Aeth yn rhwyg drachefn ym mysg yr Iddewon oblegid y geiriau hyn."**

Yr un gair yw rhwyg, neu "ymrafael," ag yn 7^{43}. Ond at yr ymraniad yn 9^{16} y cyfeiria "drachefn," a'r "geiriau hyn" at $9^{39, 41}$.

20. **"Dywedai llawer ohonynt, Y mae ganddo gythraul ac y mae o'i gof"** (C.N.).

Dywedwyd amdano o'r blaen ddwywaith (7^{20}: 8^{48}) fod ganddo gythraul, ond yma'n unig yn y T.N. y ceir y ferf am "ynfydu," neu "o'i gof." Yr amcan wrth ddweud hyn amdano yw ei dynnu i lawr yng ngolwg y bobl. Fel yna y byddwn ninnau yn arfer â dweud am y neb a fyddo'n cyhoeddi rhyw wir hallt ac anghydnaws.

"Paham y gwrandewch chwi arno?" Dengys y cwestiwn hwn fod yr Iesu yn ennill y bobl ar ei ôl.

21. **"Dywedai eraill, Nid geiriau dyn â chythraul ganddo yw'r rhain: A all cythraul agor llygaid deillion?"** h.y., a all un sydd o'i gof? Cym. 9^{16}, "dyn pechadurus." Hefyd Salm 146^{8}.

22. **"Ac yr oedd y gysegr-ŵyl yn Jeriwsalem y pryd hwnnw."** Sefydlwyd yr ŵyl hon gan Jiwdas Maccabeus i ailgysegru'r Deml ar ôl ei halogi gan Antiochus Epiffanes yn C.C. 168. Cynhelid yr ŵyl yng nghanol Rhagfyr a pharhai am wyth diwrnod. Digwyddai'r Iesu fod yn Jeriwsalem pan gynhelid yr ŵyl, ond nid oedd yn *rhaid* i'r un Iddew fyned iddi.

23. **"Y gaeaf ydoedd, ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml ym mhorth Solomon."**

Dyma sylw gan lygad-dyst, a chan un a oedd yn hollol gyfarwydd â'r Deml, a hi yn awr yn adfail ers blynyddoedd. Am fod y tywydd yn oer y dysgai'r Iesu tan do—ym mhorth Solomon mewn rhan ddwyreiniol o'r Deml. Enwir porth Solomon yn Act. 3^{11}: 5^{12}.

24. **"Felly gwnaeth yr Iddewon gylch amdano"** (C.N.).

Gymaint gwell ydyw'r cyfieithiad hwn na "daeth yr Iddewon yn ei gylch"! Rhag iddo ddianc efallai y gwnaethant gylch amdano, oblegid yr oedd ganddynt eisiau iddo setlo ei honiadau amdano'i Hun. "Pa hyd yr wyt yn peri i ni amau?" neu yn ôl ymyl y ddalen, Pa hyd yr wyt am ein cadw rhwng dau feddwl?

Y mae ffurf y cwestiwn yn llythrennol yn od: "Pa hyd yr wyt am godi ein henaid?" cyfystyr â "codi'n disgwyliadau." Rhoir pwyslais ar y rhagenw yn y frawddeg olaf: "Os *ti* yw'r Crist, dywed wrthym yn eglur," fel pe baent yn barod i'w gredu ar ei air!

25. **"Atebodd yr Iesu iddynt, Dywedais wrthych, ac eto nid ydych yn credu."**

Ni ddywedir yn yr Efengyl hon iddo ddweud wrth yr Iddewon yn blaen mai Ef oedd y Meseia. Gwnaeth hynny i'r wraig o Samaria (4^{26}), ac i'r dall (9^{37}, Mab y dyn). Ond cyfeirio a wneir at ei honiadau a oedd yn gyfystyr â hyn (5^{39}: 8^{56}).

Yn hytrach nag ateb cais yr Iddewon yn uniongyrchol, galw ei weithredoedd fel tystion iddo'i Hun a wna'r Iesu. Rhoir lle mawr iddynt yn yr Efengyl hon. Gweler 5^{36}.

26. **"Ond nid ydych chwi'n credu, oblegid nad ydych o'm defaid i."**

Gadawer allan y geiriau "fel y dywedais i chwi," oblegid na cheir hwy mewn llawer o lawysgrifau o bwys. Yn ôl yr hyn a ddywedwyd eisoes am drefn y bennod hon dyma'r tro cyntaf i'r Iesu sôn am ei ddefaid, oblegid y mae adn. 1–18 i ddilyn yr Adran hon. Y mae'r ffigur o Iesu yn Fugail a'i ddisgyblion yn ddefaid yn fynych iawn yn

yr Efengylau Synöptig. Gweler Marc 6^{34}: Math. 10^{6}: Luc 12^{32}: 15^{4}.

Yn yr H.D. hefyd y mae'r Arglwydd yn Fugail a'i bobl yn ddefaid (Salm 23^{1}), ac fel Bugail y lleferir am y Meseia gan rai o'r proffwydi (Meica 5^{4}: Es. 40^{11}).

27. Amdano'i Hun fel Bugail ac am ei ddefaid ei Hun y llefara'r Iesu yma, ond ailadroddir y syniadau eto yn adn. 3^{16}.

28. **" A minnau wyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol."**

Gwelsom y syniad hwn droeon cyn hyn yn yr Efengyl (6^{27}, ^{40}). **" Ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i."** Gweler 6^{39}, " na chollwn ddim ohono." Yr un gair ydyw " dwg " â'r un a gyfieithir " cipio " yn 6^{15}, a dyna yw ei ystyr yma hefyd.

29. **" Y mae fy Nhad a'u rhoddes i mi yn fwy na phawb, ac ni all neb eu cipio hwynt allan o law fy Nhad i."**

Ymddengys y ffordd hon o gyfieithu'r ad. yn naturiol. Yn ad. 28 dywedwyd na chipia neb hwynt o law'r Iesu, ac yma na all neb eu cipio o law ei Dad, am ei fod Ef yn fwy na phawb neu bopeth.

Ond fel hyn y mae'r C.N.,—" Fy Nhad,—yr hyn a roes ef i mi, y mae hynny'n fwy na phopeth, ac ni all neb gipio o law y tad." Fel y dywaid y Dr. Bernard y mae sôn am gadernid yr Eglwys ei hun yn gwbl amherthynasol, oblegid yn llaw'r Bugail a llaw'r Tad y dywedir ei bod yn ddiogel.

30. **" Myfi a'r Tad un ydym."**

" Yr ydwyf i a'r tad yn un " (C.N.). Cyfieithiad llac ydyw eiddo Moffatt: " I and *my* Father are one." Nid *fy* Nhad a ddywedir yn y Roeg, ond " *y* Tad."

Gesyd Moffatt a'r Dr. Bernard yr ad. hon yn syth ar ôl ad. 18, a dywaid yr olaf mai esboniad ar ad. 18 ydyw, ond na fyddai allan o'i lle pe dilynai ad. 29.

Y ffordd arferol o esbonio " un ydym " ydyw " un o ran sylwedd," neu hanfod. Felly y gwneid gan y Tadau Eglwysig, a chan Esbonwyr ar eu hôl hwynt, megis Westcott a Plummer. Cyfrifid fod " un " yn cyfleu undod sylwedd ac " ydym " yn cynnwys gwahaniaeth personau. Ond fe ddylid o leiaf esbonio'r gosodiad yng ngolau'r cyd-destunau pa un bynnag ai ag ad. 18 neu ynteu ag ad. 29 y cysylltir ef. Gellid tybio oddi wrth ateb yr Iddewon, " yn dy wneuthur dy hun yn Dduw " (^{33}), iddynt hwy gymryd y geiriau i olygu undod sylwedd, er y buasai hynny iddynt hwy y pryd hwnnw yn syniad gwrthun ac amhosibl. Ond nid felly y cymer yr Iesu eu hateb yn ôl ad. 36, " am imi ddywedyd, Mab Duw ydwyf."

Oherwydd hyn ymddengys i ni mai " un " o ran ewyllys a phwrpas a olygir, nid " un " o ran sylwedd dwyfol.

Yn y Rhagarweiniad dywedir bod y Logos yn Dduw (1^{1}), ond ni ddywedir hynny yn yr Efengyl gan yr Iesu ei Hun, oddi eithr mai hynny a olygir yma. Ar y llaw arall, sonia'n fynych am undod ewyllys a gwaith a phwrpas (5^{18}, ^{19}). Cym. 17^{11}, "fel y byddont yn un fel ninnau": 14^{28}, "y mae fy Nhad yn fwy na mi."

Adn. 31–39. DADL Â'R IDDEWON.

31. **"Cododd yr Iddewon gerrig drachefn i'w labyddio"** (C.N.).

Ceir enghraifft debyg yn 8^{59}, y cyfeiria "drachefn" ati. Ond nid yr un gair ydyw "cododd" â'r un yn 8^{59}. Golyga'r un sydd yma gludo cerrig o bell. Os yw awgrym Westcott yn gywir mai â'r cerrig a oedd o gwmpas i adeiladu'r deml y bwriadent ei labyddio, yr oedd y sefyllfa yn un od ryfeddol!

32. Dyma ateb yr Iesu: **"Dangosais i chwi lawer o weithredoedd da oddi wrth y Tad: am ba weithred ohonynt yr ydych yn fy llabyddio?"**

Yn 8^{59}, ar achlysur tebyg, myned allan o'u golwg a wnaeth Iesu, ond yma saif i'w hateb. Ni allai ddianc efallai oherwydd iddynt wneuthur cylch amdano (^{24}).

Geilw'r Iesu ei weithredoedd yn "dda," h.y., hardd (*calos*), ac "oddi wrth" (neu o) Dduw. Gwaith Duw ydyw ei waith Ef (9^{4}), ac yn enw ei Dad y gweithia (10^{25}). Yn ôl ein tyb ni dyna pam y dywaid "Myfi a'r Tad un ydym."

Cwestiwn rhyfedd ydyw "am ba weithred ohonynt yr ydych yn fy llabyddio?" oblegid am gabledd yn unig y gellid gwneud hynny, ac am gabledd y sonnir yn y cyd-destunau.

33. Etyb yr Iddewon nad am weithred dda y llabyddient ef, **"ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau'n ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw."**

Cawsom enghraffiit o'r blaen o'u gwaith yn ceisio'i ladd am iddo ddweud bod Duw'n Dad iddo'i Hunan, a'i wneuthur ei Hunan yn gyfartal â Duw (5^{18}). Yn 19^{7}, yn hanes y Praw, y cyhuddiad yn ei erbyn ydyw iddo ei wneuthur ei Hun yn Fab Duw.

Yn ôl Marc 14^{64} y cabledd ydyw iddo ddweud *yn y Praw* mai Ef yw'r Crist, Mab y Bendigedig. Ond yn Ioan yr oedd beunydd a byth yn gwneud ymhoniad cyfystyr.

Yng ngolwg yr Iddewon hyn yr oedd yn ei wneuthur ei Hun *yn* Dduw, nid yn *gyfartal â* Duw (5^{18}). Oddieithr bod ad. 30 yn cynnwys, fel y tyb rhai, ei fod yn un â'r hanfod dwyfol, ni ddywedasai Ef hynny, ac ni ddywaid yn unman arall yn yr Efengyl. Ond yr oedd dweud bod ganddo awdurdod i roddi ei fywyd, a'i gymryd

drachefn (ad. 18), neu na allai neb gipio'r defaid o'i law Ef mwy nag o law y Tad, yn sicr o fod yn gabledd yng ngolwg yr Iddewon.

34. **" Onid yw wedi ei ysgrifennu yn eich cyfraith chwi, Dywedais i, duwiau ydych?"** (C.N.).

Golyga " eich cyfraith chwi " yn y fan hon, fel yn 12^{34}: 15^{25}, y cwbl o'r H.D., oblegid o Salm 82^{6} y dyfynnir. Wrth farnwyr Israel y dywedir yn y Salm, " Dywedais, duwiau ydych." Wrth eu hapwyntio i'w swydd fel cynrychiolwyr Duw dywedai Ef wrthynt, yn iaith y Salm, " duwiau ydych." " Os galwyd hwy yn dduwiau oherwydd i Dduw eu penodi'n gynrychiolwyr iddo'i Hun, a ddywedwch chwi fy mod I, a anfonwyd gan y Tad i'r byd, yn cablu am imi ddweud Mab Duw ydwyf ?" Fel yna yr ymresyma'r Iesu. Dywaid y Dr. Bernard y dengys hyn yn eglur atgof un a oedd yn gyfarwydd â dull yr Iesu o ymresymu â'r Iddewon ar eu tir eu hunain.

35. **" Os galwodd hwy yn dduwiau y daeth gair Duw atynt, (ac nid ellir diddymu'r ysgrythur)."**

Cyfeiriad at eu penodiad i swydd ydyw " y daeth gair Duw atynt." Ni fuasent yn eu swydd oni bai eu galw ganddo Ef. Defnyddir yr un ymadrodd am alwad y Bedyddiwr (Luc 3^{2}).

36. Gair mynych yn yr H.D. a'r T.N. ydyw " sancteiddio "—am gysegru, neu osod peth o'r neilltu i bwrpas cysegredig, a dyna a olyga yma—**" yr hwn a sancteiddiodd y Tad."** Nid oes iddo ystyr foesegol o gwbl yn y fan hon. Cym. Ex. 20^{11}: Lef. 16^{19}: Jer. 1^{5}.

Sylwer ar y geiriau **" am i mi ddywedyd Mab Duw ydwyf."** Dyna'r cwbl a ddywedasai, ond nid yn eglur mewn cynifer o eiriau. Dywedasai " fy Nhad " (2^{16}: 5^{18}), a'i fod Ef a'r Tad yn un (10^{30}). Beth a ellir ei ddweud am yr ymresymiad hwn a briodolir i'r Iesu ? A yw'n deg, ac yn ateb cyhuddiad yr Iddewon ? O'n safbwynt ni, nac ydyw, oblegid ni fuasem yn barod i gydnabod bod " duwiau ydych " yn y Salm yn gyfartal i'r honiadau a wneir gan yr Iesu. Pan ddywedai'r Iddewon ei fod yn ei wneuthur ei Hun yn Dduw golygent fwy nag a ddywedir yn y Salm am farnwyr Israel ; a phan honnai'r Iesu ei fod yn Fab Duw nid yn yr un ystyr ag y dywedir bod y barnwyr yn dduwiau yr honnai Ef hynny.

37. **" Onid wyf yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredweh fi."**

Ar y gweithredoedd o hyd y rhoir y pwyslais (^{25}), y tystion pennaf i'r ffaith o'i sancteiddio gan y Tad a'i anfon i'r byd.

38. Dyma'r ystyr : Os wyf i yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, derbyniwch dystiolaeth y gweithredoedd, er nad ydych yn fy nghredu i, fel y dealloch fod y Tad ynof i a minnau yn y Tad.

Trwy ganiatau i'r gweithredoedd dystio iddynt, deuant yn raddol i werthfawrogi ei honiadau, yr un a wnaethai yn ad. 30 er enghraifft. Dywedir hyn eto yn 14^{11}. Gweler hefyd 17^{21}.

39. **"Am hynny ceisient drachefn ei ddal, ond aeth allan o'u llaw hwynt."**

Ei labyddio oedd eu bwriad (^{31}), ond ei ddwyn i'r ddalfa yw eu hamcan yn awr, fel y ceisiasant cyn hyn (7^{30}, ^{44}). Nid awgrymir nac yma nac yn 8^{59} ddim gwyrthiol yn ei waith yn myned, allan. Y mae dweud "dihangodd" yn rhy gryf. Eisiau dangos sydd gan yr awdur i'r Iesu drechu'r Iddewon mewn dadl, ac nid iddo ddianc rhagddynt.

Adn. 40–42. YN MYNED DROS IORDDONEN.

40. Â'r Iesu yn ôl dros Iorddonen i'r lle yr oedd Ioan ar y cyntaf yn bedyddio, ac arhosodd yno.

Gelyniaeth yr Iddewon a barodd iddo adael Jiwdea am Berea. Yno y cyfarfu â'r disgyblion cyntaf (1^{35}), a chredir iddo aros yno y tro hwn am oddeutu pedwar mis—o Ragfyr hyd Ebrill (11^{7}). Y syniad arferol am yr Efengyl hon ydyw na ellir dibynnu arni fel hanes, ond rhydd Mathew (19^{1}) a Marc (10^{1}) hanes ymweliad â Pherea pan gyd-gyrchai'r bobloedd ato. Sylwer hefyd ar y gwahaniaeth a wneir rhwng y lle cyntaf y bedyddiai Ioan a'r ail le (3^{22}).

41. Daeth llawer o bobl ato dros Iorddonen, a dyma eu tystiolaeth: **"Ni wnaeth Ioan un arwydd, ond eto yr oedd y cwbl a ddywedodd Ioan am hwn yn wir"** (C.N.).

42. **"A chredodd llawer ynddo yno."**

Dyma'r clo ar yr ymweliad â Pherea. Teflir y gair "yno" i ddiwedd yr adnod yn y Roeg, fel pe bwriedid cyferbyniad rhwng Perea a Jiwdea.

Rhy Ioan hefyd bwyslais mawr yn ei Efengyl ar y gwahaniaeth rhwng "ei gredu ef" a "chredu ynddo ef." Yr olaf sydd yma, ond y cyntaf yn ad. 37.

PENNOD XI.

Yn y bennod hon rhoddir hanes yr Iesu'n ymadael o Berea ac yn myned i Fethania: yn cyfodi Lasarus o'i fedd: aelodau o'r Sanhedrin yn galw cyngor i drin ei achos: Yntau yn cilio i'r wlad.

NODIAD AR Y WYRTH O GYFODI LASARUS.

A yw'r stori hon am gyfodi Lasarus o'r bedd, a gofnodir yn yr Efengyl hon yn unig, yn hanes gwir, neu a fwriada'r awdur iddi fod yn hanes gwir?

Efallai y tybia rhai fod y cwestiwn hwn yn annheilwng o ystyriaeth. Ond nid oes a wnêlo â phwnc ehangach—y *posibilrwydd* o wyrth. Gofynnir ef gan y rhai sy'n derbyn fel hanes gwir yr adroddiad yn Luc (7^{11}) am gyfodi mab y weddw o Nain, neu'r un ym Marc (5^{35}) am gyfodi merch Jairus. Y mae'r stori hon am Lasarus yn un eithriadol ar lawer cyfrif, a hynny a bair amheuaeth yn ei chylch. Ymddengys fodd bynnag fod Ioan yn credu i'r Iesu gyfodi Lasarus o farwolaeth, ac nad mewn llewyg yr oedd. Ond nid yw hynny'n profi bod yr hyn a gredai yn wir. Caniataer mai mewn llewyg yr oedd ac iddo fod felly yn y bedd (canys ogof oedd) am dros dri diwrnod, gallai'r rhai a'i gwelodd yn dyfod allan ar alwad yr Iesu dybio *nad* mewn llewyg y buasai, eithr ei gyfodi o farw i fyw, ac i'w tybiaeth ddyfod yn draddodiad sefydlog yn yr Eglwys Gristionogol. Ond ni fyn yr awdur mai mewn llewyg yr oedd. Y mae'n amlwg hefyd nad dameg neu alegori ydyw'r adroddiad. Nid oes yn unman yn yr Efengyl fwy o *realism* nag a geir yma. Gwelir hynny'n eglur wrth sylwi ar y disgrifiad o deimladau'r Iesu.

Ond hyn sy'n rhyfedd—nad oes air o sôn am y wyrth yn yr un o'r Efengylau Synoptig. Caniataer mai bratiog ydynt, gellid disgwyl iddynt sôn rhywbeth am weithred mor aruthrol, a oedd yn drofa bwysig yn hanes a thynged yr Iesu, yn ôl Ioan. Yr oedd y teulu'n adnabyddus ac yn byw o fewn llai na dwy filltir i Jeriwsalem. Dysg y Dr. Bernard nad oedd Pedr yn bresennol pan gyfodwyd Lasarus o'r bedd, a chan mai ganddo ef y cafodd Marc y defnyddiau i'w Efengyl mai hynny sy'n cyfrif am ei ddistawrwydd. I fesur pell dilyn Marc yn ei Efengyl a wnâi Mathew a Luc.

At hynny, dysg y buasai'n amhosibl cyfrif am frwdfrydedd y dorf pan âi'r Iesu i Jeriwsalem i'r Pasg olaf, yn ôl yr Efengylwyr Synoptig, heb eglurhad Ioan mai'r sôn am atgyfodi Lasarus oedd yr achos ohono.

Y mae'r awdur i'n tyb ni yn yr hanes hwn yn adrodd digwyddiad hanesyddol ym mywyd yr Iesu, un ai iddo alw Lasarus allan o lewyg, neu ynteu ei gyfodi oddi wrth y meirw. Efallai y tybia rhai y dylem fod yn fwy pendant ar yr ail bwynt, ond ni symudwyd yr holl anawsterau eto.

Adn. 1–16. LASARUS YN GLAF.

1. **"Ac yr oedd rhyw ddyn yn glaf, Lasarus o Fethania o dref Mair a Martha ei chwaer"** (C.N.).

Ffurf Roeg o "Eleasar" ydyw "Lasarus." Yr unig le arall y ceir yr enw yn y T.N. ydyw yn nameg y gwr goludog gan Luc (16^{20}). Tybia rhai mai yno y cafodd yr awdur ef, ac mai'r ddameg honno wedi ei throi yn wyrth ydyw'r hanes hwn.

Y "Bethania" yma ydyw'r un oddeutu dwy filltir o Jeriwsalem, nid yr un un â'r Bethania (Bethabara) dros Iorddonen a enwir yn 1^{28}. El-Asir (Arabeg am Lasarus) ei gelwir heddiw, oddi wrth y traddodiad am y wyrth hon. Dywedir yma fod Lasarus *o* (*apo*, 'from') Fethania, ac *o* (*ec*, 'out of'), fel pe golygid fod ei gartref ym Methania, ond ei eni yn rhywle arall, yn nhref Mair a Martha. Ond yn 12^{1} dangosir eu bod yn byw efo'i gilydd ym Methania. Mair a enwir yn gyntaf, er mai hi oedd yr ieuangaf efallai (Luc 10^{28}), am ei bod yn fwy adnabyddus na'i chwaer pan ysgrifennwyd yr Efengyl.

2. Am fod yr ad. hon yn galw'r Iesu yn "Arglwydd," yr hyn na wneir gan Ioan hyd onis atgyfododd (20^{2}), ac nad yw "yn glaf" yn yr un ffurf ag yn ad. 1, tybir nad Ioan a biau'r ad. hon. Dywaid Dr. Bernard na fuasai Ioan na neb arall yn gwneud y sylw hwn oni bai ei fod yn credu mai'r un un yw Mair a'r bechadures a eneiniodd yr Iesu yn ôl adroddiad Luc (7^{37}). Heb hynny ni fuasai o un help i neb ar ddiwedd y ganrif gyntaf i adnabod Mair. **"A'i brawd hi Lasarus oedd yn glaf."**

3. Denfyn y chwiorydd air at yr Iesu i ddweud bod eu brawd yn glaf. Galwant hwy ef yn "Arglwydd," a hynny bob amser ac eithrio ad. 28. Y cwbl a ddywedant ydyw **"Arglwydd, wele'r hwn sydd hoff gennyt yn glaf."** Tybient y byddai hynny'n ddigon i'w ddwyn yno ar unwaith.

4. **"Nid yw'r clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny."**

Nid er mwyn y chwiorydd nac yng ngŵydd y cenhadon y dywedir hyn. Eto cym. ad. 40.

Beth yw ystyr "nid yw'r clefyd hwn i farwolaeth?" Hyn, ebe'r esbonwyr, nad marwolaeth a fyddai'r diwedd er marw ohono o'r clefyd. Rhagwelai'r Iesu y byddai farw ac yr atgyfodid ef. Y

mae'r ymadrodd "i (*pros*) farwolaeth" yn un eithriadol. Yr unig enghraifft arall ohono yn y T.N. ydyw "pechod i farwolaeth" yn 1 Ioan 5^{16}. Arddodiad arall a ddefnyddid yn gyffredin i ddangos bod clefyd yn farwol (2 Bren. 20^{1}, "clefychodd Heseceia hyd (*eis*) farw"). Dyma'r C.N., "Nid yw'r clefyd yma *tuag at* farwolaeth." Y mae'r ad. hon yn enghraifft arall o ddywediad cyfrin, heb neb yn ei gamesbonio y tro hwn.

"Er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw drwyddo" (C.N.), yr oedd y clefyd hwn. Yn atgyfodiad Lasarus gogoneddid Duw, trwy ogoneddu Mab Duw. Oherwydd mai ynglŷn â dioddefaint y Groes y defnyddia Ioan y syniad o ogoneddu yn bennaf, tybia rhai mai dyna a olyga yma—mai o achos y wyrth hon y dygid Ef i'r ddalfa ac y croeshoelid Ef.

5. **"Ac yr oedd yr Iesu yn caru Martha a'i chwaer a Lasarus"** (C.N.).

Gymaint gwell yw'r cyfeithiad hwn na'r hen! Gesyd Moffatt yr ad. hon rhwng adn. 2 a 3, fel rheswm tros i'r chwiorydd anfon ato. Ond yn y fan hon rheswm ydyw tros iddo aros deuddydd yn y lle yr oedd ynddo, fel y gallai ei ddatguddio ei Hun iddynt i well mantais. Awgryma y Dr. Bernard y posibilrwydd nad Ioan a'i hysgrifennodd, oblegid "caru" a ddywedir yma yn lle "hoff gan" (adn. 3^{36}), a rhoir enw Martha o flaen enw ei chwaer.

6. "Gan hynny"—un ai am ei fod yn eu caru (^{5}), neu ynteu am y gwyddai nad oedd y clefyd i farwolaeth (^{4}), arhosodd ddeuddydd yn y fan lle'r oedd ar ôl clywed bod Lasarus yn glaf. Yn ad. 39 dywedir ei bod yn bedwerydd dydd ar Lasarus yn farw.

7. **"Awn yn ôl i Jiwdea."**

Oddi yno yr aethent i Berea (10^{40}).

8. Cais y disgyblion ganddo ailfeddwl cyn myned yn ôl i Jiwdea, oblegid yr oedd yr Iddewon am ei labyddio cyn iddo ymneilltuo i Berea.

9. **"Atebodd Iesu, Onid oes deuddeg awr yn y dydd? Os rhodia neb yn y dydd, ni fagla am ei fod yn gweled goleuni'r byd hwn"** (C.N.).

Gosodiad cyffredinol a geir yn yr ad. hon ac ad. 10, ond y mae'n ateb i bryder y disgyblion am yr Iesu.

Ni ddaethai ei awr Ef eto: nid oedd oriau ei ddydd wedi rhedeg allan, fel nad oedd eisiau iddynt bryderu yn awr. Mynegir syniadau tebyg yn 9^{4}: 12^{35}.

Tybia'r Dr. Bernard fod y geiriau yn dysgu hefyd nad oes achos i neb sydd yn dilyn yr Iesu ofni unrhyw berygl.

10. **"Ond os rhodia neb yn y nos, fe fagla, am nad yw'r goleuni ynddo"** (C.N.).

Y mae'r ystyr wedi llithro yn hon o'r llythrennol i'r cyfriniol. Yn lle "goleuni'r byd hwn" dyma oleuni "ynddo," goleuni ysbrydol—gwybod ewyllys Duw.

11. Ar ôl saib dywaid wrthynt **"Y mae Lasarus ein cyfaill wedi huno, ond yr wyf fi yn myned i'w ddihuno ef."**

Defnyddir y gair a gyfieithir yn "huno" (*coimao*) yn fynych yn y T.N. am hûn marwolaeth, a dim ond ychydig droeon am hûn cwsg; ac yn y byd paganaidd, hyd yn oed, gelwid marwolaeth yn hûn—i guddio'i hacrwch, ond gan yr Iesu i ddatguddio'i brydferthwch (Plummer). O'r un gwreiddyn y daw'r gair "*cemetery*" (*coimeterion*) a ddefnyddiwyd yn gyntaf yn y drydedd ganrif, neu cyn hynny, am fynwent y merthyron. Y mae "dihuno" yn air hollol wahanol i "huno," ac ni ddigwydd yn unlle arall yn y T.N.

12. **"Am hynny dywedodd ei ddisgyblion wrtho, Arglwydd, os ydyw wedi huno, fe wellha."**

Tybiai'r disgyblion mai am hûn cwsg y llefarai'r Iesu, fel yr eglura'r awdur yn ad. 13, ac y byddai iddo wella wedi cael cwsg naturiol. Ond os dyna a feddylient, a oeddynt yn credu bod yr Iesu yn myned i'w ddihuno o'i gwsg? Tybia Plummer nad oeddynt wedi sylwi iddo ddweud hynny, dim ond ei fod yn *myned*, a hynny a'u poenai am fod yr Iddewon yn ceisio ei labyddio.

Yr un gair ydyw "a fydd iach" neu "fe wellha" â'r gair a gyfieithir yn "achub" (3[17]). Tybia Plummer fod yr awdur yn ei ddewis o bwrpas am fod iddo ystyr ysbrydol er mai'r cwbl a olyga'r disgyblion ydyw y byddai i Lasarus wella.

13. Eglurhad yr awdur ydyw'r ad. hon ar gamddeall y disgyblion. Am ei farw ef y soniasai'r Iesu, ond tybient hwy mai am hûn cwsg y dywedai.

14. **"Felly dywedodd yr Iesu wrthynt wedyn yn blaen, Bu farw Lasarus."**

Cyfeiria'r ferf "Bu farw" (*aorist*) at y foment y digwyddodd.

15. **"Ac y mae'n llawen gennyf nad oeddwn i yno, er eich mwyn chwi, fel y credoch. Ond awn ato ef."**

Golygir (1) na byddai Lasarus farw petai'r Iesu yno: (2) fod ei gyfodi o'r bedd yn fwy gwyrth na'i wellhau o'i glefyd: (3) mai er mwyn y disgyblion, fel y credent, yr oedd yr arwydd.

Ymadrodd rhyfedd ydyw "Ond awn ato ef" a Lasarus wedi marw. Tybia'r Dr. Bernard iddo argyhoeddi'r disgyblion fod ganddo ryw bwrpas mawr mewn golwg wrth fyned yn ôl i Jiwdea, oblegid cydsyniant ag Ef yn syth.

16. **"Felly dywedodd Thomas (a elwir yn Efell) wrth ei gyd-ddisgyblion, Awn ninnau hefyd i farw gydag ef"** (C.N.).

Ceir sôn am Thomas eto (14[5]: 20[24]: 21[2]), gyda'r sylw "a elwir yn Efell" mewn dwy enghraifft, yr hyn a brawf mai felly y gelwid ef ymhlith Groegwyr. Fel hyn y dywaid Ioan pan fyddo'n egluro enw—"yr hyn a gyfieithir" (1[42]). Y ffurf Hebraeg ydyw "Thomas," a thrawslythreniad ohono ydyw "Didymus" (*Didumos*). Paham y gelwid ef yn Efell ni wyddom. Tybia rhai fod Mathew ac yntau yn efeilliaid o waed, ac craill eu bod fel Apostolion gyda'i gilydd beunydd a byth. I Ioan yr ydym yn ddyledus am ei gymeriad. Yr oedd yn ŵr annibynnol ei feddwl, o argyhoeddiadau dyfnion, ond yn dueddol o edrych ar yr ochr dywyll i bopeth. Eithr yn ei ymgysegriad i'r Iesu nid oedd yn ail i neb.

Dyma'r unig le yn y T.N. y digwydd y gair "cyd-ddisgyblion," h.y., cyd-apostolion. Ni thybia hynny fod y cwbl ohonynt yn bresennol. Yn hytrach, y mae sail i gredu nad oedd Pedr yno, ac mai hynny yw'r rheswm bod Thomas yn arwain, ac nad yw Marc yn cofnodi'r wyrth hon, oblegid ar dystiolaeth Pedr yr ysgrifennwyd Efengyl Marc. Yn nes ymlaen Pedr sy'n llefaru fel y gwna Thomas yn awr (13[37]). Yn y penodau hyn ni sonnir dim am Pedr.

Cyfieithiad anghywir ydyw "fel y byddom feirw gydag ef": "i farw gydag ef" sy'n gywir,—gyda'r Iesu, wrth gwrs, oblegid yr oedd Lasarus wedi marw eisoes.

Rhagwelai Thomas os myned i Jiwdea a wnâi'r Iesu mai i farw yr âi (8), ac y mae'n fodlon marw gydag Ef os byddai'n rhaid.

Adn. 17–46. YR IESU YM METHANIA: TŶ GALAR.

17. "Felly ar ôl i'r Iesu ddyfod, cafodd ef wedi bod eisoes bedwar diwrnod yn ei fedd" (C.N.).

Gesyd yr awdur yr Iesu a'i ddisgyblion ar unwaith ym Methania, a llefara am Lasarus heb ei enwi. Ni ddywedir wrthym pa fodd y gwyddai'r Iesu fod Lasarus wedi marw (14), ond hysbysir ni mai ar ôl holi y "cafodd" iddo fod eisoes bedwar diwrnod yn y bedd. Arfer Ioan ydyw dangos bod gan yr Iesu wybodaeth oruwchnaturiol o bethau, yn enwedig o bersonau. Yn y Dwyrain cleddid cyn gynted ag a ellid ar ôl marwolaeth. Nid yw "pedwar diwrnod," o anghenraid, yn golygu pedwar diwrnod cyfan. Efallai mai amcan yr awdur wrth ddweud hyn ydyw dangos bod Lasarus wedi *marw*, ac nad mewn llewyg yr oedd. Dywaid Lightfoot am draddodiad ymhlith yr Iddewon bod ysbryd y marw yn crwydro o gwmpas ei fedd am dri diwrnod gan ddisgwyl cael myned yn ôl i'r corff, ond yn ei adael y pedwerydd dydd pan welai arwyddion dadfeiliad.

18. Sylw o eiddo'r awdur am safle dacaryddol Bethania. Sylwer ar "*yr oedd* (yn lle "y mae") Bethania" yn agos i Jeriwsalem, oddeutu pymtheg ystâd oddi wrthi, h.y., ychydig llai na dwy filltir.

19. **" Ac yr oedd llawer o'r Iddewon wedi dyfod at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd "** (C.N.).

Am elynion yr Iesu y defnyddia Ioan y teitl " yr Iddewon " yn gyffredin, ond nid hynny a olyga yma, eithr pobl o Jeriwsalem. Am hynny y dywedir bod Bethania yn ymyl Jeriwsalem (18).

20. Daeth rhywun â gair i'r tŷ i ddweud bod yr Iesu'n dyfod. Y mae'r holl hanes yn eithriadol o ddisgrifiol, ac yn awgrymu mai o law llygad-dyst y daeth.

" Aeth Martha wedi clywed ' bod yr Iesu'n dyfod,' i gyfarfod ag ef : ond yr oedd Mair yn eistedd yn y tŷ."

Wrth Martha y dywedwyd yn gyntaf ei fod Ef yn dyfod am mai hi oedd yr hynaf a bod gofal y tŷ arni hi.

Aeth hi i gyfarfod â'r Iesu y tu allan i'r dref (30).

" Ond yr oedd Mair yn eistedd yn y tŷ," ac ni wyddai hi, hyd oni ddywedwyd iddi gan ei chwaer, fod yr Iesu wedi cyrraedd. Dywedir bod Mair yn " eistedd " am mai eistedd a wnâi galarwyr pan ddeuai pobl i gydymdeimlo â hwy.

21. Y mae Martha yn awr wedi dyfod at yr Iesu.

Dywaid wrtho **" Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd."** Yr un geiriau ydynt ag a edrydd Mair yn ddiweddarach (32). Yr oedd y ddwy wedi eu dweud wrth ei gilydd yn eu dagrau lawer gwaith. Gofid a fynegir ynddynt, nid cerydd, onid e fel hyn y buasent—" pe buasit ti wedi dyfod ynghynt." Tybir i Lasarus farw y diwrnod y clywodd yr Iesu ei fod yn glaf, ac felly na allai gyrraedd Bethania i'w gael yn fyw.

22. **" A gwn hyd yn oed yn awr, pa beth bynnag a ofynnych gan Dduw, y dyry Duw ef i ti."**

Sylwer fel yr ailedrydd Martha y gair " Duw," yn lle " y dyry *Ef* i ti." Gair am weddïo ydyw " a ddymunech," neu " a ofynnych," a'r un gair â " gofyn " yn 14^{13} : 15^{16}. Trwy weddïo ar Dduw y bydd i'r Iesu gael ganddo ym marn Martha, ac felly y dywedir yn ad. 41 iddo lwyddo. Efallai, ebe'r Dr. Bernard, fod rhywun wedi adrodd iddi eiriau'r Iesu a gofnodir yn ad. 4.

23. **" Medd yr Iesu wrthi, Fe atgyfyd dy frawd "** (C.N.).

Hwn yw'r cyfeithiad priodol, nid " Atgyfodir dy frawd drachefn." Ond y mae'r naill a'r llall yn amwys, yn cyfeirio un ai at yr atgyfodiad cyffredinol yn y dydd diwethaf, neu ynteu at y wyrth o gyfodi Lasarus yn awr. Yn yr ystyr gyntaf y deellir y geiriau gan Martha yn ad. 24, a hynny a olyga'r Iesu yn ôl y Dr. Bernard, er mwyn lleddfu ei galar.

24. **"Dywaid Martha wrtho, Mi a wn yr atgyfyd yn yr atgyfodiad yn y dydd diwethaf."**

Wrth ddweud hyn mynega Martha'r gred a ffynnai ymysg yr Iddewon yn y ganrif gyntaf, ac a ddysgir mewn rhan arall o'r Efengyl hon (5[28]). Ond cysur bach ydyw hynny iddi hi heddiw yn ei galar.

25. **"Dywaid yr Iesu wrthi, Myfi ydyw'r atgyfodiad a'r bywyd: yr hwn sy'n credu ynof fi a fydd byw, er iddo farw."**

Yn yr ymadrodd cyntaf o honiad yr Iesu—"Myfi ydyw'r atgyfodiad"—un anhawster ydyw bod "yr atgyfodiad" yn ad. 24 yn golygu'r atgyfodiad yn y dydd diwethaf. Efallai mai am y rheswm yna y cyfeirthir fel hyn gan Moffatt: "Myfi fy Hun wyf atgyfodiad a bywyd." Rhydd y Dr. Bernard ar y llaw arall bwyslais ar y fannod—"*yr* atgyfodiad." Ond y mae'r Iesu'n mynd heibio i'r cyfeiriad at yr atgyfodiad yn y dydd diwethaf, ac yn defnyddio'r ymadrodd gydag ystyr wahanol i'r hyn a wneir gan Martha. Dyma a olyga Ef—bod y neb sy'n credu ynddo Ef—yr atgyfodiad a'r bywyd—yn fyw er iddo farw. Nid yn unig fe atgyfyd yn y dydd diwethaf, ond y mae wedi atgyfodi eisoes, ac ni bydd marw yn dragywydd. Y mae Lasarus felly yn fyw, a bydd byw byth.

Am y credinwyr yn unig y dywedir hyn, ond dibynna llawer ar yr ystyr a roir i "fyw" a "ni bydd marw."

Fel "yr atgyfodiad" Crist ydyw'r sierwydd y bydd y credadun yn fyw er iddo farw: fel "y bywyd" Ef yw'r sierwydd na bydd marw yn dragywydd.

26. Parha'r Iesu i lefaru.

"A phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth yn dragywydd. A wyt ti'n credu hyn?" (C.N.).

Ymddengys i ni fod yn well cymryd "pob un sy'n fyw" i olygu byw yn y corff, ac nid byw ar ôl marw, oblegid ni byddai angen dweud "ac yn credu ynof fi" pe byw mewn ystyr ysbrydol a olygid. Nid ailadroddiad chwaith o ad. 25 ydyw hon, oherwydd ni fynegwyd o'r blaen "ni bydd marw yn dragywydd." Y mae ad. 25 yn egluro "yr atgyfodiad," a hon, "y bywyd."

Nid ocs a fynno'r adn. hyn ddim ag *atgyfodiad* Lasarus, ond â'r ffaith ei fod yn awr yn fyw, ac y bydd byw yn dragywydd, ac yn y golau ei fod yn gredadun y mae â wnelont ag ef. Hyn a ddysgir gan yr Iesu: trwy gredu yng Nghrist cyfranoga dyn yn uniongyrchol o'r bywyd sydd ynddo Ef. Pan yw ar y ddaear y mae ganddo ef fywyd tragwyddol. Y mae yn fyw er iddo farw o ran y corff, oblegid nid ar y bywyd sydd yn y corff y dibynna ei fywyd tragwyddol, eithr ar ei berthynas bersonol â Christ trwy ffydd. Nid yw marw yn ymyrryd â'i gysylltiad personol â Christ nac oherwydd hynny â pharhad ei fywyd ysbrydol.

Dysg Paul rywbeth tebyg (Gal. 2^{20}: Col. 3^{4}).

Yr oedd yn anodd iawn i Fartha ddeall yr Iesu, ac nid yw'n rhyfedd ei bod yn osgoi ateb ei gwestiwn—"A wyt ti'n credu *byn*?"

27. **"Dywaid wrtho, Ydwyf, Arglwydd, yr wyf wedi credu mai ti yw'r Crist, Mab Duw sydd yn dyfod i'r byd."**

Cym. 20^{31}, "fel y credoch mai Iesu yw'r Crist, Mab Duw,"—amcan ysgrifennu'r Efengyl hon. Weithiau y mae "Mab Duw" yn Ioan yn golygu mwy na Meseia, ond Meseia'n unig a ddynoda yng ngenau Martha, cyfystyr â'r teitl "Crist." Yr oedd "sydd yn dyfod i'r byd" hefyd bron yn deitl am y Meseia (Math. 11^{3}: Ioan 6^{4}). Yr oedd Martha, ebe hi, wedi credu hyn, ac ar sail hynny y cred ei eiriau yn awr.

28. Aeth Martha ymaith wedi dywedyd hyn a galwodd yn ddirgel ei chwaer Mair, a dywedodd wrthi, **"Y mae'r Athro wedi dyfod, ac yn galw amdanat."**

Os ei hamcan wrth alw Mair yn ddistaw oedd rhoi cyfle iddi ymddiddan yn gyfrinachol â'r Iesu, ni lwyddodd, oblegid dilynwyd hi gan yr Iddewon (^{31}). Efallai mai ar gais yr Iesu y galwodd ei chwaer.

29. **"A phan glywodd hithau hynny, y mae'n codi i fyny ar unwaith, a chychwynnodd tuag ato"** (C.N.).

Yr oedd Mair yn eistedd yn y tŷ pan ymddiddanai Martha â'r Iesu y tu allan i'r dref (^{20}).

30. Yn y lle y cyfarfu Martha ag Ef y mae'r Iesu eto. Efallai na fwriadai i neb ond y ddwy chwaer a'r disgyblion fyned gydag Ef at y bedd.

31. Pan welodd yr Iddewon a ddaethai i'w chysuro fod Mair wedi cyfodi ar frys, dilynasant hi, gan dybio ei bod yn myned at y bedd i wylo yno.

Golyga "wylo" ochain yn uchel. Nid yr un gair ydyw â'r un a gyfieithir yn "wylo" yn ad. 35.

32. Pan ddaeth Mair at yr Iesu syrthiodd wrth ei draed, a dywedodd wrtho, **"Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd."**

Yr un geiriau'n hollol a ddefnyddia Mair ag a ddefnyddiodd Martha pan welodd hithau'r Iesu (^{21}). Ond am Mair yn unig y dywedir iddi syrthio wrth ei draed. Dywaid y Dr. Bernard ei bod yn un fyrbwyll a sydyn.

33. **"Yna pan welodd yr Iesu hi'n galaru a'r Iddewon a ddaethai gyda hi yn galaru, griddfannodd yn yr ysbryd ac ymgynhyrfodd."**

Rhoddir "a ymgynhyrfodd" ar ymyl y ddalen yn lle "a gynhyrfwyd," a hynny'n sy'n gywir, h.y., "a'i cynhyrfodd ei Hun"

(*shuddered Himself*). Defnyddir y gair eto ddwywaith gan Ioan (12^{27}, "cynhyrfwyd fy enaid": 13^{21}, "cynhyrfwyd ef"). Ond yma Ef "a'i cynhyrfodd ei Hun," h.y., a amlygodd ei deimladau trwy ei ysgrytian ei Hun, neu rywbeth tebyg.

Yr anhawster mwyaf yn yr ad. hon ydyw gwybod beth a olygir wrth "a riddfannodd yn yr ysbryd." Y mae'r ferf "a riddfannodd" i'w chael eto yn ad. 38, a dim ond yno ac yma yn Ioan, ac mewn tri lle arall yn y T.N. (Math. 9^{30}: Marc 1^{43}: 14^{5}). Ym Marc 14^{5} rhy'r C.N. ei hystyr lythrennol iddi—"chwyrnu," ond yn yr ad. hon "*ffromodd* yr Iesu." Myn y Dr. Bernard na ellir gwell cyfieithiad na "a riddfannodd yn yr ysbryd," a'i farn ef ydyw mai griddfan yn cyfodi oddi ar y dreth aruthrol a osodid arno wrth gyflawni gwyrthiau ydoedd. Hynny oedd yn cyfrif, yn ei dyb ef, am ei ddagrau a'i ysgrytian.

I eraill, sy'n cymryd y ferf i olygu griddfan, yr achos ohono oedd ei gydymdeimlad â'r chwiorydd yn eu galar, yn enwedig â Mair oedd yn wylo.

Weithiau, fel ym Marc 14^{5}, y mae'r gair a gyfeithir yn "riddfan" yn golygu dangos digofaint (*to rage*), ac felly yr esbonnir ef yma yn gyffredin. Ond am ba beth y buasai'r Iesu'n ddig? Am alar rhagrithiol yr Iddewon, yn ôl rhai: am anghrediniaeth y chwiorydd, yn ôl eraill: ac am farwolaeth a phoen fel canlyniadau pechod, yn nhyb eraill.

Pa esboniad bynnag sy'n gywir, y mae un peth yn amlwg—iddo Ef ddyfod yn ddyn (1^{14}) a chyfranogi o deimladau'r natur ddynol.

34. **"A dywedodd, Ym mha le yr ydych wedi ei ddodi ef? Dywedant wrtho, Arglwydd (neu Syr), tyred a gwêl."**

"Yr unig le yn yr Efengyl," ebe Westcott, "y gofyn yr Iesu am gyfarwyddyd." Ond gweler 6^{5}: 21^{5}. Ymddengys hefyd oddi wrth ad. 17 na wyddai pa amser y dodasid Lasarus yn y bedd. I Fartha a Mair y gofyn hyn efallai, ac felly hwy sy'n ateb. Os felly "Arglwydd" sy'n gywir, ac nid "Syr."

35. Y mae bron yn resyn newid yr ad. hon: **"Yr Iesu a wylodd,"** ond byddai "Wylodd yr Iesu" yn well Cymraeg, ac yn ffyddlonach i'r Roeg hefyd, o ran trefn a nifer y geiriau. Y C.N. ydyw, **"Torrodd yr Iesu i wylo."**

Hwn yw'r unig le yn y T.N. y defnyddir y ferf a gyfieithir yn "wylo," ond ceir enghraifft o'r sylweddair "dagrau" ynglŷn â'r Iesu yn Heb. 5^{7}. Edrydd Luc (19^{41}) am yr Iesu yn wylo, ond gair arall sydd ganddo ef.

Galaru ydyw ystyr y gair a gyfieithir yn "wylo" yn adn. 31, 33, ond "tywallt dagrau" ydyw ystyr yr un sydd yma.

Tybia rhai mae ei gydymdeimlad â'r chwiorydd a barodd iddo wylo, ond awgryma Westcott mai am ei fod ym mhresenoldeb angau fel canlyniad pechod. Y dreth a osodai'r wyrth y bwriadai ei chyflawni ar ei natur oedd yr achos ym marn y Dr. Bernard.

36. **"Felly dywedai'r Iddewon, Gwelwch fel yr oedd yn ei garu ef."**

Nid yr un gair yw "caru" ag yn ad. 5. Rhy'r C.N. yr ystyr yn briodol: "mor hoff oedd ohono ?"

Dyma a ddywedai rhai o'r galarwyr—mai ei gariad at Lasarus a gyfrifai am ei ddagrau.

37. **"Ond dywedai rhai ohonynt, Oni allai hwn, a agorodd lygaid y dall, beri na byddai hwn farw?"**

Yn ôl yr Efengylau Synoptig (Marc 5^{35}: Luc 7^{11}) yr oedd yr Iesu wedi cyfodi meirw cyn hyn, ond nid yw'n ymddangos y gwyddai'r bobl hyn ddim amdanynt. At agor llygaid y dall o'i enedigaeth y cyfeiriant (9^{1-7}). Buasai gwybod am y lleill yn help iddynt ddisgwyl i'r Iesu gyfodi Lasarus hefyd.

Rhywbeth yn debyg y llefara Martha a Mair hefyd (adn. 21, 32).

Tybia'r Dr. Bernard petai'r stori hon am gyfodi Lasarus wedi ei dyfeisio, y buasai'r awdur yn sicr bron o gyfeirio at y gwyrthiau tebyg yng Ngalilea yn ôl Marc a Luc.

38. **"Yna griddfannodd yr Iesu drachefn ynddo'i hun, a daeth at y bedd. Ac ogof oedd, a maen wedi ei ddodi arno."**

Yr un gair ydyw "griddfannodd" ag yn ad. 33. Yn ôl syniad y Dr. Bernard yr un peth sy'n cyfrif am y griddfan hwn drachefn—y dreth ar ei natur yn wyneb y wyrth y bwriadai ei chyflawni. Ond ni ddywedir yma iddo'i gynhyrfu ei Hun, fel y gwneir yn ad. 33. Tybia Moffatt—"*This made him chase afresh*"—mai'r amheuaeth a fynegir yn ad. 37 sy'n cyfrif amdano, h.y., mai ffromi a wnaeth.

39. **"Dywaid yr Iesu, Symudwch y maen."**

Rhydd yr Iesu'r gwaith o symud y maen, a rhyddhau Lasarus o'i gadachau (^{44}) i'r bobl.

"Dywaid Martha, chwaer y marw, wrtho, Arglwydd, y mae'n arogleuo erbyn hyn, oherwydd y mae hi'n bedwerydd dydd arno."

Nid yw hyn yn *profi* ei fod yn arogleuo, dim ond bod Martha yn tybio hynny, oherwydd ei bod hi'n bedwerydd dydd arno, ac nad oedd y corff wedi ei eneinio efallai. Awgryma Westcott i'r Hwn a'i cyfododd o'r bedd atal dadfeiliad hefyd. Yn ôl traddodiad ar y pedwerydd dydd y dechreuai dadfeiliad yn y corff am fod ysbryd y marw am y tri diwrnod cyntaf yn crwydro o gwmpas y bedd.

40. **" Oni ddywedais wrthyt, Os credi, cei weled gogoniant Duw."**

Yn y dull hwn y mae'r awdur yn peri i'r Iesu ddyfynnu *y geiriau* a ddywedodd wrth Martha cyn hyn. Ond nid oes gennym ddim ond yr ad. hon yn braw iddo eu dweud wrthi o gwbl. Dywedodd wrth y disgyblion (ad. 4) rywbeth tebyg. Cym. hefyd ad. 26, " A wyt ti'n credu hyn ?"

Os yw'r Iesu'n ceryddu Martha am nad oedd yn disgwyl iddo gyfodi Lasarus o'r bedd, gellid tybio felly mai ystyr " cei weled gogoniant Duw " ydyw y caffai weled ei brawd yn cyfodi. Ond nid oedd credu'n amod gweled hynny, oblegid gwelwyd Lasarus yn cyfodi gan bawb a oedd wrth y bedd. Nid yw Ioan, ebe 'r Dr. Bernard, byth yn defnyddio'r gair sydd yma am " weled " (*optomai*) ond yn unig i olygu gweledigaeth *ysbrydol*. Os yw hynny'n wir, y cwbl a ddywedodd yr Iesu wrth Martha oedd y caffai weled *gogoniant Duw* os credai, ac oherwydd hynny haeddai hi ei gerydd tyner am na ddisgwyliai iddo wneuthur rhywbeth mawr ar ôl y geiriau " Symudwch y maen."

41. **" Yna symudasant y maen, a chododd yr Iesu ei lygaid i fyny a dywedodd, Dad, yr wyf yn diolch iti am fy ngwrando."**

Dywaid Ioan eto i'r Iesu godi ei lygaid wrth weddïo (1^{-1}), fel y dywaid yr Efengylwyr Synoptig hefyd (Math. 14^{19} : Marc 6^{41}). Y mae'r cyfeithiad " y Tad " yn anghywir : " Dad " ydyw yma ac yn 12^{27} : 17^{1}.

Cyfeiria " am fy ngwrando " at ateb i ryw weddi cyn hyn— am i'r clefyd hwn fod er mwyn gogoniant Duw (ad. 4), y mae'n debyg. Gan mai yn atgyfodiad Lasarus yr oedd hynny i'w sylweddoli, y mae'n diolch fel petai wedi ei atgyfodi eisoes.

42. **" A gwyddwn i dy fod bob amser yn fy ngwrando, ond o achos y dyrfa sydd yn sefyll o amgylch y dywedais, fel y credont mai ti a'm hanfonodd."**

O gymryd yr ad. hon fel hyn yr ystyr ydyw, bod yr Iesu'n ymwybodol bob amser o'i berthynas eithriadol â'r Tad, ac mai er mwyn i'r dyrfa gredu hynny y dywedodd " Dad, yr wyf yn diolch iti am fy ngwrando." Y mae hynny cystal â dweud na fuasai'n diolch fel hyn fel y clywai'r dyrfa ond er ei mwyn hi, fel y credai fod ei honiadau yn wir.

Oni bai'r ad. hon nid felly y buasem ni yn esbonio ad. 41. Oherwydd hyn tybia rhai mai eglurhad o eiddo'r awdur ydyw'r ad. hon, er mai yng ngenau'r Iesu y rhoddir hi. Cym. 12^{30}, " Nid o'm hachos i y daeth y llais hwn, ond o'ch achos chwi."

Ond dywaid y Dr. Bernard nad yw'r darlleniad hwn yn gywir, ac mai fel hyn y dylid darllen : " ond o achos y dyrfa sydd yn

sefyll yn ymyl *yr wyf yn ei wneud* (h.y., yn cyfodi Lasarus o'r bedd), fel y credont mai ti a'm hanfonodd."

43. **" Ac wedi dywedyd hyn, gwaeddodd â llais uchel, Lasarus, tyrd allan."**

Ac eithrio Math. 12^{19}, mewn dyfyniad, yn Ioan yn unig yn y T.N. y ceir y ferf am " gwaeddodd," ac yma'n unig am yr Iesu. Cym. 5^{25}, " pan glywo'r meirw lais Mab Duw." Geilw'r Iesu y marw wrth ei enw—" Lasarus "—fel y dywaid Marc (5^{41}) a Luc (7^{14}) iddo wneud mewn achosion eraill.

Y mae'r sylw a rydd yr awdur yn yr hanes hwn i deimladau uchel yr Iesu yn wir deilwng o ystyriaeth.

44. **" Daeth y marw allan, a'i draed a'i ddwylo wedi eu rhwymo mewn cadachau, a'i wyneb wedi ei rwymo â napcyn."**

Ofer, ebe'r esbonwyr, ydyw dyfalu sut y daeth allan o'r bedd, ac yntau wedi ei rwymo draed a dwylo. " Y mae hynny'n rhan o'r wyrth," ebe Macgregor. Ond efallai mai ar wahân, yn ôl arfer yr Aifft, y rhwymesid yr aelodau, ebe Westcott.

Rhydd yr Iesu waith eto i'r bobl : " Rhyddhewch ef, a gedwch iddo fyned." Symud y maen oedd y gorchwyl arall.

Braidd na themtir un i gredu bod i eiriau'r Iesu—" gedwch iddo fyned "—ystyr gyfriniol, oblegid dyna'n hollol yr hyn a wna'r awdur gyda Lasarus. Dyma'i air olaf amdano. Y mae Lasarus bellach yn fyw ac yn rhydd, a Mab Duw trwy hynny wedi ei ogoneddu (ad. 4), ac i'w ogoneddu eto trwy'r Groes, a brysurwyd trwy'r wyrth hon. Ni chaiff lonydd o gwbl mwyach hyd oni bydd farw dros y bobl. " By raising Lasarus from death Jesus has signed his own death warrant " (Macgregor).

45. Credodd ynddo lawer o'r Iddewon a ddaethai at Mair i'w chysuro, ac a welsai gyfodi Lasarus. Efallai mai'r Iddewon a ddaethai allan o'r tŷ ar ôl Mair a olygir (ad. 31).

46. **" Ond aeth rhai ohonynt at y Phariseaid, a dywedasant wrthynt y pethau a wnaeth yr Iesu."**

Gellir cyfeithu fel hyn : " *Ac* aeth rhai ohonynt at y Phariseaid," rhag awgrymu nad oedd y rhain wedi credu ynddo ac mai gydag amcan drwg yr aethant. Defnyddia Ioan " ond " (*de*) yn fynych i olygu " ac."

Adn. 47–53. GALW CYNGOR ANRHEOLAIDD.

47. Galwyd cyngor anrheolaidd i ymdrin â'r achos.

" Yna galwodd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid gyngor."

" Sanhedrin " yn llythrennol ydyw'r gair a gyfieithir yn " gyngor," yr unig enghraifft ohono yn Ioan.

" A dywedent, Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur ? Oblegid y mae'r dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion," h.y., y mae Ef wrthi'n brysur yn gwneuthur arwyddion, a ninnau'n gwneuthur dim (Macgregor).

48. **"Os gadawn iddo fel hyn, cred pawb ynddo, a daw'r Rhufeiniaid a chymryd ein lle ni a'n cenedl."**

Ofn sydd arnynt i'r Iesu trwy ei wyrthiau berswadio'r bobl mai Ef yw'r Meseia, yn ôl eu syniad hwy am Feseia, ac i wrthryfel dorri allan a dwyn arnynt ddialedd y Rhufeiniaid.

Y mae " ein *lle* ni " yn gyfieithiad llythrennol, ac o bosibl yn golygu'r Deml—" y lle sanctaidd " (Act 6^{13}), ac nid " ein gwlad " (C.N.). Os yw hynny'n wir y mae'r disgrifiad yn un manwl fel dyfaliad, oblegid felly y digwyddodd yn ninistr Jeriwsalem yn O.C. 70. Ond efallai mai darllen yn ôl y mae'r awdur, ac yntau'n ysgrifennu wedi dinistr y ddinas.

49. Llefara Caiaffas braidd yn hallt yn yr ad. hon a'r nesaf.

" A dywedodd un ohonynt, Caiaffas, a oedd yn arch-offeiriad y flwyddyn honno : Ni wyddoch chwi ddim oll."

Tybia rhai fod yr awdur yn bradychu anwybodaeth pan ddywaid " a oedd yn arch-offeiriad *y flwyddyn honno*," fel petai'n synio mai swydd flynyddol ydoedd. Yn ôl y gyfraith Iddewig yr oedd yn swydd am oes. Ond tan awdurdod y Rhufeiniaid dibynnai ei pharhad ar ewyllys Rhufain. Yr oedd Annas, a fu'n archoffeiriad o O.C. 6 hyd O.C. 15, yn fyw pan oedd Caiaffas yn y swydd, a gelwid ef mewn ffordd lac yn " archoffeiriad " (Act 4^{6}) er i raglaw Rhufeinig ei ddiswyddo yn O.C. 15. Buasai hyn yn ddigon i gyfiawnhau geiriau'r awdur, heb gymryd dim arall i ystyriaeth. Ond y mae i'r ymadrodd " y flwyddyn honno " ystyr arall ym meddwl Ioan, fel y gwelwyd yn 1^{40} ac y gwelir eto yn 11^{51} : 18^{13}. Dynoda " y flwyddyn fythgofiadwy honno." Gweler hefyd " y dydd cyntaf *hwnnw* " (20^{19}). Dyna a esyd arbenigrwydd ar eiriau rhyfedd Caiaffas yn ad. 50, yn ôl Ioan.

Yr oedd Caiaffas, neu Joseff Caiaffas, yn fab yng nghyfraith i Annas. Daeth i'w swydd yn O.C. 18, a diswyddwyd ef yn O.C. 36. Llefara braidd yn anfoesgar wrth ei gydaelodau : " Ni wyddoch *chwi* ddim byd " (C.N.), gyda phwyslais gwawdlyd ar " *chwi*."

50. Parhâ Caiaffas i lefaru.

" Ac nid ydych yn ystyried mai buddiol yw i chwi (nid " i *ni* ") **farw o un dyn dros y bobl yn lle bod yr holl genedl yn cael ei difetha."**

Polisi Caiaffas ydyw cael gwared â'r Iesu trwy ei ladd, a thrwy hynny ennill ffafr yr Ymherawdr ac achub y genedl rhag dinistr.

"*A fine sentiment in its proper setting*," ebe'r Dr. Bernard am "buddiol i chwi farw o un dyn dros y bobl."

51. Yn yr ad. hon a'r nesaf ceir esboniad yr awdur ar eiriau Caiaffas.

"Ond nid ohono'i hun y dywedodd ef hyn, eithr ac yntau'n archoffeiriad y flwyddyn honno, proffwydodd fod yr Iesu i farw dros y genedl."

Yr eglurhad ydyw nad y *dyn* Caiaffas sy'n llefaru, ond Caiaffas yr *archoffeiriad* tan ysbrydoliaeth Duw: "nid ohono'i hun . . . eithr ac yntau'n archoffeiriad y flwyddyn honno."

Mynegodd fwy nag a ddeallai. Y cwbl a ddeallai ef oedd y byddai cael yr Iesu allan o'r ffordd yn foddion i gadw'r genedl rhag dinistr oddi ar law'r Rhufeiniaid. Ond "proffwydodd" yn ddiarwybod fod yr Iesu i farw dros y genedl, a thros holl blant Duw (ad. 52).

52. **"Ac nid dros y genedl yn unig, ond i gasglu yn un blant Duw a wasgaresid."**

"Dros y bobl," h.y., y genedl, ebe Caiaffas: "ac nid dros y genedl yn unig" a feddyliai, ebe'r awdur. Beth bynnag am Gaiaffas, dyna safle'r awdur drwy'r Efengyl. Gweler yn arbennig 10^{16}. Yn Ioan *dyfod* yn "blant Duw" a wnawn trwy gredu yn ei enw Ef (1^{12}).

O dan yr H.D. priodolid y ddawn broffwydol i'r archoffeiriad (Ex. 28^{30}: Num. 27^{21}) ac oddi ar y safle hwnnw yr esbonia'r awdur eiriau Caiaffas fel archoffeiriad. Ond gellir dweud hyn—i bolisi Caiaffas brysuro'r dydd y byddai'r Iesu farw dros y byd, fel y prawf yr ad. nesaf.

53. **"Am hynny o'r dydd hwnnw allan cynlluniasant i'w ladd ef."**

Sylwer ar "o'r dydd *hwnnw*," fel "y flwyddyn honno" (^{49})—y dydd y proffwydodd Caiaffas y byddai i Iesu farw (^{51}). Er na ddywedir hynny, yr ydym i ddeall iddynt yn y cyngor answyddogol hwn benderfynu ei ladd. O'r dydd hwnnw allan eu gwaith oedd cynllunio i'w ladd. Gwelsom eisoes droeon sôn am eu cais i'w labyddio ar gynhyrfiad y foment (5^{16}: 8^{59}: 10^{31}).

Adn. 54–57. YR IESU'N CILIO I'R WLAD.

54. "Am hynny," oherwydd clywed ohono am y cynllun i'w ladd, aeth yr Iesu ymaith o Jeriwsalem i'r wlad ddibobl ar ogledd y ddinas, i ddinas a elwir Effraim, oddeutu pymtheg milltir o Jeriwsalem, ac arhosodd yno gyda'i ddisgyblion.

55. **"Ac yr oedd pasg yr Iddewon yn agos, ac aeth llawer o'r wlad i fyny i Jeriwsalem o flaen y pasg i'w puro eu hunain."**

Dengys yr awdur eto ei fod yn gyfarwydd ag arferion crefyddol yr Iddewon. Yr oedd y neb a fyddai wedi ei halogi gan gorff marw,

er enghraifft, i fyned i Jeriwsalem o flaen y pasg i'w lanhau ei hun oddi wrth yr aflendid seremonïol (Num. 9^{10} : 2 Cron. 30^{18}). Cyfeirir at yr arfer hwn eto, yn 18^{28}, ac y mae efallai y tu ôl i feddwl yr awdur yn 1 Ioan 3^{3}.

56. **"Felly chwilient am yr Iesu a dywedent wrth ei gilydd pan safent yn y deml: Beth a feddyliwch chwi? Na ddaw ef i'r ŵyl?"**

Hwn yw'r cyfieithiad gorau o ddigon. Y mae "gan na ddaeth ef i'r ŵyl" yn anamserol, oblegid o flaen yr ŵyl y dywedent hyn wrth ei gilydd. Gwyddent, y mae'n debyg, am fwriad yr awdurdodau i'w ladd, ond ni wyddent ei fod Ef wedi gadael y ddinas.

Gan bwy tybed y cafodd yr awdur, neu'r Tyst, yr hanes hwn, oblegid aethai'r disgyblion gyda'r Iesu i'r wlad (ad. 54)?

57. **"Ac yr oedd yr archoffeiriaid a'r Phariseaid wedi rhoddi gorchmynion os gwyddai rhywun lle yr oedd i hysbysu hynny, fel y gallent ei ddal."**

Y mae'r ad. hon yn egluro ymholiad y bobl a ddaethai i'r ŵyl o flaen y pasg (^{56}). "A ydych chwi'n tybio na ddaw ef i'r ŵyl, a'r awdurdodau wedi rhoddi allan orchmynion i'w ddal?"

Y mae'n anodd i ni ddeall paham na allent wybod lle yr oedd heb roddi gorchmynion allan. Yn ôl ad. 54 nid wrtho'i Hun yr aethai allan i'r wlad. Ond o safle'r awdur, ni allai neb ei ddal am na ddaethai "ei awr Ef" eto.

HAWARDEN
LIBRARY

76357